# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN**<br>**18 MEDI 2017**<br>**10.00 o'r gloch** | | **MONDAY**<br>**18 SEPTEMBER 2017**<br>**10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**<br>**LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER**<br>**COUNCIL OFFICES**<br>**LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes**<br>**01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg cylchredeg y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2017.

**4** **COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 20)

Cyflwyno i'w cymeradwyo, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **CYNLLUN Y CYNGOR 2017-22** (Tudalennau 37 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**7** **CERDYN SGORIO – CHWARTER 1, 2017/18** (Tudalennau 53 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**8** **CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2017/18 - 2019/20** (Tudalennau 67 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2017/18 – CHWARTER 1** (Tudalennau 85 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **ADRODDIAD MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI 2017/18** (Tudalennau 109 - 114)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2017/18 – CHWARTER 1** (Tudalennau 115 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**12** **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS 2016/17** (Tudalennau 125 - 146)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran.

**13** **ADOLYGIAD AGGCC O'R GWASANAETHAU PLANT YN YNYS MÔN – CYNLLUN GWELLIANT** (Tudalennau 147 - 172)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant.

**14** **POLISI GOSOD SENSITIF** (Tudalennau 173 - 198)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

**15** **FFRAMWAITH ETIFEDDIAETH PROSIECTAU MAWR** (Tudalennau 199 - 226)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**16** **ADRODDIAD CYNNYDD AR Y BID TWF GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 227 - 258)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**17** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 259 - 260)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**18** **SAFLEOEDD I SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 261 - 278)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

**19** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 279 - 280)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf

Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**20** **TENDR YSWIRIANT** (Tudalennau 281 - 284)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**21** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf."

**22** **DILEU DYLEDION** (Tudalennau 285 - 288)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M Huws (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, R.Meirion Jones, R G Parry OBE, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 7)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau) (ar gyfer eitem 12)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitemau 9 a 10)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Gwasanaeth – Tai (EL) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Tai Gwag (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled M. Jones, Eric Jones, R.Ll. Jones, Alun Mummery, Dylan Rees. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiad o ddiddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd R.A. Dew yn Eitem 9, Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Ymgynghoriad Statudol, ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem. Cafwyd datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd R.A. Dew yn Eitem 10, Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinelliad Strategol – Band B.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Dylan Rees (er nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) yn Eitem 9, Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Ymgynghoriad Statudol.

## 2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2017 i'w cadarnhau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2017 fel cofnod cywir.**

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Medi 2017 – Ebrill, 2018.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar newidiadau i'r Flaen Raglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn -

- **Eitemau sy'n newydd i'r Flaen Raglen Waith**

  Eitem 6 – Buddiannau Gweithwyr, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2017.

  Eitem 11 – Adolygiad Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC), rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2017.

  Eitem 15 – Fframwaith Etifeddiaeth Prosiectau Mawr, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2017.

  **Eitem Newydd** – Ymgysylltu ar Dai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2017.

  Eitem 43 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol, Chwarter 3, 2017/18, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2018.

  Eitem 44 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf a Refeniw 2017/18 – Chwarter 3, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2018.

  Eitem 45 – Polisi Taliadau Tai Dewisol 2018/19, rhaglennwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2018

- **Eitemau a ohiriwyd i'w hystyried yn ddiweddarach**

Eitem 13 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, aildrefnwyd i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2017.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith, wedi'i diweddaru, ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2017 i fis Chwefror 2018, fel y cafodd ei cafodd yn y cyfarfod.**

## 5 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 4, 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol mewn perthynas â Chwarter 4 y flwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Corfforaethol) fod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn dangos fod y dangosyddion perfformiad ar gyfer lefelau salwch y Cyngor wedi gweld gwelliant pellach yn Chwarter 4, gyda 9.78 o ddyddiau salwch fesul pob aelod staff llawn amser yn erbyn targed o 10 diwrnod salwch fesul pob aelod staff llawn amser. Mae hyn yn ganlyniad positif oherwydd y gwaith caled a wnaed gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf o dan arweiniad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cyfeiriodd at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn dangos tanberfformiad mewn dau ddangosydd gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion yn erbyn eu targedau blynyddol am y flwyddyn. Mae manylion y rhain i'w gweld ym mharagraffau 2.1.3 a 2.1.4 yr adroddiad ynghyd ag eglurhad i liniaru'r tanberfformiad a'r mesurau gwella arfaethedig sydd mewn lle.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod trafodaethau wedi digwydd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2016 gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli absenoldeb salwch yn sylweddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliant yn y dyfodol yn unol ag adran 1.3 yr adroddiad ynghyd â'r mesurau lliniaru a amlinellwyd.**

## 6 CRYNODEB O'R CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft ar gyfer 2016/17 a'r Fantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2017.

Amlygodd y Deilydd Portffolio (Cyllid) y prif ystyriaethau yn yr adroddiad a nododd fod gwybodaeth ynghylch cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2016/17;**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi a chymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i, gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Adran 4 yr adroddiad;**
- **Cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £482k fel y gwelir yn nhabl 2 yr adroddiad;**
- **Cymeradwyo £250k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i gyllido costau diswyddo gwirfoddol ychwanegol yn 2017/18;**
- **Nodi'r sefyllfa gyda balansau ysgolion;**
- **Nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, 2017.**

## 7 STRATEGAETH TAI GWAG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo.

Adroddodd yr Arweinydd fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r Strategaeth Tai Gwag yw'r ail strategaeth i'r Gwasanaethau Tai ei chynhyrchu. Datblygwyd y strategaeth mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol. Dymunai ddiolch i'r Swyddogion sydd wedi bod ynghlwm â chwblhau Strategaeth Tai Gwag y Cyngor.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod oddeutu 800 o dai sydd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy ar hyn o bryd. Dros y pedair blynedd diwethaf mae bron i 400 o eiddo wedi cael eu dychwelyd yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i waith y Gwasanaeth Tai Gwag. Cyfeiriodd at y rhestr aros am dai cymdeithasol a'r angen am dai gwag o'r fath i fod ar gael i gwrdd â'r anghenion tai ar yr Ynys.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod trafodaethau wedi digwydd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2016 ynglŷn â'r Strategaeth Tai Gwag. Cyfeiriodd at y sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor ynglŷn ag effaith yr orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig ar anghenion tai ar yr ynys.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Tai Gwag 2017-2022.**

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod 2016/17 yn flwyddyn heriol o ran y cyd-destun yr oedd gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu ynddo, ynghyd â'r angen i ymgorffori gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn arolwg AGGCC o'r Gwasanaethau Plant ym mis Tachwedd 2016 rhoddwyd blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ar waith o fewn y gwasanaeth er mwyn cryfhau cyfleusterau ataliol a gwella ystod o wasanaethau sydd ar gael i deuluoedd. Bu'r ffocws yn dilyn adroddiad AGGCC ar ddatblygu strategaeth gweithlu sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff. Mae Panel Sgriwtini Plant wedi cael ei sefydlu i fonitro'r gwasanaeth a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn rheolaidd. Adroddodd ymhellach fod y Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cyfnod o sefydlogrwydd sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i ganolbwyntio ar y dyfodol ac atgyfnerthu'r cynnydd mewn perthynas â datblygu ac adeiladu cyfleusterau gofal ychwanegol a gwneud defnydd mwy priodol o Gartref Preswyl Garreglwyd.

O ran yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, nodwyd bod y pwyslais ar ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu ac ar baratoi at gyflwyniad system TG genedlaethol newydd (WCCIS) a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i weithio'n fwy effeithiol. Mae gwella'r ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig o ran gwasanaeth ataliol, yn hanfodol bwysig o fewn y gwasanaeth a chaiff hyn ei gryfhau eleni.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod trafodaethau wedi'u cynnal yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2017 ynglŷn â'r gwelliannau sydd eu hangen yn y Gwasanaethau Plant. Nododd fod y Pwyllgor yn fodlon fod Panel Sgriwtini Plant wedi cael ei sefydlu i roi sylw manwl i'r gwelliannau sydd eu hangen mewn ymateb i Arolwg AGGCC o'r Gwasanaethau Plant.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y cynigion yn yr adroddiad ond cododd faterion ynglŷn â'r ffaith fod awdurdodau lleol eraill wedi dod ar draws problemau gyda'r system TG genedlaethol (WCCIS). Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y system WCCIS bellach wedi mynd yn fyw mewn sawl awdurdod lleol a bod problemau wedi codi wrth i'r system gael ei chyflwyno am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae'r problemau cychwynnol yn cael eu datrys a gobeithir y bydd Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn dechrau defnyddio'r system WCCIS fis nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r Adroddiad Blynyddol drafft gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015/16.**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI – YMGYNGHORIAD STATUDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Amlinellodd y Deilydd Portffolio Addysg yr argymhellion yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ac eglurodd y gwahaniaethau rhwng y ddau opsiwn a roddwyd ymlaen ar gyfer Ymgynghoriad Statudol Ardal Llangefni.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, oherwydd y pwysau ar yr ysgolion yn nhref Llangefni, y penderfynwyd cynnwys y dalgylch hwn o fewn Band A y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Mae gan Ysgol y Graig ac Ysgol Corn Hir eisoes fwy o ddisgyblion na'u capasiti. Cyfeiriodd at y broses ymgynghori ynghyd â nifer o ymatebion a gafwyd yn ardal dalgylch Llangefni gan fudd-ddeiliaid yr ysgolion yn Ysgol Henblas, Ysgol Esceifiog, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Nododd oherwydd caniatâd cynllunio diweddar a roddwyd i ddatblygiad mawr o dai yn Llangefni, ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol ail-ymgynghori ar yr opsiynau ynghylch Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Fel Aelod Lleol, mynegodd y Cynghorydd Dylan Rees ei bryderon ynglŷn â'r opsiynau i gau Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd gan fod yna farn gref i gadw'r ysgolion hyn ar agor. Cyfeiriodd at y cyhoeddiad diweddar gan Ms. Kirsty Williams AC – Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Addysg, mewn perthynas â'r angen i Gynghorau ystyried pob dewis amgen ymarferol i gau ysgolion gwledig. Dywedodd ymhellach fod cymuned Bodffordd wedi mynegi pryderon, petai'r ysgol yn cau y byddai'r gymuned yn colli'r defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol a hefyd yn colli cae chwarae'r ysgol.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod trafodaethau wedi'u cynnal yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2017 ynglŷn â'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni. Nododd fod y cymunedau lleol wedi mynegi safbwyntiau cryf.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at y cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Addysg ynglŷn â newidiadau o ran cyfyngu'r côd ar gyfer moderneiddio ysgolion a nododd y byddai 18 o'r 47 o ysgolion ar Ynys Môn yn dod o dan y categori 'ysgolion bach' o fewn y côd trefniadaeth newydd y mae Gweinidog y Cabinet yn ei gynnig. Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r Côd Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys fawr o newidiadau nad yw'r gwasanaeth eisoes yn eu gwneud fel rhan o'r broses ymgynghori o fewn ei raglen bresennol ar gyfer moderneiddio ysgolion. Fodd bynnag, mae'r Côd diwygiedig yn awgrymu ffactorau ychwanegol y mae angen i'r awdurdod lleol eu hystyried cyn argymell cau ysgolion. Mae'n rhaid i'r protocol ar gyfer cau ysgolion adlewyrchu'r ffaith fod yr awdurdod wedi ystyried cynaladwyedd yr ysgolion bach gan gynnwys edrych ar glystyru, ffederaleiddio ysgolion a defnydd y gymuned o'r ysgolion, a gweithio mewn partneriaeth â

chyrff eraill e.e. yr Awdurdod Iechyd. Mae'r ymgynghoriad yn ardal Llangefni yn cael ei wneud o fewn y Côd Trefniadaeth Ysgolion presennol.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r prif yrwyr ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion yw codi safonau addysg ar gyfer plant yr Ynys. Nododd y byddai'r Awdurdod yn cael ei herio gan Lywodraeth Cymru petai'r holl ffactorau y cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu atynt heb gael eu cynnwys mewn achos busnes cadarn i Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Pwyllgor Gwaith ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a mynegodd mai addysg plant ar yr ynys yw'r ffactor pwysicaf wrth ystyried moderneiddio ysgolion. Awgrymwyd y dylid gofyn i'r Adain Eiddo ymchwilio i bosibiliadau o sicrhau defnydd cymunedol i'r ysgol ym Modffordd pe gwneir y penderfyniad i gau'r ysgol yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:-**

**Mai Opsiwn B yw'r opsiwn a ffafrir a bydd hynny'n ymgorffori:-**

- **Opsiwn 3 – sef adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd;**
- **Opsiwn 8 – addasiadau i Ysgol Esceifiog, Gaerwen;**
- **Opsiwn 7 – bydd angen ymgynghori ymhellach ar yr opsiwn o addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn;**
- **Opsiwn 9 – addasiadau i Ysgol Henblas.**

## 10 MODERNEIDDIO YSGOLION – RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL - BAND B (2019-2024)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Ymddiheurodd y Deilydd Portffolio Addysg fod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn camgymeriad a bod mân newidiadau i'r adroddiad hwnnw wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini. Dywedodd ei bod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i holl Awdurdodau Lleol Cymru ddiweddaru eu cynigion Band B a chyflwyno eu Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig (RhAS) erbyn 31 Gorffennaf, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) yr Awdurdod wedi cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Roedd y papur strategol wedi'i rannu'n 4 Band, sef Band A (2013-2019), Band B (2019-2022), Band C (2022-2025) a Band D (2025-2028); roedd y ffactorau yn y RhAS gwreiddiol (2013) megis newidiadau demograffig a chapasiti arweinyddiaeth, wedi newid yn sylweddol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd Band B am gyfnod o 5 mlynedd ac y bydd yn rhedeg o 2019-2024. Nododd, oherwydd bod y ddwy ysgol gynradd yn Llangefni wedi cyrraedd eu llawn gapasiti, a'r gofyn i wneud newidiadau i Ysgol y Graig, na fydd y cyllid o fewn Band A yn ddigonol i fynd i'r afael â'r holl anghenion yn ardal Llangefni. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Awdurdod gynnwys Llangefni o fewn y RhAS Band B. Dywedodd y Pennaeth Dysgu hefyd fod dalgylch ardal Amlwch, Lligwy a Seiriol hefyd wedi'i gynnwys yn y RhAS Band B.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod trafodaethau wedi'u cynnal yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2017 a bod y Pwyllgor wedi cefnogi, mewn egwyddor, y cynnig i gyflwyno bid am £18 miliwn tuag at y rhaglen Band B. Nododd ymhellach fod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r effaith ar ysgolion lleol sydd yng nghyffiniau'r prosiect Wylfa Newydd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo moderneiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a hefyd bod ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un campws neu ysgolion 3-16/3-18 oed;**
- **Cymeradwyo cyfraniad yr Awdurdod Lleol o thua £18 miliwn tuag at y Rhaglen Band B;**
- **Cymeradwyo'r opsiynau a amlinellir yn Achos Economaidd y RhAS, a disgwyl dadansoddiad manwl pellach yn yr achos busnes manwl sydd i ddilyn;**
- **Parhau i gefnogi'r achos dros newid a gyflwynwyd trwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r gyrwyr dros newid.**

## 11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Oherwydd trafodaeth a allai ddatgelu pwy yw staff unigol, cynhaliwyd y drafodaeth a'r penderfyniad gan gau allan y wasg a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n llawn gyda'r cofnod penderfyniad hwn ar wefan y Cyngor.**

## 12 ARIANNU COSTAU STAFF O FEWN GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes), gyda chyfrifoldeb am Wasanaethau Cymdeithasol, fod y Gwasanaethau Plant yn parhau'n ddibynnol ar staff asiantaeth ac er mwyn ariannu'r aelodau staff hyn, gwneir cais i'r Pwyllgor Gwaith i ddyrannu swm o £181,208 o'r cronfeydd wrth gefn i alluogi'r gwasanaeth i ymestyn contractau'r staff asiantaeth am dri mis pellach tra bod yr awdurdod yn parhau i recriwtio staff newydd. Fodd bynnag, nododd fod angen cyllid pellach oherwydd bod staff wedi symud i swyddi eraill ac wedi gadael yr awdurdod, ac felly mae angen cyfanswm o £221,257. Nododd ar hyn o bryd fod y mater o recriwtio staff yn y Gwasanaethau Plant wedi bod yn galonogol ond nododd fod recriwtio Rheolwyr o fewn y Gwasanaeth yn gwbl allweddol i gynllun gwelliant y Gwasanaethau Plant.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor Gwaith, **PENDERFYNWYD:-**

- **Dyrannu'r swm o £221,257 o gronfeydd wrth gefn i alluogi ymestyn contractau staff asiantaeth am dri mis pellach. (Bydd swydd un Rheolwr Gwasanaeth yn cael ei hymestyn tan 2018 a thair swydd Gweithiwr Cymdeithasol yn cael eu hymestyn tan ddiwedd mis Rhagfyr 2017);**
- **Bwrw ymlaen â'r ail gam yng nghynllun ailstrwythuro y Gwasanaethau Plant (costau ychwanegol o ailraddio swyddi yn Teulu Môn), lle bydd angen gwariant ychwanegol o £17,000 (gellir ariannu hyn o'r gyllideb staffio ar gyfer y Gwasanaethau Plant;**
- **Rhoi'r hyblygrwydd i Bennaeth y Gwasanaethau Plant ddefnyddio peth o'r gyllideb sydd heb ei dyrannu (£93,957) ar ôl yr ailstrwythuro er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth dros yr ychydig fisoedd nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD LLINOS M HUWS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant)<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)<br>Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Llŷr Bryn Roberts (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant)<br>Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)<br>Fôn Roberts (Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro)<br>Alex Kaitell (Prif Swyddog Dros Dro - Gweithrediadau)<br>Dawn Owen (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)<br>Huw Owen (Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Llinos Edwards (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal - BIPBC)<br>Llinos Williams (Rheolwr Gwasanaethau Tai Cymunedol)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Douglas Watson (Cadeirydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Môn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dr Trish Girling (Seicolegydd Clinigol - CAMHS) (ar gyfer eitem 3), Gwenllian Parry (CAHMS) (ar gyfer eitem 3), Alison Jones (Rheolwr Tîm - Tros Gynnal) (ar gyfer eitem 7) Margaret Peters (Rheolwr Ymgysylltu ac Integreiddio) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Panel Rhiant Corfforaethol ac estynnodd groeso arbennig i Aelodau newydd y Panel ac i bawb a oedd yn bresennol am y tro cyntaf.

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Richard Griffiths ddiddordeb personol ond nid diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn eitem 5 ar y rhaglen.

DRAFT

## 2 COFNODION CYFARFOD 5 RHAGFYR 2016

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2017 fel rhai cywir.

## 3 MATERION YN CODI

- **Pan Fydda i'n Barod**

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Lleoli Plant adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar weithrediad y cynllun '*Pan Fydda i'n Barod'* yn Ynys Môn. Mae'r cynllun yn caniatáu i berson ifanc sydd eisoes mewn lleoliad gofal maeth cymeradwy a chofrestredig barhau i fyw yn yr amgylchedd teuluol sefydlog a gofalgar hwnnw ar ôl troi 18 oed.

Disgrifiodd y Rheolwr Tîm Lleoli Plant y sefyllfa yn Ynys Môn o ran nifer y bobl ifanc sy'n gymwys dan y Cynllun hwn a'r nifer sydd wedi manteisio arno mewn gwirionedd ers iddo ddod i rym. O'r rheini a oedd yn gymwys, dim ond un trefniant o'r fath sydd wedi'i wneud gan olygu ei bod yn anodd gwerthuso manteision y cynllun mewn cyd-destun lleol. Yn gyffredinol, nid yw'r un o'r trefniadau a wnaed wedi datblygu i fod yn drefniant tymor hir ac mae'r rhan fwyaf yn dod i ben o fewn yr ychydig fisoedd cyntaf. Deellir mai hwn yw'r patrwm yn rhanbarthol hefyd ymysg pobl ifanc gan ei fod yn well ganddynt fyw'n annibynnol neu fod problemau yn dod i'r amlwg unwaith y bydd y person ifanc yn cyrraedd 18 oed yn arbennig mewn perthynas â materion megis rheolau tŷ ac ati

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sefyllfa mewn perthynas â gweithrediad y cynllun yn Ynys Môn. Casglodd y Panel ei bod yn anodd gwerthuso'r cynllun mewn modd ystyrlon ar hyn o bryd oherwydd bod cyn lleied yn cymryd rhan ynddo.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

- **Gwasanaethau Gadael Gofal**

Cyflwynodd y Prif Reolwr Gweithrediadau Dros Dro adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Panel o gyfrifoldebau deddfwriaethol a'r dylanwadau polisi allweddol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n gadael gofal. 'Roedd yr adroddiad yn nodi pa wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i bobl ifanc sy'n gadael gofal yr Awdurdod ym Môn, ac 'roedd yn tynnu sylw at agweddau ar y ddarpariaeth yr oedd angen eu cryfhau a'u datblygu ymhellach er mwyn galluogi'r Awdurdod i gwrdd â'r ymrwymiadau uchelgais gan Gomisiynydd Plant Cymru ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal.

Cyfeiriodd y Prif Reolwr Gweithrediadau Dros Dro at y negeseuon allweddol o ran sut y mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol tuag at blant a phobl ifanc sy'n gadael gofal; sut mae'n ymateb i newidiadau yn yr hyn a ddisgwylir gan awdurdod lleol mewn perthynas â rheini sy'n gadael gofal fel y diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a sut mae'n gweithio i gryfhau cydweithio partneriaethol yn y meysydd atal ac ymyrraeth er mwyn targedu cymorth i ble mae ei angen. Mae Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â'r Rheoliadau Cynllunio, wedi cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol tuag at blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal, gyda golwg ar sicrhau y byddir yn mynd i'r afael yn

DRAFT

briodol â hawliau’r bobl ifanc hyn i fedru gadael gofal gyda’r sgiliau angenrheidiol i fyw'n annibynnol ac i lwyddo yn y cyfnod pontio wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog at y cyd-destun cenedlaethol a lleol. Mae amryw o astudiaethau cenedlaethol wedi dangos bod plant mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn rhai o'r grwpiau mwyaf bregus yn y gymdeithas ac nad ydynt yn aml yn cael yr un manteision a phrofiadau â'u cyfoedion mewn perthynas ag addysg, cyflogaeth, iechyd, tai chymorth parhaus. Yng Nghymru, bu cynnydd o 5% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae’r ffigwr wedi aros yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn wedi codi o 78 yn Chwarter 1 2014/15 i 141 yn Chwarter 4 2016/17. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ac mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi’r blaenoriaethau hynny. Ymwelodd y Comisiynydd ag Ynys Môn yn gynharach yn y flwyddyn a chyfarfu gyda swyddogion allweddol sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal.

O ran Ynys Môn, darperir gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal gan Dîm Gweithredol y Gwasanaethau Plant yn bennaf, gyda chymorth gan y Gwasanaeth Lleoli a Chymorth a'r Uned Sicrhau Ansawdd. Mae’r adroddiad yn amlinellu cyfansoddiad y timau statudol sy’n delio ag achosion o fewn y gwasanaethau gweithredol a chyfrifoldebau'r timau gweithredol. Mae’n disgrifio’r sefyllfa gyfredol hefyd o ran mynediad pobl sy'n gadael gofal i wasanaethau plant a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn perthynas ag iechyd a hamdden, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, llety a chymorth ariannol. Mae diogelu a rheoli risg yn faterion allweddol ar gyfer y timau gwaith cymdeithasol ac mae’r staff yn eu deall yn glir.  Mae paratoi plant a phobl ifanc ar gyfer bywyd ar ôl gofal hefyd yn bwysig ac mae gan y gwasanaeth gynllun prosiect sydd â’r nod o adolygu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Gorffennodd y Swyddog trwy gadarnhau, er bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal, ni all wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae angen parhau â gwaith y llynedd i sicrhau bod holl adrannau'r Cyngor yn ymgysylltu â rhianta corfforaethol ac yn gallu dangos tystiolaeth o sut maent yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Mae gan yr Awdurdod ddull Cyngor cyfan o weithredu er mwyn sicrhau bod dyletswyddau diogelu yn cael eu rhannu ar draws adrannau ac ystyrir y byddai dull tebyg, mwy integredig o weithredu mewn perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal yn ddefnyddiol ac yn fuddiol.

Rhoddodd y Panel sylw i’r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd ynddo a gofynnodd am eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas ag ymgysylltu â'r awdurdod lleol ehangach i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Nododd y Panel ei bod yn hanfodol bwysig i annog a galluogi plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy’n gadael gofal i  gyfrannu at sut mae polisïau ac arferion yn cael eu datblygu a'u siapio, ac er bod y Panel yn cydnabod na ellir gorfodi pobl ifanc sy'n gadael gofal i gymryd rhan nac i fanteisio ar gynigion o gymorth, pwysleisiodd bod angen i'r Awdurdod allu dangos bod ganddo drefniadau ar waith i fynd ati i geisio barn plant a phobl ifanc am eu gofal.

Dywedodd y Prif Reolwr Gweithrediadau Dros Dro y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar faterion  gadael gofal a bod cynrychiolaeth dda yn y cyfarfodydd hynny o blith gwasanaethau ac adrannau eraill. Gwnaed cynnydd ar fentrau hamdden; yn yr un modd,

DRAFT

mae'r gwasanaeth yn datblygu ei gysylltiadau â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael mynediad at yr un cyfleoedd ag a roddir i’w cyfoedion mewn ysgolion ar draws yr Ynys. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi ac annog pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg bellach gan gynnwys mynychu prifysgol. O ran cyfranogiad, gofynnir i’r Panel gefnogi ymarfer cyfranogi blynyddol i glywed barn pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr Awdurdod.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Plant Dros Dro, wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu, y bydd y pwysau ar y gwasanaethau gadael gofal yn cynyddu hefyd. Mae angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig o ran cynnig opsiynau llety addas e.e. datblygu llety â chymorth. Mae'n bwysig felly bod yr Awdurdod yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer gadael gofal a'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd integredig a chyfannol sy'n cynnwys gwasanaethau ac adrannau eraill. Awgrymodd y Swyddog y gallai fod yn amser da i adolygu pa mor dda y mae’r Panel Rhiant Corfforaethol ei hun yn gweithio ac i ystyried a oes angen newid ei fformat i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol o ran dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ymarfer, polisi a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal a’r rheini sy'n gadael gofal.

‘Roedd y Panel yn cytuno y byddai adolygiad o fudd i sicrhau nad yw ffocws y Panel yn mynd yn rhy gul ac yn gyfyngedig i dderbyn a nodi data, a'i fod yn gallu dangos bod ei drafodaethau yn arwain at gamau gweithredu sy'n gwella canlyniadau i blant sy’n derbyn gofal gan yr Awdurdod.

**Cytunwyd i dderbyn a chefnogi argymhellion yr adroddiad sef.**

- **Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Panel yn derbyn adroddiad diweddaru cyn pen 12 mis ar y cynnydd mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Gadael Gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol.**
- **Bod y Panel yn hyrwyddo lles plant sy'n gadael gofal a'u hanghenion gyda’r holl adrannau eraill ac asiantaethau partner.**
- **Bod y Panel yn hyrwyddo ymyrraeth wedi'i dargedu ar gyfer y rheini sy’n gadael gofal o ran prentisiaethau, hyfforddiant ac addysg bellach.**
- **Bod y Panel yn nodi effaith newidiadau deddfwriaethol ar y rheini sy’n gadael gofal, sy'n cynyddu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc, gan gynnwys cyfrifoldebau ariannol.**
- **Bod y Panel yn cefnogi'r gwasanaeth yn ei fwriad i archwilio a datblygu llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, gan gynnwys y rheini sy'n gadael gofal.**
- **Bod y Panel yn cefnogi'r gwasanaeth yn ei waith gyda gofalwyr maeth i ehangu'r hyfforddiant byw’n annibynnol ar gyfer plant mewn gofal.**
- **Bod y Panel yn derbyn ac yn adolygu’r polisi ariannol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal mewn cyfarfod yn y dyfodol.**
- **Bod y Panel yn cynnal ymarfer cyfranogiad blynyddol i glywed barn / profiadau pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr Awdurdod.**

**CAM GWEITHREDU: Bod Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Panel ar yr opsiynau ar gyfer adolygu swyddogaeth, cylch gorchwyl a threfniadau adrodd y Panel Rhiant Corfforaethol.**

DRAFT

- **Y Llwybr Iechyd Emosiynol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**

Cyflwynodd Dr Trish Girling, CAMHS a Llinos Edwards, Nyrs Plant sy’n Derbyn Gofal adroddiad ar y cyd ar y sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion iechyd emosiynol Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd Dr Trish Girling wrth y Panel fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlygu'r angen i flaenoriaethu anghenion iechyd emosiynol Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu ar hyn o bryd yn y meini prawf atgyfeirio ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed Gogledd Cymru (CAMHS). Er y gellir darparu asesiadau ar gyfer PDG, nid yw gwaith ymlyniad penodol yn cael ei wneud mwyach a allai helpu pobl i fod yn llai agored i ddatblygu cyflyrau iechyd meddwl y gellir eu diagnosio, a byddai angen i PDG fodloni'r un meini prawf â phobl ifanc eraill er mwyn derbyn mewnbwn therapiwtig uniongyrchol. Aeth Dr Girling ymlaen i ymhelaethu ar y sefyllfa bresennol o ran yr hyn sy'n gweithio a’r hyn nad yw'n gweithio, gan dynnu sylw at fylchau a diffyg yn y ddarpariaeth a’r ffaith bod gwahanol asiantaethau yn ansicr ynghylch eu rolau a sut i gael gafael ar gymorth priodol. Dywedodd mai’r cam cyntaf sydd ei angen yw llwybr sefydledig ar gyfer cwrdd ag anghenion PDG; bydd hyn yn darparu eglurder ar gyfer yr holl weithwyr iechyd a’r holl weithwyr statudol eraill ynghylch eu rolau a ble i geisio cymorth mewn modd priodol. Argymhellir gwneud y canlynol-

i) Mae llwybr wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Gogledd-Orllewin Cymru yr argymhellir ei fod yn cael ei dreialu am 6 mis (yng Ngwynedd ac Ynys Môn) a monitro ei effeithiolrwydd. ‘Roedd y Llwybr Iechyd Emosiynol ynghlwm wrth yr adroddiad er gwybodaeth i’r Panel)
ii) Cyflwyno’r Llwybr i'r Panel Rhiant Corfforaethol a bod Nyrsys PDG a Seicolegwyr Clinigol CAMHS yn rhaeadru’r wybodaeth i arweinwyr timau lleol yn yr asiantaethau iechyd a statudol, gan gynnwys (ond nid yn unig) CAMHS, Gwasanaethau Cymdeithasol, Panel Comisiynu ar y Cyd, Ymwelwyr Iechyd , Nyrsys Ysgol, Cwnselwyr Ysgolion a Phediatregwyr.
iii) Mai ffurflen gofalwyr CORAM BAAF yw'r ffordd fwyaf priodol a rhagweithiol o adnabod PDG gydag anawsterau iechyd emosiynol. Pan fo’n dwyn sylw at anghenion iechyd emosiynol, argymhellir bod y Nyrs PDG yn cwblhau Holiadur Cryfderau ac Anawsterau gyda'r person ifanc a'u gofalwyr.
iv) Pan nad oes modd diwallu angen iechyd emosiynol sy’n bodoli, argymhellir bod hynny’n cael ei gofnodi. Gall CAMHS archwilio’r rhain a llywio unrhyw newid yn y gwasanaeth yn y dyfodol.

Eglurodd Dr Trish Girling bod y newid mawr y mae'r llwybr yn ei gyflwyno yn argymhelliad arfer da ac na ddylai Gwasanaethau Cymdeithasol gytuno i unrhyw therapïau eraill heb ymgynghori â CAMHS er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ar sail tystiolaeth ac sy’n addas i gwrdd â’u hanghenion. Rhaid trafod unrhyw anghenion therapiwtig a allai olygu costau ychwanegol i’r Awdurdod Iechyd yn y Panel Comisiynu ar y Cyd cyn dechrau, a dylid dwyn sylw rheolwyr at unrhyw angen nad oes modd ei ddiwallu’n briodol ac amlygu’r angen hwnnw fel un nad yw’n cael ei fodloni. Byddai'r argymhelliad arfer gorau hefyd yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle gwneir argymhellion gan y Llysoedd Teulu.

DRAFT

Nododd y Panel y wybodaeth a chytunwyd i roi gwybod am y cynigion a'r hyn y maent yn ei olygu i CAFCASS fel parti sydd â diddordeb ac sy'n darparu cyngor i'r Llysoedd Teulu ar y ffordd orau i sicrhau lles gorau plant sy'n rhan o achosion llys.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys y cynnig ar gyfer treialu Llwybr Iechyd Emosiynol i Blant sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd a Môn.**

**CAM GWEITHREDU: Bod BIPBC yn rhoi gwybod i CAFCASS am y Llwybr Iechyd Emosiynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r hyn y mae'n ei olygu.**

- **Gofalwyr Maeth**

Rhoddodd Arweinydd Tîm Lleoli Plant y Panel wybodaeth am y nifer y Gofalwyr Maeth sy'n gadael y gwasanaeth a'r rhesymau pam eu bod wedi ymddiswyddo neu pam yr oedd eu cofrestriad wedi dod i ben. 'Roedd y wybodaeth yn cynnwys dadansoddiad fesul achos o'r gofalwyr a oedd wedi gadael y Gwasanaeth Maethu yn ystod 2015/16 a 2016/17.

Dywedodd y Swyddog bod y rhan fwyaf o ymddiswyddiadau wedi digwydd oherwydd bod y lleoliad brys Rheoliad 38 gyda ffrindiau a theulu wedi dod i ben yn naturiol; ychydig iawn yw'r achosion lle mae'r cofrestriad wedi dod i ben oherwydd problemau. Nid yw patrwm yr ymddiswyddiadau yn dangos unrhyw dueddiadau amlwg sydd angen sylw.

**Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd** gan nodi hefyd ei fod yn dangos bod y trosiant o ofalwyr maeth ar gyfer y ddwy flynedd dan sylw wedi digwydd oherwydd rhesymau naturiol e.e. lleoliadau teulu a ffrindiau yn dod i ben yn naturiol.

**DIM CAM GWEITHREDU**

## 4. DYFARNU CYLLID - CRONFA DYDD GŴYL DEWI I BOBL IFANC SYDD WEDI DERBYN GOFAL 2017-19

Cyflwynwyd i sylw'r Panel lythyr dyfarnu grant gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 16 Mehefin, 2017 mewn perthynas â Chronfa Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael gofal. 'Roedd Atodlen 1 y llythyr yn cynnwys manylion am ddiben y grant a fyddai am gyfnod o ddwy flynedd o 2017-2019 yn ogystal â'r canllawiau llawn ar gyfer y Gronfa. Mae'r Gronfa genedlaethol o £1m yn cefnogi pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd wedi derbyn gofal ganddo yn y gorffennol fel eu bod yn gallu cael manteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Panel y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i bob awdurdod lleol a ddyrennir yn unol â'r fformiwla Plant mewn Gwasanaethau Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Y cyllid ychwanegol ar gyfer Ynys Môn yw £19,369 y flwyddyn am ddwy flynedd a chynhelir trafodaethau i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r grant yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd. Dywedodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi cael llythyr pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch grant ar gyfer 2017/18 yn unig am bron i £ 200k a oedd yn cynnwys £19k ar gyfer Ymgynghorwyr Personol; £12k ar gyfer profiad gwaith / cyfleon hyfforddi; £97k ar gyfer ehangu Gwasanaethau Trothwy Gofal a £66.5k

DRAFT

ar gyfer gofal ysbaid i ofalwyr. O 2018/19 ymlaen, bydd yr arian hwn yn cael ei gynnwys o fewn y Grant Cynnal Refeniw sy’n golygu y bydd yr arian ychwanegol hwn ar gael i'r Awdurdod ar sail barhaus. Yn ogystal, mae arian ychwanegol o £150k ar gael i'r rhanbarth ar gyfer y prosiect ‘Reflect’ a £400k i'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol - manylion i'w cadarnhau.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y grantiau yn adlewyrchu rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer plant sy'n gadael gofal a leisiwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod ei hymweliad ag Ynys Môn yn y gwanwyn yn enwedig o ran sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd cyflogaeth a llety addas ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

**Croesawyd a nodwyd y wybodaeth.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH.**

## 5. GADAEL GOFAL - PROTOCOL AR Y CYD AR GYFER TAI A GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ymgorffori Protocol Gadael Gofal a Thai 2017. Y Protocol yw ymateb yr Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol fel y gall pobl ifanc sy’n gymwys i dderbyn cymorth tai gael gwasanaethau cymorth tenantiaeth a llety o safon dda. Drwy weithio ar y cyd, mae'r Protocol yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn cael dewis o lety addas sy'n ddiogel, yn fforddiadwy ac yn agos at eu cysylltiadau a'u cymunedau.

Dywedodd y Prif Reolwr Gweithrediadau Dros Dro fod y bobl sy'n gadael gofal yn grŵp amlwg iawn yn y ffigyrau digartrefedd ar draws y Deyrnas Unedig. Gall bod heb dŷ o ansawdd da arwain yn aml at ostyngiad sylweddol yn y cyfleoedd sydd ar gael, er enghraifft mewn perthynas â chyflogaeth ac addysg. Gall effeithio ar les corfforol a meddyliol a gall gynyddu'r risg o ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Mae'r Protocol Gadael Gofal a Thai ar gyfer 2017 yn diweddaru'r protocol cyfredol a bydd yn golygu y gall yr Awdurdod ymateb i'w ddyletswyddau rhianta corfforaethol drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael amrywiaeth o ddewisiadau a’u bod yn chwarae rhan weithredol o ran nodi ble maent yn dymuno byw, y math o lety y maent ei angen a'r gefnogaeth y mae arnynt ei angen i’w cynorthwyo wrth iddynt ddod yn oedolion.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai Cymunedol gyflwyniad ar sut byddai'r Protocol yn gweithredu’n ymarferol. Dywedodd mai atal digartrefedd yw un o brif amcanion y Protocol a dyna pam mae pwyslais ar hysbysu’n gynnar a chynllunio ymlaen. Dangosodd y Swyddog ddwy ffilm fideo fer hefyd i’r Panel, y naill ar brofiadau pobl ifanc a oedd wedi cael eu hunain yn ddigartref ar ôl bod mewn gofal a'r llall ar waith y prosiect Nightstop yn Ynys Môn sy'n helpu pobl ifanc ddigartref ddod o hyd i le diogel i aros un noson ar y tro. Mae’r prosiect yn gweithio drwy wirfoddolwyr yn y gymuned sy’n cynnig gwely, cawod a phryd o fwyd i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, yn ogystal â chlust i wrando os yw'r person ifanc yn dymuno siarad. Mae pump o wirfoddolwyr o'r fath ar Ynys Môn sy'n gallu cynnig lle i aros am hyd at 3 noson i bobl ifanc aros pan nad oes dewis arall ar gael iddynt ar y pryd. Mae Nightstop yn gynllun cenedlaethol a redir ym Môn gan Digartref Ynys Môn.

DRAFT

Croesawodd y Panel y Protocol diweddaraf fel un a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer cryfhau cydweithio rhwng yr Adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda golwg ar gyfarfod yn well ag anghenion llety pobl sy'n gadael gofal wrth iddynt baratoi ar gyfer byw'n annibynnol. Hefyd, nododd y Panel y Prosiect Nightstop gyda diddordeb; awgrymodd fod angen mwy o gyhoeddusrwydd i'r prosiect ymysg aelodau etholedig a chymunedau ar Ynys Môn er mwyn annog mwy o bobl i wirfoddoli i gynnig llety fel y gellir ymestyn y prosiect.

Awgrymwyd y gellid cylchredeg gwybodaeth am Nightstop Môn yn y ffyrdd canlynol –

- Drwy'r gwasanaeth Teulu Môn sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â phlant a'u teuluoedd
- Mewn sesiwn hyfforddi sydd ar y gweill ar gyfer Aelodau Etholedig ar rianta corfforaethol
- Mewn sesiwn friffio fisol ar gyfer aelodau Etholedig
- Trwy Gynghorau Tref a Chymuned

**Cytunwyd i dderbyn a chefnogi argymhellion yr adroddiad sef -**

- **Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r Protocol**
- **Bod y Panel yn derbyn adroddiad pellach ar effeithiolrwydd Protocol ar y Cyd o fewn 12 mis**
- **Bod y Panel yn cefnogi galluogi'r gwasanaeth i weithredu fel gwarantwr ar gyfer pobl ifanc mewn tenantiaethau preifat.**

**GWEITHREDU: Bod Swyddogion yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o Nightstop Ynys Môn gan y dull a amlinellwyd.**

## 6. ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd y Swyddog Adolygu Annibynnol ei hadroddiad ar gyfer Chwarter 4 2016/17.

Amlygodd yr SAA yr ystyriaethau canlynol -

- Y patrwm o gynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, sef 143 ar hyn o bryd. Bu cynnydd o 81% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers Chwarter 1 2014/15. Mae'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn destun gorchmynion gofal interim neu lawn sy'n golygu eu bod angen cael eu gwarchod. Ymddengys mai'r grŵp oedran amlycaf yw plant 5 i 11 oed gyda chyfanswm o 45; y categori oedran 11-15 yw'r ail fwyaf gyda 43. Mae yna negeseuon yma ar gyfer y Strategaeth Recriwtio a Lleoliadau.
- Mae'r plant a'r bobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod ym Môn yn parhau i dderbyn gofal mewn amrywiaeth o leoliadau. Llwyddwyd i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r cynnydd drwy gaffael lleoliadau allanol. Erys yr angen i ddiwallu anghenion pobl ifanc o fewn cartrefi preswyl gyda 11 o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal ar hyn o bryd y tu allan i'r sir oherwydd diffyg cyfleusterau priodol ar yr Ynys.
- Diogelu sy'n parhau i fod y prif reswm pam fo plant a phobl ifanc yn cael eu lletya gan Gyngor Sir Ynys Môn.

DRAFT

- Unwaith y bydd plentyn yn dod yn blentyn sy’n derbyn gofal, dylid cynnal ymweliadau statudol bob 6 wythnos am y 12 mis cyntaf a phob 3 mis wedi hynny. Ar gyfer Chwarter 4, cynhaliwyd 77.39% o’r ymweliadau statudol o fewn yr amserlen - i fyny o 74.01% yn y chwarter blaenorol. Fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu bod angen cymryd camau cywiro a rhoddir sylw i’r mater gyda Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr.
- ‘Roedd canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn yr amserlen ar gyfer y chwarter yn 95.31 sy'n welliant ar ffigwr y chwarter blaenorol, sef 92.94. Cynhaliwyd 46 o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r sir. Cwblhawyd cyfanswm o 128 o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn Chwarter 4 sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â’r ffigurau ar gyfer pob un o'r chwarteri blaenorol. Mae'r gwasanaeth yn cwrdd yn rhannol â’r galwadau y mae hyn ei roi ar staff Cefnogi Busnes, Ymarferwyr a'r SAA drwy gapasiti SAA ychwanegol a gaffaelir gan bartïon allanol. O 3 Gorffennaf, 2017 bydd gan y gwasanaeth SAA ychwanegol a fydd yn caniatáu i'r uned ddatblygu ei ddull gweithredu drwy ddarparu capasiti i ddatblygu’r berthynas gyda'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod a hefyd y modd y cynhelir yr adolygiadau .
- Erys rhai materion ymarfer, yn arbennig o ran argaeledd ac ansawdd y dogfennau ar gyfer yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Ceir manylion y rhain yn y rhan o’r adroddiad sy’n ymwneud â Sylwadau a Dadansoddiad ynghyd â'r camau a gymerir i liniaru a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac yn gwneud y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Panel fod nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod yn parhau i godi. Gofynnodd y Panel am eglurhad ar y rhesymau sylfaenol am y duedd hon a'r llwybrau sydd ar gael i'r Awdurdod i reoli'r sefyllfa ac i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael y gofal gorau a mwyaf priodol. Hysbyswyd y Panel bod y cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i ofal yn ffenomen genedlaethol a bod y nifer yn lleol yn cael ei ddylanwadu gan faterion cenedlaethol, e.e. cyflwyno'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Bydd cyflwyno system cofnodi electronig newydd ym mis Awst yn gwella’r ffordd o gasglu gwybodaeth a thrwy hynny’n helpu'r Awdurdod i ragweld rhifau’n gywirach a fydd, yn ei dro, yn helpu'r gwasanaeth i ddeall yr hyn sydd ei angen o ran recriwtio gofalwyr maeth. Mae hefyd yn ystyriaeth, a gadarnheir gan AGGCC, fod ffigurau gwaelodlin yr Awdurdod yn hyn o beth wedi bod yn hanesyddol rhy isel a'u bod yn awr yn nes at ble y disgwylir iddynt fod.
- Nododd y Panel y gellid gwella perfformiad o ran cynnal ymweliadau statudol ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. O ran ymweliadau statudol, gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a yw ymweliadau o'r fath wedi bod yn digwydd o gwbl ynteu ai mater ydyw bod yr ymweliadau wedi cael eu gwneud ond heb eu cofnodi’n ffurfiol. Hysbyswyd y Panel bod y gwasanaeth wrthi’n cael ei ailstrwythuro, sy'n cynnwys creu timau llai o ymarferwyr gwaith cymdeithasol; mae'r polisi goruchwyliaeth gwaith cymdeithasol hefyd yn cael ei adolygu a'i gryfhau. Dylai hyn wella dealltwriaeth o bob achos unigol ac arwain at gyfarwyddyd ac arweiniad mwy penodol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio gwerthuso achosion i sefydlu pa rai y gellir eu cau yn ddiogel ac yn briodol, gan leddfu'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol a rhyddhau capasiti i ganolbwyntio ar wella perfformiad yn y meysydd a amlygwyd gan y Swyddog

DRAFT

Adolygu Annibynnol. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn her o ran sicrhau eu bod i gyd yn cael eu gweld a bod ymweliadau'n cael eu cofnodi. **Nododd y Panel y byddai'n dymuno gweld blaenoriaethu Ymweliadau Statudol o fewn yr adnoddau presennol.**

**Cytunwyd i dderbyn adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 4 2016/17 a nodi'r materion sy'n codi a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw iddynt.**

**CAM GWEITHREDU: Bod y Panel yn cael dadansoddiad yn y cyfarfod nesaf o ymweliadau statudol â'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod er mwyn rhoi sicrwydd bod ymweliadau o'r fath wedi digwydd hyd yn oed os nad ydynt wedi cael eu cofnodi'n ffurfiol.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROS GYNNAL**

Rhoddodd Alison Jones, Rheolwr y Tîm Tros Gynnal, drosolwg i'r Panel o waith y Gwasanaeth Eiriolaeth Tros Gynnal ar draws Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

Crynhodd y Rheolwr Tîm y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Rhoddwyd cymorth eiriolaeth yn 2016/17 ar gyfer 354 o blant a phobl ifanc a gyflwynodd gyda 425 o broblemau. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn gweithio ar draws Cymru gyda 647 o blant a phobl ifanc a oedd wedi cyflwyno gyda 872 o broblemau.
- Yn ystod 2016/17 bu cynnydd o 17% (yn ychwanegol at y cynnydd o 50% y llynedd) yn nifer yr atgyfeiriadau ar draws y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 67% dros y ddwy flynedd y mae'r gwasanaeth wedi bod ar waith ac mae'n sylweddol uwch na'r dangosydd perfformiad y cytunwyd arno, sef 20%.
- Er nad oes gan Ynys Môn ddarpariaeth breswyl mwyach, mae Tros Gynnal yn gweld plant a phobl ifanc o Ynys Môn sy'n derbyn gofal mewn unedau preswyl y tu allan i'r sir.
- O ran y gwasanaeth ymweld annibynnol, nid oes gan Ynys Môn unrhyw atgyfeiriadau ar hyn o bryd ac nid yw wedi gwneud unrhyw atgyfeiriadau o'r fath 'chwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Yn 2015/16 cafwyd 52 o atgyfeiriadau o Ynys Môn a oedd yn cynnwys 135 o broblemau; yn 2016/17 cafwyd 96 o gyfeiriadau o Ynys Môn a oedd yn cynnwys 43 o broblemau, sy'n uwch nag ar gyfer unrhyw awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.
- Mae perfformiad o ran ymatebolrwydd y gwasanaeth a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn well na'r Dangosyddion Perfformio Allweddol y cytunwyd arnynt fel y nodir yn yr adroddiad. Ni chafwyd unrhyw gwynion am y gwasanaeth yn ystod y cyfnod ac mae'r atborth llafar gan blant, pobl broffesiynol a rhieni y cafwyd enghreifftiau ohonynt yn yr adroddiad yn adlewyrchu lefelau uchel o fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ac integreiddio arloesedd eu harferion. Mae wedi cynyddu ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae wedi ceisio ehangu'r ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth a wneir ganddo. Yn y chwe mis diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhedeg cynllun peilot gweithredol sy'n cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda'r eiriolwr sy'n egluro'r broses eiriolaeth a beth mae'n ei olygu. Cafodd y cynnig ei dreialu yn Sir y Fflint ond arweiniodd at 6 o atgyfeiriadau yn

DRAFFT

unig.

- Bydd y gwaith o ddatblygu a gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol yn cael ei lywio trwy barhau i godi ymwybyddiaeth, hyfforddi a hyrwyddo'r ddarpariaeth o fewn timau Gwasanaethau Cymdeithasol gan y bydd hyn yn sicrhau dealltwriaeth barhaus o'r gwasanaeth a'r meini prawf cymhwyster cysylltiedig a ddylai arwain at fwy o atgyfeiriadau.
- Yr Ymagwedd Genedlaethol tuag at Eiriolaeth Statudol yw datblygu a gweithredu fframwaith cenedlaethol a fydd yn rhoi cysondeb yn y ddarpariaeth eiriolaeth ar draws Cymru gyfan. Y gobaith yw y bydd Gogledd Cymru yn newid y contract presennol a gweithredu'r dull hwn o 1 Mehefin ymlaen 2017. Elfen o'r Ymagwedd Genedlaethol yw'r cynnig gweithredol o eiriolaeth a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc gymwys ar draws Gogledd Cymru i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth.

Nododd y Panel fod y nifer o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth o Ynys Môn yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Nododd y Panel hefyd nad oedd Ynys Môn, ar y llaw arall, wedi gwneud unrhyw ddefnydd o'r gwasanaeth ymweld annibynnol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Hysbyswyd y Panel y dylid gweld y nifer uchel o atgyfeiriadau fel rhywbeth cadarnhaol gan ei fod yn dangos bod plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yn ymwybodol o argaeledd y gwasanaeth ac yn gwybod sut i gael gafael arno. Nid yw'r materion a godwyd yn gwynion, ond yn faterion sy'n codi ym mywydau plant a phobl ifanc plant y maent yn dymuno siarad amdanynt gydag eiriolwr annibynnol.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a bod y Panel yn nodi perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas ag Ynys Môn.**

**CAM GWEITHREDU: Bod Rheolwyr Gwasanaethau Plant yn trafod gydag Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol Plant pam nad yw Ynys Môn wedi gwneud unrhyw gyfeiriadau i'r gwasanaeth ymwelydd annibynnol.**

**8 ADRODDIADAU GWASANAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiadau Gwasanaeth canlynol er sylw'r Panel -

- Adroddiad y Rheolwr Tîm Lleoli Plant oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Chwarter 4 2016/17 o ran lleoli plant a materion maethu.

  **Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac nid oedd unrhyw gamau gweithredu dilynol**.

- Adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Chwarter 4 2016/17 o ran perfformiad yn diwallu anghenion addysg y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn a pharatoi cynlluniau addysg personol.

  **Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac unrhyw gamau gweithredu dilynol.**

- Adroddiad y Nyrs PDG oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa yn Chwarter 4 2016/17 o ran perfformiad wrth ddiwallu anghenion iechyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys cwblhau asesiadau iechyd.

DRAFT

**Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac unrhyw gamau gweithredu dilynol.**

- Adroddiad y Rheolwr Tîm Dros Dro PDG oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Chwarter 4 2016/17 o ran materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod.

**Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac unrhyw gamau gweithredu dilynol.**

**9. CYFARFOD NESAF**

Nododd y Panel y cynhelir y cyfarfod nesaf am 2:00 pm ar ddydd Llun, 11 Medi 2017.

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Medi 2017** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2017 – Mai 2018;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2017 – Mai 2018. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 24

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Hydref 2017 – Mai 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori**<br>**a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2017** | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 2 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 2 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | 30 Hydref 2017 (I'w gadarnhau) |
| 3 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 4 | **Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol – Ymgysylltu** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | 2 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol – Ymgynghoriad Anffufiol** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 2 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 6 | **Adolygiad Perfformiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)** | | | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | 2 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 7 | **Adroddiad Blynyddol – Cyflawniadau yn erbyn y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| | **Tachwedd 2017** | | | | | | |
| 8 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 17 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>6 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 26

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 9 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 10 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 13 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 11 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 12 | **Sylfaen y Dreth Gyngor 2018/19**<br><br>Pennu Sylfaen y dreth ar gyfer 2018/19 | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y cynllun arfaethedig ar gyfer 2018/19. | Mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn fel rhan o Fframwaith Gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | 12 Rhagfyr 2017 |
| 14 | **Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y newidiadau a gynigiwyd gan yr Uned Caffael cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn rhoi argymhelliad ymlaen I'r Cyngor, gan y bydd y penderfyniad terfynol yn newid y Cyfansoddiad. | Adnoddau / Busnes y Cyngor | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng John Griffith<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 15 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 13 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 16 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 14 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Strategaeth Rheoli Asedau – Tai Cyngor** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan fod y ddogfen yn rhan o raglen waith y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai sydd yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 18 | **Cynllun Datblygu Tai Cyngor yng Nghaergybi** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Cyng Alun WMummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 19 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer mynd allan i ymgynghori. | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| | | | | **Rhagfyr 2017** | | | |
| 20 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>15 Rhagfyr 2017 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | atebolrwydd. | | | | | |
| 22 | ***Ysgolion hefo llai na 120 mewn nifer o ddisgyblion***<br><br>*Cytuno'r cyfeiriad strategol.* | | *Dysgu* | *Delyth Molyneux*<br>*Pennaeth Dysgu*<br><br>*Cyng R Meirion Jones* | | *Pwyllgor Gwaith*<br><br>*18 Rhagfyr 2017* | |
| 23 | **Rheoli'r Trysorlys 2017/18 – Adolygiad Canol Blwyddyn** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 24 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | 28 Chwefror 2018 |
| 25 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni - Achos Busnes Amlinellol**<br><br>Cyflwyno sylwadau yn dilyn yr ail | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymghynghoriad | | | | | | |
| | | | | **Ionawr 2018** | | | |
| 26 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| | | | | **Chwefror 2018** | | | |
| 27 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>28 Chwefror 2018 | |
| | | | | | | | |
| 28 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 29 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | 28 Chwefror 2018 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 31

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyng John Griffith | | | |
| 30 | **Ffioedd a Thaliadau 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 31 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 32 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu polisi newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 33 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

Tudalen 32

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 34 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 35 | **Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn y Sector Annibynnol 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 36 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| | | | | **Mawrth 2018** | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 38 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 39 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 40 | **Polisi Dewisol Taliadau Tai 2018/19**<br><br>Adrodd ar weinyddiaeth y polisi ac unrhyw newidiadau yr argymhellir – pennu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 41 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2021** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2017 – Mai 2018

Diweddarwyd: 11 Medi 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2018** | | | | | | | |
| 42 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |
| **Mai 2018** | | | | | | | |
| 43 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2018 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **18.9.17** |
| **Pwnc** | **Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022** |
| **Aelod Portffolio** | **Dafydd Rhys Thomas** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Scott Rowley** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Gethin Morgan** |
| **Natur a rheswm dros adrodd -**<br><br>**Fel bod modd i'r Pwyllgor Gwaith argymell Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022 yn ffurfiol i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu** | |

| **A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion** |
|---|
| Mae sicrhau bod gan y Cyngor Sir gynllun cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus ein rhaglen barhaus a'n gweledigaeth i ddatblygu Ynys Môn gynaliadwy lle mae unigolion annibynnol yn byw mewn teuluoedd cryf ac o fewn cymunedau iach, llewyrchus, ffyniannus a gwydn.<br><br>Mae'r cynllun ei hun wedi ei ddatblygu a'i siapio gan: - |

**Barn pobl leol** - Rydym yn parhau gyda'n hymgyrch i ddod yn Gyngor sy'n gwrando hyd oed yn well ac 'rydym wedi gwneud rhagor o welliannau i'n harferion ymgynghori ac ymgysylltu gyda'n dinasyddion a chymunedau gydag arweiniad a chyfarwyddyd y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori Corfforaethol. Cynhaliwyd proses ymgysylltu eang a chynhwysfawr gyda dinasyddion yn ystod 2017 er mwyn nodi a chadarnhau nifer o flaenoriaethau a chanlyniadau y mae ein dinasyddion yn ystyried eu bod yn bwysig iddynt yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

**Barn ein partneriaid** - prin fod unrhyw un o'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu darparu heb fewnbwn ein partneriaid. Wrth ddatblygu'r ddogfen hon, rydym wedi ystyried y rhaglen ynys eang sy'n cael ei datblygu gyda'n partneriaid, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gelwn wneud gwahaniaeth drwy gymryd yr awenau.

**Pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio ar hyn o bryd** – 'rydym yn wastad yn gwella sut ydym yn monitro ein perfformiad trwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad cysylltiedig, a hynny er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn a'n bod yn gwella'n barhaus. Os nad ydym yn perfformio'n ddigon da, cymerir camau i unioni pethau. Mae ein blaenoriaethau yn adlewyrchu nifer o feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau i adeiladu ein dyfodol cynaliadwy.

**Blaenoriaethau Gwleidyddol** - fel cynrychiolwyr eu cymunedau, mae Cynghorwyr Etholedig lleol wedi tynnu sylw at faterion hefyd drwy ddulliau ymgysylltu traddodiadol, sesiynau briffio a byrddau rhaglen. Mae'r rhain hefyd wedi cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru** – mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel yr amlygir nhw yn ei Rhaglen Symud Cymru Ymlaen a'r ddeddfwriaeth newydd hefyd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau lleol ac mae pwyslais penodol ar gynorthwyo'r bobl fwyaf bregus, sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwneud cynnydd a hyrwyddo llesiant ein dinasyddion wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud.

**B - Ystyriaethau**

Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2013-2017), fel y mabwysiadwyd ef gan y Cyngor llawn yn 2013/14 yw'r sylfaen y datblygwyd y Cynllun hwn arno.

Bydd y cynllun newydd yn allweddol ar gyfer symud y Cyngor yn ei flaen yn ddiwylliannol ar adeg o newid parhaus ac adnoddau sy'n mynd yn gynyddol brin.

Bydd hefyd yn golygu y byddwn yn dod yn Gyngor y bydd eraill yn ceisio meincnodi eu hunain yn ei erbyn.  Mae hyn yn golygu y bydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, erbyn 2022 ;

- dealltwriaeth o berfformiad ein gwasanaethau, gan reoli'r perfformiad hwnnw'n rhagweithiol a thargedu camau gwella pan fo angen
- meysydd o arloesedd, arfer dda a rhagoriaeth gwasanaeth y mae sefydliadau eraill yn ceisio meincnodi eu hunain yn eu herbyn.
- aelodau etholedig, rheolwyr a staff sy'n gwneud gwahaniaeth ac sydd wedi datblygu eu sgiliau o ganlyniad.
- wedi datblygu ymhellach y parch tuag atom o fewn o fewn y teulu llywodraeth leol yng Nghymru, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- perthnasau cynhyrchiol, tryloyw ac ymddiriedus gyda'n partneriaid.
- wedi bodloni ein harchwilwyr o ran arweinyddiaeth, llywodraethiant a chapasiti trefniadol.

Wrth ddatblygu ein Cyngor, mae **6 thema allweddol** a fydd yn sail i'r ffordd y byddwn yn gweithio. Mae'r themâu allweddol hyn a ddatblygwyd gan staff fel a ganlyn;

Thema 1- Proffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

Thema 2 - Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

Thema 3 – Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

Thema 4 - Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl

Thema 5 – Ymrwymedig i Bartneriaeth

Thema 6 - Cyflawni

Mae'r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r cynllun hwn wedi bod yn gadarn a manwl. 'Rydym wedi gwrando ar ein dinasyddion o gychwyn cyntaf y broses hon gan gynnwys -

Sylw gan y wasg a'r cyfryngau i'r ymarfer ymgynghori

Ymgysylltu gyda'r cyhoedd drwy'r cyfrifon Facebook a Twitter Corfforaethol

Gweithdai ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned ar draws y Sir

Gweithdai, sesiynau briffio a thrafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth / Uwch-Arweinyddion ac Aelodau

Mae elfennau allweddol y Cynllun fel a ganlyn -

**Nod** - "byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn lle mae gennym unigolion annibynnol sy'n byw o fewn teuluoedd cryf mewn cymunedau iach, llewyrchus, ffyniannus a gwydn"

Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd ers 2013, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Waeth beth fo'r dull ymgynghori a ddefnyddiwyd, y blaenoriaethau cyson ac uchaf o bell ffordd ym mhob ardal ddaearyddol ac ymysg pobl o bob grŵp demograffig yw:

- cefnogi'r bobl fwyaf bregus
- datblygu'r economi a sicrhau ein llesiant
- codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Y blaenoriaethau hyn felly yw sail y meysydd ffocws yn y cynllun corfforaethol hwn: -

- sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw mor ddiogel, iach ac annibynnol ag y bo modd
- sicrhau y gall ein cymunedau ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n diogelu amgylchedd naturiol ein hynys

Mae'r cynllun yn nodi y byddwn yn mabwysiadu agwedd 'Un Cyngor' o ran darparu gwasanaethau, a hynny drwy weithlu modern, hyblyg sydd â'r sgiliau iawn i gyflawni amcanion y Cyngor. Bydd rôl ein gweithlu yn newid wrth i'r cynllun gael ei gyflawni. Ein rôl esblygol fydd comisiynu gwasanaethau a darparu gwasanaethau ein hunain os mai dyna sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau.

Bydd sicrhau y cyflawnir y cynllun hwn yn allweddol bwysig. Wrth wneud hynny, byddwn yn -

- Sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer ymdrin â'n heriau ariannol difrifol, gan sicrhau bod meysydd blaenoriaeth yn cael eu diogelu. Bydd trawsnewid gwasanaethau ac arloesedd wrth wraidd yr hyn y byddwn yn ei wneud.
- Ailbwysleisio ein fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu ein blaenoriaethau i'r rheini yn y cynllun Ariannol Tymor Canol.
- Casglu data a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad drwy adroddiadau chwarterol sydd ar gael i'r cyhoedd
- Adeiladu ar ein cryfderau o ran ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cynnwys yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau

Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Swyddogion yn gofyn am awdurdod i ddiwygio a chwblhau'r fersiwn ddrafft gyfredol o Gynllun y Cyngor mewn cydweithrediad gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid a Materion Corfforaethol cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ystod mis Hydref 2017.

**C - Goblygiadau ac Effeithiau**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu blaenoriaethau'r Cyngor yn gyson â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br><br>(Gweler y nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **8** | **Cyfathrebu**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **9** | **Ymgynghori**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **12** | **Troseddau ac Anhrefn**<br><br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **CH - Crynodeb** | | |

| |
|---|
| Mae sicrhau bod gan y Cyngor Sir gynllun cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig i'r daith tuag at welliant parhaus a’i raglen esblygol ar adeg o newid ac mewn cyfnod pan fo adnoddau’n prinhau’n barhaol. Mae'n rhoi cyfeiriad pendant, strategol ar gyfer y sefydliad, sef un y gellir dal Aelodau a Swyddogion yn atebol am ei gyflawni.<br><br>Mae'n cynnwys nodau’r cyngor, ei feysydd ffocws a’r canlyniadau y byddwn yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion dros y pum mlynedd nesaf. |
| **D - Argymhelliad** |
| Argymhellir -<br><br>1. derbyn bod y fersiwn ddrafft hon o Gynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi rhaglen y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2017-2022.<br>2. bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu’r Cynllun ac awdurdodi swyddogion i wneud mân newidiadau iddo, ar y cyd gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid a Materion Corfforaethol, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad - Gethin Morgan**

**Teitl y Swydd - Rheolwr Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rhaglenni**

**Dyddiad - 8.8.17**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

| **Papurau Cefndir** |
| --- |
| Cynllun Corfforaethol Cyngor 2013-2017 |

1

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Cynllun 2017-2022

Uchelgais allweddol y Cyngor yw y byddwn **"yn gweithio tuag at Ynys Môn sydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus".**

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn **sicrhau gwasanaethau o safon uchel** a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Mae ymgynghoriadau diweddar â'n cymunedau, aelodau etholedig a staff wedi amlygu'r blaenoriaethau a ganlyn.

- Creu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir.
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Mewn cyfnod o gyni ariannol fe fydd y cynllun hwn yn dylanwadu ar y ffordd byddwn yn llunio ein cyllideb.

**Ffeithiau allweddol am Ynys Môn.**
Mae Ynys Môn ychydig dros 700 o gilometrau sgwâr ac yn cynnwys trefi bach, pentrefi a thir fferm yn bennaf. Mae'r 200km o arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o draethau tywodlyd a childraethau creigiog sy'n denu nifer fawr o dwristiaid, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r A55 yn cysylltu'r Ynys gyda gweddill Cymru ac yn brif ffordd gyswllt i Borthladd Caergybi.

Mae bron i 70,000 o bobl yn byw yn Ynys Môn. Mae 61% o oed gwaith ac mae 76.5% ohonynt mewn gwaith - mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan. Mae nifer y boblogaeth sydd o oedran gwaith ac sydd un ai'n rheolwyr, yn gyfarwyddwyr neu'n uwch swyddogion yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae gennym un o'r cyfraddau hunangyflogaeth uchaf yn y wlad - busnesau bach a masnachwyr unigol yn bennaf.

Gellir cyrraedd holl drefi a phentrefi Ynys Môn o fewn hanner awr i brif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Mae ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig yn bwysig. Mae dros dri-chwarter ein plant a dros hanner ein hoedolion yn gallu siarad Cymraeg. Mae diogelu'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth uchel gan y Cyngor.

Mae Ynys Môn yn un o'r lleoedd hapusaf i fyw yng Nghymru. Mewn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol roedd Ynys Môn yn gyntaf drwy Gymru gyfan o ran pa mor fodlon yw pobl gyda'u bywydau'n gyffredinol. O ran hapusrwydd roedd Ynys Môn yn ail drwy Gymru. Mae Ynys Môn hefyd yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru i fyw.

Mae'r Ynys yn lle gwych i fyw, a'n prif flaenoriaeth dros y pum mlynedd nesaf fydd darparu gwasanaethau Cyngor effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau.

Mae'r Ynys wedi ei rhannu'n 11 o wardiau gyda phob un yn cael ei gwasanaethu gan fwy nag un Cynghorydd Sir. Mae 30 o Gynghorwyr i gyd.

**Amcan allweddol y cynllun 5 mlynedd hwn....**

Mae'r ddogfen hon yn gosod Nodau ac Amcanion y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd yn bwynt cyfeirio ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel. Bydd hefyd:

- yn gosod fframwaith i'w ddefnyddio er mwyn cynllunio a gweithredu ein blaenoriaethau;
- yn gosod cyfeiriad i'r ffordd y byddwn yn llunio ein gwariant yng nghyd-destun gostyngiad sylweddol mewn cyllid;
- yn cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro cynnydd y blaenoriaethau a nodwyd.

**Beth ydym am ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf?**

**Ein NOD fydd gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu.**

Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r nodau a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Beth ydym eisiau ei wneud – Amcan 1**

<u>Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.</u>

**Pam ydym eisiau gwneud hyn?**

Mae galluogi trigolion i gyrraedd eu potensial llawn yn dibynnu ar gyfuniad llwyddiannus nifer o ffactorau megis cyfleoedd cyflogaeth, y cymysgedd iawn o sgiliau a hyfforddiant; argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da a mynediad i amgylchedd naturiol ac adeiledig o safon uchel. Byddwn yn gwella amodau ar gyfer trigolion er mwyn iddynt fedru cyflawni eu potensial llawn a gwella ansawdd eu bywydau a'u lles.

Er bod economi Ynys Môn wedi dirywio dros nifer o flynyddoedd gyda nifer o ardaloedd yn gymdeithasol ac yn economaidd ddifreintiedig, mae'r cyflog wythnosol cyfartalog yn uwch (o 8%) na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru. Mae'r nifer o bobl sydd mewn gwaith ar gyfartaledd yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r nifer o bobl oedran gwaith sydd un ai'n rheolwyr, yn gyfarwyddwyr neu'n uwch swyddogion yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae gennym un o'r cyfraddau hunangyflogaeth uchaf yn y wlad – rydym yn arloesol ac yn ddeinamig fel Ynys a hoffem weld hyn yn datblygu ymhellach.

**Sut byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn?**

<u>Swyddi a Chyfleoedd Gwaith</u>

**Byddwn yn gwneud pob ymdrech i wella cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant.**

1. Byddwn yn hyrwyddo Ynys Môn i annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr ynys ac yn defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer datblygu busnesau a swyddi ar yr Ynys.
2. Gweithio â Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru i ddenu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth yn mynd yn eu blaenau.
3. Gwneud ein gorau glas i greu amodau sy'n golygu y gall busnesau lleol ddatblygu a chreu swyddi o safon yn Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwariant y Cyngor yn cefnogi busnesau lleol.
4. Defnyddio cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau newydd i hyrwyddo prentisiaethau a sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion y sgiliau cywir a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer y byd gwaith. Byddwn hefyd yn creu cyfleoedd o fewn y Cyngor i ddatblygu ein staff ein hunain.

<u>Addysg a Sgiliau</u>

**Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.**

5. Parhau â'n rhaglen moderneiddio ysgolion drwy gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig fydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir addysg gynradd ac addysg uwchradd ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gampysau dysgu 3 – 18 oed mewn lleoliadau penodol.
6. Cwblhau'r gwaith ar Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch ac ardaloedd Seiriol a Llangefni.
7. Cynyddu'r niferoedd sy'n ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ddarparu rhaglen fewnol a gynlluniwyd er mwyn adnabod a datblygu arweinwyr ysgolion y dyfodol.
8. Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y cyfleoedd gorau mewn addysg a sgiliau ar gyfer ein pobl ifanc.

Iechyd a Lles

**Byddwn yn creu amodau i unigolion allu gwella eu hiechyd a'u lles.**

9. Annog unigolion i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain drwy hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion.
10. Defnyddio ein hadnoddau, a rhai partneriaid allanol, er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy a thai cyngor a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.
11. Gweithio gyda phartneriaid allanol er mwyn sicrhau y gall pob rhan o'r Ynys gael mynediad i wasanaeth band-eang dibynadwy a chyflym er mwyn hyrwyddo dulliau hyblyg o weithio a galluogi trigolion i gyflawni eu busnes â'r Cyngor ar-lein.

**Beth ydym eisiau ei wneud - Amcan 2**

Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

**Pam ydym ni eisiau gwneud hyn?**

Mae'r Cyngor yn wynebu sawl her gofal cymdeithasol - poblogaeth oedrannus sy'n cynyddu, niferoedd uwch o gleifion â chyflyrau cronig ac achosion cynyddol o ordewdra. Mae costau gofal cymdeithasol yn cynyddu tra bo cyllidebau yn lleihau.

Dros y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf, mae nifer y bobl dros 65 oed wedi tyfu i tua 17,000 [cynnydd o tua 12%]; mae'r cynnydd ar gyfer pobl dros 85 oed yn 16%. Rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau dros gyfnod y cynllun ac fe fydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor gydweithio'n agosach â'r Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector er mwyn hyrwyddo iechyd da drwy gamau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Yn y cyswllt hwn, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu hybiau cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau ataliol sy'n ymateb i anghenion gofal a chymorth yn lleol fydd yn ei dro yn arwain at fwy o annibyniaeth ymysg ein hoedolion.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r ceisiadau am dai addas, yn aml i osgoi digartrefedd, hefyd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor roi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod gwasanaethau cymorth ataliol yn amserol ac yn llwyddiannus mewn perthynas â chadw plant gartref. Bydd angen hefyd i'r Cyngor sicrhau bod mathau cywir o dai yn y lleoedd cywir i fodloni anghenion lleol a bod cymorth addas ar gael ar gyfer y teuluoedd hynny sy'n ei chael hi'n anodd ymateb i newidiadau Diwygio Lles.

**Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?**

Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus

**Cefnogaeth i alluogi unigolion i barhau i fod yn annibynnol**

1. Cytuno ar gynlluniau i ddarparu tai gofal ychwanegol yng nghanol, gogledd a de-ddwyrain yr Ynys.
2. Datblygu modelau hyblyg o lety a chymorth ar gyfer unigolion sydd ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl er mwyn hwyluso byw'n annibynnol yn ein cymunedau.
3. Sicrhau bod y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn cydweithio er mwyn darparu cefnogaeth 24/7 er mwyn galluogi unigolion i aros yn eu cartrefi neu i ddychwelyd i'w cartrefi yn dilyn cyfnod yn yr Ysbyty.
4. Sicrhau bod hybiau cymunedol ar gael ar draws yr Ynys er mwyn cefnogi oedolion hŷn i allu parhau i fod yn annibynnol, lleihau unigedd, parhau i fod yn actif a gwella lles personol.
5. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n dioddef o ddementia.

<u>**Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant**</u>

**Gwasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd.**

6. Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol cadarn er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi er mwyn lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
7. Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cydlynu'n effeithiol.
8. Sicrhau bod darpariaeth o dai addas ar gael er mwyn atal digartrefedd.
9. Mynd i'r afael ag effeithiau Diwygio Lles drwy sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu'r risgiau mwyaf.
10. Hyrwyddo gwasanaeth Teulu Môn ar gyfer holl deuluoedd yr Ynys.

**Beth ydym eisiau ei wneud - Amcan 3**:

<u>Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.</u>

**Pam ydym ni eisiau gwneud hyn?**

Mae amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr Ynys yn hanfodol i'r sector twristiaeth. Mae angen diogelu ac ehangu'r nodweddion unigryw hyn a gwneud y mwyaf o'u gwerth fel adnoddau cymdeithasol-economaidd. Yn y cyswllt hwn, bydd angen cydbwyso effeithiau datblygiadau mawr arfaethedig ar yr amgylchedd lleol a'u lleihau a'u lliniaru.

Bydd datblygiadau'r Cyngor ei hun yn cael eu dylanwadu gan ystyriaethau ariannol a chynaliadwyedd mwy hirdymor. Mae'r sefyllfa ariannol anodd bresennol yn debygol o barhau a bydd yn gyrru'r achos dros newid. O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor ystyried a fydd yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ar eu ffurf gyfredol. Bydd cyfraniad ein rhanddeiliaid a'n parodrwydd i wrando yn hanfodol yn y cyd-destun hwn.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i chyfraniad i hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr Ynys.

**Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?**

<u>Datblygu a Hyrwyddo</u>

**Datblygu'r Ynys mewn modd sensitif wrth ddiogelu ei hasedau naturiol.**

1. Hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ganddi i'w gynnig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
2. Gwneud yn siŵr bod penderfyniadau Cynllunio yn cefnogi nodau ac amcanion y Cynllun hwn.
3. Cynyddu cyfraddau ailgylchu i 70% a mynd â llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.
4. Lleihau risg llifogydd mewn ardaloedd sy'n peri pryder.
5. Dod yn fwy effeithlon o ran ein defnydd o ynni a lleihau ein hallyriadau carbon drwy ganolbwyntio ar Ganolfannau Hamdden, Ysgolion a goleuadau stryd.

<u>Trawsnewid</u>

**Gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau bod newidiadau arloesol yn gallu digwydd.**

6. Gweithio gyda chymunedau er mwyn cadw asedau pwysig ar agor.
7. Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Cyngor a hyrwyddo'r defnydd ohoni mewn cymunedau a sefydliadau lleol.
8. Newid y modd y byddwn yn darparu gwasanaethau drwy weithio gydag eraill i adnabod modelau eraill ar gyfer eu darparu.
9. Defnyddio TG er mwyn trawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gost effeithiol ac yn effeithlon.

**Cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae'r gweithredoedd a restrir uchod yn tynnu sylw at y ffaith y bydd penderfyniadau a wneir heddiw yn gwella bywydau a chyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Bydd moderneiddio ysgolion yn arwain at well safonau ac amgylcheddau dysgu cynaliadwy a fydd yn elwa plant ein dyfodol.
- Bydd ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol yn galluogi oedolion bregus i fod yn fwy annibynnol a bydd profiadau plentyndod niweidiol yn cael eu lleihau.
- Bydd sicrhau bod mwy o dai cynaliadwy ar gael mewn lleoliadau penodol yn creu'r amodau priodol i deuluoedd allu llwyddo.
- Gall annog ein dinasyddion i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol arwain at well safon o iechyd.

**Sut allwch chi chware eich rhan?**

Bydd angen i'r Cyngor gydweithio â dinasyddion, cymunedau a phartneriaid er mwyn gwireddu'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun hwn. Bydd hyn yn creu'r bartneriaeth angenrheidiol er mwyn:

- mynd i'r afael â'r pwysau sydd ar wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn o gyni ariannol;
- annog cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau penodol;
- cytuno ar fodelau amgen er mwyn gallu darparu gwasanaethau penodol.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn nodi sut gall dinasyddion, cymunedau a phartneriaid ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

- Sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn iddynt allu gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir iddynt tra byddant yn yr ysgol.
- Gwirfoddoli i fod yn rhan o'r newid yn enwedig mewn perthynas â helpu pobl hŷn yn eich cymuned i fyw'n annibynnol.
- Annog y defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, diwylliannol a threftadaeth.
- Annog eich ffrindiau a'ch teulu i ailgylchu ac i ddefnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithlon.
- Manteisio ar y cyfle i gysylltu â'r Cyngor a'i wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.
- Defnyddio'r adnoddau naturiol ar yr Ynys ar gyfer gweithgareddau er mwyn gwella llesiant personol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i gynnig prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Annog busnesau lleol i gydweithio er mwyn ymgeisio am gontractau mwy gan y Cyngor.

**Sut byddwn ni'n cyflawni'r pethau hyn?**

Mae agwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau wedi'i datblygu. Byddwn yn moderneiddio ac yn newid modelau darparu gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o safon uchel ar gael mewn modd cost effeithiol. Darperir y gwasanaethau hyn yn newis iaith y dinesydd.

Bydd gwaith y Cyngor yn parhau i fod yn seiliedig ar gyfres o werthoedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau a'r ymddygiadau ar bob lefel ar draws y sefydliad.

- Proffesiynol ac wedi'i redeg yn dda
- Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig
- Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
- Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl
- Wedi ymrwymo i Bartneriaeth
- Cyflawni

**Sut byddwn yn sicrhau y bydd y cynllun hwn yn cael ei wireddu?**

Bydd y Cyngor yn:

- sefydlu trefniadau cadarn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol, sicrhau bod meysydd blaenoriaeth yn cael eu gwarchod tra'n cydnabod y bydd trawsnewid gwasanaethau a darpariaeth arloesol yn hanfodol er mwyn sicrhau hyfywedd y Cyngor yn y tymor hir;
- defnyddio ein fframwaith rheoli perfformiad integredig gan gysylltu blaenoriaethau â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol;
- casglu data a defnyddio gwybodaeth er mwyn monitro perfformiad – cyhoeddir adroddiadau perfformiad ar ein gwefan;
- parhau i ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cynnwys yn y ffordd y gwneir penderfyniadau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **4 ac 18 MEDI 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2017/18)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio cyntaf y flwyddyn ariannol 2017/18.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

***1.3.1*** *Ailwerthusir targedau cyffredinol yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi data cymharol, gan roi pwyslais ar wella ddangosyddion yn y chwarteli is ac is-ganolrifol.*

***1.3.2*** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 2.*

***1.3.3*** *Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch*

***1.3.4*** *Y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac atgoffa'r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.*

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| | | |
|---|---|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 29 Awst ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylchedd** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2017/18 a Cherdyn Sgorio | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2016/17 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2017 ac a dderbyniwyd ganddo.) | | |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2017/18)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo'n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu'r newidiadau hynny sydd wedi cael eu gwneud i systemau ac arferion traddodiadol o fewn y Cyngor. Penderfynwyd pa ddangosyddion i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y gwnaed yn y gorffennol) mewn gweithdy. Cynhaliwyd y gweithdy hwnnw eleni ar 26 Gorffennaf 2017 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch1 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Hon yw'r bumed flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA /y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar ddarpariaeth weithredol.

**2.2** Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd i gynnwys y canlynol yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni -

**2.2.1.1** ychwanegu'r dangosyddion perfformio MAC newydd (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) a gesglir bob chwarter fel y gellir eu cynnwys yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad;

**2.2.1.2** cynnwys dadansoddiad fesul Gwasanaeth o rai o'r dangosyddion Rheolaeth Ariannol fel atodiad i'r adroddiad hwn;

**2.2.1.3** mae'r rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Pobl bellach yn cynnwys dadansoddiad o gyfraddau salwch yn yr ysgolion uwchradd a chynradd fel yr argymhellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli salwch; ac

**2.2.1.4** Mae'r rhan Gofal Cwsmer ar ymatebion i gwynion o fewn amser bellach wedi'i rhannu'n ddau, Cwynion Corfforaethol a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2.3 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.3.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion a amlinellwyd ac y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm

Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Fodd bynnag, gosodwyd y targedau ar eu cyfer cyn cyhoeddi'r data cymharu cenedlaethol ar 13 Medi.

**2.3.2** Ar ddiwedd Ch1 mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 3 dangosydd yn tanberfformio ac yn dangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed ar gyfer y flwyddyn.

**2.3.3** Mae un o'r dangosyddion hynny yn y Gwasanaethau Plant ac mae'n dangos yn Goch yn erbyn y targed -

(i) 07) SCC/025 – % yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. Ch1 – 59.93%, COCH. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 82.69% ar gyfer yr un cyfnod yn 2016/17. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch4 2016/17.

Gwelwyd dirywiad cyson yn y DP hwn, a hynny oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae nifer o ymweliadau wedi bod yn hwyr oherwydd y cynnydd hwn yn y galw. Yn anffodus, mae anawsterau staffio yn y gwasanaeth yn ystod Ch1 wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i wneud yr ymweliadau o fewn yr amserlenni cydnabyddedig.

**Lliniaru** – i wella'r safonau hyn ar gyfer Ch2 gofynnwyd i bob tîm gwaith cymdeithasol gynnal yr ymweliadau hyn.

**2.3.4** Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion yn dangos tanberfformiad -

(i) 02) Ll/18b: Canran y gofalwyr sy'n gofalu am oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a dderbyniodd asesiad neu adolygiad o'i hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn. Mae'r DP hwn yn dangos yn AMBR ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 88.6% o gymharu â tharged o 93%. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn well na'r perfformiad yn Ch1 2016/17 a oedd yn 81.6%

Mae'r Tîm Gofalwyr yn dîm bychan o 2. Gyda chefnogaeth gan y tîm gofal cymdeithasol roedd perfformiad da hyd at ddiwedd 2016/17. Er bod perfformiad wedi dirywio ychydig yn Ch1 2017/18 bydd cymorth ychwanegol gan y tîm ehangach yn cael ei weithredu dros y flwyddyn wrth i'r blaenoriaethau ganiatáu.

***Lliniaru*** **–** i wella materion yn ystod Ch2 16/17 bydd y gwasanaeth yn -

- Parhau i sicrhau cefnogaeth i'r Tîm Gofalwyr fel sy'n briodol. Byddai'r gwasanaeth yn dymuno nodi y bydd perfformiad yn amrywio ychydig yn dibynnu ar ffactorau tymhorol. E.e pwysau gofal heb ei drefnu ac ati

**2.3.5** Mae un dangosydd newydd o fewn y Gwasanaeth Tai yn Goch ar y cerdyn sgorio ar gyfer Ch1 -

(i) 28) PAM/015 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). COCH, 221.7 o ddyddiau yn erbyn targed o 200.

Mae'r dangosydd hwn eisoes yn well na'r canlyniad yn 2016/17 a oedd yn 238.8 diwrnod ar gyfer darparu GCA.

***Lliniaru*** – Bydd y Gwasanaeth yn adolygu'r modd o gasglu'r dangosydd hwn yn ystod Chwarter 2 i ddeall sut orau i wella'r perfformiad cyfredol. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod pob cais GCA yn cael ei fonitro fel y disgrifir yn y canllawiau cenedlaethol. Mae'r broses GCA yn troi o gwmpas anghenion yr unigolyn ac mewn llawer o achosion, mae hyn yn cymryd amser i gytuno ar yr atebion mwyaf priodol, gan sicrhau gwerth am arian hefyd. Mae cymaint o asiantaethau gwahanol yn ymwneud â phob cais GCA, gan y Therapydd Galwedigaethol, y Gwasanaethau Technegol, Gofal a Thrwsio, cyflenwr addasiadau a chontractwyr. Gall pob un rhan ohono achosi oedi yn yr amser a gymerwyd o'r cyswllt cychwynnol â'r Cyngor, tan y diwrnod y mae'r gwaith wedi'i lofnodi fel bod wedi'i gwblhau. Mae'r gwasanaethai Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod angen adolygu'r broses GCA, gyda golwg ar leihau'r amser a gymerir i gyflwyno GCA.

**2.3.6** Er bod y dangosyddion sy'n weddill ar gyfer Ch1 i gyd yn **WYRDD** neu'n **FELYN** o fewn yr adran rheoli perfformiad, dylid nodi nad yw hyn yn golygu bod ein safle cenedlaethol wedi gwella ar draws pob maes.

**2.3.7** Yn seiliedig ar ganlyniadau chwartel cychwynnol 16/17 mae'n ymddangos bod 60.9% o'r dangosyddion cymharu sydd a wnelont â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol/Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi gwella ac mae ein safle cenedlaethol wedi codi o ddeunawfed yn 2014/15, i ddeuddegfed yn 2015/16 ac yn awr i seithfed yn 2016/17.

**2.3.8** Gellir cael dadansoddiad pellach o'r perfformiad cyffredinol drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir cyn diwedd mis Hydref ac yr adroddir arno i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi 2017.

**2.3.9** Fel y trafodwyd yn yr Adroddiad ar Gerdyn Sgorio Ch4 am 2016/17, 'roedd llawer iawn o'r dangosyddion wedi cyrraedd eu targedau ar gyfer 2016/17 ac 'roedd hyn yn galonogol. Adlewyrchir hyn yn y gwelliant yn ein safle cenedlaethol. Os ydym i symud ymlaen a gwella ein statws fel Cyngor sy'n cyflawni mae'r UDA yn argymell -


**2.3.9.1** Ailwerthuso targedau yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi'r data cymharu cenedlaethol gan roi pwyslais ar wella ddangosyddion yn y chwarteli is ac is-ganolrifol.

**2.3.9.2** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Chwarter 2.

**2.3.10** Nid oes diweddariad ar gynnydd y byrddau rhaglen / prosiect yn ystod y chwarter hwn oherwydd ailsefydlu'r byrddau ar gyfer 2017/18. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiadau ar y Cerdyn Sgorio ym mhob adroddiad sydd ar ôl ar gyfer 2017/18.

## 2.4 RHEOLI POBL

**2.4.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad cyfraddau salwch y Cyngor *(dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan Rheoli Pobl)* ar ddiwedd Ch1, sef 2.23, yn dangos gwelliant pellach o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17 pan oedd yn 2.69. Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf yn ei awgrymu) yn cyfateb i 10.18 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol (ALlC).




Tabl 1

**2.4.2** Fel y trafodwyd yn yr adroddiad ar Ch4, mae targedau gwasanaeth wedi eu nodi ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar dueddiadau 2016/17.Gellir gweld y rhain eto yn Nhabl 2 isod:

| Gwasanaeth | Targed 2017/18 |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 12.5 |
| Gwasanaethau Plant | 12.5 |
| Busnes y Cyngor | 8 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 10 |
| Tai | 10 |
| Dysgu | 9.5 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 7 |


| | |
|---|---|
| Adnoddau | 7 |
| Uwch Reolwyr | 7 |
| Trawsnewid | 7 |

Tabl 2

**2.4.3** **Pwynt i'w nodi –** Os llwyddir i gyrraedd pob targed gwasanaeth uchod, bydd y Cyngor yn cyrraedd ei darged absenoldeb salwch o 9.75 diwrnod fesul gweithiwr ALlC. Yn seiliedig ar ffigyrau 16/17, byddai hyn yn parhau i olygu bod y Cyngor yn perfformio'n well na'r cyfartaledd trwy Gymru, sef 10.26 diwrnod.

**2.4.4** Mae perfformiad Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch1 yn dangos bod un gwasanaeth yn GOCH neu'n AMBR o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

**2.4.4.1** Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – COCH – 2.78 o ddyddiau salwch fesul ALlC (Targed 1.34).Y prif reswm dros y dirywiad yn y perfformiad salwch yn Ch1 yw nifer o achosion o salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Hamdden, gan arwain at golli cyfanswm o 218 o ddyddiau yn y cyfnod o gymharu â'r cyfanswm o 298 o ddyddiau a gollwyd yn y gwasanaeth, neu 46% o lefelau salwch y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod.




Tabl 3


**2.4.5** Mae'r Cerdyn Sgorio bellach yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y lefelau salwch yn yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (eitemau 4a i 5c) ac mae'r ddau yn WYRDD ar hyn o bryd.

**2.4.6** Mae cysylltiad rhwng cyfraddau salwch a gwaith 'rheoli' salwch. Rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff â pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio)*.

**2.4.7** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r ymarfer hwn ar draws ei wasanaethau ond yn ystod Ch1 mae nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gwblhawyd o fewn yr amserlen (67%) wedi gostwng yn sylweddol is na'r targed o 80% ac mae bellach yn dangos yn GOCH (Tabl 4). Mae cyfanswm y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd hefyd yn isel, sef 85% o gymharu â tharged o 95%.

**2.4.8** Yn ystod Ch1, y gwasanaethau a fethodd â chyrraedd y Targed Corfforaethol o 80% o fewn yr amserlen oedd y Gwasanaethau Plant (33%), Adnoddau (63%), Dysgu (64%), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (72%) a'r Gwasanaethau Oedolion (74%).

**2.4.9** Yr unig wasanaeth a oedd yn dangos yn GOCH o ran cyfanswm y cyfweliadau a gynhaliwyd (o fewn ac y tu allan i'r amserlen) oedd y Gwasanaeth Dysgu, gyda 79% wedi'u cwblhau. Mae'r gwasanaethau sy'n weddill o fewn 5% o'r targedau.




Tabl 4

**2.4.10** Mae'r ffigurau ar gyfer Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) yn Ch1 yn 78%. Mae hyn yn llawer gwell na'r perfformiad yn Ch4 16/17 a oedd yn 57% (nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ysgolion). Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi nodi bod ansawdd y cyfarfodydd yn parhau i wella'n fawr. Atgoffwyd gwasanaethau o'r angen i gynnal CAP a bydd hwn yn faes i roi sylw arbennig iddo yn y panelau herio yn 2017/18.

***2.4.11 Mae'r UDA yn argymell felly -***

***2.4.11.1*** *Parhau gyda'r panelau herio salwch rheolaidd, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

**2.5 GWASANAETH CWSMER**

**2.5.1** Eleni defnyddir yr un dangosyddion ag yn 2016/17 ond mae'r data wedi ei rannu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn edrych ar ddangosyddion sy'n ymwneud â'r Siarter Gwasanaeth Cwsmer a'r llall yn edrych ar y Newid i Wasanaethau Digidol.

**2.5.2** Yn ystod Ch1, defnyddiwyd technoleg ApMôn i roi gwybod am 567 o faterion unigol (gan gynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 85% o'r rhain drwy'r wefan, sef lefel sy'n debyg i Ch4 16/17 pan ddaeth 87% drwy'r wefan. Credir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu wrth i ragor o ffurflenni gael eu hychwanegu at y wefan. Yn anffodus, mae'r cyflenwyr yn parhau i fethu rhoi manylion ynghylch faint o weithiau y mae ApMôn wedi cael ei lawrlwytho.

**2.5.3** Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd cynnydd o 33k yn nifer yr ymweliadau unigryw yn ystod Ch1 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (166k yn 17/18 a 134k yn 16/17). Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi arwain at gyfanswm o 21k o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ein dilyn ni, sef 9k o ddilynwyr ar Facebook a 12k o ddilynwyr ar Twitter.

**2.5.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, erbyn diwedd Ch1 cafwyd 20 o gwynion. Mae pob un o'r cwynion yr oedd rhaid ymateb iddynt erbyn diwedd Ch1 (13 o gwynion) wedi cael ymateb. O'r cwynion hyn cafodd 5 eu cadarnhau'n llawn (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [2], Adnoddau [2]) ond ni chafodd y 12 sy'n weddill eu cadarnhau.

**2.5.5** Roedd 2 gŵyn Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant [2]) a 17 gŵyn Cam 1 (Gwasanaethau Plant [15], Gwasanaethau Oedolion [2]) yn chwarter 1. Roedd cyfanswm o 53% o gwynion wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen ond ymatebwyd i 9 yn hwyr (Gwasanaethau Plant [8] a Gwasanaethau Oedolion [1]). Er bod Gwasanaethau Plant wedi methu ag anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen ar gyfer 8 o'r 15 o gwynion Cam 1, cafwyd trafodaeth gyda 12 o'r 15 (80%) o achwynwyr o fewn yr amserlenni.

**2.5.6** Ar ddiwedd Ch1 mae'r ffigyrau'n dangos yr ymatebwyd i 80% o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen, a hynny o gymharu â 77% ar ddiwedd 2016/17. Cafwyd cyfanswm o 220 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn Ch1 ac roedd 34 o'r ymatebion hwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sef 27% ohonynt (21% o'r 42 a gafwyd), y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – 21% (19% o'r 37 a gafwyd) a'r Gwasanaeth Adnoddau – 15% (14% o'r 37 a gafwyd).

**2.5.7** Unwaith eto, mae'r Ymarfer Siopwr Cudd (Eitemau 11-14 ar y cerdyn sgorio) wedi ei raglennu i ddigwydd yn Ch3. Cynhelir yr ymarferiad unwaith eto gan y Grŵp Tenantiaid Ymgynghorol. Adroddir ar y casgliadau a'r argymhellion yma yn yr adroddiad Ch4.

***2.5.8 Mae'r UDA yn argymell felly -***

> ***2.5.8.1*** *Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac y dylid atgoffa'r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn amserlenni.*

## 2.6 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.6.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 yn £2.16m. Bydd £3.090m o'r swm hwn ar gyllidebau gwasanaethau, er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o danwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yn debyg i 2016/17 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir i Gyllid Corfforaethol danwario o £0.235m a rhagwelir i'r Dreth Gyngor sy'n cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor i gasglu gwarged o £0.695m. Felly, gostyngir y gorwariant cyffredinol i £2.160m. Rhagwelir y bydd lefel y gorwariant oddeutu 1.71% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith lefel y gorwariant ar falansau cyffredinol petai'n digwydd mewn gwirionedd. Yn hytrach na chyllido hyn yn gyflawn neu'n rhannol, dewis arall fyddai rhyddhau unrhyw gronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oes mwyach eu hangen neu nad oes angen rhoi blaenoriaeth iddynt. Fodd bynnag, rhaid defnyddio rhai cronfeydd wrth gefn clustnodedig i'w dibenion penodol.

**2.6.2** Dylid nodi bod chwarter 1 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf a'r contract newydd ar gyfer cynnal priffyrdd wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**2.6.3** Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch1' sydd yn cael ei drafod yn cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith ar 18 Medi ac y Panel Sgriwtini Cyllid ar 29 Medi.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

**3.1.1** Ailwerthuso targedau cyffredinol yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi data cymharol, gan roi pwyslais ar wella ddangosyddion yn y chwarteli is ac is-ganolrifol.

**3.1.2** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 2.

**3.1.3** Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch

**3.1.4** Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac y dylid atgoffa'r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2017/18

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↓ | 20 | 18 | 71 | 59 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 2 | - | 5 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | → | 7 | - | 25 | 21 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | 80% | 93% | 64% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 53% | 80% | 63% | - |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 37 | - | 191 | 261 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 17 | - | 54 | 53 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↓ | 160 | - | 566 | 712 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 80% | 77% | 67% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 220 | - | 1037 | 854 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | Gwyrdd / Green | ↑ | 12% | 15% | 13% | 12% |
| 11) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 78% | - | 67% | - |
| 12) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 100% | - | 100% | - |
| 13) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 83% | - | 77% | - |
| 14) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | Melyn / Yellow | - | 87% | - | 90% | - |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 15) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | | - | - | - | - |
| 16) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 567 | - | 1k | - |
| 17) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 4k | - | 10k | - |
| 18) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | Gwyrdd / Green | → | 21k | 21k | 21k | - |
| 19) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | Gwyrdd / Green | ↑ | 167k | 541k | 541k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2295 | - | 2258 | 2310 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1268 | - | 1250 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.23 | 2.45 | 9.78 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.94 | - | 4.72 | 4.89 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.29 | - | 5.06 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | - | 2.47 | 2.5 | - | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.16 | - | - | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.31 | - | - | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | - | 1.92 | 2.5 | - | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.04 | - | - | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.88 | - | - | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Coch / Red | ↓ | 67% | 80% | 78% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↓ | 85% | 95% | 91% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 80% | 57% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 10% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | - | - | - | 80% | 80% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 91.40% | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↓ | 18 | - | 15 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | - | £33,103,030 | - | - | £34,252,570 | -29.64% |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | - | £126,157,000 | - | - | £128,317,000 | 1.71% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | Coch / Red | - | £33,381,000 | - | - | £23,064,000 | -30.91% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | - | £2,444,000 | - | - | £1,719,500 | -29.64% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | - | -£5,312,900 | -£5,546,790 | 4.40% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | - | £8,089,000 | - | - | £9,094,000 | 12.42% |
| 07) Chost benthyca | - | - | £4,257,000 | - | - | £4,095,000 | -3.81% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Gwyrdd / Green | - | - | 81.82% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn/Yellow | - | - | 98.60% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn/Yellow | - | - | 98.50% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Ambr / Amber | - | - | 96.40% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 100.98% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result | Chwartel 16/17 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 20.22 | 22 | 20.51 | 20.3 | - |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | 88.6 | 93 | 94.4 | 90.8 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.16 | 90 | 90.48 | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.32 | 1.5 | 6.05 | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↓ | 40 | 40 | 62.6 | - | - |
| 06) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.64 | 62 | 33.3 | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↓ | 59.93 | I'w gadarnhau / TBC | 79.35 | 82.79 | - |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | - | - | 88 | I'w gadarnhau / TBC | 89.17 | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | - | - | 5.68 | I'w gadarnhau / TBC | 17.53 | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 0 | 8 | 5.04 | - | - |
| 11) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | - | ↓ | 287 | I'w gadarnhau / TBC | 266 | - | - |
| 12) Presenoldeb – Cynradd (%) | - | ↓ | 94.8 | - | 94.8 | 95.1 | - |
| 13) Presenoldeb – Uwchradd (%) | - | ↑ | 94.6 | - | 94.6 | 94.5 | Uchaf / Upper |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 15) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | - | - | - | - | 58.8 | 56.9 | - |
| 17) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↑ | 88.9 | 90.1 | 87.6 | 84.5 | Canrif Uchaf / Upper Median |
| 18) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↑ | 91.4 | 91 | 89.4 | 91.8 | Uchaf / Upper |
| 19) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | - | ↑ | 85.8 | 88.4 | 84.7 | 86.2 | Isaf / Lower |
| 20) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 68.5k | 68k | 288k | 289k | Uchaf / Upper |
| 21) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 68k | 65k | 272k | 284k | - |
| 22) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | - | 0 | 0 | 0 | - | - |
| 23) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Melyn / Yellow | - | 89.58 | 92 | 90.2 | 89.5 | - |
| 24) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Gwyrdd / Green | - | 81.77 | 80 | 80.1 | 74.6 | - |
| 25) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | - | 19.3 | 23 | 28 | 33.7 | - |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | - | - | 16 | - | - | - | - |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | - | 0 | n/a | - | - | - |
| 28) PAM/015 - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Coch / Red | - | 221.7 | 200 | - | - | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Gwyrdd / Green | - | 95.79 | 94 | 93.4 | 95.1 | - |
| 30) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | - | 100 | 100 | 97.31 | 98.5 | - |
| 31) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | - | 75.74 | 67 | 65.79 | 59.5 | Uchaf / Upper |
| 32) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | - | 0.5 | 5 | 6.6 | 16.9 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 33) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | 10 | 10.1 | 13.5 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 34) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | - | 26k | 26k | 113k | 132k | - |
| 35) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Gwyrdd / Green | - | 116k | 103k | 464k | 458k | Isaf / Lower |
| 36) PAM/023 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | - | 98 | 80 | 98 | - | Uchaf / Upper |

**ATODIAD B**

## Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 1

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch1 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig 2017/18 | Ch1 2017/18 Amrywiad | Ch1 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/ (Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | % |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei dirprwyo i'r Ysgolion | 43,581,400 | 11,845,407 | 11,845,407 | 0 | 43,581,400 | 0 | 0.00% |
| Addysg Ganolog | 3,188,490 | 1,005,109 | 1,042,743 | 37,634 | 3,806,490 | 618,000 | 19.38% |
| Diwylliant | 1,312,790 | 450,131 | 505,847 | 55,716 | 1,373,790 | 61,000 | 4.65% |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,497,160 | 6,029,748 | 6,131,097 | 101,349 | 22,796,176 | 299,016 | 1.33% |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,001,240 | 2,127,977 | 2,554,008 | 426,031 | 10,107,240 | 2,106,000 | 26.32% |
| | | | | | | | |
| **Tai** | 1,026,820 | 479,465 | 436,735 | (42,730) | 1,026,820 | 0 | 0.00% |
| | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,420,800 | 1,905,334 | 1,978,341 | 73,007 | 6,423,800 | 3,000 | 0.05% |
| Eiddo | 1,025,340 | (388,554) | (416,478) | (27,924) | 992,340 | (33,000) | -3.22% |
| Gwastraff | 6,303,040 | 1,634,256 | 1,597,039 | (37,217) | 6,333,040 | 30,000 | 0.48% |
| | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,958,800 | 740,607 | 581,505 | (159,102) | 2,038,800 | 80,000 | 4.08% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,141,750 | 472,667 | 470,796 | (1,871) | 2,127,750 | (14,000) | -0.65% |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,221,570 | 274,271 | 315,866 | 41,595 | 1,221,570 | 0 | 0.00% |
| TGCh | 1,689,790 | 491,205 | 960,595 | 469,390 | 1,789,790 | 100,000 | 5.92% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 861,250 | 156,270 | 159,945 | 3,675 | 861,250 | 0 | 0.00% |
| | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,755,760 | 773,455 | 989,850 | 216,395 | 2,787,760 | 32,000 | 1.16% |
| **Busnes y Cyngor** | 1,517,480 | 330,800 | 380,609 | 49,809 | 1,567,480 | 50,000 | 3.29% |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch1 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig 2017/8 | Ch1 2017/18 Amrywiad | Ch1 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/(Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | % |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 1,665,860 | 612,732 | 561,741 | (50,991) | 1,524,860 | (141,000) | -8.46% |
| | | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 1,009,250 | 255,899 | 192,971 | (62,928) | 908,250 | (101,000) | -10.01% |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **108,178,590** | **29,196,779** | **30,288,617** | **1,091,838** | **111,268,606** | **3,090,016** | **2.86%** |
| | | | | | | | |
| **Cyllid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Ardollau | 3,334,733 | 831,392 | 831,392 | 0 | 3,334,733 | 0 | 0.00% |
| Cyllido Cyfalaf | 8,149,332 | 2,029,586 | 2,029,586 | 0 | 7,913,846 | (235,486) | -2.89% |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall | 1,667,135 | 416,784 | 416,784 | 0 | 1,667,135 | 0 | 0.00% |
| Arbedion Corfforaethol | (232,710) | (58,177) | 0 | 58,177 | (82,710) | 150,000 | |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogi CRT | (621,950) | 0 | 0 | 0 | (621,950) | 0 | 0.00% |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,681,870 | 686,637 | 686,155 | (482) | 5,532,870 | (149,000) | -2.62% |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **17,978,410** | **3,906,222** | **3,963,917** | **57,695** | **17,743,924** | **(234,486)** | **-1.30%** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb 2017/18** | **126,157,000** | **33,103,001** | **34,252,534** | **1,149,533** | **129,012,530** | **2,855,530** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (23,002,000) | | | | (23,002,000) | 0 | 0.00% |
| Y Dreth Gyngor | (32,941,000) | | | | (33,288,879) | (347,879) | 1.06% |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (564,000) | | | | (911,480) | (347,480) | 61.61% |
| Grant Cymorth Refeniw | (69,650,000) | | | | (69,650,000) | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm Cyllid 2017/18** | **(126,157,000)** | | | | **(126,852,359)** | **(695,359)** | **0.55%** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **33,103,001** | **34,252,534** | **1,149,533** | **2,160,172** | **2,160,172** | **1.71%** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEDI 2017** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2018/19 – 2020/21** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **PENNAETH Y GWASANAETH:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Strategol Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| | **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol<br>Atodiad 2 - Amcangyfrif 3 blynedd manwl<br>Atodiad 3 – Rhagdybiaethau’r Cynllun |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

**ATODIAD 1**

## CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2018/19 – 2020/21

### 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r arian sydd ar gael.

**1.2** Mae rhagweld y dyfodol yn anodd mewn unrhyw amgylchiadau ond, ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r economi, goblygiadau'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r newid ym mholisi economaidd y Llywodraeth yn dilyn yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 2017.

**1.3** Dylid nodi hefyd bod dyddiad prif ddatganiad Llywodraeth y DU ar y gyllideb wedi symud o'r dyddiad traddodiadol ym mis Mawrth i fis Tachwedd a'i fod yn disodli Datganiad yr Hydref. Yna, ceir Datganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth 2018. Bydd y gyllideb ym mis Tachwedd yn nodi lefelau gwariant y Llywodraeth, yn cynnwys y gyllideb y bydd Llywodraeth Cymru'n ei derbyn a bydd hynny ar ôl dyddiad cyhoeddi'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ei gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer 10 Hydref 2017.

**1.4** Mae'r cynllun yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau y gwyddys amdanynt ac yn gwneud rhagdybiaethau o ran y prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a'r galw am wasanaethau). Mae'n cymryd i ystyriaeth hefyd unrhyw bwysau ar y gyllideb sy'n codi o Gynllun Corfforaethol y Cyngor am 2017-2022.

### 2. STRATEGAETH CYLLIDEB Y CYNGOR HYD YMA

**2.1** Dechreuodd economi Prydain ddirywio yn dilyn yr argyfwng bancio yn 2008 a dechreuodd y Llywodraeth bresennol ei rhaglen o gyni ariannol yn 2010. Er bod hyn wedi golygu gostyngiad yn lefel y cyllid a rydd y llywodraeth ganolog i awdurdodau lleol yng Nghymru, parhaodd y cyfraniad a gafwyd i dyfu hyd 2013/14, er bod y twf yn annigonol i gwrdd â'r holl bwysau cost ac roedd yn cynrychioli toriad gwirioneddol mewn cyllid.

**2.2** O 2014/15 i 2016/17, mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiadau ariannol yn y grant y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru er i'r sefyllfa newid yn 2017/18 pan dderbyniodd y Cyngor setliad a oedd ychydig yn uwch mewn termau ariannol. Dangosir hyn yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Y Newid yng Nghyllid Allanol Cyfun y Cyngor 2014/15 – 2017/18**

| Blwyddyn | GCR £ 'm | Trethi Annomestig £ 'm | Cyfanswm CAC £ 'm | % y Newid |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 78.74 | 22.03 | 100.77 | - |
| 2014/15 | 75.11 | 22.04 | 97.15 | -3.6% |
| 2015/16 | 71.70 | 21.99 | 93.69 | -3.6% |
| 2016/17 | 70.62 | 21.31 | 91.93 | -1.9% |
| 2017/18 | 69.65 | 23.00 | 92.65 | +0.8% |

**2.3.** Mae'r ffigyrau a ddangosir uchod yn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y fformiwla ddosbarthu, unrhyw grantiau a ddygwyd i mewn i'r setliad, unrhyw newidiadau mewn cyfrifoldebau all godi oherwydd bod arian yn dod i mewn neu'n mynd allan o'r setliad, newidiadau yn y sail dreth ac unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, waeth beth yw'r rheswm am y newid, dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor wedi ei dderbyn bob blwyddyn i gyllido cost gwasanaethau.

**2.4** Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad cyffredinol yn y CAC o 8.1% rhwng lefel 2013/14 a lefel 2017/18.

**2.5.** Er mwyn lliniaru effaith y golled hon, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfradd uwch na chwyddiant dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, oherwydd bod cyfran y CAC i'r Dreth Gyngor oddeutu 3: 1, mae pob gostyngiad o 1% yn y CAC yn golygu bod angen cynnydd o 3% yn y Dreth Cyngor er mwyn sicrhau'r un lefel o gyllid. Mae lefelau'r Dreth Gyngor wedi cynyddu fel a ganlyn ers 2013/14:-

**Tabl 2**
**Cynnydd yn y Dreth Gyngor ers 2013/14**

| Blwyddyn | Cyfanswm Debyd y Dreth Gyngor £ 'm | Band D Cyfwerth £ | % y Newid |
|---|---|---|---|
| 2013/14 | 28.48 | 939.15 | - |
| 2014/15 | 29.47 | 981.41 | + 4.5% |
| 2015/16 | 30.96 | 1,025.57 | + 4.5% |
| 2016/17 | 32.11 | 1,061.46 | + 3.5% |
| 2017/18* | 33.51 | 1,088.01 | +2.5% |
| *Mae Debyd y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 yn cynnwys premiwm 25% ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am dymor hir. Mae hyn yn cyfateb i ddebyd ychwanegol o £0.56m ar y Dreth Gyngor. | | | |

**2.6** Mae'r gostyngiad yn y CAC a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi newid y cydbwysedd rhwng swm yr arian a dderbynnir mewn grant gan y Llywodraeth a'r swm a gynhyrchir drwy drethi lleol. Mae'r arian a gynhyrchwyd trwy'r Dreth Gyngor yn 2016/17 yn 26%, o'i gymharu â 22% yn 2013/14. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod: -

**Tabl 3**
**Cyllid y Cyngor ers 2013/14**

| Blwyddyn | Cyfanswm CAC £ 'm | Cyfanswm Debyd y Dreth Gyngor £ 'm | Cyfanswm Cyllid £ 'm | % Y Dreth Gyngor i Gyfanswm y Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 100.77 | 28.48 | 129.25 | 22.0% |
| 2014/15 | 97.15 | 29.47 | 126.62 | 23.2% |
| 2015/16 | 93.69 | 30.96 | 124.65 | 24.8% |
| 2016/17 | 91.93 | 32.11 | 124.04 | 25.9% |
| 2017/18 | 92.65 | 33.51 | 126.16 | 26.6% |

**2.7** Am nifer o flynyddoedd cyn 2013/14, bu'n rhaid i Wasanaethau wneud arbedion. Yn wreiddiol, roedd y rhain yn seiliedig ar ganran o'r gyllideb net ac, o ganlyniad, cafodd nifer y cyllidebau a oedd heb eu defnyddio ac oedd â thanwariant yn eu herbyn eu gostwng. Roedd hynny'n ddigon i sicrhau'r arbedion gofynnol ond, gydag amser, mae wedi mynd yn fwy ac yn fwy anodd i wasanaethau gyflawni'r lefel angenrheidiol o arbedion drwy'r dull hwn. Bellach, mae wedi cyrraedd pwynt lle bydd rhaid trosglwyddo gwasanaethau i ddarparwyr eraill neu roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau er mwyn gwneud unrhyw arbedion ychwanegol.

**2.8** Dangosir lefel yr arbedion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r gyllideb refeniw flynyddol ers 2013/14 yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o Arbedion fesul Gwasanaeth 2013/14 - 2016/17**

| Gwasanaeth | 2013/14 £ '000 | 2014/15 £ '000 | 2015/16 £ '000 | 2016/17 £ '000 | 2017/18 £ '000 | Cyfanswm £ '000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 988 | 876 | 1,864 |
| Addysg a Diwylliant | 356 | 811 | 670 | 320 | 224 | 2,381 |
| Gwasanaethau Oedolion | 500 | 1,261 | 407 | 335 | 559 | 3,062 |
| Gwasanaethau Plant | 312 | 352 | 184 | 143 | 0 | 991 |
| Hamdden, Arforol a Datblygu Economaidd | 175 | 414 | 394 | 147 | 81 | 1,211 |
| Tai | 66 | 117 | 137 | 74 | 41 | 435 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 1,014 | 2,216 | 1,492 | 730 | 339 | 5,791 |
| Rheoleiddio | 200 | 308 | 80 | 111 | 106 | 805 |
| Busnes y Cyngor | 70 | 152 | 31 | 56 | 18 | 327 |
| Adnoddau | 50 | 212 | 104 | 72 | 121 | 559 |
| Trawsnewid | 49 | 183 | 226 | 84 | 79 | 621 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 70 | 237 | 600 | 400 | 0 | 1,307 |
| **Cyfanswm** | **2,862** | **6,263** | **4,325** | **3,460** | **2,444** | **19,354** |

**2.9** Mae gwneud yr arbedion hyn wedi caniatáu i'r Cyngor ryddhau rhywfaint o arian i gyllido pwysau o fewn gwasanaethau yn ychwanegol at y pwysau chwyddiannol arferol. Er enghraifft, yng nghyllideb 2017/18 cafodd swm o £1.415m ei gynnwys yng nghyllidebau'r gwasanaeth i ariannu pwysau, i ddefnyddio rhywfaint o'r dreth gyngor ychwanegol a gynhyrchwyd trwy'r premiwm ac i drosglwyddo cyllid ychwanegol o Lywodraeth Cymru i'r gwasanaethau. Effaith cyffredinol o weithredu'r £19.3m o arbedion ac arian chwyddiant a phwysau eraill sydd ar y gyllideb yw gostyngiad net o £3.09m yng nghyllideb Refeniw'r Cyngor rhwng 2013/14 a 2017/18 (gostyngiad ariannol o 2.4%).

## 3. RHAGOLYGON ECONOMAIDD Y DU

**3.1** Newidiodd Llywodraeth y DU ei pholisi economaidd cyn yr etholiad a'r bwriad yw cael cyllideb gytbwys erbyn 2025, bod y diffyg strwythurol yn llai na 2% o GDP erbyn 2020/21 a bod y ddyled net fel canran o GDP yn dechrau gostwng erbyn 2020/21. Mae'r cynlluniau cyllidebol cyfredol wedi cael eu dylunio i ostwng y diffyg i 0.9% o GDP erbyn 2020/21 ac mae hyn yn rhoi hyblygrwydd o £23bn i'r Llywodraeth ond os bydd twf gwirioneddol yn is na'r rhagolygon, yna bydd yr hyblygrwydd hwn yn gostwng yn gyflym.

**3.2** Bydd cyflawni'r targedau hyn yn anodd ac mae llawer yn dibynnu ar dwf yn y dyfodol. Mae ansicrwydd mawr ynghylch sut bydd yr economi'n perfformio pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mawrth 2018. Yr amcangyfrif cyfredol ar gyfer 2017/18 yw y bydd benthyca net yn £58.3bn a bydd cael o'r sefyllfa honno i gyllideb gytbwys erbyn 2025 yn anodd o ystyried y pwysau sylweddol sy'n bodoli, e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, costau cynyddol y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, costau cynyddol Gofal Cymdeithasol i Oedolion, cynnal y diogelwch ar gyfer pensiwn gwlad (y 'triple lock guarantee') ac ati.

**3.3** Mae lefel yr ansicrwydd wedi cynyddu hefyd yn dilyn yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 2017, gyda'r Llywodraeth dan bwysau cynyddol i symud i ffwrdd o'r mesurau llymder parhaus ac i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cap 1% ar dâl y sector cyhoeddus ac a ddylid gwneud i ffwrdd â'r cap, wedi cael ei drafod yn fanwl yn ddiweddar.

**3.4** Ar hyn o bryd, mae chwyddiant yn 2.6% (CPI – Gorffennaf 2017), sy'n uwch na tharged y Llywodraeth o 2%. Cododd chwyddiant yn ystod 2016/17 oherwydd i sterling wanhau yn dilyn y refferendwm i adael yr UE. Bydd effaith y cwymp yng ngwerth sterling yn gostwng yn ystod gweddill 2017 ac i mewn i 2018 a rhagwelir y bydd yn syrthio'n ôl i oddeutu 2% erbyn cychwyn 2019. O ganlyniad, nid oes unrhyw bwysau brys i godi cyfraddau llog oherwydd disgwylir iddynt aros ar lefel isel am y dyfodol rhagweladwy ond efallai y byddant yn dechrau codi rhywfaint yn ystod 2018.

## 4. CYLLIDEB LLYWODRAETH CYMRU

**4.1** Ar hyn o bryd, mae ansicrwydd ynghylch y setliad a gaiff Cymru yn 2018/19 ac ar ôl hynny. Mae Llywodraeth y DU yn cynllunio ar gyfer gostyngiad o £3.5bn mewn gwariant cyhoeddus yn 2019/20 a fyddai'n cyfateb i £175m o doriad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, ond bydd y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer iechyd, ysgolion a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghyllideb Mawrth 2017 yn golygu cynnydd o £150m yn nghyllideb Llywodraeth Cymru.

**4.2** Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau i yswiriant cenedlaethol a budd-daliadau lles a oedd wedi eu dylunio i leihau'r diffyg cyffredinol. Nid yw rhai o'r cynlluniau hyn wedi cael eu gweithredu ac nid yw'n glir sut y bydd y Llywodraeth yn cwrdd â'r diffyg, h.y. a fydd cyllidebau eraill, gan gynnwys cyllideb Llywodraeth Cymru, yn cael ei thorri ymhellach.

**4.3** Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 yn £14.6bn gydag oddeutu £7bn (48%) yn cael ei ddyrannu i Iechyd a £4.3bn (30%) i Lywodraeth Leol. Ers 2009/10, mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru wedi cynyddu 16%, tra bod y cyllid ar gyfer llywodraeth leol wedi lleihau 18%.

**4.4** Eto, nid yw'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r gyllideb rhwng Iechyd, Llywodraeth Leol a'r gweddill. Fel y dywedwyd uchod, mae mwy wedi cael ei fuddsoddi mewn iechyd yng Nghymru gan adael llywodraeth leol i ysgwyddo cyfran fwy o'r toriadau ariannol. Os bydd Llywodraeth Cymru'n parhau â'r strategaeth hon, bydd yn arwain at doriadau sylweddol eraill yn y cyllid i lywodraeth leol ac awgrymir mai'r senario waethaf fyddai toriad o 3.3% yn 2018/19 a thoriad pellach o 2.6% yn 2019/20. Petai hynny'n digwydd, ac i gyllid gan Llywodraeth Cymru ostwng fel hyn, byddai CAC Ynys Môn yn gostwng o ffigwr 2017/18 o £92.65m i £89.59m yn 2018/19 ac £87.26m yn 2019/20. Gostyngiad cyffredinol o £5.39m dros ddwy flynedd.

## 5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1** Mae Llywodraeth Leol yn gyffredinol yn wynebu pwysau cyllidebol o sawl cyfeiriad a bydd Ynys Môn yn wynebu pwysau cyllidebol sy'n unigryw iddi hi a rhaid ffactora'r rhain i mewn i'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol.

**i. Cyflog Byw Cenedlaethol**

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu codi'r Cyflog Byw Cenedlaethol i £9 yr awr erbyn Ebrill 2020, gyda lefelau'n codi o'r £7.50 cyfredol i £8.05 yn 2018, £8.50 yn 2019 a £9 yn 2020. Ar hyn o bryd, mae'r pwynt cyflog isaf a delir gan y Cyngor (Graddfa 1) yn £8.09 ac, os bydd yn codi 1% bob blwyddyn, ni fyddai ond yn £8.56 erbyn 2020. Felly, mae'n amlwg y bydd staff ar y cyflogau isaf yn derbyn codiad cyflog o fwy na 1% yn ystod y tair blynedd nesaf. Er nad oes gan y Cyngor nifer fawr o staff ar y raddfa isaf hon, bydd cynyddu'r pwynt cyflog i £9 yr awr yn golygu y bydd y cyflog graddfa 1 yn dal i fyny gyda'r raddfa nesaf ac yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng graddfa 1 a 2 a graddfa 3 a 4. Mae'n amlwg y bydd hyn yn achosi anawsterau i awdurdodau lleol wrth iddynt geisio cyllido'r Cyflog Byw Cenedlaethol tra'n sicrhau y gellir cadw'r gwahaniaeth rhwng graddfa 1 a'r graddfeydd uwch.

ii. **Codiad Cyflog i'r Sector Cyhoeddus**

Mae codiadau cyflog i'r sector cyhoeddus wedi cael eu capio ar 1% ers 2011 a phan oedd chwyddiant yn isel, roedd gweithwyr ac, i raddau llai, yr Undebau, yn derbyn hynny. Fodd bynnag, gan fod chwyddiant wedi cynyddu i dros 2.5%, mae codiad cyflog 1% yn golygu gostyngiad gwirioneddol yn lefel cyflogau staff sector cyhoeddus ac mae pwysau cynyddol ar y Llywodraeth i wneud i ffwrdd â'r cap. Mae'r Undebau (ar gyfer staff NJC) yn cyflwyno cais ar y cyd am godiad cyflog 5% yn 2018. Mae'r codiad cyflog i athrawon o fis Medi 2017 wedi cael ei osod rhwng 1% a 2% ond mae'n debygol y bydd undebau'r athrawon yn pwyso am godiad cyflog uwch ar gyfer Medi 2018.

iii. **Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Wrth i'r boblogaeth fyw'n hirach, mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu. Erbyn 2035, amcangyfrifir y bydd cynnydd o 35% yn nifer y bobl a fydd yn byw yng Nghymru dros 65 oed a chynnydd 113% yn nifer y bobl dros 85. Canfu astudiaeth a gynhaliwyd ar ran Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y pwysau'n cyfateb i dwf o 2.9% y flwyddyn. Yn ychwanegol at y cynnydd mewn twf, mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi cynyddu'r costau yn y sector gofal cymdeithasol. Yn setliad 2017/18, neilltuwyd £30m ychwanegol i awdurdodau lleol i helpu gyda'r costau hyn a dylai'r cyllid ychwanegol fod ar gael yng nghyllid 2018/19. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o gwrdd â'r costau ychwanegol y bydd yr Awdurdod yn eu hwynebu.

iv. **Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae'r pwysau ar y gwasanaeth hwn wedi cynyddu'n genedlaethol ac yn lleol gyda'r Cyngor bellach yn gorfod lleoli nifer sylweddol uwch o blant. Amcangyfrifir y bydd gorwariant o tua £2m (gorwariant 60%) yn y gyllideb ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2017/18. Mae nifer o awdurdodau lleol eraill yn wynebu'r un pwysau ar hyn o bryd ond dylid nodi bod adolygiad o'r prosesau yn y Tîm Plant hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sydd bellach yn cael eu hystyried fel "Plant sy'n Derbyn Gofal". Mae'r cynnydd hwn yn nifer y plant hefyd yn cael sgil-effaith ar y cyllidebau Addysg lle gwelwyd gorwariant o £350k yn 2016/17. Ymatebodd y Cyngor drwy ychwanegu £225k at y gyllideb hon yn 2017/18 ond ymddengys bod y swm hwn yn annigonol i gwrdd â'r galw cynyddol a rhagwelir y bydd gorwariant o £140k yn y gyllideb yn 2017/18.

v. **Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Caiff y gost o adeiladu ysgolion newydd dan y rhaglen foderneiddio ei gyllido 50% drwy grant gan Lywodraeth Cymru a benthyca gyda chefnogaeth a 50% drwy fenthyca di-gefnogaeth. Mae'r elfen benthyca di-gefnogaeth yn cael effaith ar y gyllideb refeniw ar ffurf y ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP) a chostau llog. Mae'r ddwy ysgol newydd sydd wedi eu hadeiladu hyd yma yn cynhyrchu arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i gyllido'r MRP a chostau llog. Fodd bynnag, wrth i'r Cyngor symud ymlaen gyda gweddill y prosiectau ym Mand A a Band B, mae arwyddion na fydd yr arbedion posibl yn cwrdd yn llawn â chostau'r MRP a llogau. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw.

**vi. Cynnal a Chadw Priffyrdd**

Fel rhan o'r gofyniad sydd ar y Cyngor i wneud arbedion refeniw, mae cyllideb refeniw Cynnal a Chadw Priffyrdd wedi cael ei gostwng (£1.124m ers 2013/14). Mae effaith y gostyngiad yn y gyllideb refeniw wedi cael ei lleihau rhywfaint drwy ddefnyddio'r gyllideb gyfalaf (Menter Fenthyca Llywodraeth Leol neu Fenthyca gyda Chefnogaeth / Di-gefnogaeth) i gyllido gwaith cyfalaf i isadeiledd Priffyrdd (£9.06m ers 2013/14). Yn 2017/18, cafodd y gyllideb refeniw ei gostwng £72k a chafodd £761k o'r gyllideb gyfalaf (£470k o fenthyca gyda chefnogaeth a £291k o fenthyca di-gefnogaeth) ei neilltuo i gynnal a chadw priffyrdd. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn amcangyfrif bod angen £730k ychwanegol o gyllid refeniw i gwrdd ag ymrwymiadau'r contractau cynnal a chadw cyfredol ac i osgoi problemau mawr o ran diogelwch ar y ffyrdd. Yn ychwanegol at hyn, byddai angen £0.5m pellach er mwyn cynnal y priffyrdd yn eu cyflwr cyfredol. Byddai modd parhau i ddefnyddio cyllidebau cyfalaf i gyllido'r gwaith angenrheidiol. Fodd bynnag, mae defnyddio grantiau cyfalaf neu fenthyca gyda chefnogaeth yn gostwng y cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer prosiectau eraill ac mae'r defnydd o fenthyca di-gefnogaeth yn ychwanegu at y costau MRP a'r llogau am yr 20 mlynedd nesaf.

**vii. Cynllun Corfforaethol**

Mae'r Cyngor wrthi'n llunio ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 i 2022. Ar hyn o bryd, mae'n anodd penderfynu a fydd y prosiectau cynlluniedig yn arwain at bwysau o ran costau ychwanegol a beth fydd y costau ychwanegol hynny. Mae adolygiad cychwynnol wedi nodi rhai gofynion cyllido ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn ogystal â'r angen i sicrhau arian grant allanol neu i ddefnyddio arian grant sydd eisoes ar gael. Fodd bynnag, ni nododd yr adolygiad unrhyw bwysau cost sylweddol ar y gyllideb refeniw y byddai'n rhaid eu hymgorffori yn y cynllun ariannol ar gyfer y tymor canol ar hyn o bryd. Wrth i'r gwaith weithredu'r cynllun corfforaethol fynd yn ei flaen dros y 5 mlynedd nesaf, daw'r gofynion cyllido'n fwy eglur ac, o ganlyniad, bydd angen adolygu'r sefyllfa o ran y cynllun ariannol ar gyfer y tymor canol bob blwyddyn.

**viii. Gostyngiad mewn Grantiau Penodol**

Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn nifer o grantiau refeniw i gyllido gwasanaeth gyda 5 o brif grantiau (Grant Cefnogi Pobol, Grant Cymorth Gwasanaethau Bws, Grant Gwella Addysg, Grant Amddifadedd Disgyblion, Grant Addysg Ôl-16, Grant Refeniw Sengl Amgylcheddol). Yn yr un modd â chyllid cyffredinol, mae'r grantiau hyn yn gostwng a, phan mae hynny'n digwydd, mae'n anodd i'r Cyngor dynnu'n ôl y gwasanaethau hynny a sefydlwyd pan gafwyd y grant yn y lle cyntaf. O ganlyniad, rhaid i'r Cyngor wneud y gwahaniaeth i fyny fel y gellir parhau i ddarparu'r gwasanaeth ar yr un lefel.

**ix. Pwysau Amrywiol ar y Gyllideb**

Pob blwyddyn, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o addasiadau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy'n adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd mewn costau oherwydd ymrwymiadau contractyddol neu ail-dendro contractau, 'drifft' incrementaidd. Er enghraifft, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ariannu cost diogelwch cyflog ar gyfer lwfansau athrawon o gyllideb ganolog y Cyngor. Yn ystod 2016/17, ail-dendrodd y Cyngor y contractau ar gyfer cynnal a chadw tiroedd a chynnal a chadw priffyrdd ac mae pris y contract newydd yn uwch na'r pris blaenorol ac, o'r herwydd, gwnaed darpariaeth ar gyfer hynny yn y cynllun.

## 6. CHWYDDIANT

**6.1** Chwyddiant yw cyfradd y cynnydd disgwyliedig ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau. Y ddau brif fesur o chwyddiant yw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Er bod cysylltiad rhwng y mesurau chwyddiant hyn a’r chwyddiant gwirioneddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, e.e. maent yn cael eu cynnwys mewn rhai o brif gontractau’r Cyngor fel dull o gynyddu’r prisiau blynyddol, mae yna feysydd arwyddocaol eraill o wariant sydd â lefelau uwch o chwyddiant.

**6.2** Mae proses y gyllideb, felly, yn edrych ar y chwyddiant a amcangyfrifir dros nifer o wahanol feysydd o wariant ac mae’r ffactorau chwyddiant hyn yn cael eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb flynyddol. Dylid nodi bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn ffigwr arian parod nad yw'n cael ei fynegeio mewn unrhyw fodd o'r naill flwyddyn i'r llall.

### 6.3 Mathau o Chwyddiant

#### 6.3.1 Chwyddiant Cyflogau

Caiff cyflog staff y Cyngor ei reoli’n bennaf gan ddau gytundeb cyflog cenedlaethol sy'n cynnwys staff llywodraeth leol ac athrawon. Mae'r Llywodraeth wedi cyfyngu codiadau cyflog i 1% dros y 3 blynedd diwethaf ac, er bod pwysau i godi cyflogau (gweler paragraff 5.1 ii uchod), ni ragwelir y bydd y codiad cyflog yn uwch na 1% am oes y cynllun hwn heb i hynny gael ei ariannu gan lywodraeth ganolog. Yn ogystal, rhaid ffactora effaith y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol i chwyddiant cyflogau (gweler paragraff 5.1i uchod). O ganlyniad, mae’r cynllun yn caniatáu ar gyfer codiad o 1.5% ar gyfer dwy flynedd gyntaf y cynllun, yn codi i 2% ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun.

#### 6.3.2 Prisiau

Mae dau brif fesur cydnabyddedig ar hyn o bryd o chwyddiant prisiau cyffredinol sef y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Er bod y ddau yn mesur chwyddiant, maent yn defnyddio gwahanol ddulliau a chydnabyddir bellach mai CPI yw’r dull cywiraf a mwyaf dibynadwy. Mae CPI rhyw 1% yn is na'r RPI. Mewn cyfnod pan mae chwyddiant yn uchel, gall amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol nwyddau, ond, pan mae’n isel, mae'r gwahaniaethau’n fychan ac mae’r dangosydd cyffredinol hwn yn darparu rhagdybiaeth resymol ar gyfer chwyddiant. At ddibenion y cynllun hwn, defnyddiwyd y CPI fel y rhagdybiaeth gyffredinol.

#### 6.3.3 Ynni

Mae'r chwyddiant mewn perthynas â chostau ynni (trydan, nwy ac olew) wedi bod yn fwy cyfnewidiol yn y blynyddoedd diwethaf gyda phrisiau’n cynyddu’n gyflym ac wedyn yn gostwng, hyd yn oed pan fydd y CPI a'r RPI yn parhau i godi. O ystyried lefel y gwariant ar ynni, mae'n rhesymol i gynnwys rhagdybiaeth ar wahân ar ei gyfer. Gan fod olew’n cael ei brisio mewn doleri, mae’r cwymp yng ngwerth sterling yn ddiweddar hefyd wedi cynyddu prisiau ynni. Mae defnydd o ynni hefyd yn ffactor ac yn gysylltiedig â thymheredd y gaeaf ar gyfartaledd. Mewn blynyddoedd oerach, mae’r defnydd o ynni’n cynyddu ac, o’r herwydd, mae’r costau’n cynyddu. I bwrpas y cynllun, amcangyfrifir y bydd costau’n codi gan RPI + 1% dros oes y cynllun.

#### 6.3.4 Chwyddiant ar gontractau

Mae gan y Cyngor nifer o gontractau gwasanaeth mawr (Prydau Ysgol, Cynnal a Chadw Priffyrdd, Casglu Sbwriel, Cludiant Ysgolion ac ati) lle mae'r addasiad ar gyfer chwyddiant yn cael ei nodi yn nhelerau ac amodau’r contractau a gallant amrywio o gymharu â’r prisiau chwyddiant cyffredinol. Mae rhagdybiaeth ar wahân wedi cael ei ganiatáu ar gyfer pob un o'r prif gontractau gwasanaeth yn seiliedig ar y diffiniad yn y contract.

## 7. NEWIDIADAU MEWN GALW

**7.1** Yn ychwanegol at gynnydd mewn prisiau, gall costau newid wrth i'r galw am wasanaethau newid a gall hyn amrywio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion, i'r galw am wasanaethau gofal i'r henoed, newid yn nifer y plant sy'n dod i mewn i'r broses gofal statudol, achosion digartrefedd, faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac ati.

**7.2** Mae'r tybiaethau mewn perthynas â newidiadau yn y galw yn seiliedig ar: -

**(i)** y data sydd ar gael e.e. niferoedd disgyblion yn y dyfodol, nifer y tunelli o wastraff y rhagwelir y byddir yn cael gwared arnynt;

**(ii)** newidiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer gwasanaethau - cyflwyno tîm Trothwy Gofal yn y Gwasanaethau Plant;

**(iii)** tueddiadau presennol – gwasanaethau plant a lleoliadau all-sirol lle mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu dros y 12 i 24 mis diwethaf ac achosion digartrefedd lle mae'r galw am wasanaethau wedi lefelu allan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

## 8. INCWM

**8.1** Mae cyllideb incwm gyfredol y Cyngor (ac eithrio'r Grant Cynnal Refeniw, Trethi Annomestig a'r Dreth Gyngor) yn cyfateb i £32.3m, sy'n cynnwys £19.3m o grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus, £7.2m o ffioedd a thaliadau a osodir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth neu gytundeb rhentu tymor hir a £5.6m o ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor yr hawl i osod y ffi neu'r tâl.

**8.2** Mae wedi bod yn bolisi gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf (cyn 2017/18) i godi ffioedd a thaliadau dewisol 5% bob blwyddyn. Gyda chwyddiant yn llawer is na 5%, mae'n dod yn fwyfwy anodd i barhau â'r polisi hwn, ac yn enwedig o ran y gwasanaethau hynny lle mae'r Cyngor yn cystadlu â'r sector preifat, e.e. Hamdden. Yn 2017/18, codwyd y ffioedd anstatudol 3% ac, o 2018/19, rhagdybir y bydd ffioedd anstatudol yn codi 3% y flwyddyn neu CPI, p'un bynnag yw'r uchaf.

## 9. CYLLIDEBAU WRTH GEFN AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL AC ARDOLLAU

**9.1** Mae cyllideb 2017/18 yn cynnwys cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sydd yn werth cyfanswm o ychydig dros £1.4m ac sy'n cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys cyllideb i gwrdd â chostau diswyddo yn y dyfodol, cyllidebau i ariannu swyddi a phrosiectau penodol ar gyfer Adnoddau Dynol, Caffael a TGCh, cyllidebau i gwrdd â'r ansicrwydd mewn perthynas â chostau gofal cartref ac arian wrth gefn cyffredinol. O gofio bod y rhan fwyaf o'r arian wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl mewn perthynas â phrosiectau penodol, mae'n bosibl penderfynu pryd bydd y costau hyn yn disgyn allan o'r gyllideb.

**9.2** Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll sy'n cael ei gynnwys yng Nghyllideb Refeniw y Cyngor. Mater i'r Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu ar y cynnydd yn yr ardoll bob blwyddyn. Mae'r ardoll wedi gostwng ychydig bob blwyddyn ers 2011/12 ac yn 2016/17, roedd tua'r un lefel ag yr oedd yn 2009/10. Yn 2017/18, cododd y Gwasanaeth Tân ac Achub yr ardoll 4% a bydd codiad pellach o 1.3% yn 2018/19. Tybir y bydd cynnydd mewn chwyddiant ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

## 10. Y GYLLIDEB DDISYMUD A RAGDYBIR AR GYFER 2018/19 - 2020/21

**10.1** Gan gymryd i ystyriaeth yr holl bwysau cyllidebol y gwyddys amdanynt a'r rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant a ffactorau eraill, mae'n bosibl penderfynu ar gyllideb ddisymud ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/21. Y gyllideb ddisymud yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ac yn yr un modd ag y cawsant eu darparu yn 2017/18. Mae'r gyllideb ddisymud a amcangyfrifir ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**
**Y Gyllideb Ddisymud a Ragamcenir ar gyfer 2018/19 i 2020/21**

| | 2018/19 £ 'm | 2019/20 £ 'm | 2020/21 £ 'm |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **126.16** | **129.82** | **132.46** |
| Wedi ei gyllido o'r Cronfeydd wrth Gefn yn y Flwyddyn Flaenorol | 0.49 | 0.00 | 0.00 |
| Costau Unwaith ac am Byth ac arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn syrthio allan o'r gyllideb | (0.65) | (0.34) | 0.00 |
| Pwysau Cyllidebol Newydd | 0.73 | 0.00 | (0.07) |
| Drifft Incrementaidd ac Addasiadau Cyflog | 0.10 | 0.10 | 0.10 |
| Chwyddiant Cyflogau | 0.99 | 1.18 | 1.64 |
| Prif Gontractau'r Cyngor - Chwyddiant a Newid o ran Cyfaint | 0.92 | 0.89 | 0.86 |
| Newidiadau mewn Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt | 0.62 | 0.40 | 0.40 |
| Chwyddiant heb fod yn Gyflog | 0.89 | 0.87 | 0.84 |
| Codiadau Incwm | (0.86) | (0.83) | (0.79) |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 0.43 | 0.37 | 0.01 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddisymud** | **129.82** | **132.46** | **135.45** |

**10.2** Mae'r gyllideb ddisymud a amcangyfrifwyd yn cynrychioli cynnydd arian parod o 7.3% dros y cyfnod 3 blynedd.

**10.3** Mae mwy o fanylion am y gyllideb ddisymud a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.

## 11. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**11.1** Mae'r gyllideb ddisymud a amcangyfrifwyd yn cael ei hariannu o'r cyllid allanol cyfun a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (y Grant Cynnal Refeniw a'r Gronfa ar gyfer Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**11.2** Fel y dywedwyd ym mharagraff 4 uchod, mae'r sefyllfa ynghylch y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2018/19 yn aneglur ac mae'r sefyllfa ar gyfer 2019/2020 a 2020/21 yn anoddach byth i'w rhagweld.

**11.3** Cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) rywfaint o waith modelu ar yr effaith debygol ar y setliad i Lywodraeth Leol dros y ddwy flynedd nesaf yn seiliedig ar lefel y warchodaeth a rydd Llywodraeth Cymru i'r gyllideb Iechyd. Gweler canlyniad yr ymarfer modelu yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Newidiadau posibl mewn yn y CAC – 2018/19 i 2019/20**

| | Diogelwch Gwan i'r Gyllideb Iechyd | Diogelwch Cymedrol i'r Gyllideb Iechyd | Diogelwch Cryf i'r Gyllideb Iechyd |
|---|---|---|---|
| **2018/19** | **- 2.0%** | **- 2.7%** | **- 3.4%** |
| **2019/20** | **- 0.7%** | **- 1.4%** | **- 2.5%** |
| **2020/21** | **Nid oes canrannau diogelwch wedi eu darparu** | | |

**11.4** At ddibenion y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol, cymerwyd yn ganiataol y byddai 2.0% o ostyngiad yn y CAC yn 2018/19 ac yna ostyngiad o 1.4% a 0.5% yn 2019/20 a 2020/21 yn y drefn honno. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y CAC o £3.6m dros y tair blynedd. Pe defnyddir y ragdybiaethau mwyaf pesimistaidd, byddai'r toriad yn y CAC yn cynyddu i £6.2m dros yr un cyfnod o dair blynedd.

**11.5** Dros y 3 blynedd diwethaf, mae lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi amrywio rhwng 2.5% a 4.5% sydd yn uwch na chwyddiant ond bu'n rhaid gwneud hynny er mwyn gwneud i fyny'n rhannol am y gostyngiad yn y CAC. Er bod hwn yn benderfyniad i'r Aelodau, yn sgîl y gostyngiadau posibl yn y CAC, bydd angen parhau gyda'r polisi o gynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. At ddibenion y cynllun, caniatawyd ar gyfer cynnydd tybiedig o 4% ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf.

**11.6** Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, dangosir yr amcangyfrif o gyfanswm y cyllid yn Nhabl 7 isod:-

**Tabl 7**
**Amcangyfrif o Gyllid y Cyngor – 2018/19 i 2020/21**

| | 2018/19<br>£ m | 2019/20<br>£ m | 2020/21<br>£ m |
|---|---|---|---|
| CAC a ddygwyd ymlaen | 92.652 | 90.799 | 89.528 |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | 33.505 | 34.845 | 36.238 |
| **Cyfanswm y Cyllid a ddygwyd Ymlaen** | **126.157** | **125.644** | **125.766** |
| Newid yn y CAC yn ystod y flwyddyn | (1.853) | (1.271) | (0.448) |
| Newid yn y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn | 1.340 | 1.393 | 1.450 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Gariwyd Drosodd** | **125.644** | **125.766** | **126.768** |

## 12. MONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**12.1** Y bwlch cyllido yw'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb ddisymud a amcangyfrifwyd (Tabl 6) a'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael (Tabl 7). Ceir crynodeb o hyn yn Nhabl 8 isod: -

**Tabl 8**
**Amcangyfrif o'r bwlch cyllido**

| | 2018/19<br>£ m | 2019/20<br>£ m | 2020/21<br>£ m |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddisymud | 129.824 | 132.463 | 135.452 |
| Arbedion a Ddygwyd Ymlaen | 0.000 | (4.180) | (6.696) |
| **Y Gyllideb Ddigyfnewid Ddiwygiedig** | **129.824** | **128.282** | **128.756** |
| Amcangyfrif o'r Cyllid | 125.644 | 127.766 | 126.768 |
| **Arbedion Blynyddol Angenrheidiol** | **4.180** | **2.516** | **1.987** |
| **% yr Arbedion Angenrheidiol** | **3.2%** | **2.0%** | **1.54%** |

Noder - Mae'r arbedion a ddygwyd ymlaen yn ffigwr cronnus o arbedion angenrheidiol y flwyddyn (blynyddoedd) blaenorol.

**12.2** Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau yn y gyllidebau ddisymud yn rhai na fedrir eu lleihau neu sy'n anodd iawn i'w lleihau, gan gynnwys: -

Ardoll Awdurdod Tân - £3.30m yn 2017/18;
Costau Cyllido Cyfalaf - £8.30m yn 2017/18;
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £5.35m yn 2017/18;
Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.13m yn 2017/18;
Arian wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl Cyffredinol a Phenodol- £ 1.38m yn 2017/18.

Felly, bydd angen dod o hyd i'r arbedion gofynnol o £8.68m dros 3 blynedd o gyllidebau gwasanaethau - cyfanswm o £106.7m (cyllideb 2017/18). Mae hyn yn cyfateb i arbedion o 8.1% dros 3 blynedd.

**12.3** Roedd strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â lleihau cyllidebau gwasanaeth drwy ofyn i'r gwasanaethau adolygu eu cyllidebau presennol ac i leihau'r gyllideb net gyffredinol drwy: -

- Ddileu penawdau cyllidebol a oedd heb eu defnyddio;
- Lleihau costau staffio drwy ailstrwythuro a diswyddiadau gwirfoddol;
- Cynyddu ffioedd a thaliadau yn uwch na'r gyfradd chwyddiant;
- Nodi ffynonellau newydd o incwm;
- Lleihau costau gweinyddu drwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth;
- Lleihau costau drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau'n fwy effeithiol;
- Rhoi'r gorau i roi grantiau i'r trydydd sector / sector gwirfoddol;
- Gostwng yr arian a fuddsoddwyd yn y gwaith o gynnal a chadw asedau;
- Rhesymoli Swyddfeydd a, thrwy hynny, leihau costau swyddfa.

**12.4** Mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn heb orfod dibynnu ar y defnydd o falansau cyffredinol ac, yn ogystal, mae wedi llwyddo i sicrhau'r arbedion arfaethedig ac mae'r ffaith bod y Cyngor bron yn ddieithriad wedi tanwario ar ei gyllideb refeniw bob blwyddyn yn tystio i hynny. Llwyddwyd i wneud hyn tra'n parhau i warchod y cyllidebau ar gyfer Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**12.5** Fodd bynnag, wrth i ni symud i'r tair blynedd nesaf, mae'r sgôp i sicrhau lefel angenrheidiol o arbedion drwy'r dulliau hyn yn unig llawer llai ac mae'r Cyngor bellach yn newid ei strategaeth er mwyn parhau i gyflawni'r arbedion gofynnol. Mae'r dulliau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys: -

- Defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i ganiatáu ar gyfer buddsoddiad pellach mewn prosesau busnes a thechnoleg gwybodaeth. Bydd y buddsoddiad yn cynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol;
- Ceisio trosglwyddo'r ddarpariaeth o rai gwasanaethau i gyrff ac eithrio'r Cyngor, megis Cynghorau Tref a Chymuned, y trydydd sector, grwpiau cymunedol gwirfoddol neu unigolion preifat;
- Ymchwilio i ddulliau amgen o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys creu cyrff eraill a reolir gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau - ymddiriedolaethau, cwmnïau masnachol awdurdodau lleol;
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol.

**12.6** Erbyn hyn, mae nifer o'r gwasanaethau corfforaethol llai wedi cael eu gostwng i bwynt lle nad oes modd torri mwy ar eu cyllidebau oherwydd na fydd modd iddynt gyflawni'r lefel ofynnol o wasanaeth. O ganlyniad, bydd disgwyl yn awr i'r gwasanaethau hynny sydd wedi cael eu gwarchod rhag toriadau yn y blynyddoedd diwethaf, gyfrannu tuag at y targedau arbedion.

**12.7** Mae cyllideb refeniw pob gwasanaeth wedi cael ei hadolygu gan Aelodau ac Uwch Swyddogion ac, o ganlyniad, nodwyd tua £1.4m o arbedion pellach yn 2018/19 a £2.3m yn y ddwy flynedd ddilynol. Bydd adolygiad o Bolisi MRP y Cyngor hefyd yn cael ei gynnal ac efallai y bydd hyn yn gostwng costau yn y tymor byr canol gan £1m y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o arbedion posibl a nodwyd hyd yma o tua £4.7m, sydd £4m yn is na'r arbedion sydd eu hangen.

## 13. CASGLIADAU

**13.1** Mae cyllido Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol yn ansicr iawn ar hyn o bryd ac mae rhagamcan lefelau cyllido yn y dyfodol yn anodd.

**13.2.** Er mwyn sicrhau'r lefel ofynnol o arbedion yn y dyfodol, bydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau anoddach, gan gynnwys ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol, cau cyfleusterau (ysgolion, cartrefi preswyl, llyfrgelloedd) a pharhau i gynyddu'r cyfraniad y mae'n rhaid i drigolion Ynys Môn ei wneud tuag at y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, a hynny drwy ffioedd a thaliadau uwch a biliau'r Dreth Gyngor uwch. Efallai na fydd y penderfyniadau yn cael eu cefnogi'n llawn gan yr Aelodau, ac efallai y byddant yn amhoblogaidd gyda threthdalwyr Ynys Môn, ond mae angen gwneud y penderfyniadau hyn er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

| CATC Terfynol i'r Pwyllgor Gwaith 18 Medi 2017 | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion** | | | | |
| Tál Athrawon | 20,585,780 | 20,791,638 | 21,221,512 | 21,645,943 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 3,440,555 | 3,002,163 | 3,047,196 | 3,108,140 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,595,610 | 2,621,566 | 2,673,997 | 2,740,847 |
| Pensiynau Athrawon | 3,311,840 | 3,344,958 | 3,411,858 | 3,480,095 |
| Pensiynau staff nad ydynt yn dysgu | 586,810 | 595,612 | 604,546 | 619,660 |
| Glanhau | 696,130 | 706,572 | 755,171 | 770,274 |
| Ynni | 1,181,200 | 1,235,535 | 1,289,899 | 1,344,074 |
| Trethi Annomestig | 780,760 | 808,867 | 828,280 | 846,502 |
| Gwariant arall nad yw'n staff | 4,610,510 | 4,730,383 | 4,843,912 | 4,950,479 |
| Addasiad Niferoedd Disgyblion | - | 62,300 | 113,700 | 190,000 |
| Arianwyd gan Gronfeydd wrth Gefn Addysg | - 490,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion** | **37,299,195** | **37,899,596** | **38,790,071** | **39,696,014** |
| | | | | |
| **Costau Staffio nad ydynt yn Ysgol** | | | | |
| Tál Athrawon | 1,114,360 | 1,125,504 | 1,142,386 | 1,165,234 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 32,542,900 | 33,102,544 | 33,761,582 | 34,508,313 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,947,470 | 3,001,682 | 3,071,716 | 3,158,509 |
| Pensiynau Athrawon | 165,060 | 166,711 | 170,045 | 173,446 |
| Cyfraniadau Cronfa Bensiwn | 6,423,580 | 6,538,434 | 6,655,010 | 6,839,885 |
| Lwfansau Car | 613,660 | 613,660 | 613,660 | 644,343 |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 1,127,460 | 1,144,372 | 1,161,537 | 1,184,768 |
| Costau Staffio Arall | 727,750 | 746,672 | 764,592 | 781,413 |
| Ardoll Prentisiaeth | 290,000 | 294,350 | 298,765 | 304,741 |
| **Cyfanswm Costau Staffio** | **45,952,240** | **46,733,927** | **47,639,293** | **48,760,651** |
| | | | | |
| **Costau Unwaith ac am byth** | | | | |
| Etholiadau Cyngor Sir | 150,000 | - | - | - |
| Arian Wrth Gefn Cost Newid | 92,000 | - | - | - |
| Gofal Cartref Nyrsio | 330,000 | 330,000 | 330,000 | 330,000 |
| Haulfre (2018/19 yn unig) | 95,000 | 95,000 | - | - |
| Tîm Trothwy Gofal | 240,000 | 240,000 | - | - |
| **Cyfanswm Costau Unwaith ac am byth** | **907,000** | **665,000** | **330,000** | **330,000** |
| | | | | |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 3,292,750 | 3,411,289 | 3,527,273 | 3,640,146 |
| Gwaredu Gwastraff | 674,700 | 692,242 | 701,934 | 710,357 |
| Treth Tirlenwi | 1,411,170 | 1,443,627 | 1,463,838 | 1,481,404 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,192,320 | 4,343,244 | 4,580,872 | 4,727,460 |
| Prydau Ysgol | 2,032,070 | 2,105,225 | 2,176,802 | 2,246,460 |
| Cludiant Ysgol | 2,361,810 | 2,446,835 | 2,530,028 | 2,610,988 |
| Contractau Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus | 1,874,540 | 1,942,023 | 2,008,052 | 2,072,310 |
| Gwasanaethau Addysg ar y Cyd | 1,270,490 | 1,283,195 | 1,302,443 | 1,328,492 |
| Lleoliadau Preswyl | 7,425,560 | 7,692,880 | 7,954,438 | 8,208,980 |
| Contractau Gofal Cartref | 3,566,130 | 3,658,849 | 3,746,662 | 3,829,088 |
| **Cyfanswm Costau Prif Gontractau'r Cyngor** | **28,101,540** | **29,019,409** | **29,992,341** | **30,855,684** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Eraill a Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Lleoliadau Plant | 3,579,050 | 3,851,058 | 3,943,483 | 3,990,805 |
| Lleoliadau Allsirol Ysgolion | 1,129,920 | 1,215,794 | 1,244,973 | 1,259,913 |
| Byw á Chefnogaeth | 1,312,040 | 1,346,153 | 1,378,461 | 1,408,787 |
| Digartrefedd | 262,120 | 268,935 | 275,390 | 281,448 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau a Arweinir gan y Galw** | **6,283,130** | **6,681,940** | **6,842,306** | **6,940,953** |
| | | | | |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| Trethi Annomestig | 990,870 | 1,016,633 | 1,066,032 | 1,089,485 |
| Ynni | 1,061,130 | 1,109,942 | 1,158,779 | 1,207,448 |
| Costau Eiddo nad ydynt yn Ysgolion | 2,921,840 | 2,997,808 | 3,069,755 | 3,137,290 |
| Costau Cludiant | 280,390 | 287,680 | 294,584 | 301,065 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 17,384,219 | 17,836,209 | 18,284,278 | 18,686,532 |
| Lwfansau Aelodau | 676,200 | 686,343 | 696,638 | 710,571 |
| Ardoll Gwasanaeth Tán | 3,330,579 | 3,373,877 | 3,454,850 | 3,530,856 |
| Ardollau Araill | 4,154 | 4,154 | 4,154 | 4,154 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,350,600 | 5,511,118 | 5,731,563 | 5,960,825 |
| Adenill Costau – CRT | - 621,830 | - 637,998 | - 653,310 | - 667,682 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 183,635 | 183,635 | 483,635 | 483,635 |
| Rhyddhad Trethol Dewisol Trethi Annomestig | 60,000 | 60,000 | 60,000 | 60,000 |
| Costau Cyllido Cyfalaf – DRI | 3,881,332 | 3,851,721 | 3,929,711 | 3,945,059 |
| Costau Cyllido Cyfalaf – Llog | 4,418,000 | 4,881,851 | 5,169,428 | 5,165,114 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **39,921,119** | **41,162,973** | **42,750,097** | **43,614,352** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebau Posib** | - | **831,500** | **100,000** | **31,167** |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **158,464,224** | **162,994,345** | **166,444,108** | **170,228,821** |

**ATODIAD 2**

| CATC Terfynol i'r Pwyllgor Gwaith 18 Medi 2017 | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau / Ad-dalu Cyrff Cyhoeddus | -19,374,624 | -19,878,364 | - 20,335,445 | - 20,782,825 |
| Incwm Statudol | -7,262,150 | - 7,450,966 | - 7,629,789 | - 7,797,644 |
| Incwm Di-Statudol | -5,670,450 | - 5,840,564 | 6,015,780 | 6,196,254 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-32,307,224** | **- 33,169,894** | **33,981,014** | **34,776,723** |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **126,157,000** | **129,824,451** | **132,463,094** | **135,452,098** |
| | | | | |
| Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | | | | |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT NET DIWYGIEDIG** | **126,157,000** | **129,824,451** | **128,282,803** | **128,755,786** |
| | | | | |
| Cyllidwyd gan : | | | | |
| | | | | |
| Grant Cymorth Refeniw | 69,650,000 | 68,257,000 | 67,301,402 | 66,964,895 |
| Trethi Annomestig | 23,002,000 | 22,541,960 | 22,226,373 | 22,115,241 |
| Y Dreth Gyngor | 33,505,000 | 34,845,200 | 36,239,008 | 37,688,568 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **126,157,000** | **125,644,160** | **125,766,783** | **126,768,704** |
| | | | | |
| **ARBEDION SYDD EU HANGEN** | | **4,180,291** | **2,516,020** | **1,987,082** |

**ATODIAD 3**

| | | Tybiaethau Terfynol | |
|---|---|---|---|
| | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| | | | |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 1.0% | 1.5% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 0.0% | 0.5% | 0.0% |
| Graddfeydd Yswiriant Gwladol | 0.0% | 0.5% | 0.5% |
| Dyfarniad Cyflog nad ydynt yn Dysgu | 1.5% | 1.5% | 2.0% |
| Pensiynau staff nad ydynt yn Dysgu | 0.0% | 0.0% | 0.5% |
| Addasiad Trosiant Staff | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Chwyddiant Lwfans Car | 0.0% | 0.0% | 5.0% |
| CPI | 2.6% | 2.4% | 2.2% |
| RPI | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Chwyddiant Ynni | 4.6% | 4.4% | 4.2% |
| Incwm Anstatudol | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Llwyth Gwaith Lleoliadau Plant | 5.0% | 0.0% | -1.0% |
| Lleoliad Ysgol All-sirol | 5.0% | 0.0% | -1.0% |
| Llwyth Gwaith Di-gartrefedd | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Tunelli Gwaredu Gwastraff | -1.0% | -2.0% | -2.0% |
| Llwyth Gwaith Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | -1.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cynnydd Cyfraddau Llôg | 0.5% | 0.5% | 0.5% |
| Ardoll Tân | 1.3% | 2.4% | 2,2% |
| Ardollau Eraill | 0.0% | 0.0 | 0.0% |
| Rhagamcanion CAC | -2.0% | -1.4% | -0.5% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 4.0% | 4.0% | 4.0% |
| Casglu Gwastraff | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Gwaredu Gwastraff | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Treth Tirlenwi | 3.3% | 3.4% | 3.2% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Prydau Ysgol | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Cludiant Ysgol | 3.6% | 3.4% | 3.2% |
| Contractau Bysiau Gwasanaeth Cyhoeddus | 3.6% | 3.4% | 3.2% |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **18 MEDI 2017** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES-OWEN /CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 752663 / 02148 751865<br>BethanHughesOwen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | d/b |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2017, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2017/18 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £126.157m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.490m ar gyfer ei wario ar ysgolion, i'w gyllido o arian wrth gefn y Cyngor. O'r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 yn £126.647m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2017/18 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.444m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am y chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Mehefin 2017. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2017/18, gan gynnwys cyllid corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £2.119m. Mae hyn yn cyfateb i 1.68% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
**(ii)** Cytuno i adolygu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn nodi'r rhai nad ydynt yn flaenoriaeth mwyach ac y gellir eu defnyddio i helpu i gyllido'r gorwariant sylweddol a ragamcenir;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2017/18;
**(vi)** I ddirprwyo rhyddhau'r Premiwm Dreth Gyngor i'r Swyddog Adran 151 yn seiliedig ar y cyfrifiadau bod y premiymau wedi eu talu.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

| | | |
|---|---|---|
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydyw | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2017/18
- Atodiad B - Tabl o'r Alldro Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2017/18
- Atodiad C - Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2017/18
- Atodiad CH - Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed
- Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynghylch â monitro Staff Asiantaeth
- Atodiad E - Gwybodaeth ynghylch â monitro Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2017/18 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2017 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2017).

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2017/18

## 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Gychwynnol

**1.1** Ar gychwyn y flwyddyn ariannol, roedd gan y Cyngor £13.357m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig a chronfeydd wrth gefn o £2.089m yn yr ysgolion. Roedd yr alldro dros dro ar gyfer 2016/17 wedi arwain at falansau cyffredinol o £8.697m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigwr hwn wedi cael ei archwilio eto ac y gall newid wedi i'r archwiliad allanol gael ei gwblhau. Disgwylir y bydd yr adroddiad archwilio terfynol wedi'i gwblhau erbyn 30 Medi 2017. Mae perygl hefyd y bydd angen defnyddio oddeutu £2m o'r swm o £8.697m i dalu hawliadau Tâl Cyfartal unwaith y bydd y rhain wedi eu setlo. Efallai y bydd modd i'r Cyngor gyfalafu'r costau Tâl Cyfartal hyn er mwyn ymestyn y gost dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, byddai angen cyfarwyddyd cyfalafu gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Mae balans isaf y gronfa wrth gefn gyffredinol wedi cael ei osod ar £6m a chymeradwywyd hynny gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017.

## 2. Rhagamcan o Berfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £3.049m (2.82%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2018. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £0.234m ar Gyllid Corfforaethol. Hefyd, rhagamcenir gwarged o £0.695m ar gasglu'r Dreth Gyngor ac, o hwnnw, gellir priodoli £0.347m i'r gwarged ar y Premiwm Dreth Gyngor newydd. Cyfanswm y rhagamcanion refeniw ar gyfer 2017/18 yw gorwariant o £2.119m, sy'n 1.68% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagamcanion isod yn cynnwys effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf nac ychwaith effaith y contract newydd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd sy'n debygol o gostio mwy. Mae perygl, felly, y bydd y gorwariant yn uwch na £2.160m. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw cost Rhiantu Corfforaethol, oherwydd disgwylir gorwariant o £2.106m yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae hwn yn wasanaeth statudol sy'n cael ei arwain gan y galw ac sy'n anodd ei reoli. Os bydd y Cyngor yn gorwario'n unol â'r rhagamcan cyfredol, bydd y gronfa wrth gefn gyffredinol yn cael ei rhoi dan bwysau sylweddol.

**2.3** Yn hytrach na chyllido'r gorwariant o'r gronfa wrth gefn gyffredinol, gellid adolygu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sy'n werth £13.357m. Byddai hynny'n fodd o nodi unrhyw gronfeydd wrth gefn nad oes angen amdanynt mwyach neu rai nad ydynt yn cwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor o ystyried y sefyllfa ariannol anodd y mae'r Cyngor yn debygol o fod ynddi ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fedrir ond defnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i bwrpas penodol, er enghraifft, y cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu datganoli i'r ysgolion neu gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cyllido gan grantiau.

| Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2018<br>yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2017 | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 618 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 2,106 |
| Gwasanaethau Oedolion | 299 |
| Trawsnewid | 100 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (172) |
| Cyllid Corfforaethol a Budd-daliadau a Roddwyd | (234) |
| Casglu'r Dreth Gyngor | (695) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiaethau'n llai na £100k) | 97 |
| Gor / (Tan)wariant Cyfanswm Amrywiaeth | 2,119 |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £37.6k (3.74%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 1. Y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £618k (19.38%). Mae yna nifer o fân gor a thanwariannau o fewn Addysg Ganolog i wneud iawn am hyn. Fodd bynnag, mae cludiant ysgol – y gyllideb tacsis dan bwysau a disgwylir gorwariant o £373k yn ystod y flwyddyn. Yr un modd, mae'r gyllideb ar gyfer plant sy'n cael eu haddysg yn All-sirol neu sy'n derbyn addysg mewn amgylchedd ac eithrio mewn ysgol (EOTAS), sef cyllideb sydd hefyd yn cael ei harwain gan y galw, yn debygol o fod â gorwariant o £142k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae costau Cynnal yn debygol o fod £77k yn uwch na'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2018. Mae'r clwb gofal cyn-ysgol hefyd yn rhagamcan gorwariant o £66k.

**3.1.1.2** Mae effaith costau EOTAS yn debygol o ostwng yn y dyfodol oherwydd bydd yn ffurfio rhan o Gyd-Strategaeth AAA newydd Môn a Gwynedd o fis Medi 2017 a disgwylir y bydd y strategaeth newydd hon yn gostwng y gorwariant yn y dyfodol.

**3.1.1.3** Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo gyda bid buddsoddi i arbed ar gyfer y system 'One Management'. Disgwylir y bydd y buddsoddiad yn y strategaeth hon yn gostwng gwariant ar dacsis yn y dyfodol. Disgwylir hefyd y bydd cydweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael yn sicrhau arbedion yn erbyn y gyllideb tacsis.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd gorwariant o £56k (12.38%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn orwariant o £20k (1.52%). Disgwylir y bydd tanwariant o £80k yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd oherwydd y bydd yn cael ei ailfodelu. Efallai hefyd bydd y Gwasanaeth yn gorfod talu costau unwaith ac am byth ar gyfer dadfeiliadau yn dilyn dwyn y brydles ar Ynys Lawd i ben yn fuan a'i ddychwelyd i'w berchennog.

**3.1.2.2** Yn ystod y broses o osod y gyllideb, tynnwyd y gyllideb am safle Melin Llynnon gan fod y safle ar fîn cael ei throsglwyddo. Fodd bynnag, mae trosglwyddo'r safle yn cymeryd mwy o amser na ddisgwylid ac, felly, mae'n bwysig nodi y gall gorwariant o hyd at £40k fod yn y maes yma, hyn yn dibynnu ar amser y penderfyniad a'r trosglwyddiad o'r safle.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Cafwyd gorwariant o £101k (1.68%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod, gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn orwariant o £299k (1.33%).

**3.2.2** Mae'r elfennau o amrywiad yn yr alldro a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir tanwariant o £176k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £332k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £532k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £349k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o £659k; a
- Rheolaeth a Chymorth: rhagwelir tanwariant o £79k.

**3.2.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol i'w gweld yn y gwasanaethau Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl, gyda'r pwysau mwyaf yn Anableddau Dysgu. Mae hyn oherwydd y nifer fechan o leoliadau arbenigol cost uchel y mae eu hangen i gwrdd â chymhlethdod anghenion y defnyddwyr gwasanaeth hyn.

**3.2.4** Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i geisio gwrthbwyso'r gorwariant drwy ostwng gwariant yn y meysydd hynny y mae ganddo fwy o reolaeth drostynt. Mae'r uned ddarparu fewnol yn rhagamcanu tanwariant o £659k a disgwylir y bydd tanwariant o £79k yn Rheolaeth a Chymorth erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.2.5** Mae'r adroddiad chwarterol cyntaf ar y Gwasanaethau Oedolion yn dangos bod yna nifer o feysydd yn yr adran ble mae angen iddi, mewn partneriaeth gyda'r Swyddogaeth Adnoddau, ail-falansio cyllidebau er mwyn adlewyrchu patrymau gwario cyfredol. Mewn gwirionedd, mae tanwariannau mewn gwasanaethau mewnol yn cael eu defnyddio i gwrdd â'r diffyg ariannol mewn meysydd ble mae gwasanaethau tebyg yn cael eu comisiynu yn y sector annibynnol.

**3.2.6** Mae oddeutu 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan y galw, sy'n golygu nad oes modd rhagweld beth fydd yn digwydd. Adlewyrchir hyn yn rhai o'r lleoliadau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu presennol sy'n ddrud ac yn gallu newid yn ystod y flwyddyn. Mae'r adran hefyd wrthi'n ceisio cytuno ar newidiadau i ffioedd byw â chymorth ac yn gweithio gyda'r Swyddogaeth Adnoddau er mwyn sicrhau bod eu heffaith yn cael eu ffactora i mewn i'r gyllideb.

**3.2.7** Cyflwynwyd bidiau llwyddiannus am grantiau o Gronfeydd Gofal Canolraddol ac mae'n werth nodi y bydd grantiau pellach yn cael eu talu yn ystod y flwyddyn i gefnogi gofal ysbaid i ofalwyr ac i sicrhau cyflog cenedlaethol sylfaenol a thelerau ac amodau i weithwyr. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl gweld effaith y cronfeydd hyn a'r newidiadau yn y ffioedd yn ystod Ch2 2017/18.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Gwelwyd gorwariant o £426k (20%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £2,106k (26.32%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys rhagamcan o £2,098k o orwariant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC).

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar: -

- rhagdybiaeth sefyllfa waethaf o'r galw/costau ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar y costau gwasanaeth/galw/galw tebygol ar gyfer y dyfodol;
- rhagdybiaethau yn ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Nid yw'r rhain yn bethau y gellir eu rhagweld ac mae amgylchiadau unigol yn gallu, ac yn, newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a rhagdybiaethau'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ynghylch achosion, mae rhagdybiaeth o'r sefyllfa orau bosibl wedi'i wneud. Mae costau Plant Sy'n Derbyn Gofal yn dibynnu ar y galw ac yn gallu amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos ar gyfer gofal arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â'r gost o ymyriadau Llys e.e. asesiadau preswyl /llety â chymorth i rieni a phlant, cyswllt a oruchwylir ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn rhai na ellir eu rhagweld ac a arweinir gan alw. Mae'r Amlinell Cyfraith Gyhoeddus yn nodi bod angen i'r asesiadau hyn gael eu cynnal cyn yr achos sydd hefyd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

**3.3.4** Mae'r Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd yn mynd drwy broses o ailstrwythuro a bydd y ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Bydd y strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi plant i fyw gartref yn saff. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal yn cefnogi hyn ond bydd yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yw'r prif reswm pam fod y Gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth yn glynu'n gaeth wrth drothwyon i gychwyn camau gofal a dyma un o'r rhesymau am y cynnydd ac rydym yn ceisio nodi materion a dylid bod wedi cymryd camau yn eu cylch yn gynt. Er enghraifft, mae adolygiadau o'r broses lleoliadau'n cymryd lle er mwyn sicrhau fod contractau lleoliadau yn darparu gwerth am arian. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau fod y lleoliad yn cwrdd ag amcanion gofal y plentyn am y gost gorau posibl. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Mae'r galw'n fwy na'r adnoddau sydd gan y Gwasanaeth oherwydd ni fedr y gwasanaeth recriwtio digon o ofalwyr maeth ar gyfer yr Awdurdod Lleol i gwrdd ag anghenion y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal. Mae hyn yn golygu fod y plant yn gorfod cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth asiantaeth a lleoliadau preswyl sydd gryn dipyn yn ddrytach. Mae lleoliad preswyl yn costio £220,000 y flwyddyn ar gyfartaledd ac, ar hyn o bryd, mae gennym 14 o blant mewn gofal preswyl. Mae'r holl Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru mewn sefyllfa debyg.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Cafwyd tanwariant o £43k (8.91%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd gwariant y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cafwyd adolygiad trylwyr o'r gyllideb er mwyn cymryd i ystyriaeth y strwythur newydd. Yr arwydd ydyw y bydd y Gwasanaeth â chyllideb gytbwys.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd y Gwasanaeth, yn gyffredinol, wedi tanwario £159k (21.48%) ar ddiwedd Chwarter 1. Fodd bynnag, gan eithrio materion proffilio cyllidebol, roedd y tanwariant yn £85k hyd at 30 Mehefin 2017. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth wedi gorwario £80k (4.08%) erbyn 31 Mawrth 2018.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna danwariant ar yr elfen staffio oherwydd swyddi gweigion ond, hyd oni fydd ymarfer ailstrwythuro'r gwasanaeth wedi'i gwblhau, mae'n anodd rhagweld a fydd unrhyw arbedion yn codi o hyn yn 2017/18.

**3.5.1.3** Disgwylir y bydd y gwasanaeth Morwrol wedi gwario o fewn ei gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddisgwylir y bydd modd cyflawni targedau incwm ond gwneir yn iawn am hyn drwy danwario ar gyflenwadau a gwasanaethau. Efallai y bydd y gwelliannau a wnaed yn ddiweddar i'r system ar gyfer bilio ffioedd angori yn cynyddu'r incwm yn y dyfodol.

**3.5.1.4** Rhagwelir gorwariant o £80k yn y gwasanaeth Hamdden erbyn diwedd y flwyddyn. Mae incwm y canolfannau hamdden, gan gynnwys incwm y caffis, yn parhau i fod dan bwysau oherwydd targedau incwm sy'n anodd eu cyflawni ac mae hyn yn amlygu'r risg o gynyddu cyllidebau incwm fel ffordd o gyflawni cyllideb cytbwys. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys arbedion ar ardaloedd awyr agored sydd, ar hyn o bryd, wrthi'n cael eu trosglwyddo i gyrff allanol.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £2k (0.40%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £14k (0.65%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.5.2.2** Mae ychydig o danwariant yn y rhan fwyaf o'r cyllidebau yn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ac eithrio Planning Delivery Wales, Grant Eiddo ac Amgylcheddol (PEG), Cefn Gwlad ac Arfordir, Iechyd yr Amgylchedd a Marchnadoedd a fydd, fe dybir, yn gorwario rhyw ychydig. Rhagwelir y bydd yr Adain Gynllunio â gorwariant o £18k erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £32k yng Ngwarchod y Cyhoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol. Nid yw'r incwm ar gyfer Datblygiadau Mawr wedi cael ei ragamcan mor fuan â hyn a hynny oherwydd diffyg gwybodaeth.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Cafwyd £73k (3.83%) o orwariant yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd £3k (0.05%) o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'r alldro a ragwelir yn cynnwys unrhyw ragamcan mewn perthynas â'r Gyllideb Waith gan fod y gyllideb hon yn cael ei heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod gan stormydd. Nid yw'r rhagamcan hwn ychwaith yn cynnwys effaith y contract newydd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd oherwydd diffyg gwybodaeth mor fuan â hyn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yn arwain at gynnydd yn y costau ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd a fyddai'n arwain at orwariant uwch ar Briffyrdd.

**3.6.1.2** Mae yna nifer o or/tanwariannau a'r gorwariant mwyaf sylweddol yw £100k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a Chadw. Mae'r tanwariant mwyaf ar Waith Stryd, sy'n rhagweld tanwariant o £80k.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £37k (2.28%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gwasanaeth wedi gorwario £30k (0.48%) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bu effaith gadarnhaol wrth symud i'r casgliad bob tair wythnos gan fod cynnydd o 18% mewn ailgylchu a gwastraff gwyrdd, 26% mewn ailgylchu bwyd a gostyngiad o 19% mewn gwastraff gweddilliol yn ystod y cyfnod Hydref 2016 i Mehefin 2017, mewn cymhariaeth i'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol .

**3.6.2.2** Mae'r gorwariant a ragwelir i'w briodoli i ddiffyg o ran incwm a gasglwyd o Safle Cynhyrchu Trydan Penhesgyn a fydd, fe dybir, £40k yn brin o'r targed ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rhagamcenir tanwariant o £10k mewn perthynas â gwaredu gwastraff, sy'n gostwng y gorwariant i £30k.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Cafwyd tanwariant o £28k (7.19%) yn y Gwasanaethau Eiddo yn ystod y chwarter. Rhagwelir y bydd tanwariant o £33k (3.22%) yn y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £60k ar waith trwsio a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor. Disgwylir gwarged amcangyfrifedig o incwm rhent o £60k ar gyfuniad o fân-ddaliadau, unedau diwydiannol ac eiddo amrywiol i wneud iawn am hyn. Disgwylir tanwariant hefyd mewn perthynas â chostau cyfleustodau a Threthi Annomestig.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Cafwyd gorwariant o £514k (10.8%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn i'w briodoli i ymrwymiadau a godwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Disgwylir mai cyfanswm y gorwariant ar gyfer Trawsnewid fydd £100k (2.65%) ac mae'n ymwneud â'r adain TG, ond senario achos gwaethaf ydyw.

**3.7.1.1** Mae cyllidebau'r adain TG dan bwysau oherwydd y gweithgaredd sylweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau Corfforaethol sydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir cwrdd ag amcanion Corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, fe gwrdd â'r costau yma drwy'r cyllidebau prosiect corfforaethol.

**3.7.1.2** Mae'r adain AD yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.3** Mae'r adain Trawsnewid Corfforaethol hefyd yn rhagweld cyllideb gytbwys.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd

**3.8.1** Cafwyd gorwariant o £217k (27.98%) yng nghyllideb y Swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Bydd y lefel uchel hon o orwariant yn lleihau i gyd-fynd â'r gyllideb wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Rhagwelir y bydd gorwariant o £32k (1.16%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn oherwydd pwysau cyllidebol yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau, megis gorwariant ar feilïaid.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd gorwariant o £50k (15.6%) yn y swyddogaeth ar 30 Mehefin 2017 a rhagamcenir gorwariant o £50k (3.29%) ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rhagwelir gorwariant o £40k ar ffioedd ymgynghorwyr a ffioedd cyfreithiol allanol ac mae costau llawn hyn wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan danwariant ar staffio.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £89k (13.11%) yn y swyddogaeth yn ystod y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £172k (10.32%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd y gostyngiad a ragamcenir mewn cyfraniadau pensiwn i Wynedd (£78k) a disgownt pensiwn (£72k) a llai o wariant ar ffioedd y Crwner. Disgwylir y bydd gorwariant bychan mewn perthynas â chwnsela staff.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £25k (13.14%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y chwarter hwn. Rhagwelir tanwariant o £70k (6.94%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion yn codi o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir tanwariant o £234k (1.30%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd. Disgwylir tanwariant o £149k mewn perthynas â Budd-daliadau a Roddwyd oherwydd llai o alw ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rhagamcenir tanwariant hefyd o £235k ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd yr arbedion a wnaed yn sgil benthyca'n fewnol ac oedi'r broses o ail-gyllido benthyciadau.

**4.2** Yn Atodiad C, ceir crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â'r cyllidebau wrth gefn ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn gwerth £1.380m fel rhan o gyllideb 2017/18. Mae hyn yn cynnwys targed arbedion £0.300m o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £54k net wedi cael ei drosglwyddo i/o wasanaethau i gyllido prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Rhagamcan darbodus ar hyn o bryd yw y bydd diffyg o £150k o ran yr arbedion ar ddiswyddiadau gwirfoddol. Gobeithir y bydd y sefyllfa'n gwella wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae £1.315m wedi ei ymrwymo o arian wrth gefn a disgwylir y bydd y gweddill wedi ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ar yr amod y ceir y caniatadau angenrheidiol ar gyfer defnyddio cyllidebau wrth gefn.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor ei phennu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu yn y flwyddyn gyfredol yn unig, yn seiliedig ar y ffigwr a osodwyd fel sail y dreth ym mis Tachwedd 2016. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i ymrwymiadau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sail dreth y flwyddyn gyfredol nac am y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus. Nid oes modd amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, byddant yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Y sefyllfa gyfredol yw y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £348k yn uwch na'r ffigwr targed. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys yr angen i leihau'r ddarpariaeth am ddyledion drwg gyda £61k yn cael ei dalu'n ôl i'r Gronfa Gasglu. Yn ychwanegol at hyn, daeth cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef dreth gyngor ychwanegol ar ail gartrefi ym Môn, i rym ar 1 Ebrill 2017. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb hon hefyd £347k yn uwch na'r targed cyllidebol. Felly, rhagwelir cyfanswm gwarged o £695k ar gasglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2017/18

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £2.444m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2017/18 a £300k ychwanegol o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol fel y cyfeirir at hynny uchod. O'r arbedion cyllideb a adnabuwyd, mae'n debygol bydd £1,670m wedi cael neu yn mynd i gael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag mae hyn yn gadael £775k gyda'r potensial o beidio a cael eu cyflawni. Mae £490k o hwn mewn perthynas i'r gyllideb integreiddio ysgolion. Mae dadansoddiad llawn i'w weld am bod Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Roedd rhaglen buddsoddi i arbed ar gael yn 2016/17 ac roedd £982,800 ar gael ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £155,908 o'r swm hwn wedi cael ei wario. Mae'r holl brosiectau'n mynd rhagddynt ar wahanol gyflymder, gyda rhai'n agosach at eu cwblhau nag eraill. Mae manylion llawn am y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r rhaglenni ar gael yn Atodiad CH.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y chwarter cyntaf gwariwyd £272k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain wedi eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn gysylltiedig â chyfro gwaeledd staff, tra roedd £152k yn gysylltiedig a chyfro staff tra mae Gwasanaethau Plant yn cael eu ail-strwythuro. Gweler fanylion llawn yn Atodiad DD.

**8.2** 'Roedd gwariant am gostau ymgynghori am chwater 1 yn £311k, gyda £110k yn gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni, roedd y £110k i gyd wedi ei gyllido o fynhonnellau allanol. Mae £159k wedi ei gyllido o Gyllidebau'r Cyngor a £41k o grantiau penodol neu o fynhonnellau eraill. Mae amryw resymau dros ddefnyddio ymgynghorwyr ac mae manylion llawn am y gwariant i'w weld yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 yn £2.119m. Bydd £3.049m o'r swm hwn ar gyllidebau gwasanaethau, er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o or a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol sylweddol yn debyg i 2016/17 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn, mae hyn o fewn eu rheolaeth. Disgwylir i Gyllid Corfforaethol danwario o £0.235m a rhagwelir i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, i gasglu gwarged o £0.695m. Felly, gostyngir y gorwariant cyffredinol i £2.119m. Rhagwelir y bydd lefel y gorwariant oddeutu 1.68% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith lefel y gorwariant yma ar falansau cyffredinol petai'n digwydd mewn gwirionedd. Yn hytrach na chyllido hyn yn gyflawn, neu'n rhannol, dewis arall fyddai adolygu a rhyddhau unrhyw gronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oes mwyach eu hangen neu nad oes angen rhoi blaenoriaeth iddynt. Fodd bynnag, rhaid defnyddio rhai cronfeydd wrth gefn clustnodedig i'w dibenion penodol.

**9.2** Dylid nodi bod chwarter 1 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf a'r contract newydd ar gyfer cynnal a chadw Priffyrdd wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**ATODIAD B**

## Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 1

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch1 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig 2017/18 | Ch1 2017/18 Amrywiad | Ch1 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/ (Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | % |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei dirprwyo i'r Ysgolion | 43,581,400 | 11,845,407 | 11,845,407 | 0 | 43,581,400 | 0 | 0.00% |
| Addysg Ganolog | 3,188,490 | 1,005,109 | 1,042,743 | 37,634 | 3,806,490 | 618,000 | 19.38% |
| Diwylliant | 1,312,790 | 450,131 | 505,847 | 55,716 | 1,332,790 | 20,000 | 1.52% |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,497,160 | 6,029,748 | 6,131,097 | 101,349 | 22,796,176 | 299,016 | 1.33% |
| | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,001,240 | 2,127,977 | 2,554,008 | 426,031 | 10,107,240 | 2,106,000 | 26.32% |
| | | | | | | | |
| **Tai** | 1,026,820 | 479,465 | 436,735 | (42,730) | 1,026,820 | 0 | 0.00% |
| | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,420,800 | 1,905,334 | 1,978,341 | 73,007 | 6,423,800 | 3,000 | 0.05% |
| Eiddo | 1,025,340 | (388,554) | (416,478) | (27,924) | 992,340 | (33,000) | -3.22% |
| Gwastraff | 6,303,040 | 1,634,256 | 1,597,039 | (37,217) | 6,333,040 | 30,000 | 0.48% |
| | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,958,800 | 740,607 | 581,505 | (159,102) | 2,038,800 | 80,000 | 4.08% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,141,750 | 472,667 | 470,796 | (1,871) | 2,127,750 | (14,000) | -0.65% |
| | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,221,570 | 274,271 | 315,866 | 41,595 | 1,221,570 | 0 | 0.00% |
| TGCh | 1,689,790 | 491,205 | 960,595 | 469,390 | 1,789,790 | 100,000 | 5.92% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 861,250 | 156,270 | 159,945 | 3,675 | 861,250 | 0 | 0.00% |
| | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,755,760 | 773,455 | 989,850 | 216,395 | 2,787,760 | 32,000 | 1.16% |
| | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,517,480 | 330,800 | 380,609 | 49,809 | 1,567,480 | 50,000 | 3.29% |
| | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 1,665,860 | 679,342 | 590,294 | (89,048) | 1,493,860 | (172,000) | -10.32% |
| | | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 1,009,250 | 189,289 | 164,419 | (24,870) | 939,25 | (70,000) | -6.94% |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **108,178,590** | **29,196,779** | **30,288,617** | **1,091,838** | **111,227,606** | **3,049,016** | **2.82%** |
| | | | | | | | |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch1 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig 2017/18 | Ch1 2017/18 Amrywiad | Ch1 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/ (Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | % |
| **Cyllid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Ardollau | 3,334,733 | 831,392 | 831,392 | 0 | 3,334,733 | 0 | 0.00% |
| Cyllido Cyfalaf | 8,149,332 | 2,029,586 | 2,029,586 | 0 | 7,913,846 | (235,486) | -2.89% |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall | 1,667,135 | 416,784 | 416,784 | 0 | 1,667,135 | 0 | 0.00% |
| Arbedion Corfforaethol | (232,710) | (58,177) | 0 | 58,177 | (82,710) | 150,000 | |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogi CRT | (621,950) | 0 | 0 | 0 | (621,950) | 0 | 0.00% |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,681,870 | 686,637 | 686,155 | (482) | 5,532,870 | (149,000) | -2.62% |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **17,978,410** | **3,906,222** | **3,963,917** | **57,695** | **17,743,924** | **(234,486)** | **-1.30%** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb 2017/18** | **126,157,000** | **33,103,001** | **34,252,534** | **1,149,533** | **128,971,530** | **2,814,530** | **2.23%** |
| | | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (23,002,000) | | | | (23,002,000) | 0 | 0.00% |
| Y Dreth Gyngor | (32,941,000) | | | | (33,288,879) | (347,879) | 1.06% |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (564,000) | | | | (911,480) | (347,480) | 61.61% |
| Grant Cymorth Refeniw | (69,650,000) | | | | (69,650,000) | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm Cyllid 2017/18** | **(126,157,000)** | | | | **(126,852,359)** | **(695,359)** | **0.55%** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **33,103,001** | **34,252,534** | **1,149,533** | **2,119,172** | **2,119,176** | **1.68%** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa Ariannol y Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer 2017/18 fel yr oedd yn Chwarter 1**

| | **Cyllideb Wreiddiol** £ | **Trosglwyddiadau** £ | **Cyllideb Ddiwygiedig** £ | **Wedi'i ymrwymo hyd yma (30/06/17)** £ | **Y swm nad yw wedi ei ymrwymo ar hyn o bryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 283,635 | - 13,500 | 270,135 | 142,600 | 127,535 |
| Gwella | - | - | - | - | - |
| Tâl a Graddfeydd | 200,000 | - | 200,000 | - | 200,000 |
| Cost Newid | 92,000 | - | 92,000 | 92,000 | - |
| Ardoll Prentisiaethau | 290,000 | - | 290,000 | 328,816 | - 38,816 |
| Etholiadau'r Sir | 150,000 | - | 150,000 | 87,000 | 63,000 |
| Trothwy Gofal | 240,000 | - | 240,000 | 240,000 | - |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 425,000 | - | 425,000 | 425,000 | - |
| **Cyfanswm y Cyllidebau Wrth Gefn** | 1,680,635 | -13,500 | 1,667,135 | 1,315,416.00 | 351,719 |
| | | | | | |
| **Targed Arbedion Diswyddo Gwirfoddol** | -300,000 | 67,290 | -232,710 | 0.00 | -232,710 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,380,635 | 53,790 | 1,434,425 | 1,315,416 | 119,009 |

ATODIAD CH

## Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm y gofynnwyd amdano | Cyfanswm a neilltuwyd | Gwariant cyfalaf hyd at 30/06/2017 | Gwariant Refeniw hyd at 30/06/2017 (gan gynnwys Ymrwymiad) | Cyllideb sy'n Weddill | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Darparu datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | £170,000 yn y flwyddyn gyntaf, £10,000 y flwyddyn | £170,000 | £42,120 | £38,142 | £89,738 | Ar darged – i'w weithredu ym mis Rhagfyr. |
| TG | Cyfeirlyfr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | £10,800 yn y flwyddyn gyntaf, £3,000 y flwyddyn | £10,800 | - | £8,750 | £2,050 | 50-70% o'r prosiect wedi ei gwblhau. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | £255,000 | £255,000 | £29,223 | - | £225,777 | Prosiect yn mynd rhagddo a bydd yn mynd yn ei flaen am flynyddoedd. Bydd y garreg filltir fawr gyntaf – Gwastraff – yn cael ei chyflawni ym mis Medi |
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth taliadau a fydd yn galluogi pobl i wneud taliadau drwy'r Ap | £27,000 yn y flwyddyn gyntaf, £9,400 y flwyddyn | £27,000 | | £6,000 | £21,000 | Mae'r prosiect wedi cychwyn ac mae'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect CRM uchod. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella gwydnwch systemau cynllunio | Integreiddio'n llawn y system gynllunio swyddfa gefn newydd.<br><br>Caffael system rheoli amser Sage.<br>Sganio ffeiliau a dogfennau cynllunio hanesyddol.<br>Cynyddu'r defnydd o'r dechnoleg ddigidol symudol | £62,000<br><br>£16,000<br><br>£25,000<br><br>£15,000<br><br>**£118,000** | £118,000 | £12,769 | £9,416.47 | £49,231<br><br>£16,000<br><br>£15,583.53<br><br>£15,000<br><br>**£95,815** | Swyddog Sganio a Mynegeio wedi ei gyflogi o 27/02/2017. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm y gofynnwyd amdano | Cyfanswm a neilltuwyd | Gwariant cyfalaf hyd at 30/06/2017 | Gwariant Refeniw hyd at 30/06/2017 (gan gynnwys Ymrwymiad) | Cyllideb sy'n Weddill | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu i'r ffrydiau incwm cyfredol ac yn caniatáu dulliau newydd o gasglu incwm (drwy ApMôn ac ati) ac yn cysylltu i mewn i'r system rheoli arian | £150,000 | £150,000 | | £9,488 | £140,512 | Gwaith yn mynd rhagddo ac ar darged. |
| Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu modiwlau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y system Gwybodaeth Rheoli ONE | £87,000 | £87,000 | | | £87,000 | Mae'r broses o ailstrwythuro staff yn y bartneriaeth ADYC wedi ei gwblhau ers 31/08/17, mae trefniadau cydweithio i rannu Swyddog Data ac Ystadegau Addysg rhwng Ynys Môn a Gwynedd wedi eu cytuno ym Mehefin 2017. Bydd ailstrwythuo swyddogion gweinyddol a chymorth yr adran yn cychwyn ym mis Medi 2017. Mae Archwilio wedi cwblhau adroddiad ar drefniadau Cludiant ac mae cyfarfod rhwng Addysg a Phriffyrdd i drafod, ymysg pethau eraill, sut i weithredu Modiwl Cludiant ONE wedi ei drefnu ar gyfer 09/08/17.<br><br>Bydd hysbysebu am Swyddog Addysg penodol ar gyfer ONE yn rhan o'r broses ailstrwythuro ym mis Medi ac mae TG yn cael trafodaethau gydag Addysg ynghylch 'glanhau' cyfeiriadau disgyblion yn ystod tymor yr Hydref. Tybir, felly, y bydd y rhan fwyaf o'r gyllideb Buddsoddi i Arbed hon wedi cael ei defnyddio erbyn Mawrth 2018. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm y gofynnwyd amdano | Cyfanswm a neilltuwyd | Gwariant cyfalaf hyd at 30/06/2017 | Gwariant Refeniw hyd at 30/06/2017 (gan gynnwys Ymrwymiad) | Cyllideb sy'n Weddill | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig ('By Default') | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 yn y flwyddyn gyntaf, £50,000 yn yr ail flwyddyn £70,000 | £120,000 | | | £120,000 | Oedi gyda'r broses recriwtio fel y gellir gwneud gwaith paratoadol i wneud y swydd yn hyfyw. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system 'cwmwl' er mwyn cofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei phrynu drwy gytundeb fframwaith a gefnogdir gan 19 allan o'r 22 gyngor yng Nghymru. | £10,000 y flwyddyn am 4.5 o flynyddoedd £45,000 | £45,000 | | 0 | £45,000 | **Dim gwariant hyd yma. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud tuag at ddiwedd mis Medi 2017**. Codwyd pwynt gan y tîm Caffael nad yw'r Awdurdod wedi arwyddo i fyny i "Gytundeb Fframwaith" Gwarchod y Cyhoedd Cymru ac, o'r herwydd, bydd angen Eithriad i'r Rheolau Sefydlog sy'n caniatáu i'r gwasanaeth fynd allan i un darparwr sengl. Mae darpariaeth ar gyfer hyn yng Nghyfansoddiad Ynys Môn, Adran 4.9.3 – Eithriadau.<br>Gellir gwneud hyn oherwydd mae o fewn trothwy pris yr UE. Bydd Tascomi yn costio £39,000 + (5 x £15,600) = £117,000 dros 5 mlynedd ac mae hynny ymhell o fewn y trothwy o £164,000 a ddiffiniwyd yng nghyfarwyddyd yr UE.<br>Felly, mae achos busnes wrthi'n cael ei baratoi i ddangos yr holl gostau a'r manteision ac i egluro pam mai Tascomi yw'r unig gyflenwr posibl. Bydd raid i'r Swyddog Adran 151 arwyddo'r achos busnes. Bydd y fid buddsoddi i arbed yn mynd tuag at weithredu'r system newydd pan fydd wedi ei gosod. |
| | | | | **£982,800** | **£84,112** | **£71,796** | **£826,892** | |

## Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2017/18 £ | Modd cyflawni yn 2017/18 £ | Posibilrwydd na fydd modd cyflawni yn 2017/18 £ | Dim modd ei gyflawni o gwbl £ | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 1,100 | 454 | 646 | | Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â glanhawyr yn yr ysgolion. Rhagwelir y cyflawnir yr arbediad yn llawn o 2018/19 ymlaen. Fodd bynnag, mae'n debygol ni chyflawnir yr arbediad o £116k i gyllideb 2017/18 yn ystod y flwyddyn ariannol yma, gan fod y broses wedi cymryd hirach i'w weithredu na ragwelwyd. Ni fydd modd cyflawni £40k oherwydd penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Melin Llynnon. Mae'r £490k sy'n weddill yn ymwneud â'r gyllideb Integreiddio. Penderfynwyd y byddai'n cael ei chyllido o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon tra yr oedd y gwaith yn cael ei wneud. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 187 | 179 | 8 | | Mae gwaith yn parhau gydag AD mewn perthynas â'r oriau yn y canolfannau hamdden er mwyn sicrhau y gellir cwrdd â'r diffyg o £3k. Mae Eiddo a Chaffael yn parhau i weithio i sicrhau'r arbediad o £5k yn sgil allanoli'r caffi yn y Ganolfan Hamdden. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 339 | 244 | 95 | | Mae modd cyflawni'r arbediad o £50k ar gynnal a chadw Priffyrdd, fodd bynnag, bydd yn dibynnu ar sut fath o aeaf a gawn eleni. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag AD mewn perthynas ag elfennau staffio'r arbedion, sef £35k. Nid yw £5k PROW yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, oherwydd pwysau gan y cyhoedd. Nid yw £5k Patrôl Croesi wedi ei gyflawni hyd yma, gan nad yw'r swyddi'n wag eto. Ni lenwi'r swyddi fel maent yn dod yn wag. |
| Gwasanaethau Oedolion | 559 | 559 | | | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18.. |
| Tai | 41 | 36.5 | 4.5 | | Cafwyd rhywfaint o oedi'r gyda'r adolygiad o berfformiad ynni, mae un swyddog wedi cychwyn ar y gwaith ond nid felly'r ail swyddog ac, o'r herwydd, bydd angen addasu'r targed i £285k. |
| Trawsnewid | 79 | 79 | | | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18. |
| Busnes y Cyngor | 18 | 18 | | | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18. |
| Adnoddau | 121 | 100 | 21 | | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion, fodd bynnag, mae'r arbediad ar gostau postio'n dibynnu ar lwyddiant Prosiect Northgate ac ni fydd hyn yn hysbys tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. |
| **Cyfanswm** | **2,444** | **1,670** | **775** | **0** | |

**ATODIAD DD**

# COSTAU ASIANTAETH

| | £ | Cyllidwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant | 151,646.15 | Cyllideb graidd, cyllideb staffio na ddefnyddir ac arian wrth gefn wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag dros dro tra mae ail-strwythuro yn mynd ymlaen |
| Adnoddau | 4,615.00 | Cyllideb Staff | I lenwi swydd dros dro oherwydd salwch tymor hir |
| | 21,300.00 | Arian Wrth Gefn Penodol | I helpu hefo uwchraddio Meddalwedd Northgate Cyflogau ac AD |
| | 38,804.00 | Cyllideb Craidd Penodol a Chyllideb Staff | Ad-ennill dyledion sydd heb eu casglu |
| Trawsnewid | 3,876.12 | Cyllideb Staff | I lenwi swyddi dros dro tra mae staff yn sâl |
| Economaidd ac Adfywio | 2,750.31 | Cyllideb Staff | I gyfarfod â thargedau statudol arolygiadau |
| Gwastraff | 16,427.52 | Cyllideb Craidd | Asiant Safle yn y Canolfannau Ailgylchu |
| | 32,388.51 | Cyllidwyd â Grant | Asiant Safle yn y Canolfannau Ailgylchu |
| **Cyfanswm** | **271,807.61** | | |

## Gwybodaeth Ynghylch a Monitro Ymgynghorwyr

| Gwasanaeth | Swm | Categori – Rheswm a Benodwyd: Parhaus i gyfro set sgiliau penodol sydd ddim angen swydd parhaol | Categori – Rheswm a Benodwyd: Lefel o Waith | Categori – Rheswm a Benodwyd: Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Fynhonnell Ariannu (Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio na ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allannol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaethpwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Canolog | £45.00 | ✓ | | | Grant | Darparwr ar gyfer profiadau TRAC i bobl ifanc. |
| Addysg Canolog | £175.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rhoi cyngor i Benaethiaid ynglyn â chyllidebau a staffio. |
| Addysg Canolog | £6,125.00 | | ✓ | | Cyllideb Craidd | Darparu hyfforddiant a chyngor a datblygu polisïau ar gyfer diogelu, cyngor iechyd a diogelwch a monitro presenoldeb staff ar draws pob ysgol. |
| Addysg Canolog | £1,100.00 | | | ✓ | Grant | Monitro Strategaeth yr Iaith Gymraeg ar ran yr Awdurdod Lleol. |
| Diwylliant | £870.60 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Dosbarthiadau Meistr Arlunydd. |
| Diwylliant | £3,240.75 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Arlunydd i arwain Criw Celf. |
| Diwylliant | £609.33 | ✓ | | | Grant | Tiwtor cwrs TG i Oedolion sy'n Dysgu. |
| Economaidd ac Adfywio | £1,000.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Adroddiad ar cydnerthedd y rhwydwaith trawsyrru trydan |
| Economaidd ac Adfywio | **£32,522.50** | ✓ | | | Allannol (PPA) | Cytundeb fframwaith aml-ddisgyblaeth - Darpariaeth o arbenigedd, sgiliau a gallu i gefnogi'r datblygiad a gweithredu gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiadau Ynni Mawr ar yr Ynys, gan roi sylw penodol i adeiladu gorsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa. |
| Economaidd ac Adfywio | £46,964.99 | ✓ | | | Allannol (PPA) | Seilwaith Darllediadau a'r Gytundeb Fframwaith Cysylltiadau Grid - Darparu cefnogaeth a chyngor wrth ymdrin ag agweddau technegol ar gais arfaethedig y Grid Cenedlaethol am Orchymyn Caniatad Datblygu. |
| Economaidd ac Adfywio | £1,544.60 | ✓ | | | Allannol (PPA) | Darparu cyngor arbenigol ar gynllunio archaeolegol. |

| Gwasanaeth | Swm | Categori – Rheswm a Benodwyd | | Fynhonnell Ariannu (Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio na ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allannol) | | Disgrifiad o’r gwaith a wnaethpwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gyfro set sgiliau penodol sydd ddim angen swydd parhaol | Lefel o Waith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | | |
| Economaidd ac Adfywio | £26,293.41 | ✓ | | | Allannol (PPA) | Cytundeb Fframwaith Gwasanaeth Cyfreithiol - Darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag adeilad newydd niwclear Wylfa ac unrhyw brosiectau Ynys Ynni eraill. |
| Economaidd ac Adfywio | £2,890.00 | ✓ | | | Allannol (PPA) | Cytundeb Fframwaith Aml-ddisgyblaeth - Darpariaeth o arbenigedd, sgiliau a gallu i gefnogi’r datblygiad a gweithredu gweithgareddau sy'n ymwneud â Datblygiadau Ynni Mawr ar yr Ynys, gan roi sylw penodol i adeiladu gorsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa. |
| Economaidd ac Adfywio | £122.67 | ✓ | | | Allannol (PPA) | Rhoi cyngor strategol ar prosiect Grid Cenedlaethol. |
| Economaidd ac Adfywio | £23,832.90 | | | ✓ | Allannol (Llywodraeth Cymru) | Prosiect Porth Ymwelwyr Rhyngwladol - Paratoi dyluniadau RIBA Cyfnod 3 ar gyfer cyflwyno grant ERDF. |
| Economaidd ac Adfywio | £1,950.00 | | | ✓ | Allannol (NDA) | Adolygiad o gost estyniad y Ganolfan Fusnes (cyn ei gyflwyno i WEFO). |
| Economaidd ac Adfywio | £1,957.40 | | | ✓ | Allannol (NDA) | Ffi Cynllunio Amlinellol - tir ar Ardal Fenter Llangefni (EZ5). |
| Economaidd ac Adfywio | £1,125.00 | ✓ | | | Allannol (costau sy’n cael eu cyfro gan ffi y cleient) | Cost gwiriadau strwythurol yn erbyn meini prawf sydd eu hangen. |
| Economaidd ac Adfywio | £50.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Hyfforddiant ar gyfer swyddogion iechyd yr amgylchedd. |
| Economaidd ac Adfywio | £30.00 | | | Misol | Cyllideb Craidd | Archwiliadau Sgorio Credyd. |
| Priffyrdd | £109.60 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Ardoll Gwasanaeth dyfarnu parcio. |
| Priffyrdd | £128.31 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd | Darparu Contractau Tymhorol i amryw o Gyrff. |

| | Swm | Categori – Rheswm a Benodwyd | | Fynhonnell Ariannu (Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio na ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allannol) | | Disgrifiad o'r gwaith a wnaethpwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gyfro set sgiliau penodol sydd ddim angen swydd parhaol | Lefel o Waith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | | |
| Ysgolion | £215.00 | | | | Cyllideb Craidd | Sesiynau Arlunio. |
| Ysgolion | £525.00 | | | | Cyllideb Craidd | Sesiynau Cerddoriaeth / Drama. |
| Ysgolion | £500.00 | | | | Cyllideb Craidd | Sesiynau Chwaraeon. |
| Ysgolion | £83.84 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwasanaeth Cyfieithu. |
| Ysgolion | £776.47 | | | | Cyllideb Craidd | Ymarferydd Creadigol. |
| Gwastraff | £250.00 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Monitro Perimider Nwy. |
| Gwastraff | £680.00 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Cefnogaeth Technegol Nwy Safle Tirlenwi Penhesgyn – Ebrill 2017 . |
| Gwastraff | £43.40 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Ffi Mesuryddion a Setliad - Mai 2017. |
| Gwastraff | £182.50 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Adolygu Asesiad Blynyddol Risg Tân. |
| Gwastraff | £3,900.00 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Cydymffurfiaeth hefo trwyddedau safle. |
| Gwastraff | £583.80 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Samplo Blynyddol ar Ddŵr Daear/Dŵr Wyneb a Thrwytholch 2017/18. |
| Gwastraff | £575.00 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | |
| Gwastraff | £580.00 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | |
| Gwastraff | £600.00 | ✓ | | | Arianwyd â Grant | Gwaith ymgynghori ym Mhenhesgyn IVC. |
| Gwastraff | £182.50 | ✓ | | | Arianwyd â Grant | Adolygu Asesiad Blynyddol Risg Tân. |
| CRT | £355.00 | | | ✓ | CRT Craidd | Cynllun Asesu Atodol Contractwyr Cymeradwy. |
| CRT | £2,927.20 | | | ✓ | CRT Craidd | Cyngor Cyfreithiol – allanoli 'stores'. |
| CRT | £8,000.00 | | | ✓ | Grant | Ymgynghoriaeth Tai Fforddiadwy - Wylfa Newydd. |
| CRT | £134.10 | | | ✓ | CRT Craidd | Treuliau ar gyfer ymgynghorydd system Orchard. |
| Gwasanaethau Plant | £5,186.40 | | | ✓ | Wrth Gefn | Sefydlu tîm Trothwy Gofal sy'n anelu at leihau nifer y plant sy'n cael gofal. |
| Gwasanaethau Plant | £30.00 | | | ✓ | | |
| Gwasanaethau Plant | £2,068.15 | | ✓ | | Cyllideb staffio heb eu defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Cadeirio ac adolygu achosion amddiffyn plant. |
| Gwasanaethau Plant | £2,564.90 | | ✓ | | | |

| Gwasanaeth | Swm | Categori – Rheswm a Benodwyd | | | Fynhonnell Ariannu (Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio na ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allannol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaethpwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gyfro set sgiliau penodol** | **Lefel o Waith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | | |
| Gwasanaethau Plant | £764.10 | | ✓ | | Cyllideb staffio heb eu defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | |
| Gwasanaethau Plant | £937.50 | | | ✓ | | Ymgyrch Recriwtio. |
| Gwasanaethau Plant | £418.50 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Cyngor Cyflogaeth. |
| Trawsnewid | £4,000.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Gosod ac Ymgynghoriaeth. |
| Trawsnewid | £1,303.98 | | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Gosod ac Ymgynghoriaeth. |
| Trawsnewid | £6,793.48 | | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Ymgynghoriaeth a Rheoli Prosiect. |
| Trawsnewid | £1,900.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Gosod ac Ymgynghoriaeth. |
| Trawsnewid | £1,884.00 | | | ✓ | Grant | Asesiadau Gweithwyr Cymdeithasol. |
| Busnes y Cyngor | £54,907.58 | | Cyfro swydd llawn amser | Swydd Cyfreithiwr Contractau | Gorwariant ar Gyllideb | Contractau a chyngor Caffael – cyfnod mamolaeth hyd at Ebrill 2018. |

| Gwasanaeth | Swm | Categori – Rheswm a Benodwyd | | Fynhonnell Ariannu (Cyllideb Craidd Penodol / Cyllideb Staffio na ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allannol) | | Disgrifiad o’r gwaith a wnaethpwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gyfro set sgiliau penodol** | **Lefel o Waith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | | |
| Busnes y Cyngor | | | Cyfro swydd llawn amser | Swydd Rheolwr o fewn y gwasanaeth | Gorwariant ar Gyllideb | Salwch tymor hir. |
| Busnes y Cyngor | £1,300.00 | | Cynghori un Pwyllgor Cynllunio | Unwaith ac am byth | Gorwariant ar Gyllideb | Cynghorydd Cyfreithiol i un Pwyllgor Cynllunio. |
| Adnoddau | £1,300.00 | ✓ | | | Cyllideb Staff | Rheolaeth o Archwilio Mewnol. |
| Adnoddau | £6,925.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwasanaethau Trysorlys. |
| Adnoddau | £1,333.20 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Ymgynghori ar TAW. |
| Adnoddau | £575.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwaith ar hawliadau Tâl Cyfartal. |
| Adnoddau | £7,240.60 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Ymgynghori ar system Civica. |
| Adnoddau | £1,050.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Ymgynghori ar gyfer cynhyrchu adroddiad. |
| Adnoddau | £3,825.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rheoli Prosiect – Northgate AD/Cyflogau |
| Adnoddau | £7,200.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rheoli Prosiect – Northgate AD/Cyflogau |
| Adnoddau | £13,500.00 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rheoli Prosiect – Rheoli Dogfennau Electronic |
| Adnoddau | £9,987.50 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rheoli Prosiect – Gwella Casglu Incwm |
| | **£310,775.76** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEDI , 2017** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 1 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2017/18.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2017/18 a oedd yn dangos diffyg cynlluniedig o £3,353k.

**(ii)** Roedd y gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cynnwys cyfraniad at y rhaglen gyfalaf o £8,882k.

**(iii)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Mehefin 2017.

**4. Trosolwg**

**(i)** Roedd y sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer 2017/18 yn dangos gorwariant o £49k, sef amrywiad o lai na 2%. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf yn llai na'r swm a broffiliwyd ond disgwylir iddo fod yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad B.

**5. Incwm**

**(i)** Mae'r incwm £41k (1%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd.

**(ii)** 'Roedd y gyllideb wedi cymryd yn ganiataol y byddai'r gwaith o ailfodelu'r modurdai wedi ei gwblhau. Mae'r rhagolwg wedi ei ddiwygio i ddangos incwm ychwanegol o £25k yn sgil gweithredu'r prosiect fesul cam.

**6. Gwariant**

**(i)** Yn gyffredinol, mae'r gwariant £45k yn is na'r gyllideb. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw dueddiadau arwyddocaol i adrodd arnynt.

**7. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn ac ni chânt eu monitro'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn.

**8. Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn dangos gorwariant o £53k. Mae'r gorwariant oherwydd gwariant ychwanegol ar isgontractwyr ac ar ddeunyddiau i wneud gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r gwariant yn cael ei adolygu a gallai hynny leihau'r gorwariant. Mae gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu i wella codio ac amseroldeb yr archebion prynu, a chedwir golwg fanwl ar y gwariant.

**(ii)** Mae gorwariant yn y pennawd Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall yn sgil caffael gwasanaethau (yn arbennig gwaith cynnal a chadw tir) sy'n ymwneud â llawer o'r flwyddyn ariannol. Disgwylir y bydd y gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Nid yw gwariant cyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin yn dangos unrhyw amrywiad sylweddol hyd yma. Mae manylion i'w gweld yn Atodiad B.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Eraill** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 1.<br>Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 1. | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb y CRT am 2017/18 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017).<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2017/47 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017). | | |

**ATODIAD A**

| | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Cyllideb a Broffilwyd | Cyfanswm Gwariant Hyd Yma | Amrywiad Hyd Yma | Gor/ Tanwariant a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Cyfrifon Refeniw CRT – Mehefin 2017** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Incwm – Anheddau | -16,052,000 | -3,996,948 | -4,020,743 | -23,795 | |
| Incwm – Modurdai | -185,000 | -46,065 | -56,950 | -10,885 | -25,000 |
| Incwm – Taliadau Gwasanaeth | -97,000 | -24,153 | -31,777 | -7,624 | |
| Incwm – Arall | -291,000 | -63,993 | -62,712 | 1,281 | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-16,625,000** | **-4,131,159** | **-4,172,182** | **-41,023** | **-25,000** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Cyfranogiaid Tenantiaid | 96,710 | 24,034 | 14,656 | -9,378 | |
| Gweinyddiaeth Rhent | 409,410 | 102,079 | 16,514 | -85,565 | |
| Rheoli Stadau | 206,280 | 50,621 | 109,037 | 58,416 | |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (Nid UCA) | 863,890 | 214,056 | 214,537 | 481 | |
| Gwariant Refeniw Arall | 629,020 | 156,682 | 147,124 | -9,558 | |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant** | **2,205,310** | **547,472** | **501,868** | **-45,604** | 0 |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | |
| Llog / DRI | 3,677,000 | 0 | 0 | 0 | |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 147,000 | 0 | 0 | 0 | |
| Codi Tâl – Gwasanaeth Tai | 621,830 | 0 | 0 | 0 | |
| Codi Tâl – Gwasanaethau Canolog | 677,010 | 0 | 0 | 0 | |
| Cyfraniad Refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf | 8,882,000 | 0 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm CRT** | **-414,850** | **-3,583,687** | **-3,670,314** | **-3,670,314** | **-25,000** |
| **Uned Cynnal Tai** | 3,268,040 | 810,851 | 863,507 | 52,656 | |
| Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall | 499,590 | 124,434 | 207,764 | 83,330 | |
| **Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | **3,767,630** | **935,285** | **1,071,271** | **135,986** | **0** |
| **CYFANSWM DIFFYG CRT** | **3,352,780** | **-2,648,402** | **-2,599,043** | **49,359** | **-25,000** |

Noder: Mae ffigwr negyddol yn y golofn newid a ragwelir yn dangos gwelliant yn y sefyllfa gyffredinol.

**ATODIAD B**

| GWASANAETH | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Gor / Tanwariant a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 30,000 | 30,677 | 677 | 600,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw Cynlluniedig | 4,635,000 | 750,000 | 639,663 | -110,337 | 4,635,000 | 0 |
| Cerbydau Uned Cynnal Tai 2017/18 | 144,000 | 0 | 0 | 0 | 144,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 25,645 | 25,617 | -28 | 502,580 | 0 |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 693,120 | 0 | 195 | 195 | 693,120 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 4,800,000 | 350,000 | 348,337 | -1,663 | 4,800,000 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 100,000 | 109,179 | 9,179 | 350,000 | 0 |
| Risgiau Tân | 167,620 | 0 | 0 | 0 | 167,620 | 0 |
| SATC | 870,280 | 67,570 | 26,128 | -41,442 | 870,280 | 0 |
| Adeiladau | 110,000 | 27,500 | 39,378 | 11,878 | 110,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **12,872,600** | **1,350,715** | **1,219,175** | **-131,540** | **12,872,600** | **0** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **18 MEDI 2017** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD AR FONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD J GRIFFITH** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf chwarter 1 2017/18.
- Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo £0.041m ychwanegol o gyllideb Cyfalaf i gyllido'r costau ychwanegol yng nghartref gofal Garreglwyd (gweler paragraff 4.4).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol cyllideb Cyfalaf y Cyngor am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth sydd wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf am y flwyddyn.

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad ar Fonitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2017/18
Atodiad B – Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2017/18, fel y cafodd ei hargymell gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017;
- Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18, fel y cafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017; ac
- Adroddiad ar Ganlyniad Cyfalaf 2016/17, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 12 Mehefin 2017.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd y Cyngor Rhaglen Gyfalaf o £27.630m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £12.873m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2017, cymeradwyodd y Cyngor Lithriad Cyfalaf o £4.677m gael ei ddwyn ymlaen o 2016/17, ac hefyd yr oedd llithriant o £1.758m a gariwyd ymlaen o'r rhaglen ysgolion y 21ain ganrif. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £1.074m i gyd. Yn gynwysedig yn hyn, mae cynlluniau grant megis y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd o £0.163m a grant MALD o £0.115m ar gyfer Oriel Ynys Môn. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i £48.012m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2017/18

**2.1** Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2017, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2017 a'r modd y bwriedir cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2017/18.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario % | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,490 | 290 | 146 | 16 | 162 | 56 | 7 |
| CRT Tai | 12,873 | 1,351 | 1,146 | 73 | 1,219 | 90 | 9 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,598 | 2,198 | 1,215 | 287 | 1,502 | 68 | 16 |
| Economaidd ac Adfywio | 8,890 | 10 | 7 | 15 | 22 | 216 | 0 |
| Priffyrdd | 10,883 | 650 | 452 | 108 | 560 | 86 | 5 |
| Rheoli Gwastraff | 172 | 66 | - | 66 | 66 | 101 | 39 |
| Eiddo | 507 | 200 | 190 | 1 | 191 | 95 | 38 |
| Trawsnewid | 655 | 174 | 46 | 38 | 85 | 49 | 13 |
| Cynllunio | 411 | 64 | 68 | - | 68 | 106 | 17 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,533 | 16 | 13 | - | 13 | 81 | 1 |
| **Cyfanswm** | **48,012** | **5,019** | **3,283** | **604** | **3,887** | **77** | **8** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 23,447 | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,866 | | | | | | |
| Bethyca gyda Chefnogaeth | 3,509 | | | | | | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 6,302 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 10,208 | | | | | | |
| Arian Wrth Gefn | 752 | | | | | | |
| Benthyciad | 365 | | | | | | |
| Tanwariant o 2016/17 | 564 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **48,012** | | | | | | |

**2.2** Roedd 77% o'r gyllideb a broffiliwyd wedi ei wario hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, fodd bynnag, dim ond 8% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario yn rhan olaf y flwyddyn ariannol. Mae gwaith ar rai Cynlluniau Cyfalaf wedi cychwyn ers tro, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis goleuadau stryd a phrynu Telehandler. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, ond mae'r cyllidebau hynny wedi'u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol, megis prynu cerbydau newydd. Gweler y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn 2017/18 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae 90% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, ond dim ond 9% o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb gyfan wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn Ch1 wedi bod yn gysylltiedig â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2016/17, h.y. ymrwymiad a oedd yn cario drosodd. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig newydd a gaffaelwyd yn ystod Ch1 a chanlyniadau ymarferion tendro a ddisgwylir yn ystod Ch2 yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer 2017/18 wedi'i hymrwymo'n llawn.

**2.4** Cwblhawyd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf o a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti, yn ystod 2016/17. Roedd y gwarged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £0.307m, sydd wedi cael ei glustnodi'n benodol ar gyfer gwaith cyfalaf pellach yn 2017/18. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y rhaglen yn gwario £0.403m yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gyda'r £0.096m ychwanegol yn cael ei gyllido o'r gyllideb ar gyfer Trwsio a Chynnal a Chadw Mân-ddaliadau. Rhagwelir y bydd ychwaneg ohonynt yn cael eu gwerthu yn 2017/18 ac, os bydd y gwerthiannau hyn yn cael eu cwblhau, bydd £0.530m pellach ar gael.

## 3. <u>CYLLID</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn a'r gwaith yn mynd rhagddo. Ceir diweddariad cryno ar y cynlluniau hyn isod:-

- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Mae £0.125m wedi cael ei neilltuo tuag at brynu Neuadd y Farchnad. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda'r perchenogion gyda golwg ar gwblhau'r pryniant erbyn diwedd Chwarter 2.

- Ffordd Gyswllt Llangefni – Cwblhawyd Rhannau 1 & 2 yn ystod wythnosau diwethaf 2016/17, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar Ran 4 ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2018 (ac y bydd yr anfonebau wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2018). Yn ystod Chwarter 1, cafodd y gwariant ei hawlio'n llawn yn erbyn y grant. Bydd y tendr adeiladu ar gyfer Rhan 3 yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Awst 2017 gyda gwaith yn cychwyn ar y safle ym mis Tachwedd 2017 ar yr amod y ceir y caniatadau angenrheidiol ar gyfer y tir/ y bydd modd prynu'r tir. Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer yr ymgymerwyr statudol wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd (ar gyfer Rhan 3).

- Seilwaith Strategol Llangefni – Cyflwynwyd bid ar gyfer arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ym mis Ebrill. Llwyddodd y fid ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2017. Bydd gwaith dylunio a thirfesur yn cychwyn yn ystod misoedd yr haf a disgwylir y bydd y contract adeiladu'n cael ei ddyfarnu cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cynllun yn cynnwys adeilad unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r swyddfeydd yn y ganolfan fusnes ar gyfer eu gosod.

- Morglawdd Caergybi – bydd y gwaith ar y comisiwn cychwynnol yn cael ei gwblhau yn yr Hydref. Mae'r cyllid ar gyfer yr ymgynghoriad eleni'n cael ei ddarparu gan Stena Port.

- Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cafodd y cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan ei dynnu i lawr yn llawn fel rhan o'r rhaglen ysgolion y 21ain ganrif yn 2016/17. Felly mae'r gwaith sy'n weddill yn mynd i gael ei gwblhau ar y ddwy ysgol yn ystod 2017/18 a chaiff ei gyllido drwy fenthyca ac adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad y Cyngor o 50% tuag at y prosiect. Mae costau'r prosiectau ar gynlluniau gwahanol yn parhau i amrywio, fodd bynnag, mae cyfanswm y gost am Fand A yn dal o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

**3.1.2** Mae yna gynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto, neu sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y sawl a fydd yn darparu'r cyllid. Ceir diweddariad cryno ar y cynlluniau isod:-

- Lliniaru Llifogydd Biwmares – mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer Lliniaru Llifogydd Biwmares yn eu rhaglen ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, i gael cynnig ffurfiol, bydd rhaid i'r Awdurdod gyflwyno bid a bydd hynny'n digwydd unwaith y bydd gwaith dylunio'r cynllun wedi ei gwblhau.

- Seilwaith Strategol Caergybi – Cynllun yw hwn i godi unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi ac mae bid ddrafft wedi cael ei chyflwyno i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Disgwylir canlyniad cadarnhaol, fodd bynnag, mae'n ddibynnol ar sicrhau cyllid cyfatebol.

- Porth Twristiaeth – Mae bid wedi cael ei chyflwyno am arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae'n cael ei hasesu ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn yr Hydref.

- Cyfalaf ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd – Cynllun fydd hwn i wneud gwaith cyfalaf ar y B5110 rhwng Llangefni a Marianglas. Bydd gwaith yn cychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

- MALD Oriel Ynys Môn – Ychydig o arian a wariwyd yn ystod Chwarter 1. Fodd bynnag, bydd gwaith ar adnewyddu'r toiledau'n cychwyn yn chwarter 2 ynghyd â gwelliannau i'r goleuadau a mân-waith arall. Yn chwarter 3, disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau gyda rhywfaint o waith tirlunio. Disgwylir y bydd y grant wedi ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd – Ni ddisgwylir i unrhyw waith gael ei wneud yn awr yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y gwaith ar-lein yn mynd yn ei flaen ond nid yw'n debygol o gychwyn rŵan tan mis Medi 2018.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2017/18 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Meh-2017 £'000 | Rhagwelwyd hyd at 31-Mar-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 530 | 0 | 530 |
| Cyffredinol | 2,925 | 455 | 2,925 |
| Diwydiannol | 275 | 0 | 275 |
| Ysgolion | 640 | 0 | 640 |
| **Cyfanswm** | **4,370** | **455** | **4,370** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd y Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £4.370m, a dim ond £0.455m oedd wedi dod i law ar 30 Mehefin 2017 (10.4%). Roedd hyn oherwydd gwerthu Parc Mownt (£0.350m) ac eiddo yng Nghaergybi (£0.105m). Mae'r Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn cynnwys £2.175m o werthu safleoedd hen ysgolion, £0.530m o werthu gwahanol Fân-ddaliadau a £0.275m o unedau diwydiannol. Mae'r incwm yn cael ei greu o werthu Mân-ddaliadau sydd wedi eu cytuno'n barod, nid oes eiddo ychwanegol yn cael eu gwerthu.

**3.2.3** Ers diwedd y chwarter, mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.220m mewn Derbyniadau Cyfalaf o werthu Mân-ddaliad (£0.085m) a gwerthu Tŷ (£0.135m).

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2017/18

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2018, a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | Tan / Gor Wariant Rhagamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,490 | 2,490 | - | - |
| CRT Tai | 12,873 | 12,873 | - | - |
| Dysgu Gydol Oes | 9,598 | 8,419 | - 1,178 | - 12 |
| Economaidd ac Adfywio | 8,890 | 1,226 | - 7,664 | - 86 |
| Priffyrdd | 10,883 | 5,697 | - 5,186 | - 48 |
| Rheoli Gwastraff | 172 | 172 | - | - |
| Eiddo | 507 | 603 | 96 | 19 |
| Trawsnewid | 655 | 655 | - | - |
| Cynllunio | 411 | 1,118 | 707 | 172 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,533 | 1,568 | 35 | 2 |
| **Cyfanswm** | **48,012** | **34,821** | **- 13,190** | **- 27** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid Rhagamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 23,447 | 11,204 | - 12,243 | - 52 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,866 | 4,370 | 1,504 | 52 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 3,509 | 3,171 | - 338 | - 10 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 6,302 | 4,921 | - 1,381 | - 22 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,208 | 10,304 | 96 | 1 |
| Arian wrth Gefn | 752 | 487 | - 265 | - 35 |
| Benthyciad | 365 | 365 | - | - |
| Tanwariant o 2016/17 | 564 | - | - 564 | - 100 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **48,012** | **34,821** | **- 13,190** | **- 27** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir y bydd tanwariant o £10.317m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 ac mae'n bosibl y bydd y swm hwn yn llithro i Raglen Gyfalaf 2018/19. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2018/19 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Rhagwelir mai'r prif brosiectau a fydd, fe dybir, yn tanwario yw Seilwaith Strategol Caergybi, Seilwaith Strategol Llangefni a'r Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y gwelir yn Atodiad B. Mae'r tri chynllun yn cael eu cyllido bron yn gyfan gwbl o grantiau a dyma'r rheswm am yr amrywiad sylweddol yn y cyllid Grantiau Cyfalaf yn nhabl 4.1. Y rhesymau am y tanwariant mewn perthynas â Seilwaith Strategol Caergybi yw ein bod yn parhau i chwilio am gyllid allanol ac mae bid ddrafft wedi cael ei chyflwyno. Rhagwelir y bydd tanwariant ar gynllun Seilwaith Strategol Llangefni oherwydd dim ond yn ddiweddar y llwyddwyd i sicrhau cyllid allanol a dim ond gwaith dylunio a thirfesur sy'n debygol o gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nid oes disgwyl i'r cynllun Ffordd Newydd i Wylfa Newydd fynd yn ei flaen tan Medi 2018 ar y cynharaf.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £137.438m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca fel y gall ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca £111.432m yn allanol, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £26.006m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2017/18 (Atodiad 11).

**4.4** Mae cyllideb o £0.250m ar gyfer atgyweirio Cartref Gofal Garreglwyd wedi ei gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi ei chymeradwyo ar gyfer 2017/18. Erbyn hyn, disgwylir i'r costau rhagamcanedig godi £0.041m ac mae angen i'r Pwyllgor yma wneud penderfyniad os yw am gymeradwyo'r cyllid ychwanegol o £0.041m. Y rheswm am y cynnydd yn y costau yw bod rhaid rhannu'r cynllun gwreiddiol i mewn i ddau ran, gan ychwanegu cost i'r cynllun. Os yw'r gyllideb ychwanegol am gael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyllido o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Cyfalaf.

## 5. <u>Y DYFODOL</u>

**5.1** Ar 28 Mawrth 2017, cymeradwyodd y Cyngor Llawn Raglen Gyfalaf am 2017/18 ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r rhagamcanion o'r gwariant yn 2018/19 ymlaen ar gyfer y cynlluniau a gymeradwywyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Yn 2018/19, mae hyn yn gyfanswm o £37.511m ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai gan gynnwys £7.274m ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, £13.885m ar gyfer Ffordd Newydd mewn perthynas â Wylfa Newydd a £7.150m ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol. Y rhagamcan ar gyfer y CRT oedd £7.283m. Yn 2019/20, bydd y cynlluniau hyn a gymeradwywyd yn dod i gyfanswm o £27.479m ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai a £7.523m ar gyfer y CRT. Mae hyn yn cynnwys £7.150m ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol, £9.567m ar gyfer y Ffordd Newydd mewn perthynas â Wylfa Newydd a £6.813m ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf a gyflwynwyd ym mis Medi 2016, felly, bydd angen diwygio a diweddaru'r ffigyrau rhagamcanedig hyn ar gyfer y broses o gyflwyno bidiau am arian cyfalaf yn 2018/19 a fydd yn cychwyn yn o fuan. Bydd angen diweddaru'r bidiau cyfalaf hefyd ar gyfer y rhaglenni adnewyddu blynyddol a gymeradwywyd yn 2017/18. Wrth ddatblygu'r rhaglen gyfalaf 2018/19, ceir gwahoddiad i wneud bidiau cyfalaf newydd i gael eu cyflwyno ar gyfer cynlluniau cyfalaf newydd yn dechrau yn ystod 2018/19. Bydd y rhain yn gyfyngedig i brosiectau sy'n cyfrannu at cynllun corfforaethol 2018/21; prosiectau sy'n gynlluniau buddsoddi-i-arbed a fydd yn sicrhau arbedion neu gynhyrchu incwm; prosiectau a ariannir yn allanol neu brosiectau y gellir cynhyrchu incwm/arbedion i ad-dalu'r benthyca di-gefnogaeth sydd ei angen i ariannu'r prosiect.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 958,280 | 239,568 | 116,780 | 0 | 116,780 | -122,788 | 49 | 12 | 958,280 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,301,000 | 49,998 | 29,593 | 15,506 | 45,099 | -4,899 | 90 | 3 | 1,301,000 | 0 | 0 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,489,930** | **289,566** | **146,373** | **15,506** | **161,879** | **-127,687** | **56** | **7** | **2,489,930** | **0** | **0** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 30,000 | 0 | 30,677 | 30,677 | 677 | 0 | 0 | 600,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,635,000 | 750,000 | 633,804 | 5,859 | 639,663 | -110,337 | 85 | 14 | 4,635,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau Uned Cynnal Tai 2017/18 | 144,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 144,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 25,645 | 23,077 | 2,540 | 25,617 | -28 | 100 | 5 | 502,580 | 0 | 0 |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 693,120 | 0 | 195 | 0 | 195 | 195 | 0 | 0 | 693,120 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 4,800,000 | 350,000 | 348,337 | 0 | 348,337 | -1,663 | 100 | 7 | 4,800,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Preifat | 350,000 | 100,000 | 75,170 | 34,009 | 109,179 | 9,179 | 109 | 31 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 167,620 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 167,620 | 0 | 0 |
| SATC | 870,280 | 67,570 | 26,128 | 0 | 26,128 | -41,442 | 39 | 3 | 870,280 | 0 | 0 |
| Eiddo | 110,000 | 27,500 | 39,378 | 0 | 39,378 | 11,878 | 143 | 36 | 110,000 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **12,872,600** | **1,350,715** | **1,146,090** | **73,085** | **1,219,175** | **-131,540** | **90** | **9** | **12,872,600** | **0** | **0** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 474,620 | 0 | 5,107 | 0 | 5,107 | 5,107 | 0 | 1 | 474,620 | 0 | 0 |
| Atgyweirio Adeiladau Addysgol | 500,000 | 0 | 1,024 | 0 | 1,024 | 1,024 | 0 | 0 | 500,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 1,158,000 | 868,500 | 461,697 | 200,622 | 662,319 | -206,181 | 76 | 57 | 1,009,500 | -148,500 | -13 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 2,502,000 | 1,251,000 | 720,719 | 59,347 | 780,066 | -470,934 | 62 | 31 | 2,087,250 | -414,750 | -17 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 314,000 | 78,500 | 17,193 | 18,565 | 35,758 | -42,742 | 0 | 11 | 563,190 | 249,190 | 79 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw | 3,591,000 | 0 | 9,219 | 8,466 | 17,685 | 17,685 | 0 | 0 | 3,062,360 | -528,640 | -15 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 166,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -166,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 217,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 217,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Llangefni | 675,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 505,370 | -169,630 | -25 |
| **Cyfanswm** | **9,597,620** | **2,198,000** | **1,214,958** | **287,000** | **1,501,958** | **-696,042** | **68** | **16** | **8,419,290** | **-1,178,330** | **-12** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,050,000 | 10,000 | 2,423 | 13,688 | 16,110 | 6,110 | 161 | 2 | 210,000 | -840,000 | -80 |
| Seilwaith Strategol Caergybi | 5,001,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | -4,851,000 | -97 |
| Seilwaith Strategol Llangefni | 2,523,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 550,000 | -1,973,000 | -78 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 84,750 | 0 | 4,519 | 0 | 4,519 | 0 | 0 | 5 | 84,750 | 0 | 0 |
| Cyllid Salix - Goleuadau LED | 5,190 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,190 | 0 | 0 |
| I2S - Effeithlonrwydd Ynni yn y Canolfannau Hamdden | 111,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 111,000 | 0 | 0 |
| Grant MALD Oriel Ynys Mon 2017/18 | 115,370 | 0 | 0 | 928 | 928 | 928 | 0 | 1 | 115,370 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,890,310** | **10,000** | **6,942** | **14,615** | **21,557** | **7,038** | **216** | **0** | **1,226,310** | **-7,664,000** | **-86** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12,920 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 346,400 | 0 | 0 | 61,066 | 61,066 | 61,066 | 0 | 18 | 346,400 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 761,000 | 190,250 | 78,707 | 0 | 78,707 | -111,543 | 41 | 10 | 761,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 800,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 800,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 800,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -800,000 | -100 |
| Priffyrdd Newydd Wylfa Newydd | 4,097,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -4,097,000 | -100 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414,000 | 150,000 | 57,199 | 46,893 | 104,092 | -45,908 | 69 | 3 | 3,125,000 | -289,000 | -8 |
| Teithio Llesol | 4,000 | 0 | 45 | 0 | 45 | 45 | 0 | 1 | 4,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 163,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 163,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Salix - Goleuadau Stryd | 365,000 | 300,000 | 304,726 | 0 | 304,726 | 0 | 102 | 83 | 365,000 | 0 | 0 |
| Morglawdd Caergybi | 119,520 | 10,000 | 11,210 | 0 | 11,210 | 0 | 112 | 9 | 119,520 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **10,882,840** | **650,250** | **451,887** | **107,959** | **559,846** | **-96,340** | **86** | **5** | **5,696,840** | **-5,186,000** | **-48** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Telehandler a'r Bont Bwyso | 97,000 | 66,000 | 0 | 66,410 | 66,410 | 410 | 101 | 68 | 97,000 | 0 | 0 |
| I2S - Traeth Coch | 75,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **172,000** | **66,000** | **0** | **66,410** | **66,410** | **410** | **101** | **39** | **172,000** | **0** | **0** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 307,000 | 200,000 | 189,786 | 1,080 | 190,866 | -9,134 | 95 | 62 | 403,000 | 96,000 | 31 |
| **Cyfanswm** | **507,000** | **200,000** | **189,786** | **1,080** | **190,866** | **-9,134** | **95** | **38** | **603,000** | **96,000** | **19** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Prosiectau TGCh | 90,790 | 22,698 | 4,375 | 38,250 | 42,625 | 19,928 | 188 | 47 | 90,790 | 0 | 0 |
| TGCh - Seilwaith Craidd | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 100,000 | 25,000 | 0 | 0 | 0 | -25,000 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Symud Data I Systemau Newydd | 50,000 | 11,000 | 0 | 0 | 0 | -11,000 | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwydded MS | 101,000 | 101,000 | 0 | 0 | 0 | -101,000 | 0 | 0 | 101,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,770 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,770 | 0 | 0 |
| System EDMS - Buddsoddi i Arbed | 57,860 | 14,465 | 42,120 | 0 | 42,120 | 27,655 | 291 | 73 | 57,860 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **655,420** | **174,163** | **46,495** | **38,250** | **84,745** | **-89,418** | **49** | **13** | **655,420** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 410,670 | 64,038 | 67,848 | 0 | 67,848 | 3,810 | 106 | 17 | 1,117,619 | 706,949 | 172 |
| **Cyfanswm** | **410,670** | **64,038** | **67,848** | **0** | **67,848** | **3,810** | **106** | **17** | **1,117,619** | **706,949** | **172** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 65,000 | 16,250 | 13,091 | 0 | 13,091 | -3,159 | 81 | 20 | 65,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Byron | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 143,931 | -6,069 | -4 |
| Adnewyddu Haulfre | 68,270 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 68,270 | 0 | 0 |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Garreglwyd | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 291,240 | 41,240 | 16 |
| **Cyfanswm** | **1,533,270** | **16,250** | **13,091** | **0** | **13,091** | **-3,159** | **81** | **1** | **1,568,441** | **35,171** | **2** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **48,011,660** | **5,018,982** | **3,283,468** | **603,907** | **3,887,375** | **-1,142,062** | **77** | **8** | **34,821,450** | **-13,190,210** | **-27** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **18 MEDI 2017** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2016/17** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS/CLAIRE KLIMASZEWSKI (EST. 2675/1865)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Cynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2016/17 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio am sgriwtini ar 25 Gorffennaf 2017, a penderfynwyd ei basio ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau. Cyflwynir yr adroaddiad i'r Cyngor Llawn yn dilyn y Pwyllgor Gwaith. | |

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2016/17. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2016/17, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2016);
- Adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2017);
- Adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y canlyniadau mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd bod y Pwyllgor Archwilio yn sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio, darparwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Tachwedd 2016.

Yn ystod 2016/17, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol | 2015/16 Gwirioneddol £000 | 2016/17 Gwreiddiol £000 | 2016/17 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 16,369 | 38,665 | 28,033 |
| • CRT | 27,607 | 14,236 | 8,607 |
| • Cyfanswm | 43,976 | 52,901 | 36,640 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 84,291 | 97,748 | 91,515 |
| • CRT | 43,365 | 43,529 | 42,499 |
| • Cyfanswm | 127,656 | 1369,277 | 134,014 |
| Benthyca Gros | 110,744 | 164,000 | 117,110 |
| Dyled Allanol | 110,744 | 164,000 | 117,110 |
| Buddsoddiadau | | | |
| • Mwy na blwyddyn | | | |
| • O dan flwyddyn | 10,983 | 14,600 | 13,319 |
| • Cyfanswm | 10,983 | 14,600 | 13,319 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig) eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd buddsoddi heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2016/17 sydd yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2016/17 a'i gyflwyno i'r Cyngor Sir nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2017
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2017
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 3 Gorffennaf 2017
Atodiad 4 - Sylwadau gan Capita Asset Services ar yr Economi, Buddsoddiad a Graddfeydd Benthyca

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17
Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys am 2016/17
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2016/17
Adroddiad Canlyniadau Cyfalaf 2016/17

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2016/17:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r graddfeydd llog am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2016/17

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Amcangyfrif (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 16 | 39 | 28 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 28 | 14 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **44** | **53** | **37** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT | 16 | 39 | 28 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 28 | 14 | 9 |
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca | **2** | **9** | **11** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **21** | **0** | **0** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2016/17 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Dengys y tabl uchod fod £11m o wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor yn cael ei ariannu drwy fenthyca. Y benthyca allanol gwirioneddol a gymerwyd oedd £6.2m ar raddfa gostyngedig ar gyfer y prosiectau Ysgolion y 21ain ganrif. Benthyca mewnol oedd y £4.8m oedd yn weddill, gyda balansau'r Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr i ostwng taliadau llog. Fodd bynnag, y disgwyliad yw yn y tymor hir i fenthyca er mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion sylfaenol benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw, MRP, er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2016/17 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 ar 10 Mawrth 2016.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR : Cronfa'r Cyngor | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Cyllideb (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 86 | 91 | 84 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf ariannwyd drwy fenthyca (fel uchod) | 2 | 9 | 11 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 84 | 96 | 91 |

| CFR : CRT | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Cyllideb (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 44 | 44 | 43 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | - | - | 0 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 43 | 43 | 42 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

## 3.4 Benthyca gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2016 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2017 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2017 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 110.7 | 161.0 | 117.1 |
| CFR | 127.7 | 139.3 | 134.0 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2016/17, defnyddiwyd benthyciadau mewnol i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol ar gyfer holl ofyniad benthyca'r Cyngor, mae'n defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017, cymerodd y Cyngor fenthyciad o £6.2m gan PWLB. Roedd y benthyciad hwn ar gyfradd ffafriol o 2.2%, yn benodol ar gyfer prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif am y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r benthyciad hwn (£4m) yn fenthyciad gyda chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**3.4.2** Mae'r strategaeth o fenthyca'n fewnol wedi cael ei gweithredu drwy gydol y 6 blynedd diwethaf. Yn rhannol oherwydd y penderfyniad i barhau â'r strategaeth hon, mae'r bwlch rhwng CFR a benthyca allanol wedi cynyddu £6.4m yn ystod 2016/17. Mae'r benthyciad gros o £117.1m ar 31 Mawrth 2017 yn llai na'r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | Gwirioneddol 2016/17 (£m) | Amcangyfrif 2017/18 (£m) | Amcangyfrif 2018/19 (£m) |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 134 | 139 | 141 |

Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2016/17.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/176 |
|---|---|---|---|
| Trothwy awdurdodedig | £127.0m | £165.0m | £166.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £89.6m | £110.7m | £117.1m |
| Terfyn Gweithredol | £122.0m | £126.0m | £161.0m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - Cronfa'r Cyngor | 5.79% | 6.06% | 6.09% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CRT | 14.6% | 13.83% | 18.56% |

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2017

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i Aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2016 | | | 31 MAWRTH 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled | 110.741 | 5.72 | 24.9 | 117,110 | 5.25 | 22.7 |
| CFR | 127,656 | | | 134,014 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (16,915) | | | (16,904) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 5,000 | 0.50 | | 5,000 | 0.35 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 10.983 | 0.35 | | 8,319 | 0.15 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 10,983 | 0.40 | | 13,319 | 0.22 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Nid aethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2016 | | 31 MAWRTH 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm |
| Cyfanswm benthyciadau | 110.7 | 100 | 117.1 | 100 |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0.0 | 5.5 | 4.7 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 5.5 | 4.97 | 5.1 | 4.3 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 14.5 | 13.1 | 9.6 | 8.2 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 4.2 | 3.79 | 5.6 | 4.8 |
| 10 mlynedd a mwy | 86.5 | 78.14 | 91.3 | 78.0 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol, £8.3m ar 0.15% ar 31 Mawrth 2017 (31 Mawrth 2016 – 11.2m ar 0.35%). Roedd un benthyciad i awdurdod lleol arall am £5m ar gyfradd llog o 0.35%. Roedd y cyfan o'r buddsoddiadau am lai na blwyddyn.

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2016/17

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2016/17 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Gyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2017) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2016/17. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 a Brexit, parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca, lle yr oedd hynny'n bosibl, i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Yn ystod 2016/17, roedd cyfraddau PWLB yn anwadal iawn, gyda chyfraddau'n gostwng yn chwarteri 1 a 2 i lefelau hanesyddol isel iawn yn ystod Gorffennaf ac Awst, cyn codi'n sylweddol yn ystod chwarter 3 a gostwng yn rhannol eto tuag at ddiwedd y flwyddyn.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2016/17

**6.1** Polisi Buddsoddi – caiff polisi buddsoddi'r Cyngor ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru sydd wedi cael ei weithredu yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016. Yn y polisi hwn, nodir y dull y dylid ei ddefnyddio wrth ddewis gwrthbartïon buddsoddi ac mae'n seiliedig ar statws credyd y 3 brif asiantaeth credyd ynghyd â data ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis y rhagolygon o ran graddfeydd, cyfnewid risg credyd ('credit default swaps'), prisiau cyfranddaliadau'r banciau ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio gyda'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw broblemau o safbwynt hylifedd.

**6.2** Parhaodd Cyfraddau Banc ar y lefel isaf erioed o 0.5% yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, achosodd canlyniad y Refferendwm i adael yr UE sioc economaidd yn y tymor byr gan greu ansicrwydd ac anwadalwch yn yr economi drwy gydol y flwyddyn. Yn Awst 2016, gostyngodd Banc Lloegr y gyfradd banc sylfaenol o 0.50% i 0.25% er mwyn lliniaru'r dirywiad yn yr economi. Yn sgil hynny, gostyngodd y sefydliadau gwrthbarti eu cyfraddau ar fuddsoddiad a gostyngodd y cyfraddau ar gyfrifon nodweddiadol y gellir galw arnynt o 0.25% i 0.15% ac is.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy. Rhoddwyd benthyciadau i awdurdodau lleol eraill hefyd er mwyn lleihau'r risg ond hefyd i geisio cynyddu dychweliadau yn sgil y cyfraddau isel iawn a oedd ar gael. Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael, yn amrywio rhwng £9m a £30m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.50% neu £150k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £54k (0.18%) ar falansau a oedd, ar gyfartaledd, yn £19.1m. Roedd y balans arian parod is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag a gyllidebwyd i'w briodoli i gyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau yn dilyn Brexit, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb y mae llog yn daladwy arni wedi cael ei diwygio ar gyfer 2017/18 i gyllideb fwy realistig er mwyn adlewyrchu'r cyfraddau llog is a'r dychweliadau ar fuddsoddiadau.

## 7. DIOGELWCH BUDDSODDI AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2016/17, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol a gwaethygodd y sefyllfa'n dilyn y penderfyniad i adael yr UE yn dilyn y refferendwm. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Mae hyn wedi mynd yn fwy heriol ers y refferendwm oherwydd bu'n rhaid i'r banciau ac ati ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r sioc economaidd oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol y marchnadoedd ariannol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol ar gyfer meini prawf 2014/15. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Mae Atodiad 2 yn dangos ym mha sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi adneuo arian ar 31 Mawrth 2017 a chyfraddau'r cwmnïau hynny. Mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 yn cynnwys y gallu i fuddsoddi mewn marchnadoedd arian AAA oherwydd mai cronfa fechan iawn yn unig sydd ar gael o wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda meini prawf y Cyngor ar gyfer gwrthbartïon.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd £5m ar ffurf benthyciad tymor byr i ddau awdurdod lleol arall yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn er mwyn sicrhau dychweliad uwch tra'n lleihau'r risg.

## 8. GWEITHGAREDD YN YSTOD 2016/17

**8.1** Ychydig iawn o weithgaredd Rheoli Trysorlys o bwys a welwyd yn ystod y flwyddyn. Gwnaed buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod risgiau'n isel ond llwyddodd y Cyngor i sicrhau dychweliadau uwch drwy roddi benthyciadau i awdurdodau lleol eraill tra'n defnyddio cyfrifon traddodiadol y gellir galw arnynt. Benthycodd y Cyngor £6.2m gan PWLB ym mis Mawrth 2017 ar gyfradd log isel o 2.2% ar gyfer prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cafodd refferendwm y DU ym Mehefin 2016 effaith ar y dychweliadau ar fuddsoddiad fel y nodir uchod.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2016/17

**9.1** Mae canlyniad refferendwm y DU ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i greu ansicrwydd ac yn parhau i gael effaith ar statws banciau'r DU. Mae'r rhan fwyaf o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn banciau sydd wedi cael eu sgorio at i lawr. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau tymor byr i'r tymor canolig yn parhau i fod o fewn y cyfraddau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau'r risg leiaf bosib i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn lleihau risg ac yn sicrhau'r dychweliad mwyaf drwy fenthyca arian i awdurdodau lleol eraill a thrwy fuddsoddi yn y marchnadoedd arian AAA lle mae hynny'n berthnasol. Mae hyn yn ychwanegu at y math o fuddsoddiadau sydd gan y Cyngor ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar y nifer fechan o fanciau y gall y Cyngor fuddsoddi ynddynt.

**9.2** Yn ddiweddarach, gall canlyniad etholiad Mehefin 2017 ac anallu unrhyw blaid i sicrhau mwyafrif hefyd arwain at ansicrwydd economaidd ac, o ganlyniad, gael effaith ar weithgareddau rheoli trysorlys yn 2017/18.

**9.3** Ar 22 Mai 2017, aeddfedodd buddsoddiad gwerth £5m gyda Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**9.4** Ar 6 Mehefin 2017, aeddfedodd benthyciad gwerth £2.5m ac fe'i ad-dalwyd yn llawn i PWLB**.**

## 10. CASGLIAD

**10.1** Mae adolygiad o'r perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17 wedi ei ddarparu uchod. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad o £6.2m gan PWLB ar gyfer prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif. Roedd dychweliadau ar fuddsoddiad yn is nag erioed o'r blaen oherwydd i gyfradd sylfaenol y banc ostwng i 0.25% ar ôl saith mlynedd ar 0.50%. Roedd gan y Cyngor falansau ariannol priodol bob amser er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 a'i amcanion allweddol sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn Atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2017.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **25 GORFFENNAF 2017**

# Crynodeb o Werth y Portffolio
## Ar 31 Mawrth 2017

| ASEDAU ARIANNOL | Enwebol / Prif (£) | Gwerth Teg (£) |
|---|---|---|
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 8,319,288 | 8,335,758 |
| Adneuon Cyfnod Sefydlog (2) | 5,000,000 | 5,003,075 |
| **YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | |
| CCC | 116,684,478 | 173,549,156 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 250,597 | 408,548 |



**Gwrthbartïon**

**(1)** Arian (cyfrifon llog)

| | |
|---|---|
| Santander | 2,941,049 |
| Bank of Scotland | 5,278,012 |
| HSBC | 100,134 |
| RBS | 93 |
| | 8,319,288 |

**(2)** Adneuon Cyfnod Sefydlog

| | |
|---|---|
| Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain | 5,000,000 |

**ATODIAD / APPENDIX 2**

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2017 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2017***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **5,278** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **2,941** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **100** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| N/A | London Borough of Barking and Dagenham | **5,000** | **Tymor Sefydlog/ Fixed Term** | **20/2/17-22/5/17** | **0.35** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2016/17 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 03 Gorffennaf 2017 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 03 July 2017***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UK | N/A | | | | | **AA** | **N/A** | **Aa1** | **N/A** | **AA** | **N/A** | **N/A** |
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **4,104** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,457** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **4,021** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **100** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12months** |
| Total Deposits 19/06/17 | | **15,682** | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2017 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2017***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **5,278** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **2,941** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **100** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| N/A | London Borough of Barking and Dagenham | **5,000** | **Tymor Sefydlog/ Fixed Term** | **20/2/17-22/5/17** | **0.35** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** | **N/A** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2016/17 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 3**

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 03 Gorffennaf 2017 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 03 July 2017***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UK | N/A | | | | | **AA** | **N/A** | **Aa1** | **N/A** | **AA** | **N/A** | **N/A** |
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **4,104** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,457** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.15** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **4,021** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **100** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.01** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12months** |
| Total Deposits 19/06/17 | | **15,682** | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

# 1. The Economy and Interest Rates

The two major landmark events that had a significant influence on financial markets in the 2016-17 financial year were the UK EU referendum on 23 June and the election of President Trump in the USA on 9 November. The first event had an immediate impact in terms of market expectations of when the first increase in Bank Rate would happen, pushing it back from quarter 3 2018 to quarter 4 2019. At its 4 August meeting, the Monetary Policy Committee (MPC) cut Bank Rate from 0.5% to 0.25% and the Bank of England's Inflation Report produced forecasts warning of a major shock to economic activity in the UK, which would cause economic growth to fall almost to zero in the second half of 2016. The MPC also warned that it would be considering cutting Bank Rate again towards the end of 2016 in order to support growth. In addition, it restarted quantitative easing with purchases of £60bn of gilts and £10bn of corporate bonds, and also introduced the Term Funding Scheme whereby potentially £100bn of cheap financing was made available to banks.

In the second half of 2016, the UK economy confounded the Bank's pessimistic forecasts of August. After a disappointing quarter 1 of only +0.2% GDP growth, the three subsequent quarters of 2016 came in at +0.6%, +0.5% and +0.7% to produce an annual growth for 2016 overall, compared to 2015, of no less than 1.8%, which was very nearly the fastest rate of growth of any of the G7 countries. Needless to say, this meant that the MPC did not cut Bank Rate again after August but, since then, inflation has risen rapidly due to the effects of the sharp devaluation of sterling after the referendum. By the end of March 2017, sterling was 17% down against the dollar but had not fallen as far against the euro. In February 2017, the latest CPI inflation figure had risen to 2.3%, above the MPC's inflation target of 2%. However, the MPC's view was that it would look through near term supply side driven inflation, (i.e. not raise Bank Rate), caused by sterling's devaluation, despite forecasting that inflation would reach nearly 3% during 2017 and 2018. This outlook, however, is dependent on domestically generated inflation, (i.e. wage inflation), continuing to remain subdued despite the fact that unemployment is at historically very low levels and is on a downward trend. Market expectations for the first increase in Bank Rate moved forward to quarter 3 2018 by the end of March 2017 in response to increasing concerns around inflation.

**USA.** Quarterly growth in the US has been very volatile during 2016 but a strong performance since mid-2016, and strongly rising inflation, prompted the Fed into raising rates in December 2016 and March 2017. The US is the first major western country to start on a progressive upswing in rates. Overall growth in 2016 was 1.6%.

**EU.** The EU is furthest away from an upswing in rates; the European Central Bank (ECB) has cut rates into negative territory, provided huge tranches of cheap financing and been doing major quantitative easing purchases of debt during 2016-17 in order to boost growth from consistently weak levels, and to get inflation up from near zero towards its target of 2%. These purchases have resulted in depressed bond yields in the EU, but, towards the end of 2016, yields rose, probably due at least in part to rising political concerns around the positive prospects for populist parties and impending general elections in 2017 in the Netherlands, France and Germany. The action taken by the ECB has resulted in economic growth improving significantly in the eurozone to an overall figure of 1.7% for 2016, with Germany achieving a rate of 1.9% as the fastest growing G7 country.

On the other hand, President Trump's election and promise of fiscal stimulus, which are likely to increase growth and inflationary pressures in the US, have resulted in Treasury yields rising sharply since his election. Gilt yields in the UK have been caught between these two influences and the result is that the gap in yield between US treasuries and UK gilts has widened sharply during 2016/17 due to market perceptions that the UK is still likely to be two years behind the US in starting on an upswing in rates despite a track record of four years of strong growth.

**Japan** struggled to stimulate consistent significant growth with GDP averaging only 1.0% in 2016 with current indications pointing to a similar figure for 2017. It is also struggling to get inflation up to its target of 2%, only achieving an average of -0.1% in 2016, despite huge monetary and fiscal stimulus, though this is currently expected to increase to around 1% in 2017. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.


**China and emerging market counties.** At the start of 2016, there were considerable fears that China's economic growth could be heading towards a hard landing, which could then destabilise some emerging market countries particularly exposed to a Chinese economic slowdown and / or to the effects of a major reduction in revenue from low oil prices. These fears have largely subsided and oil prices have partially recovered so, overall, world growth prospects have improved during the year.

**Equity markets.** The result of the referendum, and the consequent devaluation of sterling, boosted the shares of many FTSE 100 companies which had major earnings which were not denominated in sterling. The overall trend since then has been steeply upwards and received further momentum after Donald Trump was elected President as he had promised a major fiscal stimulus to boost the US economy and growth rate.

# 2. Borrowing Rates in 2016/17


**PWLB certainty maturity borrowing rates**

During 2016-17, PWLB rates fell from April to June and then gaining fresh downward impetus after the referendum and Bank Rate cut, before staging a partial recovery through to December and then falling slightly through to the end of March. The graphs and table for PWLB rates below and in appendix 3, show, for a selection of maturity periods, the average borrowing rates, the high and low points in rates, spreads and individual rates at the start and the end of the financial year.






## 3. Investment Rates in 2016/17

After the EU referendum, Bank Rate was cut from 0.5% to 0.25% on 4 August and remained at that level for the rest of the year. Market expectations as to the timing of the start of monetary tightening started the year at quarter 3 2018, but then moved back to around the end of 2019 in early August before finishing the year back at quarter 3 2018. Deposit rates continued into the start of 2016/17 at previous depressed levels but then fell during the first two quarters and fell even further after the 4 August MPC meeting resulted in a large tranche of cheap financing being made available to the banking sector by the Bank of England. Rates made a weak recovery towards the end of 2016 but then fell to fresh lows in March 2017.




# 4. Other Graphs



# 5. Borrowing and investment rates

The PWLB rates are based on the maturity debt certainty rate.




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 1.130% | 1.160% | 1.330% | 1.470% | 1.620% | 2.310% | 3.140% | 2.950% | 1.310% |
| 31/3/17 | 0.830% | 0.860% | 0.990% | 1.110% | 1.240% | 1.600% | 1.800% | 2.070% | 1.010% |
| High | 1.200% | 1.250% | 1.460% | 1.630% | 1.800% | 2.510% | 3.280% | 3.080% | 1.350% |
| Low | 0.760% | 0.800% | 0.840% | 0.880% | 0.950% | 1.420% | 2.080% | 1.870% | 1.040% |
| Average | 0.928% | 0.961% | 1.104% | 1.226% | 1.361% | 2.007% | 2.724% | 2.494% | 1.150% |
| Spread | 0.440% | 0.450% | 0.620% | 0.750% | 0.850% | 1.090% | 1.200% | 1.210% | 0.310% |
| High date | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 20/05/2016 |
| Low date | 20/12/2016 | 15/03/2017 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 12/08/2016 | 30/08/2016 | 30/11/2016 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 1.13% | 1.62% | 2.31% | 3.14% | 2.95% |
| 31/3/17 | 0.83% | 1.24% | 1.60% | 1.80% | 2.07% |
| Low | 0.76% | 0.95% | 1.42% | 2.08% | 1.87% |
| Date | 20/12/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 12/08/2016 | 30/08/2016 |
| High | 1.20% | 1.80% | 2.51% | 3.28% | 3.08% |
| Date | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 |
| Average | 0.93% | 1.36% | 2.01% | 2.72% | 2.49% |

## 6. Money market investment rates 2016/17

| | 7 day | 1 month | 3 month | 6 month | 1 year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 0.363 | 0.386 | 0.463 | 0.614 | 0.877 |
| 31/3/17 | 0.111 | 0.132 | 0.212 | 0.366 | 0.593 |
| High | 0.369 | 0.391 | 0.467 | 0.622 | 0.902 |
| Low | 0.107 | 0.129 | 0.212 | 0.366 | 0.590 |
| Average | 0.200 | 0.220 | 0.315 | 0.462 | 0.702 |
| Spread | 0.262 | 0.262 | 0.255 | 0.256 | 0.312 |
| High date | 27/5/16 | 21/6/16 | 10/5/16 | 22/4/16 | 26/4/16 |
| Low date | 28/12/16 | 21/12/16 | 30/3/17 | 31/3/17 | 10/8/16 |

**SOURCE CAPITA 2017**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 18 09 17 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Plant |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Llyr Bryn Roberts – Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau)<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@YnysMon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Dr Caroline Turner - Prif Weithredwr Cynorthwyol<br>01248 751919<br>CarolineTurner@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1 Yr Aelodau i gadarnhau a ydynt yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Plant a chyflymder y broses mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.

1.2 Cafodd Gwasanaethau Plant Ynys Môn eu harolygu gan AGGCC yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016.Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar sut mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael at wasanaethau cymorth a gofal a chefnogaeth, ac ar y deilliannau a sicrhawyd ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu eu hamddiffyn, gan gynnwys plant sydd wedi dod i ofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Roedd yr arolwg hefyd yn gwerthuso ansawdd yr arweinyddiaeth a'r trefniadau rheoli a llywodraethu sydd mewn lle i ddatblygu a chefnogi darpariaeth y gwasanaeth. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan AGGCC ar 7 Mawrth 2017. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 14 o argymhellion, saith ohonynt yn flaenoriaeth a saith i'w gweithredu erbyn mis Mawrth 2018 (gweler Atodiad 1).

1.3 Mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion, mae'r awdurdod wedi rhoi'r trefniadau canlynol mewn lle:
- Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig (CGG), sy'n ymgorffori'r holl Argymhellion a wnaed yn Adroddiad Arolwg AGGCC yn erbyn y 5 thema (gweler Atodiad 2)
- Mae wedi rhoi trefniadau Rheoli Prosiect newydd mewn lle, gyda Grŵp Gwella o swyddogion mewnol yn cyfarfod yn fisol, ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac i'r Pwyllgor Gwaith.
- Mae wedi sefydlu Panel o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau awdurdod lleol diweddar, a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

| | |
|---|---|
| 1.4 | Yn ychwanegol at hyn, mae’r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a’r Pennaeth Adnoddau Dynol, i gadw golwg ar ddatblygiad a gweithrediad y Strategaeth Gweithlu, ac i sicrhau y caiff pobl eu penodi’n fuan i swyddi allweddol y Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar Y Pwyllgor Gwaith i sicrhau bod gwasanaethau’n perfformio’n effeithiol a bod yr adnoddau priodol ganddynt. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth statudol o dan amryw o ddeddfwriaethau, yn fwyaf diweddar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae’r adroddiad yn rhoi diweddariad ar Rhaglen Wella Gwasanaeth Plant. Tra nad oes oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o’r papur hwn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn dymuno nodi bod pwysau ariannol ar y Gwasanaeth yn parhau, a hyn yn deillio yn rhannol o’r cynnydd sylweddol yn y nifer o blant sydd mewn gofal dros y dair mlynedd ddiwethaf:<br>• Mae’r trosiant sylweddol mewn staff wedi arwain at gyflogi Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth dros y ddwy flynedd diwethaf; bydd y trefniadau hyn yn parhau am gyfnod pellach tra bo’r Gwasnaeth yn cwblhau y broses o ail-strwythuro ac yn parhau i recriwtio<br>• Mae’r cynnydd yn y costau o leoli plant sydd mewn gofal wedi cynnyddu’n sylweddl; mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 28 08 17, newidiadau wedi ei wneud yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 28 08 17, newidiadau wedi ei wneud yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 28 08 17, newidiadau wedi ei wneud yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn ar bob cam o'r broses o Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Cafodd diweddariad ar gynnydd efo'r Cynllun Gwella ei gyflwyno i Sgriwtini ar y 4ydd o Fedi. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Argymhellion AGGCC a dolen i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth<br>Atodiad 2 – Cynllun Gwella Gwasanaeth<br>Atodiad 3 – Adroddiad Cynnydd Gwasnaethau Plant |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

## Fel blaenoriaeth:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth. CG 4.4

2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. CG 3.4

3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant. CG 2.2

4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf. CG 1.5

5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol. CG 1.1

6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch. CG 1.4

7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. CG 1.3

## Yn ystod y 12 mis nesaf:

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal. CG 1.5

9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol. CG 2.3

10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir. CG 2.1

11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd. CG 2.1

12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull gydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. CG 4.4

13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau. CG 3.2

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. CG 3.2

**As a priority:**

1. The authority should progress its commitment to developing a framework for the provision of preventive work with children and families that will deliver an integrated service and provide early help and support that effectively delays the need for care and support. SIP 4.4

2. Effective, multi-agency quality assurance systems and training arrangements should be established to ensure that thresholds for assessment to statutory children's services are understood by staff and partners and are consistently applied; this should include the development of a multi-agency child protection thresholds protocol incorporating recent Welsh Government guidance. SIP 3.4

3. Senior leaders in social services and the police should continue to work proactively together to ensure improvements to the quality, consistency and timeliness of child protection enquiries. SIP 2.2

4. The council should continue to support senior leaders to improve their knowledge and understanding of the complexities and risks involved in delivering children's services to assure themselves, partners, staff and communities that their responsibilities are discharged to maximum effect. SIP 1.5

5. A robust workforce strategy should urgently be developed to include short, medium and long term aims for recruitment and retention of social workers. SIP 1.1

6. Arrangements for team managers and senior practitioners should be reviewed to ensure capacity to effectively and consistently provide management oversight of decision making, challenge and direction for staff across the service; a leadership and development programme should be made available to build resilience. SIP 1.4

7. Senior leaders should take steps to improve the frequency, consistency and quality of front line staff supervision; an assurance mechanism must be implemented to ensure compliance and quality. SIP 1.3

Over the next 12 months:

8. Strong political and corporate support for children's services must continue to ensure the service improvements needed are prioritised and the pace of improvement accelerated and sustained. SIP 1.5

9. Multi-agency arrangements should be established to strengthen operational plans to support effective co-ordination of statutory partners' completion of Joint Assessment Frameworks. SIP 2.3

10. The quality of assessments and plans should be improved to ensure that they are consistently of a good quality, with a clear focus on the needs, risks and strengths of children and families, and that desired outcomes, timescales and accountabilities for actions are clear. SIP 2.1

11. The quality and consistency of record keeping should be improved; all staff and managers should ensure that their records are of good quality, are up to date and are systematically stored. SIP 2.1

12. The local authority and partners should work together to develop a cohesive approach to the collection and analysis of information about the needs of communities, that includes the voices of children and families. This should be used to inform the shaping of strategic plans to achieve effective alignment of service delivery between information, advice and assistance services, the preventive sector and statutory services. SIP 4.4

13. Performance management and and quality assurance arrangements, including scrutiny of service demand and routine auditing of the quality of practice, needs to be embedded so that managers at all levels have timely, relevant and accurate performance and quality assurance information to enable them to do their jobs effectively and to deliver improvements. SIP 3.2

14. Caseloads and reports regarding the quality of workers' performance should be continuously monitored to ensure there is sufficient capacity for workers to engage effectively with children and their families. SIP 3.2

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol** | | | | | |
| 1.1 | Datblygu'r Strategaeth Gweithlu i gynnwys:<br>• Arfer dda o ran recriwtio<br>• Cadw a chefnogi staff<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso<br>• Canllawiau blwyddyn gyntaf o ymarfer<br><br>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGGCC: Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Strategaeth Gweithlu wedi'i gwblhau.<br>• Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi.<br><br>**Mai 2017**<br>• Strategaeth Gweithlu Drafft wedi'i lunio ar y cyd ag AD sy'n cynnwys rhannau perthnasol ar recriwtio, cadw a chymorth, trefniadau cynefino, cyfeillio, hyfforddi a mentora, cysgodi, cyfleoedd hyfforddi a datblygu estynedig ar ôl cymhwyso, canllawiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer.<br>▪ Y strategaeth wedi'i rhannu â staff am eu sylwadau.<br>▪ Disgwyliadau ar Reolwyr o ran cynefino wedi'u hamlygu – mae hyn yn gysylltiedig â manteision strwythur newydd a nifer uwch o arweinwyr ymarfer.<br>▪ Materion yng nghyswllt AD – cyfarfodydd wythnosol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol gan gynnwys recriwtio.<br>▪ 4 gweithiwr cymdeithasol dwyieithog newydd gymhwyso wedi'u recriwtio.<br>▪ Pob swydd gweithiwr cymdeithasol wedi'u llenwi gyda staff dros dro/parhaol/trefniadau recriwtio ar waith.<br>▪ Hysbyseb agored ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol.<br>▪ Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei gynnal ym mis Mawrth.<br>▪ Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer.<br><br>**Y Dyfodol**<br>• Sesiwn Gynefino Gorfforaethol yn cael ei chynnal yn fisol ar gyfer staff newydd.<br>• Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer. | Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.<br><br>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael. Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>Arsylwi sgiliau a dealltwriaeth rheolwyr o arferion recriwtio da.<br><br>Adroddiad gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn dangos eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau..<br><br>Tystiolaeth bod cyfarfodydd cynefino yn cael eu cynnal a bod staff newydd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â chanllawiau a disgwyliadau, cymorth, llywio eu hymarfer ac ansawdd y gwaith. | Melanie Jones | Ion 2017 | Ebrill 2017 |
| 1.2 | **Materion o ran Datrys Staffio** i gynnwys:<br>• Recriwtio i swyddi parhaol<br>• Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Cytundebau staff asiantaeth wedi'u hymestyn tan ddiwedd Medi 2017 i sicrhau gweithlu digonol o ran niferoedd a phrofiad. Nod i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod mis Medi. | Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:<br>• Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Tach 2016 | Rhagfyr 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • 1 gweithiwr cymdeithasol cymwys a 3 myfyriwr gwaith cymdeithasol wedi'u penodi i swyddi. 1 cymwys ac 1 myfyriwr yn dechrau ym mis Gorffennaf. 5 swydd wag yn cael eu hysbysebu ar sail treigl.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi. Swydd wag bellach yn cael ei hysbysebu.<br>• Wedi penodi i swydd IRO wag gyda dyddiad dechrau y 10th o Orffennaf.<br>• Wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dechrau ganol Awst.<br>• Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi'i benodi. Rheolwr Gwasanaeth Asiantaeth yn cyflawni'r swydd dros dro.<br>• Mae cadw Gweithwyr Cymdeithasol dros dro a parhaol yn parhau i fod yn sialens i'r Gwasanaeth.<br>• Mae darparu cefnogaeth digonol i'r staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Cyfarfodydd misol wedi'u sefydlu rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu'n symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ar sail treigl.<br>• AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr.<br>• AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff.<br>• Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth.<br>• Strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. | • Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd.<br>• Gwell perthnasau rhwng teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd.<br><br>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff. | | | |
| 1.3 | Adolygu'r **Polisi Goruchwylio**. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br>• Cod Ymarfer<br>• Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc<br>• Pwrpas Goruchwylio<br>• Manteision Goruchwylio<br>• Rolau a Chyfrifoldebau | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>▪ Hyfforddiant ar y polisi Goruchwyliaeth wedi'i gynnal, ynghyd â hyfforddiant ar y model risg ym mis Mehefin.<br>▪ Tracio a monitro trefniadau goruchwylio'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi.<br><br>**<u>Mai 2017</u>** | Staff yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi yn effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau.<br><br>Staff yn adrodd yn gadarnhaol bod ansawdd eu hasesiadau a'u cynlluniau wedi gwella trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Rhag 2016 | Mawrth 2017<br><br>SA Mehefin 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo<br>• Cynllunio ar gyfer Sesiwn Goruchwylio<br>• Cofnodi Goruchwyliaeth<br>• Anghydfodau<br>• Cyfrinachedd a Mynediad<br>• Cysylltiadau â Pholisiau a Gweithdrefnau Eraill<br><br>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGGCC: Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. | ▪ Polisi Goruchwyliaeth wedi'i adolygu a'i rannu gyda staff.<br>▪ Trefniadau tracio yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth lwyr â'r polisi Goruchwyliaeth.<br>▪ Polisi Goruchwyliaeth wedi'i gwblhau.<br>▪ Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwylio staff i'w ddarparu ar gyfer yr holl staff ym mis Mehefin.<br>▪ Hyfforddiant Goruchwyliaeth wedi'i ddarparu i bob aelod staff a'r Rheolwyr.<br><br>**Y Dyfodol**<br>▪ Mentora ar gyfer rheolwyr ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddatblygu ymarfer myfyriol.<br>▪ Bydd archwiliadau o oruchwyliaeth yn dechrau ym Medi 2017 ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, gan gynnwys canfyddiad staff o oruchwyliaeth drwy holiaduron a grwpiau ffocws a sefydlir.<br>▪ Cyngor ac arweiniad parhaus wedi'i ddarparu i weithwyr cymdeithasol unigol ar gwblhau asesiadau, cofnodi ac asesu risg.<br>▪ Rheolwyr Gwasanaeth i gynnal Archwiliad o Oruchwyliaeth 4 gwaith y flwyddyn a samplu ar hap. | Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol.<br><br>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd.<br><br>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos Goruchwyliaeth o safon dda a chyson.<br><br>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwylio. | | | |
| 1.4 | Darparu **cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer** i **gefnogi'r gweithlu** i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio arnynt:-<br>• Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>• Datblygu arweinwyr ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora<br><br>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGGCC: Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch | <u>**Mehefin/Gorffennaf 2017**</u><br>▪ Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: archwiliadau o ffeiliau achosion, archwiliadau thematig, dadansoddiadau ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer Rheolwyr ar reoli sgyrsiau anodd.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi, 4 staff mewnol a 3 allanol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Reolwyr ar ddarparu Goruchwyliaeth reolaidd o safon.<br>• Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig yn y maes Arweinyddiaeth a Datblygu..<br>• Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn cael eu gyrru yn eu blaenau a bydd yn sicrhau mwy o gapasiti ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff. | Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau i wneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu.<br><br>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau yn dangos gwelliant yn ansawdd yr | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwytnwch. | • Gwnaed trefniadau i Reolwyr Gwasanaethau Oedolion roi cymorth i Reolwyr Gwasanaethau Plant gyda'u datblygiad proffesiynol.<br>• AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau recriwtio a chadw staff ar gyfer y Gwasanaeth.<br><br>**Y Dyfodol**<br>▪ Cytuno ar drefniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer – diwrnod cwrdd i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer uwch aelodau staff ym mis Gorffennaf 2017. | asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.<br><br>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad. | | | |
| 1.5 | Argymhelliad 4 AGGCC: Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.<br><br>**AGGCC Argymhelliad 8 AGGCC:** Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal | <u>**Mehefin/Gorffennaf 2017**</u><br>▪ Mae Arweinydd newydd y Cyngor/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro wedi adolygu rôl y panel Aelodau GC a Llesiant o ran creu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Plant.<br>▪ Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>▪ Grŵp Gwella'r Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnal yn fisol, dan gadairyddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r newidiadau a fynnir.<br><br><u>**Mai 2017**</u><br>• Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3).<br>• Angen adnoddau ychwanegol i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant.<br><br>**Y Dyfodol**<br>▪ Parhau i roi cymorth i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau plant. | Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgriwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br><br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei gyflawni ar amser ac i'r safon ofynnol.<br><br>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.<br><br>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â'r Ddeddf GC a Llesiant. | Prif Weithredwr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Ionawr 2017 | Parhaus |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

**2. Asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Gwelliant o ran ansawdd ymarfer.<br><br>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:<br>1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg<br>3. Asesu – Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf GC a Llesiant.<br>6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion<br>8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>**Argymhelliad 10:**<br>Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddymunir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>▪ Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: Archwilio ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiad ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>▪ Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>▪ Mae ansawdd ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>▪ Sesiynau staff wedi'u cynnal ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod safonau ymarfer, ynghyd â gofyn i staff am syniadau o ran beth fyddai'n eu helpu i wella eu dulliau gweithio.<br>▪ Canllawiau i'w datblygu ar arfer dda o ran cadw cofnodiadau – comisiynwyd Bruce Thornton i sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS.<br><br>**Mai 2017**<br>Yr Uned Hyfforddi wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar:<br><br>• Asesu Gofalwyr yn y tymor hir<br>• Gweithredu'r Fframwaith Cynefino ar gyfer Gofalwyr Maeth<br>• Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br>• Cyfathrebu Cydweithredol / sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau<br>• Templedi rhanbarthol – gan gynnwys Asesu, Beth sy'n Bwysig, 5 maes asesu, cynluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer Rheolwyr<br>• Darparu Adborth Adeiladol a Rheoli Sgyrsiau Anodd<br>• Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer staff<br>• Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn GICD (gan gynnwys Therapi sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Chyfweld Ysgogiadol<br>• Cyfathrebu Cydweithredol – dilyn i fyny<br>• Diogelu Cyffredinol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol<br>• Model Risg<br>• Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chyfweliadau ar gyfer Dychwelyd Adref | Gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gyda lleihad yn nifer y plant ar y CAP a'r plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.<br><br>Cynnal archwiliadau rheolaidd yn cadarnhau gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion<br><br>Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu' / cynllunio gofal a chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am weithredoedd a'r amserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio yn y gwasanaethau.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Cynnydd mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cynnydd a gyflawnwyd ganddynt gyda chymorth y Gwasanaethau Plant. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cyfweld Ysgogiadol<br><br>**Y Dyfodol**<br>Ymarfer Myfyriol mewn Gwaith Cymdeithasol<br>1. Amddiffyn plant<br>2. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>3. Cadw cofnodion.<br>4. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion.<br>5. Canllawiau ymarfer i gael eu datblygu mewn perthynas ag AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC. | | | | |
| 2.2 | Argymhelliad 3 AGGCC:<br>Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb, ac<br>3. amseroldeb<br>ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>Datblygu Canllaw Ymarfer rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>▪ Protocolau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>- Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o brotocolau'n debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br>▪ Dadansoddiad pythefnos yn dechrau ar 10/07/17 mewn perthynas â phob CID16 a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor a deall y data ac archwilio rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod ar 26[ain] Mehefin.<br>• Cyfarfodydd misol yn cael eu trefnu rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.<br>• PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw ar frys ac nad yw plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.<br>• Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant..<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>•Cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol gyda'r Heddlu ynghylch cydweithredu. | Cynhelir archwiliadau rheolaidd yn dangos gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Y Dyfodol**<br>• Rydym wedi trefnu i gyfarfod swyddogion cyfatebol yr hyb IAA yng nghynghorau sir Conwy a Sir y Fflint er mwyn archwilio opsiynau a rhannu eu profiadau. | | | | |
| 2.3 | **Argymhelliad 9 AGGCC:**<br>Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Gwnaed trefniadau i gynnal grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol o dan y grŵp cyflawni diogelu lleol i ddatblygu eu canllawiau ymarfer.<br><br>**Mai 2017**<br>• Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylai cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn gael ei gynnal i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn i sylw'r BRhDP.<br><br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth, gweler. 3.3 (4) | Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu.<br><br>Gwell trefniadau diogelu aml-asiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



**3. Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.<br><br>Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.<br><br>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynu os y dylid eu trafod mewn cyfarfod cyfreithiol (camau cyfreithiol). | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi'u hadolygu a phlant sydd angen trefniadau 'Camu i Lawr' wedi'u hadnabod<br>• Y Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio grŵp – panel adolygu mewnol ar gyfer lleoliadau preswyl:<br>- Sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cyflawni eu canlyniadau llesiant i sicrhau bod argymhellion adolygiadau LAC yn cael eu gweithredu ac i sicrhau gwerth am arian.<br>• Swyddi Tim Teuluoedd Gwydn rwan wedi cau<br>• Angen cryfhau cynlluniau gofal ar gyfer Plant Mewn Gofal drwy ddatblygu canllawiau ymarfer.<br>• Polisi Sefydlogrwydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd<br>• Mi ydan ni wedi cychwyn ymarfer yn wahanol ag yn fwy dwys efo nifer fychan o deuluoedd yn dilyn model tebyg i waith Gwasanaeth Integredig Cefnogaeth Teuluol<br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Rheolwyr Tîm i gadarnhau erbyn Mawrth 2017 pa blant / pobl ifanc fydd yn cael cynlluniau gofal a chymorth 'camu i lawr'.<br>• Daethpwyd i gytundeb erbyn mis Mawrth 2017 ynghylch y tasgau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a'r gwaith dwys y mae angen ei wneud gyda phlant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod trefniadau 'camu i lawr' yn llwyddiannus.<br>• Swyddi o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn a phenodiadau wedi eu gwneud erbyn diwedd Mawrth 2017.<br>• Cryfhau'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu Canllawiau Ymarfer ychwanegol.<br>• Polisi Sefydlogi wedi ei gytuno. | Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.<br><br>Y Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hadsefydlu'n ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni / gollwng Gorchmynion Gofal.<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.<br><br>Lleihad yn y nifer o blant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'.<br><br>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllaw Ymarfer.<br><br>Mae adolygu'r plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn darparu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o'u hanghenion. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r strategaeth | Huw Owen, Rheolwr Tîm | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | atal a gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn. | | | |
| 3.2 | Cryfhau ac ymgorffori'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn y Gwasanaeth, trwy:<br>1. SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o berfformiad gweithredol cynadleddau ac adolygiadau.<br>2. SAA a CAP i ddwyn sylw, ar sail thematig, at faterion yn ymwneud ag ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>Rheolwyr i gynnal archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr i gael eu monitro yn barhaus.<br><br>Argymhelliad 13 AGGCC: Mae angen gwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys sgriwtineiddio'r galw am wasanaethau ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd ymarfer, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cael gwybodaeth amserol a pherthnasol o safon uchel am berfformiad a sicrwydd ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau<br><br>Argymhelliad 14 AGGCC: Dylai Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr gael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.. | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>▪ Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant gan ddechrau yn yr hydref, mae'r amserlen wedi llithro oherwydd y penderfyniad a wnaed gan Uwch Arweinyddion i oedi recriwtio i'r swydd Rheolwr Sicrwydd Ansawdd oherwydd disgwyl i recriwtio'n fewnol ar gyfer y swyddi Arweinyddion Ymarfer.<br>▪ Mae'r gwaith sicrwydd ansawdd yn Chwarter 1 wedi cynnwys:<br>Dadansoddiad proffil Plant Mewn Gofal<br>Awdit o Ffeiliau Achos<br>Dadansoddi Llwyth Achosion<br>• Recriwtio i'r swydd cefnogi busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Cynadleddau Achos erbyn diwedd mis Gorffennaf<br>• Penodiad i'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol wedi wneud yn Gorffennaf<br>• Mwy o ddatblygiadau wedi digwydd mewn perthynas a'r awdit sicrhau ansawdd aml asiantethol efo Addysg a'r Bwrdd Iechyd i wella ansawdd cyfeiriadau a gwybodaeth sydd yn cael ei rannu efo partneriaid<br>• Mae arian ychwanegol wedi ei gytuno i ailsefydlu'r Swydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd, cafodd y swydd ei hysbysebu ond wedi methu penodi.<br>• Awdit o Achosion 'Public Law Outline' wedi ei orffen<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant.<br>▪ Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gytuno ar gyfer y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>Oruchwylio<br>Cofnodi<br>Asesu<br>▪ Adroddiadau Sicrwydd Chwarterol i'w trafod yn y cyfarfod Rheoli Gwasanaethau Plant a Grŵp Gwella Ymarfer i'w sefydlu i fwrw ymlaen a gwelliannau o ran ymarfer. | Archwiliadau o adroddiadau sicrwydd ansawdd a ffeiliau achos yn dangos tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr ymarfer a'r dysgu a bod penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud ar bob lefel.<br><br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed i'r tîm arweinyddiaeth, gan gynnwys aelodau.<br><br>Y sefydliad yn arddangos trefniadau llywodraethu a chraffu mwy strwythuredig drwy archwilio ffeiliau achosion yn rheolaidd.<br><br>Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol / CAP rôl well o ran sicrhau ansawdd gyda hynny'n arwain at ddysgu a gwelliant yn ansawdd yr ymarfer.<br><br>WCCIS yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli llwyth achosion drwy nodweddion 'adrodd' hwylus sydd ar gael i Reolwyr.<br><br>Mae rheolwyr yn darparu adroddiadau amlygu misol i reolwyr gwasanaeth a PG ar ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br><br>Mae gan weithwyr gapasiti digonol i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd oherwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r Canllawiau llwyth achosion. | Rheolwr Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ▪ Rheolwyr i ddarparu adroddiadau amlygu misol i reolwyr gwasanaeth a PG ar ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti iddynt fedru ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br><br>**Y Dyfodol**<br>▪ Canllawiau i gael eu datblygu mewn perthynas â rheoli llwyth achosion i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr fedru ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd. | Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd i yrru gwelliannau a newid mewn ymarfer ar draws y Gwasanaeth wrth ddysgu o adroddiadau thematig ac ansoddol.<br><br>Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. | | | |
| 3.3 | Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnwys:<br><br>1. Dangosyddion perfformiad Amlinellol wedi eu rhannu'n berfformiad Cenedlaethol, Corfforaethol a Gwasanaeth.<br>2. Trefniadau llywodraethu i gynnwys adrodd, atebolrwydd a mecanwaith i yrru gwelliant.<br>3. Gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori yn y fframwaith.<br>4. Fframwaith i ddarparu tystiolaeth o ansawdd ymarfer a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.<br>5. Angen gwelliant mewn meysydd performiad blaenoriaeth sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant LAC<br>• Ymweliadau Plant LAC<br>• Ymweliadau plant ar y gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr<br>Byddir yn dod â'r rhain yn ôl o fewn y targed. | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Herio a cefnogi gweithwyr unigol i wella ymarfer<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>- Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o ganllawiau yn debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Comisiynu arbenigedd allanol ym mis Mai 2017 / Mehefin i ddatblygu'r fframwaith perfformiad ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>▪ System dracio fanylach yn cael ei datblygu, wedi ei selio ar ymarfer da o fannau eraill; wedi'i chyfuno â strwythur newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau'n cael eu cynnal pan fo staff yn absennol o'r gwaith (pan fo staff yn absennol neu i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch). | Gwelliant o ran lefel dealltwriaeth y staff o ddangosyddion perfformiad a'r cysylltiad clir gydag ansawdd ac phrydlondeb ymarfer.<br><br>Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau i blant / pobl ifanc - un dangosydd yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro mewn perthynas â gwybodaeth am Berfformiad.<br><br>Gwybodaeth perfformiad yn dangos gwelliant mewn perfformiad i lefelau derbyniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant Mewn Gofal<br>• Ymweliadaau Plant Mewn Gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr<br><br>Yn gyffredinol, gwelliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau ar gyfer plant/pobl ifanc. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Mawrth 2017 | Hydref 2017 |
| 3.4 | Argymhelliad 2 AGGCC: Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaethol i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>▪ Mae fframwaith sicrwydd ansawdd amlasiantaethol wedi'i ddatblygu rhwng y Gwasanaeth a'r Heddlu, y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth ac Addysg. | System sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cytunwyd arni yn arwain at welliant o ran ansawdd a phrydlondeb ymarfer. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | trothwyon ar gyfer asesiadau gwasanaethau plant statudol ac y glynir wrth trothwyon hynny'n gyson.<br><br>Datblygu protocol ar gyfer trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol a bod y protocol hwnnw'n ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - trothwy atgyfeirio y cytunwyd arno, trothwy asesu, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | ▪ Bydd canlyniadau'r archwiliadau a wnaed yn Chwarter 1 yn cael eu dadansoddi yn chwarter 1 ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Lleol ar gyfer sicrwydd ansawdd.<br>▪ Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>- Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o ganllawiau yn debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>Partneriaid yn darparu cytundeb i ddatblygu a chefnogi / blaenoriaethu:<br>• Systemau sicrhau ansawdd amlasiantaethol<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu a rolau a chyfrifoldebau phartneriaid.<br>• Datblygu trothwy amddiffyn plant amlasiantaethol.<br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg i gynnwys pob maes gwaith lle mae angen gwneud gwaith datblygu. | Yr holl staff a phartneriaid allweddol wedi cael yr hyfforddiant a nodwyd ac mae tystiolaeth o welliant o ran lefel y ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant a'r modd y dylid defnyddio'r trothwyon hynny. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y Canllawiau Ymarfer yn cael eu gweithredu.<br><br>Mae gwybodaeth / atgyfeiriadau gan yr Heddlu i'r Gwasanaethau Plant yn cael eu craffu ymlaen llaw yn cynnwys crynodeb sy'n rhoi rheswm dros yr atgyfeiriad a'r camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt. Bydd hyn yn arwain at welliant yn ansawdd yr atgyfeiriadau a'r penderfyniadau ac yn gostwng yn sylweddol nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant wrth y drws ffrynt.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r gwelliant yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid. Bydd hyn yn galluogi staff i ganolbwyntio ar sefydlu perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd a darparu ymyriadau o ansawdd.<br><br>Gwelliant yn lefel y ddelltwriaeth a gweithredu trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant yn llawer gwell, yn enwedig o ran yr Heddlu. | | | |
| 3.5 | **Argymhelliad 11 AGGCC:**<br>Dylid gwella ansawdd a chysondeb cadw cofnodion; dylai'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Mae Cadw Cofnodion yn parhau i fod yn anghyson<br>• Cynnal archwiliad pellach o ffeiliau achosion sy'n agored i ganfod p'un a oes gwelliant yn ansawdd y cofnodi. | Rheolwr yn archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd gyda hynny'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion. | Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Medi 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | o ansawdd da, yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Staff i dderbyn hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o safbwynt cadw cofnodion.<br><br>Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. | **Mai 2017**<br>• Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd.<br>• Staff i dderbyn hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion a'r Canllawiau Ymarfer.<br>• Ffeiliau achos i gael eu harchwilio er mwyn monitro ansawdd ac amseroldeb y cofnodion ar achosion unigol. | Cefnogaeth ac arweiniad i staff trwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn arwain at welliant yn ansawdd y cofnodion a gedwir. | Sicrhau Ansawdd<br><br>Cefnogir gan Dawn Owen, Rheolwr Tîm<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD<br><br>Gemma Willams, Rheolwr Tîm<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol<br><br>Gweithwyr Cymorth | | |



**4. Gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant.**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd dan y Ddeddf Newydd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau pobl a'u galluogi i gymryd rhan yn y broses o roi sylw i anghenion a chyflawni canlyniadau.<br>Hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar:<br>1. Gwrs Cyfathrebu ar y cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>2. Ymyriadau GICD<br>3. Newid diwylliant<br>4. Mesur perfformiad<br>5. Cyfweld ysgogiadol | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae'r hyfforddiant isod wedi digwydd<br>• Parhau i roi ffocws ar ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn aliniedig efo'r ffordd gwahano o weithio efo teuluoedd o dan y Ddeddf newydd fel: Y sgwrs 'What matters', gofynion eiriolaeth a cyd-gynhyrchu, mae hyn oll yn parhau i fod yn sialens i'r gwasanaeth oherwydd mae teuluoedd yn anfodlon i ymgysylltu.<br><br>**Mai 2017**<br>• Hyfforddiant yn digwydd ar hyn o bryd ar Gyfweld Ysgogiadol a'r ymagweddau 'Teuluoedd Gwydn'.<br>• Cynhelir hyfforddiant cyfathrebu ar y cyd ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Reolwyr.<br>• Hyfforddiant ar ymyriadau GICD yn cael ei gynnal yn flynyddol.<br>• Hyfforddiant ar newid diwylliant a mesur yn cael ei gynnal ym mis Mawrth ar gyfer Rheolwyr. | Staff yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ac yn gallu gwneud mwy o ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd.<br><br>Tystiolaeth bod y gweithlu yn ddigon medrus i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau - enghraifft o hyn yw gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.<br><br>Gwybodaeth bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i barhau i fyw gartref gyda'u teuluoedd.<br><br>Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ansawdd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Non Meleri Hughes, Swyddog Hyfforddi<br><br>Ann Postle, Cydlynydd Dysgu Ymarfer<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth<br><br>Arweinwyr Ymarfer<br><br>Yr holl staff | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dyfodol**<br>• Adborth/dysgu o'r newidiadau sydd wedi digwydd i ymarfer gwaith cymdeithasol yn dilyn y sesiynau hyfforddiant. | | | | |
| 4.2 | Adolygu'r strwythur gwasanaeth presennol i fynd i'r afael â'r angen am ymyriadau ataliol ac ymyriadau dwys gwell.<br><br>Sefydlu timau llai gydag Arweinwyr Ymarfer i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth effeithiol i staff. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Strwythur gwasanaeth newydd wedi'i weithredu.<br>• Parhau i benodi i'r swyddi i sefydlu timoedd llai efo Arweinwyr Ymarfer<br>• Parhau i adolygu ein gwasanaethau ymyrraeth cynnar ag ataliol o gwmpas y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'<br><br>**Mai 2017**<br>• Daw'r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17.<br>• PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o'r sylwadau a'r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion.<br>• Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17.<br>• Yr ymgynghoriad ar ailstrwythuro staff wedi'i gwblhau. | Bydd strwythur newydd y gwasanaeth yn cefnogi ac yn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyriadau dwys ac enghraifft o hyn fydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal.<br><br>Rheolwyr yn dweud bod strwythur newydd y gwasanaeth yn cynyddu eu gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd.<br><br>Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ddigonol gan eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd. | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cefnogir gan: Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 2017 |
| 4.3 | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>▪ Rheolwr Ymgysylltu wedi'i benodi.<br>▪ Hysbysebion allan ar gyfer y Swyddogion Ymgysylltu, dyddiad cau 12/07/17<br>▪ Deunyddiau hyrwyddo wedi'u cadarnhau.<br>▪ Nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer yr Eisteddfod, Sioe Môn ac ati ynghyd â nifer o ddiwrnodau hwyl/carnifals ac ati yn y gymuned.<br>▪ Archwiliadau Amlasiantaethol (Iechyd, Addysg a'r Heddlu) mewn perthynas ag ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn Teulu Môn<br>▪ Gwaith parhaus gydag asiantaethau sy'n bartneriaid o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio gyda Teulu Môn<br>▪ Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 o ran yr holl CID16's a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor ac archwilio rhannu gwybodaeth.<br>▪ Bydd gwaith yn dechrau i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth. | Un pwynt mynediad ar gyfer yr holl ymholiadau sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd wedi cael ei sefydlu ac yn 'fyw' erbyn 03.04.17<br>Dinasyddion yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a gofal cwsmer da.<br><br>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael. | Leighton Rees, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Rhagfyr 2016 | Ebrill 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mai 2017**<br>• Llunio, cymeradwyo a chyfieithu'r holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'r templedi cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau.<br>• Cytuno ar fesurau llwyddiant<br>• Sgopio anghenion TGCh<br>• Cytuno ar y gofynion hyfforddi.<br>• Enw'r tîm 'Teulu Môn' Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn.<br>• Hyfforddi staff wedi cychwyn<br>• Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr<br>• Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio.<br>• Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol<br>• Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm'<br>• Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth.<br>• Ymgynghori ar y strwythur diwygiedig wedi'i gwblhau.<br>• Un pwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad o ran plant a theuluoedd wedi'i sefydlu ac yn fyw erbyn 03.04.17 | | | | |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol; rhaid i'r ALl ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.<br><br>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn gohirio'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.<br><br>Bydd yr asesiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen.<br><br>Cryfhau swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.<br><br>Argymhelliad 1 AGGCC.<br>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob pwrpas, yn gohirio'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>▪ Adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir o dan rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'.<br>▪ Ymgynghori gyda staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid o ran canfod y bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.<br>• Cais i ailddosbarthu cyllid gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i anfon at LlC.<br>• Cais ar gyfer Grant Rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf ychwanegol yn cael ei gyflwyno erbyn 14/07/17.<br>• Arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer Rheolwr Ataliol Corfforaethol i sicrhau bod y strategaeth ataliol yn cael ei wireddu ar draws yr Awdurdod Lleol.<br><br>**Mai 2017**<br>• Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn fuan yn 2017.<br>• Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth gyda hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar. | Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar Ynys Môn<br><br>Ailgomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal).<br><br>'Teulu Mon', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal. | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br><br>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad 12 AGGCC:**<br>Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. | • Swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017.<br>• Adolygu ac aildrefnu 'Gofal Ysbaid' sy'n cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant.<br><br>**Y Dyfodol**<br>• Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth. | Lleihad yn y nifer o blant sydd yn dod i ofal a chynnydd yn y nifer o blant sy'n cael eu cefnogi i fyw adref efo'u teuluoedd. | | | |

**5. Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw'r teulu gyda'i gilydd.**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio a:<br>1. Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>2. Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>3. Rôl y Swyddog Rhianta | <u>**Mehefin/Gorffennaf 2017**</u><br>•Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn lleihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a teuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw gartref.<br><br><u>**Mai 2017**</u><br>▪ Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i'r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i'w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn. | Y gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.<br><br>Darparu cymorth rhianta 1: 1 ac / neu mewn Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.<br><br>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw gartref. Gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 2017 |
| 5.2 | Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn | <u>**Mehefin/Gorffennaf 2017**</u><br>▪ Wedi reciwtio'r Swyddi Arweinydd Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol, cyfweliadau i'w cynnal erbyn diwedd Gorffennaf.<br>▪ Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn lleihau'r angen am gyswllt o dan | Y tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd.<br><br>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad-ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a teuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw gartref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod plant a phobl ifanc y gellir gwneud gwaith dwys â hwy er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>▪ Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017.<br><br>**Y Dyfodol**<br>▪ Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd.<br>▪ Mi fydd arian ychwanegol ar gael gan LlC i ddarparu cefnogaeth i sefydlu'r Tim Teuluoedd Gwydn. | Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hadsefydlu'n ôl yn eu cartrefi.<br><br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.<br><br>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. | | | |
| 5.3 | Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio arnynt:<br>• Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal)<br>• Creu 'Polisi Llety â Chymorth'<br>• Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal'<br>• Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd<br>• Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>▪Cyfarfu'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 10/07/17, yr aelodaeth, yr agenda a'r Cylch Gorchwyl i'w hadolygu ac i gynnwys pobl ifanc.<br>▪ Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion ar 20/07/17<br>▪Penodi Aelod Lleol fel Pencampwr Plant Mewn Gofal.<br>▪Gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer y seremoni gwobrau 'STAR' yn mis Tachwedd i ddathlu llwyddiannau'r plant mewn gofal.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Sefydlwyd prosiect ôl-ofal.<br>▪ Y Bwrdd Ôl-ofal yn cyfarfod bob mis gyda chynllun gweithredu y cytunwyd arno.<br>▪ Cymeradwyo protocol ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2018<br>▪ Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden. | Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r person ifanc ar gyfer bod yn oedolyn.<br><br>Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal.<br><br>Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – prif flaenoriaethau**

**ATODIAD 2**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | TYSTIOLAETH: CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ▪ Drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal wedi'i lunio.<br>▪ Wrthi'n ystyried cynnal Digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol.<br>▪ Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. | | | | |
| 5.4 | Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrio ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Does dim cynnydd ynglyn ag adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas a rôl y Cyfarwyddwraig oherwydd materion capasiti<br><br>**Mai 2017**<br>• Adolygiad o'r protocol mewnol o ran rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr yn nodi<br>A<br>B<br>C<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. | Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Awdurdod Lleol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Mai 2017 2017 | Medi 2017 |

**Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Plant   Gorffennaf 2017**

**Ffocws y gwaith**
Mae gallu recriwtio a chadw staff da sy’n ymroddedig i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc ar Ynys Môn yn hollbwysig os ydym am gyflawni’r cyfrifoldebau a osodwyd arnom gan ddeddfwriaeth. Mae gweithlu ansefydlog yn y blynyddoedd diweddar, ynghyd â chynnydd sylweddol yn y nifer o blant a phobl ifanc y Gofelir Amdanynt ac sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, wedi rhoi straen aruthrol ar ein gwasanaethau. (CGG, AGGCC 5)

Mae rhoi sylw i hyn yn elfen allweddol o’n Cynllun Gwella Gwasanaeth, ac rydym wedi canolbwyntio ar yr elfennau a ganlyn yn y misoedd diweddar:

**Strwythur** – yn allweddol i’r strwythur newydd mae wyth o Grwpiau Ymarfer llai ar draws y meysydd Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys, ac mae pob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am dri neu bedwar o Weithwyr Cymdeithasol, a nifer llawer llai o achosion nag yn y gorffennol. Golyga hyn y bydd gan pob Gweithiwr Cymdeithasol fwy o fynediad at ei reolwr, fel y gallant gael cyngor buan ar sut i ddelio ag achosion unigol a chael cefnogaeth a goruchwyliaeth o ansawdd da. Bydd trefniadau i benodi Pennaeth Gwasanaeth newydd yn cychwyn yn yr hydref, rydym wedi penodi dau Reolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys ac rydym wedi penodi wyth o Arweinwyr Ymarfer a fydd yn cychwyn yn eu swyddi ddechrau mis Medi. Bydd y strwythur gwasanaeth newydd yn cael ei weithredu o 4 Medi, 2017 ymlaen. CGG 1.3; (AGGCC 7)

**Goruchwyliaeth** – fe lansiwyd Polisi Goruchwylio newydd ym mis Mawrth 2017, ar ôl ymgynghori gyda staff. Mae’r polisi hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i adolygu achosion yn fisol, a gweithredu’n fuan os oes angen newid mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed. Mae amlder y sesiynau goruchwylio yn cael ei fonitro fel bod gan reolwyr sicrwydd fod y polisi’n cael ei weithredu.

**Strategaeth Gweithlu** – tra bod y strwythur newydd a’r Polisi Goruchwylio yn elfennau pwysig o’r Strategaeth Gweithlu, mae’r ddogfen hon, a rannwyd gyda staff ym mis Mehefin 2017, hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant a’r gefnogaeth i’w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol, ac i ddarparu’r gefnogaeth y mae ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Ynys Môn ei hangen. Rydym wrthi’n datblygu cynllun gweithredu ar hyn o bryd. (CGG 1.1, AGGCC 5)

**Cadw Staff** – Mae Ynys Môn wedi dioddef am sawl blwyddyn oherwydd bod ei weithlu yn fregus ac mae wedi arwain at ddiffyg dilyniant yn y gefnogaeth sydd ar gael i’n teuluoedd. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi llenwi bylchau trwy ddod â staff Asiantaeth i mewn; rydym nawr yn symud ymlaen i sefydlogi’r gweithlu yn fwy parhaol. Agwedd allweddol o hyn yw sefydlogi’r lefelau rheolwyr o fewn y Gwasanaethau Plant, a chreu diwylliant cefnogol, herio perfformiad gwael trwy roi cyfarwyddyd clir, goruchwyliaeth reolaidd, a chefnogaeth i ddatblygu fel y gall pob un o’n gweithwyr berfformio’n effeithiol. Ein nod yw lleihau ein dibyniaeth ar Weithwyr Cymdeithasol Asiantaeth yn raddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf wrth i ni recriwtio staff newydd, datblygu staff presennol, a darparu amgylchedd gweithio diogel i bawb, gan gyfuno hyn â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd a gwneud cynnydd (CGG 1.1, AGGCC 5)

**Recriwtio** – Rydym wedi bod yn recriwtio i swyddi’r Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer dros yr haf, ac wedi denu ymgeiswyr da o du allan i’r sefydliad, ac hefyd wedi adnabod ymarferwyr profiadol sy’n barod am ddyrchafiad. Rydym yn bwriadu datblygu rhaglenni Hyfforddai mewnol gan alluogi staff i hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys (h.y. datblygu ein pobl ein hunain). Daw’r strwythur newydd i rym ym mis Medi wrth i aelodau newydd o staff ymuno â ni. (CGG 1.2)

Mae gwaith pellach i'w wneud i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r defnydd gorau o Weithwyr Cymorth, ynghyd â sicrhau bod y gefnogaeth weinyddol yn briodol.

**Sicrwydd Ansawdd**
Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd wedi cael ei gryfhau a'i wreiddio yn y Gwasanaeth (CGG 3.2; AGGCC 13 ac 14). Mae'r Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi cael ei chryfhau. Bydd cefnogaeth weinyddol ychwanegol ac ailsefydlu swydd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd yn cryfhau'r gefnogaeth i'r Timau gweithredol i allu gweithredu a chynnal y gwelliant sydd ei angen yn yr ymarfer (CGG 3.2).

Bydd rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd ymarfer Gwaith Cymdeithasol mewn perthynas â chofnodi achosion, asesu, dadansoddi risg, Adolygiadau PGA, ymweliadau PGA, ymweliadau Amddiffyn Plant, cyfarfodydd grŵp craidd a Chynlluniau Llwybr (CGG 3.3). Mae'r perfformiad dal yn anghyson ar hyn o bryd. Mae archwiliad arall o'r ffeiliau wedi digwydd ym mis Gorffennaf, ac rydym wedi gweithredu ymyraethau wedi'u targedu gyda Gweithwyr Cymdeithasol unigol sydd heb wella ansawdd eu hymarfer ers yr Arolwg a'r Archwiliad a wnaed ym mis Chwefror 2017.

**Gweithio gyda Phartneriaid**
Cafodd canfyddiadau Adroddiad Arolwg AGGCC eu trafod yng nghyfarfod Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2017, er mwyn sicrhau bod gan pawb ddealltwriaeth o'r materion, a sicrhau ymroddiad gan bartneriaid i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i wella gwasanaethau i blant.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gwasanaeth Addysg. Cafwyd ymroddiad i wella cydweithrediad, ac ymroddiad i ddeialog barhaus ar lefel strategol i greu gwell amodau am gydweithrediad yn ymarferol. Wrth gynnal trafodaeth, rydym wedi adnabod ystod o archwiliadau achos aml-asiantaeth; gyda'r broses o ddewis themâu i'w harchwilio yn cael ei llywio gan adroddiad Arolwg AGGCC. Byddwn yn ehangu'r cylch gwaith wrth i ni wreiddio'r ymagwedd aml-asiantaeth i mewn i'n cynlluniau sicrwydd (CGG 3.4; AGGCC 2).

Mae adroddiad AGGCC wedi cael ei drafod yn Grŵp Cyflawni Lleol Gwynedd a Môn; cytunwyd y bydd Cylch Gorchwyl is-grŵp Sicrwydd Ansawdd y Grŵp yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod gwaith y grŵp yn cael ei yrru gan angen i wella'r ymarfer diogelu aml-asiantaethol cyfredol (CGG 3.4; AGGCC 2).

Mae'r Gwasanaethau Plant yn arwain Grŵp Tasg a Gorffen Gwynedd ac Ynys Môn o dan y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol i greu Canllawiau Ymarfer aml-asiantaethol lleol ar Amddiffyn Plant gyda'r ffocws ar wella ymarfer a threfniadau diogelu. Bydd dogfen ddrafft yn barod erbyn mis Hydref (CGG 2.2; AGGCC 3).

**Gwell gwasanaethau i Blant, pobl ifanc a theuluoedd**
Mae Gwasanaethau Ataliol yn cael eu hadolygu, ac mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar y cyd â phartneriaid, i sicrhau gwasanaethau a chomisiynu mwy effeithiol, er mwyn lleihau nifer y plant a phobl ifanc y mae angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac sydd angen Gofalu Amdanynt (CGG 4.4; AGGCC 12).

Rydym wedi dechrau ymarfer yn wahanol ac yn fwy dwys gyda nifer fechan o deuluoedd gan ddilyn model tebyg i waith y Gwasanaethau Cefnogaeth Ddwys i Deuluoedd (CGG 2.1). Dyma'r gwaith y bydd y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ei wneud ym mis Medi i gefnogi plant sy'n byw adref: bydd hyn yn atal yr angen am lety ac yn cefnogi cynlluniau i ddychwelyd adref (CGG 5.2).

**Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr**
Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfod y Panel yn canolbwyntio ar fonitro a herio sut mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei weithredu, gan ddal y Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth i gyfrif. Mae dau gyfarfod wedi'u cynnal hyd yma a chytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer y Panel. I gyd-fynd â hyn, bydd hyfforddiant ac ymweliadau yn digwydd i gefnogi uwch arweinwyr ac aelodau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sydd ynghlwm â darparu Gwasanaethau Plant (CGG 1.5; AGGCC 4). Bydd ymweliadau Laming ar gyfer yr Aelodau yn cael eu trefnu hyd at fis Mai 2018 i gychwyn a bydd cyflwyniadau/sesiynau hyfforddiant yn cael eu darparu e.e. y model Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS), Profiadau Drwg mewn Plentyndod (ACEs).

Bydd y Protocol ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei adolygu i sicrhau bod trefniadau corfforaethol yn effeithiol. (CGG 6.1).

**Gwasanaethau Cefnogaeth Arbenigol Plant**

Canolfan sydd yn darparu gofal dydd strwythuredig i blant anabl, yn cael ei redeg gan y Cyngor, yw Bryn Hwfa, Llangefni. Cynhaliodd AGGCC arolwg o'r ganolfan yn ddiweddar, sef yr arolwg cyntaf ers i'r ganolfan gael ei chofrestru. 'Roedd yr asesiad yn bositif, gan nodi bod plant yn hapus yno, a bod gweithgareddau a'r amgylchedd yn addas.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Medi,2017** |
| **Pwnc:** | **Polisi Gosod Sensitif ar gyfer Tai Cyngor** |
| **Aelodau) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Elliw Llŷr**<br>**01248 752137**<br>**ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dd/b** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:-

**A1.** Gymeradwyo Polisi Gosod Sensitif am gyfnod o ddwy flynedd gyda'r bwriad byddai Bwrdd Gwasanaethau Tai yn gwerthuso effaith y Polisi o fewn blwyddyn.

**A2.** Cymeradwyo bydd penderfyniad gweithredu'r polisi ar stadau penodol yn gyfrifoldeb i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio.

**Rhesymau**

Mae'r Polisi Gosod Sensitif yn bod yn rhagweithiol yn y dull mae  modd mae eiddo 'r Cyngor yn cael ei osod, bydd y Polisi hwn yn cael ei weithredu ar gyfer ardaloedd penodol ar yr Ynys ac yn eistedd ochr yn ochr â Pholisi Gosod Cyffredin a Strategaeth Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol y Cyngor.

**1.0 Cefndir**

Cymeradwywyd Polisi Gosod Cyffredin gan y Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill, 2016 fel y bwa oruwch i osod Tai Cymdeithasol, sydd hefyd yn berthnasol i Gymdeithasau Tai sydd yn gweithredu ar yr Ynys.

**Trosolwg o'r Polisi**

Fel nodir uchod mae'r Polisi hwn yn rhagweithiol i faterion sydd yn bodoli ar rhai stadau penodol ar yr Ynys, gall problemau ymddygiad gwrth gymdeithasol effeithio delwedd rhai ardaloedd am gyfnodau penodol.

Mae'r Polisi hwn yn ceisio rhoi sicrwydd ychwanegol i'r hyn mae'r Polisi Gosod Cyffredin yn ei gynnig o ran ceisio cael cydbwysedd a chynwysiad cymdeithasol ar ein stadau. Gall y Polisi yma gael ei weithredu ar unrhyw stad Tai Cyngor ar yr Ynys ar unrhyw adeg a fe restrir beth yw'r meini prawf ar gyfer asesu ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn cymhwyso ar gyfer y cynlluniau hyn.

| |
|---|
| Pe byddai unigolyn sydd yn cael ei wrthod ar sail cymhwysedd y Polisi yn dymuno apelio mae modd gwneud hynny ac mae asesiad effaith wedi ei gynnal ar oblygiadau'r Polisi hwn.<br><br>Mae Deilydd Portffolio ar gyfer Tai yn gefnogol o'r Polisi hwn yng nghyd ag adborth gan Panel Tenantiaid Ynys Mon (MOTV), sydd wedi derbyn gwybodaeth ar egwyddorion y Polisi hwn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Er bod risg bydd eiddo gwag yn parhau yn wag am gyfnodau hirach mae'r risg hir dymor o allu peidio gosod tai a bod delwedd rhai ystadau yn dirywio ymhellach yn fwy |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Polisi Gosod Sensitif hwn yn eistedd fel adnodd ychwanegol ar gyfer y Polisi Gosod Cyffredin a'r Strategaeth Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Polisi Gosod Cyffredin eisoes wedi ei gymeradwyo, bydd hwn yn adnodd ychwanegol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae'r Polisi yn cyd-fynd a Chynllun Refeniw Tai a bydd monitro o unrhyw oblygiadau colled rhenti ar eiddo oherwydd cyfnod hirach i'w osod |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Effaith positif |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Effaith positif |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Effaith positif |
| 4 | **Amgylcheddol** | Effaith positif |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Dd/b |
| 7 | **Arall** | Dd/b |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1: Asesiad Effaith Cydraddoldeb |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Polisi Gosod Cyffredin<br>http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s10296/Polisi%20Tai%20Cyffredin.pdf?LLL=1 |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Polisi Gosod Sensitif
## Fersiwn v0.4

DRAFFT

DRAFFT

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 0.1 | 18/07/18 | |
| 0.2 | 30/08/17 | |
| 0.3 | 31/08/17 | Newidiadau i adlewyrchu sylwadau Cyfreithiol a sylwadau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth |
| 0.4 | 07/09/17 | Newidiadau i adlewyrchu sylwadau Bwrdd Gwasanaethau Tai |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y polisi ar: | |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | |

**Manylion cyswllt:**

Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

01248 752200

adrantai@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. This document is available in English.

DRAFT

**TABL CYNNWYS**


1. **Cyflwyniad**
2. **Pwrpas**
3. **Sgôp**
4. **Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**
5. **Manylion y Polisi**
6. **Cymhwysedd**
7. **Rheoli'r Polisi**
8. **Monitro'r Polisi**
9. **Canlyniadau**
10. **Risgiau**
11. **Adolygu'r Polisi**


DRAFFT

**1. Cyflwyniad**

**1.1** Mae'r Polisi hwn yn rhoi gwybodaeth am y modd y bydd y Gwasanaethau Tai yn gosod eiddo mewn blociau penodol ar gyfer stadau ar Ynys Môn. Dywed Adran 14.4 Polisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Sir Ynys Môn [CSYM], Gorffennaf 2016, y gellir cyflwyno Polisi Gosod Sensitif petai raid.

**1.2** Yn unol â Deddf Tai 1996, rhaid i awdurdodau lleol gael polisi ysgrifenedig sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r egwyddorion y mae'n rhaid eu dilyn wrth osod tai. Er bod raid roi ffafriaeth resymol i grwpiau diffiniedig, mae adran 167(2E) yn galluogi awdurdodau i osod eiddo i bobl o ddisgrifiad penodol lle mae angen clir am ymagwedd o'r fath. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i sicrhau cymunedau cytbwys, tenantiaethau cynaliadwy a gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**2. Pwrpas**

**2.1** Mae'r polisi hwn yn manylu ar y modd y bydd CSYM yn gweithredu Polisi Gosod Sensitif ar gyfer blociau penodol o fflatiau sydd yn berchen i Gyngor Sir Ynys Môn.

**2.2** Mae cynllun gosod sensitif yn rhoi hyblygrwydd i bolisïau gosod sydd wedi eu cytuno yn barod. Bwriad y polisi hwn yw hybu'r ardal a chydlyniad cymunedol, lleihau'r nifer o eiddo gwag a gwneud tenantiaethau'n fwy cynaliadwy.

**2.3** Y cyfiawnhad ar gyfer y polisi yw fod CSYM wedi cael problemau rheoli yn y gorffennol megis cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anawsterau i ail-osod rhai blociau o fflatiau. Drwy gyflwyno'r Polisi hwn, nod CSYM yw creu gymunedau mwy cynaliadwy a dileu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3. Sgôp**

**3.1** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymgeiswyr am gartref ar Gofrestr Dai Gyffredin Cyngor Sir Ynys Môn

http://www.ynysmon.gov.uk/tai/tai-cyngor/sut-ydw-in-ymgeisio-am-dy-cymdeithasol-/

**4. Dyletswydd a chyfrifoldebau**

**4.1** Y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio sydd a'r awdurdod i benderfynu pa stadau a'r cyfnod gweithredu'r Polisi.

**4.1** Cyfrifoldeb y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod y staff wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r polisi hwn.

**5 Manylion y Polisi**

**5.1** Gweithredu y Polisi mewn eiddo / blociau fflatiau ble mae CSYM wedi cael problemau rheoli megis cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, tyndra cymunedol ac anawsterau i ail-osod rhai blociau o fflatiau / eiddo penodol.

**5.2** Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin Ynys Môn yn amlinellu'r meini prawf cymwys ar gyfer ymuno â'r gofrestr dai.

**5.3** Bydd ceisiadau am lety ar y safle yn cael eu gweinyddu drwy Gofrestr Dai Gyffredin Ynys Môn yn unol â meini prawf y Polisi Gosod Cyffredin a'r Polisi Gosod Sensitif.

**5.4** Bydd ymgeiswyr yn cael eu cynghori bod y Polisi Gosod Sensitif yn berthnasol ar gyfer y safle a bydd gofyn i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf a nodir isod er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eiddo.

**5.5 Blaenoriaethau Gosod**

Bydd eiddo ar lawr isaf y safle yn cael eu gosod yn unol â'r meini prawf canlynol:

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Blaenoriaeth 1 - Ymgeiswyr 60+ sydd â phroblemau corfforol/symud ac sy'n gweithio.
- Blaenoriaeth 2 - Ymgeiswyr 60+ sydd â phroblemau corfforol/symud
- Blaenoriaeth 3 - Ymgeiswyr 55+ sydd â phroblemau corfforol/symud ac sy'n gweithio.
- Blaenoriaeth 4 - Ymgeiswyr 55+ sydd â phroblemau corfforol/symud
- Blaenoriaeth 5 - Mewn achosion pan na fydd yna ymgeiswyr cymwys yn y grwpiau blaenoriaeth 1-4, bydd yr oed blaenoriaeth yn cael ei ostwng fesul 5 mlynedd e.e. 50+ yna 45+ ayb a bydd blaenoriaeth o fewn y grŵp oed yn parhau i gael ei roi i rai sydd â phroblemau corfforol/symud ac sy'n gweithio ac yna ymgeiswyr sydd â phroblemau corfforol/symud sydd ddim yn gweithio.
- Blaenoriaeth 6 - Mewn achosion pan nad oes yna ymgeiswyr cymwys yn y grwpiau blaenoriaeth 1-5, bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:
- Blaenoriaeth 6(a) Ymgeiswyr 60+ ac sy'n gweithio
- Blaenoriaeth 6(b) Ymgeiswyr 60+
- Blaenoriaeth 6(c) Ymgeiswyr 55+ ac sy'n gweithio
- Blaenoriaeth 6(d) Ymgeiswyr 55+
- Blaenoriaeth 7 - Mewn achosion pan na fydd yna ymgeiswyr cymwys yn y grwpiau blaenoriaeth 1-6, bydd yr oed blaenoriaeth yn cael ei ostwng fesul 5 mlynedd e.e. 50+ yna 45+ ayb a bydd blaenoriaeth o fewn y grŵp oed yn parhau i gael ei roi i rai sy'n gweithio.

**5.6** Bydd eiddo ar loriau eraill heblaw am y llawr isaf ar y safle yn cael eu gosod yn unol â'r meini prawf canlynol.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Blaenoriaeth 1 - Ymgeiswyr 60+ ac sy'n gweithio
- Blaenoriaeth 2 - Ymgeiswyr 60+
- Blaenoriaeth 3 - Ymgeiswyr 55+ ac sy'n gweithio
- Blaenoriaeth 4 - Ymgeiswyr 55+
- Blaenoriaeth 5 - Mewn achosion pan na fydd yna ymgeiswyr cymwys yn y grwpiau blaenoriaeth 1-4, bydd yr oed blaenoriaeth yn cael ei ostwng fesul 5 mlynedd e.e. 50+ yna 45+ ayb a bydd blaenoriaeth o fewn y grŵp oed yn parhau i gael ei roi i rai sy'n gweithio.

Os oes yna ddau neu fwy o ymgeiswyr ym mhob categori, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi yn ôl dyddiad derbyn y cais.

**5.7** I bwrpas y polisi hwn, ymgeiswyr sy'n gweithio yw:

- Ymgeiswyr sydd mewn gwaith lle cânt eu talu (un ai yn gyflogedig neu'n hunan gyflogedig) am gyfnod o 12 mis.

DRAFT

- Ymgeiswyr sy'n derbyn hyfforddiant neu sy'n cymryd rhan mewn menter dychwelyd i'r gwaith. Gall y rhain fod yn fentrau gwirfoddol neu orfodol sydd wedi eu dylunio i gefnogi unigolion sydd ddim mewn gwaith ond sydd yn ymroddi i ddarganfod gwaith, drwy ddarparu mynediad i hyfforddiant neu brofiad gwaith.

**6 Cymhwysedd**

**6.1** Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y safle rhaid i ymgeisydd fodloni'r meini prawf canlynol:

- Os yw'r ymgeisydd wedi bod yn denant yn flaenorol, mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd yn darparu geirda gan landlord blaenorol.
- Ni ddylai'r ymgeisydd fod mewn unrhyw ôl-ddyled gyda landlordiaid blaenorol
- Ni ddylai'r ymgeisydd fod wedi achosi difrod neu greu unrhyw atgyweiriadau ad-daladwy ar gyfer unrhyw landlordiaid blaenorol
- Ni ddylai fod gan yr ymgeisydd gofnod o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu niwsans gydag unrhyw landlordiaid blaenorol.
- Ni ddylai'r ymgeisydd fod wedi gadael eiddo heb rybudd gydag Awdurdod Lleol neu LCC
- Efallai y bydd ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol yn eu herbyn yn cael eu gwrthod os oes yna bryder nad yw eu gweithgareddau wedi lleihau ac y byddant yn effeithio ar y stad a'r ardal leol.
- Mae CSYM yn cadw'r hawl i wneud gwiriad gyda'r heddlu yn unol â'r protocolau presennol.
- Bydd CSYM yn gofyn i'r ymgeiswyr ddarparu geirda gan ddau unigolyn proffesiynol sydd wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf 2 flynedd.
- Rhaid i ddarpar denantiaid fynychu cyfweliad a chael gwiriad ariannol / buddion i sefydlu eu sefyllfa ariannol ac addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y cynllun. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos yn ystod y cyfweliad eu bod yn deall eu cyfrifoldeb fel tenant.
- Ni fydd cynnig yn cael ei wneud os yw'r Cyngor o'r farn na all yr ymgeisydd gynnal eu tenantiaethau yn llwyddiannus.
- Bydd CSYM yn gofyn bod gan ymgeiswyr sydd angen cymorth, becyn cefnogaeth cydnabyddedig a digonol ar eu cyfer.
- Ni fydd ymgeiswyr sydd â chŵn yn cael eu hystyried.

**7 Rheoli'r Polisi**

**7.1** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fod yn hyblyg ac ystyried llacio rhai o'r amodau mewn amgylchiadau arbennig. Er enghraifft : caniatáu ci sy'n angenrheidiol fel ci tywys neu adolygu euogfarnau'r ymgeisydd.

**7.2** Bydd gan ymgeiswyr y cyfle i apelio yn erbyn penderfyniad o ddiffyg cymhwysedd yn unol â'r prosesau canlynol:
*Bydd y cais yn cael ei adolygu a rhestr fer yn cael ei thynnu'n unol â gweithdrefnau adolygu ac apeliadau Polisi Gosod Tai Cyffredin Ynys Môn.

**7.3** Amcan y Cyngor yw atal unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy greu polisi dewisol ar gyfer gosod a rheoli tai yn fflatiau.

**7.4** Bydd CSYM yn gweithredu polisi goddefgarwch o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gamddefnyddio sylweddau. Ni fydd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu niwsans yn cael eu dioddef a byddant yn derbyn sylw yn syth.

**7.5** Bydd tenantiaid newydd yn derbyn Tenantiaeth Gychwynnol o 12 mis lle bydd ymweliadau â'r cartref yn cael eu cynnal yn rheolaidd i bennu a ydynt yn addas i barhau â'r denantiaeth.

**7.6** Os nad oes yna ddigon o alw, bydd CSYM yn hysbysebu'r unedau a bydd unrhyw ymgeiswyr newydd yn cael eu hasesu yn unol â'r Cynllun Gosod Sensitif.

**8 Monitro'r Polisi**

**8.1** Bydd y polisi yn cael ei weithredu yn y lle cyntaf am gyfnod o 2 flynedd gyda'r opsiwn o'i ymestyn pan gaiff ei adolygu.

**8.2** Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob 6 mis yn erbyn canlyniadau ac amcanion Cofrestr Dai Gyffredin CSYM.

**8.3** Bydd CSYM yn defnyddio'r canlynol fel mesur o lwyddiant:

- Trosiant Eiddo
- Nifer yr ymdrechion i osod eiddo
- Y cyfnod y mae tŷ yn wag ar gyfartaledd
- Colled rhent
- Hyd tenantiaeth ar gyfartaledd
- Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**9 Canlyniadau**

**9.1** Datblygu cymuned gytbwys a chynaliadwy a fydd yn cynyddu boddhad ac sicrhau ein bod yn cadw ein cwsmeriaid

**9.2** Gwella'r berthynas rhwng y tenant a'r landlord

**9.3** Lleihau'r nifer o unedau gwag a cholled rhent.

**9.4** Lleihau'r amser a gymer i osod tai drwy wella ansawdd yr amgylchedd byw a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy brosesau cadarn a drwy weithio mewn partneriaeth.

**9.5** Sicrhau y gwneir defnydd gorau o stoc dai y Cyngor.

**10 Risgau**

**10.1** Y risg y gallai peidio â gweithredu'r Cynllun Gosod Sensitif arwain at dai sy'n wag am gyfnodau hir a cholli incwm rhent.

**10.2** Y risg y gallai unedau sy'n wag yn y tymor hir ac enghreifftiau parhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith ddrwg ar enw da'r Cyngor fel landlord.

**10.3** Mae dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Gall peidio â gweithredu'r Polisi hwn arwain hefyd at ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf hon.

**11 Adolygu'r Polisi**

**11.1** Bydd y Bwrdd Gwasanaeth Tai yn monitro'r Polisi hwn ymhen blwyddyn gyda golwg ar ei adolygu ymhen 2 flynedd.

**11.2** Efallai y bydd angen adolygu'r Polisi dan amgylchiadau eraill gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, y Polisi Gosod Tai Cyffredinol neu unrhyw newidiadau i bolisïau corfforaethol eraill CSYM.

**12 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

DRAFT

Cyngor Sir Ynys Môn – **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| F1 | 01/09/2017 | Fersiwn cyntaf |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Polisi Gosod Sensitif |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Newydd |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Mae'r Polisi hwn yn rhoi gwybodaeth am y modd y bydd y Gwasanaethau Tai yn gosod eiddo mewn blociau penodol ar gyfer stadau ar Ynys Môn. Mae adran 14.4 o Bolisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Sir Ynys Môn [CSYM], Gorffennaf 2016 yn datgan y gellir cyflwyno Polisi Gosod Sensitif, petai angen hynny.<br><br>Mae'r polisi hwn yn rhoi manylion am y modd y bydd CSYM yn gweithredu Polisi Gosod Sensitif ar gyfer gosod blociau penodol o fflatiau sy'n eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae cynllun gosod sensitif yn rhoi hyblygrwydd yng nghyswllt polisïau gosod sydd wedi cael eu cymeradwyo eisoes. Bwriad y polisi hwn yw hybu'r ardal a chydlyniad cymunedol, lleihau'r nifer o eiddo gwag a gwneud tenantiaethau'n fwy cynaliadwy.<br><br>Y cyfiawnhad am y polisi yw bod CSYM wedi profi problemau rheoli yn y gorffennol megis cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anawsterau wrth geisio ailosod blociau penodol o fflatiau. Trwy gyflwyno'r polisi hwn mae CSYM yn bwriadu creu cymunedau mwy cynaliadwy a chael gwared ar ymddygiadau gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar lesiant tenantiaid ufudd. |

Tudalen 183

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Elliw Llyr – Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth a Pholisi Tai |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Llinos Wyn Williams – Rheolwr Gwasanaeth – Tai Cymunedol |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Neb |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'r asesiad? | Mae'r cynnig mewn perthynas â'r Polisi Gosod Tai Cyffredin ac mae'n golygu newid yn y broses gwneud penderfyniadau wrth ddelio â blociau penodol o fflatiau / eiddo ar yr Ynys.<br><br>**Maent yn cynnwys yr eiddo canlynol:**<br>• Peibio Close, Caergybi rhifau 1 i 41<br>• Tŷ'n Caeau, Llanfairpwll rhifau 9 i 30<br>• Ger y Graig, Llangefni rhifau 1 i 36 (ond dim rhif 37)<br>• Llawr y Dref, Llangefni rhifau 6 i 29<br><br>**Deilliannau**<br>Datblygu cymuned gytbwys a chynaliadwy a fydd yn cynyddu bodlonrwydd cwsmer ac yn galluogi'r Cyngor i gadw tenantiaid am gyfnod hirach.<br><br>Perthynas well rhwng y tenant a'r landlord.<br><br>Lleihau nifer yr unedau gwag a'r golled ariannol o'r rhenti.<br><br>Lleihau faint o amser a gymer i osod tai trwy wella ansawdd yr amgylchedd byw a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy brosesau cadarn a gweithio mewn partneriaeth. |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| | Sicrhau y gwneir y defnydd gorau o stoc tai CSYM. |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Darpar denantiaid neu denantiaid presennol sy'n trosglwyddo ac sydd wedi nodi eu bod yn awyddus i breswylio yn Llangefni, Caergybi neu Lanfairpwll a allai fod ar un o'r stadau canlynol:<br><br>• Peibio Close, Caergybi rhifau 1 i 41<br>• Tŷ'n Caeau, Llanfairpwll rhifau 9 i 30<br>• Ger y Graig, Llangefni rhifau 1 i 36 (ond dim rhif 37)<br>• Llawr y Dref, Llangefni rhifau 6 i 29<br><br>**Mae demograffeg oed posib yr ymgeiswyr yn cynnwys**<br><br>Ymgeiswyr 60+ sydd â phroblemau corfforol/symudedd ac sy'n gweithio.<br>Ymgeiswyr 60+ sydd â phroblemau corfforol/symudedd<br>Ymgeiswyr 55+ sydd â phroblemau corfforol/symudedd ac sy'n gweithio.<br>Ymgeiswyr 55+ sydd â phroblemau corfforol/symudedd<br><br>Mewn achosion lle nad oes unrhyw ymgeiswyr cymwys yn y grwpiau blaenoriaeth 1 – 4, bydd yr oed blaenoriaeth yn cael ei ostwng bum mlynedd e.e. 50+, yna 45+ ac yn y blaen, a byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth o fewn y grŵp oedran i'r rheini sydd â phroblemau corfforol / symudedd ac sy'n gweithio, ac wedyn i ymgeiswyr sydd â phroblemau corfforol / symudedd ac nad ydynt yn gweithio.<br><br>Fe wneir cyfeiriad ysgrifenedig at bob person sy'n aros i fynd ar ein rhestr aros am dai o fewn eu cynlluniau tai personol. Mae hyn er mwyn sicrhau eglurder i'r holl ddarpar denantiaid fod gan yr ardaloedd uchod Bolisi Gosod Sensitif mewn lle. |

| **9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| --- | --- | --- |
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | x | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | x | |
| **Meithrin perthynas dda** | x | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | x | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | | |

<table>
<tr><th colspan="2">Cam 2: Casglu gwybodaeth</th></tr>
<tr><td>10 - A yw’r cynnig yma’n sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?</td><td>Nid oes gofyn i ddarpar denantiaid neu denantiaid cyfredol siarad Cymraeg neu Saesneg. Rydym yn cyfathrebu gyda’r holl denantiaid yn yr iaith o’u dewis. Nid yw'r polisi hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â sgiliau iaith Gymraeg neu Saesneg.</td></tr>
<tr><td>11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?</td><td>Nac oes – nid yw’n uniongyrchol gysylltiedig â sgiliau iaith Gymraeg, fodd bynnag, bydd cysylltiadau lleol yn rhan o’r broses gwneud penderfyniadau ar y rhestr aros yn unol â’r Polisi Gosod Tai Cyffredin.</td></tr>
<tr><td>12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?</td><td>Na fydd – nid yw’n uniongyrchol gysylltiedig â’r iaith Gymraeg.<br><br>Petai tenant neu ddarpar denant yn dymuno gwella ei sgiliau iaith Gymraeg, gellir eu cyfeirio at ein tîm Cyfranogiad Tenantiaid a gall y tîm eu cefnogi wrth ddod o hyd i gyrsiau / sesiynau hyfforddiant</td></tr>
<tr><td>13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y gymuned?</td><td>Na fydd – nid yw’n uniongyrchol gysylltiedig â’r iaith Gymraeg.<br><br>Petai tenant neu ddarpar denant yn dymuno gwella ei sgiliau iaith Gymraeg, gellir eu cyfeirio at ein tîm Cyfranogiad Tenantiaid a gall y tîm eu cefnogi wrth ddod o hyd i gyrsiau / sesiynau hyfforddiant</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Atodiad 1 i’r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae’r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai prif bolisïau a strategaethau’r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – mae templed ar wahân ar gael gyda’r papurau hyn ar MonITor, i chi ei gwblhau os byddai hynny’n briodol.</td></tr>
<tr><td>14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw’r materion yma?</td><td>Nac oes – mae hyn yn seiliedig ar ddulliau llym yr Adran Dai o asesu pob darpar denant. Byddai unrhyw ddarpar denant sydd ag anghenion corfforol yn cael ei asesu gan y panel Cyswllt Tai sy’n cyfarfod bob yn ail wythnos, ac sy’n cynnwys</td></tr>
</table>

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| (Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | swyddogion o'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ac Opsiynau Tai. Fe wneir cyfeiriad at fregusrwydd c addasrwydd pob darpar denant sy'n cael ei ystyried am unrhyw eiddo o fewn y stadau a enwyd er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniad ar y cyd ac nad yw CSYM yn peryglu llesiant tenant trwy eu lleoli mewn ardal anodd.<br><br>Dylai'r asesiad o'r polisi hwn arwain at well llesiant i denantiaid cyfredol a darpar denantiaid ar ein stadau mwyaf heriol. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail bregusrwydd y tenant i allu cynnal tenantiaeth yn y stadau a enwir uchod, gan sicrhau bod pob tenant yn byw mewn cymunedau diogel. | |
| | Cymru lewyrchus | Ydi |
| | Cymru gydnerth | Ydi |
| | Cymru iachach | Ydi |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydi |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydi |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydi |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydi |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig hwn?** | - Wedi ymgynghori â staff yn cynnwys swyddogion Rheoli Tai sy'n delio â materion rheng flaen mewn perthynas â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, tensiynau yn y gymuned<br>- Wedi ymgynghori â Grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn – MTOV<br>- Wedi ymgynghori â phroses ddemocrataidd CSYM sy'n cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig<br>- Mae'r Adran Dai wedi rhoi gwybod i drigolion Peibio Close am ei fwriad i ddefnyddio Polisi Gosod Sensitif sy'n berthnasol i'w hardal hwy | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma o.g.y.dda.** | - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014<br>- Deddf Tai (Cymru) 2014<br>- Polisi Diogelu Corfforaethol | |
| **18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut bydd y rhain yn cael sylw?** | Nac oes – nid ydym yn credu bod unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd. Fodd bynnag, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o fewn y 12 mis cyntaf, petai unrhyw fylchau gweithredol yn cael eu canfod unwaith mae'r polisi wedi mynd yn | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| | fyw.<br><br>Bydd y Tîm Opsiynau Tai yn cynnal asesiad misol o ba mor effeithiol yw'r polisi. |

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru'r effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Anabledd** | Negyddol | Petai unrhyw unigolyn yn dod i fyny wrth i ni chwilio am eiddo ar un o'r stadau a enwir uchod, efallai y byddwn yn penderfynu eu bod yn rhy fregus i breswylio o fewn yr ardal. | Fe wneir penderfyniadau ar y cyd â'r Gwasanaethau Oedolion a Thai trwy'r panel Cyswllt Tai – bydd yr asesiadau yn cynnwys bregusrwydd y darpar denant o ran preswylio yn un o'r stadau a enwir.<br><br>Bydd darpar denantiaid yn cael gwybod am y Polisi Gosod Sensitif, a byddwn yn enwi'r holl stadau o'r cychwyn cyntaf i sicrhau ein bod yn rheoli disgwyliadau. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn eu Cynllun Tai a hefyd mewn gohebiaeth unwaith y mae'r cyfweliad rhestr aros wedi digwydd.<br><br>Gallai unrhyw ddarpar denantiaid sydd heb gael eu hystyried ar gyfer y stadau a enwir, gael eu hystyried er mwyn ehangu eu band i sicrhau bod modd cynnig a gosod eiddo arall yn gynt iddynt |
| **Rhyw** | Negyddol | Petai'r Tîm Opsiynau Tai a'r Tîm Rheoli Stadau yn ystyried bod risg uchel i'r naill ryw neu'r llall ar unrhyw un o'r stadau a enwir, ni fyddwn yn ystyried cynnig eiddo i'r rheini y tybiwn bod y risg yn uwch iddynt.<br><br>**Enghraifft** – efallai fod lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar stad benodol, ac mai dynion | Bydd darpar denantiaid yn cael gwybod am y Polisi Gosod Sensitif, a byddwn yn enwi'r holl stadau o'r cychwyn cyntaf i sicrhau ein bod yn rheoli disgwyliadau.<br><br>Bydd y Tîm Opsiynau Tai yn rhoi gwybod yn ofalus i'r darpar denant am y penderfyniad i beidio cynnig tenantiaeth mewn stad a enwir os tybir bod mwy o |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru'r effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | sy'n bennaf gyfrifol. Petai eiddo'n cael ei osod i ferch ar ei phen ei hun yno, gallai hynny gynyddu'r risg o'i gwneud yn fwy bregus petai'n preswylio yn y stad a enwir. | risg i un rhyw. Y cam lliniaru yw y bydd yr unigolyn hwn dal yn cael ei flaenoriaethu o ran sicrhau eiddo addas ar ei gyfer nad yw'n cynyddu'r risg o'i wneud yn fwy bregus o fewn y gymuned.<br><br>Bydd y tîm Rheoli Tai yn parhau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol / gweithredoedd troseddol ac yn defnyddio fframweithiau cyfreithiol i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dwyn i gyfrif unwaith mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu. Mae hyn mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru. |
| **Newid Rhyw** | Negyddol | Petai'r Tîm Opsiynau Tai a'r Tîm Rheoli Stadau yn ystyried bod risg uchel i'r naill ryw neu'r llall ar unrhyw un o'r stadau a enwir, ni fyddwn yn ystyried cynnig eiddo i'r rhyw y tybiwn bod y risg yn uwch iddynt.<br><br>**Enghraifft** – efallai fod lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar stad benodol, ac mai dynion sy'n bennaf gyfrifol. Petai eiddo'n cael ei osod i ferch ar ei phen ei hun yno, gallai hynny gynyddu'r risg o'i gwneud yn fwy bregus petai'n preswylio yn y stad a enwir. | Bydd darpar denantiaid yn cael gwybod am y Polisi Gosod Sensitif, a byddwn yn enwi'r holl stadau o'r cychwyn cyntaf i sicrhau ein bod yn rheoli disgwyliadau.<br><br>Bydd y Tîm Opsiynau Tai yn rhoi gwybod yn ofalus i'r darpar denant am y penderfyniad i beidio cynnig tenantiaeth mewn stad a enwir os tybir bod mwy o risg i un rhyw. Y cam lliniaru yw y bydd yr unigolyn hwn dal yn cael ei flaenoriaethu o ran sicrhau eiddo addas ar ei gyfer nad yw'n cynyddu'r risg o'i wneud yn fwy bregus o fewn y gymuned.<br><br>Bydd y tîm Rheoli Tai yn parhau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol / gweithredoedd troseddol ac yn defnyddio fframweithiau cyfreithiol i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dwyn i gyfrif unwaith mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu. Mae hyn mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru'r effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Unrhyw fater arall perthnasol, e.e. tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | Dim effaith | Amherthnasol | Amherthnasol |



| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Daw'r asesiad i'r casgliad, oherwydd pryderon cynyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stadau a enwir o fewn y Polisi Gosod Sensitif, mae'r polisi wedi'i sefydlu er mwyn diogelu ac amddiffyn grwpiau o gleientiaid bregus sydd wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn byw yn yr ardaloedd hynny. Mae Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cydraddoldeb yn greiddiol i'r broses gwneud penderfyniadau i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn dda o fewn eu cartrefi a'u cymdogaeth.<br><br>Mae'n hollbwysig ein bod yn rheoli disgwyliadau o'r cychwyn i sicrhau bod profiad y cwsmer yn un o ansawdd uchel a bod darpar denantiaid yn ymwybodol o densiynau / ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn y stadau a enwir.<br><br>Byddwn yn ymdrechu i flaenoriaethu unigolion sydd yn nhyb yr Adran Dai / Gofal Cymdeithasol yn rhy fregus i fyw o fewn yr ardaloedd gosod sensitif, er mwyn sicrhau bod cynnig amgen yn cael ei wneud mewn modd |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | amserol.<br><br>Gallai'r rheolwyr ddefnyddio eu disgresiwn mewn rhai sefyllfaoedd penodol lle mae eiddo yn y lleoliadau a enwir yn anaddas a bod perygl i hynny arwain at ddigartrefedd. |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nad oes modd eu hosgoi na'u lliniaru?** | Y strategaeth fyddai ymyrraeth frys gan reolwyr i sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni bob tro. Gallai hyn olygu bod y rheolwyr yn defnyddio eu disgresiwn ar adegau. |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | Diben y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.<br>Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, edrych i atal problemau a dod at ei gilydd yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â materion.<br>Credir y bydd yr ymagwedd hon yn parhau i roi pwyslais ar lesiant cymunedol trwy sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yng nghyswllt anghenion tai yn yr ardaloedd a enwir yn amddiffyn cleientiaid bregus a hefyd yn parhau i roi sylw i faterion o bryder megis ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion troseddol. |
| **23 - A oes angen ailystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os ydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried a oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nac oes – fodd bynnag, gan ei fod yn bolisi newydd, mae angen sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi. Mae cyfathrebu corfforaethol yn digwydd a chynhelir adolygiadau yn aml i sicrhau bod yr ymarfer gweithredol yn unol â'r strategaeth / Polisi Gosod Sensitif. |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd<br><br>Y person allweddol sy'n gwneud y penderfyniad yw Pennaeth y |

Tudalen 193

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Tai, Shan Lloyd Williams.<br><br>Caiff hyn ei gefnogi gan yr Uwch Dîm Rheoli. |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Bydd y tîm Opsiynau Tai yn cadw cofnod clir o effaith / penderfyniadau, er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull gwaith a sicrhau ei fod yn unol â'r polisi.<br><br>**Bydd y gwaith monitro hefyd yn cynnwys:**<br><br>Monitro misol yng nghyfarfod y Tîm Opsiynau Tai<br><br>Monitro misol yng nghyfarfod y Tîm Tai Cymunedol<br><br>Adroddiadau chwarterol i'r Uwch Dîm Rheoli<br><br>Adolygiad blynyddol ffurfiol o'r polisi hwn<br><br>Adborth gan denantiaid / defnyddwyr gwasanaeth trwy ein holiaduron boddhad cwsmer. Gellir trefnu sesiynau gwersi a ddysgwyd mewn sefyllfaoedd cymhleth i sicrhau gwelliant a datblygiad parhaus. |



## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | **Monitro**<br>Monitro misol yng nghyfarfod y Tîm Opsiynau Tai | Llinos Wyn Williams | Misol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Monitro misol yng nghyfarfod y Tîm Tai Cymunedol<br><br>Adroddiadau chwarterol i'r Uwch Dîm Rheoli<br><br>Adolygiad blynyddol ffurfiol o'r polisi hwn<br><br>Adborth gan denantiaid / defnyddwyr gwasanaeth trwy ein holiaduron boddhad cwsmer. Gellir trefnu sesiynau gwersi a ddysgwyd mewn sefyllfaoedd cymhleth i sicrhau gwelliant a datblygiad parhaus | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Medi 2017** |
| **Pwnc:** | **Fframwaith Etifeddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Aelod (au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams**<br>**Y Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J. Williams (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dylan J Williams**<br>**2499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i bob Aelod** |

| **A –Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau** |
|---|
| **Mabwysiadu'n ffurfiol y Fframwaith Etifeddiaeth drafft (Gweledigaeth ar gyfer 2025 – fframwaith thematig i wireddu dyheadau etifeddiaeth CSYM).**<br><br>Bydd hyn yn golygu y gall y Cyngor Sir amlinellu'n ffurfiol ei ddyheadau etifeddiaeth o'r prosiectau mawr arfaethedig mewn trafodaethau a gynhelir gyda datblygwyr prosiect perthnasol. |

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'r prosiectau mawr sydd yn yr arfaeth yn Ynys Môn yn cynnig cyfle unigryw na welwyd mo'i debyg o'r blaen i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at drawsnewidiad economaidd-gymdeithasol yr Ynys a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor Sir o'r farn bod datblygu, gweithredu a sicrhau etifeddiaeth y prosiectau mawr hyn (a'r datblygiadau cysylltiedig) yn ffactorau sy'n cyfrannu'n allweddol at drawsnewid cynaliadwyedd a lles tymor hir yr Ynys a'i chymunedau a'r 'ymdeimlad o le'.<br><br>At ddiben y fframwaith, mae 'etifeddiaeth' yn golygu sicrhau effaith gadarnhaol ar Ynys Môn a'i chymunedau, ar draws ystod eang o faterion thematig, yn sgil datblygu, cyflawni a chynnal yr holl brosiectau mawr arfaethedig. Mae'r Cyngor Sir yn credu y bydd sicrhau 'etifeddiaeth' gadarnhaol yn elfen annatod/hollbwysig i lwyddiant a derbynioldeb pob prosiect. |

Mae'r Fframwaith yn gynrychiolaeth thematig o sut gallai Ynys Môn edrych yn 2025 os cyflawnir a gwireddir dyheadau CSYM ar gyfer y tymor hir. Mae'r Cyngor Sir yn credu ei bod yn hanfodol bod y prosiectau mawr yn cael eu datblygu, eu hadeiladu a'u gweithredu mewn modd cydlynol, integredig a gwybodus er mwyn sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol mwyaf posib ac i ddiogelu economi a diwylliant yr Ynys ac i osgoi unrhyw effeithiau andwyol posib.

Paratowyd y Fframwaith Etifeddiaeth i ddangos i ddatblygwyr yr angen i gydnabod, ymgorffori ac integreiddio buddion etifeddiaeth o gychwyn cyntaf eu gweithgareddau datblygu prosiect. Y gobaith yw y bydd yn rhan annatod o siapio a dylanwadu ar eu penderfyniadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng galwadau masnachol a disgwyliadau'r gymuned; tra'n eu cynorthwyo i gyflawni eu hystod o Gyfrifoldebau Cymdeithasol Corfforaethol.

Mae'r Fframwaith yn amlinellu i ddatblygwyr sut gallai eu prosiectau gyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol penodol Ynys Môn. Mae'n cynnig nifer o weithgareddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (yn gysylltiedig â sgôp posib buddion ac effeithiau etifeddiaeth prosiectau mawr arfaethedig) y mae'r Cyngor Sir yn credu y gallent wella lles ac ansawdd bywyd yr Ynys erbyn 2025.

Mae dyheadau etifeddiaeth y Cyngor Sir yn canolbwyntio ar yr amcanion thematig canlynol:

a) Creu economi ffyniannus a llewyrchus.
b) Galluogi trigolion i gyrraedd eu llawn botensial.
c) Sicrhau bod trigolion yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal.
d) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.
d) Cynnal yr iaith a'r diwylliant.

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae'n fater i'r Pwyllgor Gwaith o dan adran 13(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 h.y. fel mater o drefn gan nad yw wedi cael ei neilltuo i'r Cyngor Llawn nac wedi ei wahardd o dan y Rheoliadau Swyddogaethau Pwyllgorau Gwaith. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Mae gallu'r Cyngor Sir i ddatblygu ei ddyheadau etifeddiaeth yn deillio o Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n galluogi'r Cyngor Sir i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr Ynys. |

| **DD - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Cynhelir yr holl weithgareddau etifeddiaeth ar hyn o bryd yn unol â chyllideb y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. |

| E - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r Fframwaith drafft er mwyn sicrhau y gall cymunedau Ynys Môn fanteisio ar y buddion etifeddiaeth y rhagwelir y byddant yn codi o'r prosiectau mawr arfaethedig. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau. |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau. |
| 6 | **Eiddo** | Dim sylwadau. |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau. |
| 8 | **Sgriwtini** | Dim sylwadau. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Cyflwynwyd y Fframwaith Etifeddiaeth drafft i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn y drafft. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| F - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Mae'r Fframwaith drafft yn amlinellu cyfres o weithgareddau i gefnogi economi ffyniannus a llewyrchus, gyda busnesau cynaliadwy a llwyddiannus sy'n rhoi gwell cyfleoedd cyflogaeth i bawb. |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Bydd y Fframwaith drafft yn sicrhau y cydnabyddir anghenion economaidd-gymdeithasol unigryw'r Ynys, gan gynorthwyo gweithgareddau sydd eu hangen i leihau tlodi, amddifadedd ac ansymudedd cymdeithasol. |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | Mae gwell cydlyniant cymunedol a mwy o ymdeimlad o falchder cymunedol a hunanwerth yn ganlyniadau allweddol y Fframwaith drafft. |
| 4 | **Amgylcheddol** | Mae'r Fframwaith drafft yn anelu at warchod a gwella amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol yr Ynys er mwyn gwella lles economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i ddull gweithredu teg, cyson a thryloyw ar gyfer dyheadau etifeddiaeth, a hynny er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn ddiogel, yn iach ac yn cyflawni eu potensial. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Paratowyd y Fframwaith drafft gan roi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n cydnabod yn benodol yr angen i:<br>• Ystyried effeithiau hirdymor y datblygiadau arfaethedig.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a rhan-ddeiliaid.<br>• Datblygu dull mwy cydlynol o ddarparu gwasanaethau i greu cymuned sy'n fwy ffyniannus, iach a byrlymus. |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Gweledigaeth ddrafft ar gyfer 2025 – Fframwaith Thematig i Wireddu Dyheadau Etifeddiaeth CSYM |


| **G: Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) -** |
|---|
| Amherthnasol |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gweledigaeth ar gyfer 2025 – fframwaith thematig i wireddu dyheadau etifeddiaeth CSYM

**Gorffennaf 2017**
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

# *Gweledigaeth o'r Ynys Môn rydym ei eisiau yn y dyfodol*




| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Paratowyd gan** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1 | 29 Ebrill 2016 | Christian Branch, Rhys Pritchard & Rhian Pritchard | |
| Fersiwn 2 | 5 Mai 2016 | Christian Branch, Rhys Pritchard & Rhian Pritchard | Cynnwys cadwyni rhesymeg |
| Fersiwn 3 | 20 Gorffennaf 2016 | Christian Branch | Ymgorffori sylwadau Gwasanaeth CSYM |
| Fersiwn 4 | 27 Medi 2016 | Christian Branch | Ymgorffori sylwadau'r Penaethiaid Gwasanaeth |
| Fersiwn 5 | 27 Hydref 2016 | Christian Branch | Addasiadau i'r Cadwyni Rhesymeg |
| Fersiwn 6 | 24 Ionawr 2017 | Christian Branch | Ymgorffori sylwadau'r Prif Weithredwr |
| Fersiwn 7 | 10 Gorffennaf 2017 | Christian Branch | Diweddaru gwybodaeth ynglŷn â phrosiectau mawr arfaethedig |

**Rhagair**
I’w gwblhau unwaith y mae’r ddogfen ddrafft wedi cael ei chymeradwyo.

**Cynnwys**


| | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | X |
| 1. Rhagarweiniad | X |
| 2. Graddfa'r Cyfleoedd | X |
| 3. Etifeddiaeth – Diffiniad a Dyheadau | X |
| 4. Crynodeb o Anghenion Economaidd-gymdeithasol Môn | X |
| 5. Amcanion Etifeddiaeth Ynys Môn 2025 | X |
| Atodiad A – Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol | X |
| Atodiad B – Cadwyni Rhesymeg Etifeddiaeth | X |

## 1) Rhagarweiniad

Mae'r posibilrwydd y byddwn yn gweld prosiectau mawr yn cael eu lleoli ar Ynys Môn yn cynnig cyfle unigryw, heb ei debyg o'r blaen, i gyfrannu'n bositif at drawsffurfiad economaidd a chymdeithasol yr ynys a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd mae nifer o ddatblygwyr yn y sector preifat yn bwriadu adeiladu cyfres o brosiectau mawr ar Ynys Môn (gan gynnwys prosiectau o bwys cenedlaethol). Mae'r prosiectau mawr hyn (gweler dros y dudalen) yn ddatblygiadau cymhleth ar raddfa fawr a chanddynt y potensial i ddod â buddion ac effeithiau sylweddol i Ynys Môn a'i chymunedau am flynyddoedd lawer.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn gweld datblygiad, gweithrediad ac etifeddiaeth y prosiectau mawr hyn, a'u datblygiadau cysylltiedig, fel ffactor a fydd yn cyfrannu'n allweddol at drawsnewid cynaladwyedd a llesiant tymor hir yr ynys a'i chymunedau, ynghyd â'r 'ymdeimlad o le'. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol bwysig fod y prosiectau'n cael eu datblygu, eu hadeiladu a'u rhedeg mewn modd integredig a deallus er mwyn sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau posib, ynghyd â diogelu economi a diwylliant yr ynys ac osgoi unrhyw effeithiau andwyol posib.

Gall datblygu etifeddiaeth yn llwyddiannus wneud cyfraniad sylweddol at feithrin cymdeithas ar Ynys Môn sy'n fwy hyderus, yn fwy cyfartal, gyda gwell sgiliau ac yn fwy gwydn. Bydd hefyd yn galluogi'r Cyngor i roi cefnogaeth i bobl pan fydd arnynt ei hangen fwyaf, a rhoi'r grym i wasanaethau ymateb i heriau, megis poblogaeth sy'n heneiddio, hinsawdd sy'n newid, a datblygiad technolegau newydd. Ni ellir mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn dim ond trwy ffyrdd newydd o weithio a datblygu'r egwyddor o gymunedau gwydn sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr hyn mae'r bobl a'r cymunedau yn ei wneud drostynt eu hunain.

Nid yw'r fframwaith hwn wedi cael ei baratoi ar ei ben ei hun. Fe'i paratowyd i roi sylw i'r canlynol:

- Cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol Cynllun Corfforaethol y Cyngor Sir i:
    - Wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ynys trwy roi ystyriaeth i'r tymor hir ac atal problemau yn gyson.
    - Cyflawni'r diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn wydn ac yn cwrdd ag anghenion y dyfodol.
    - Gwella addysg mewn modd sy'n newid bywydau ac yn gyrru twf economaidd.
    - Sicrhau ymyraethau economaidd sy'n rhoi gwell sicrwydd ariannol i fusnesau ac unigolion.
    - Datblygu model cymdeithasol o ofal iechyd a chymdeithasol sy'n cyfateb i anghenion a gwasanaethau lleol.
    - Defnyddio technoleg ddigidol sy'n gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

- Ategu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) a Chanllaw Cynllunio Atodol yr Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa (CCA ANN). Bydd y CDLlC (pan gaiff ei fabwysiadu) yn amlinellu'r strategaeth, amcanion a pholisïau defnydd a datblygu tir ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Ynys Môn a Gwynedd hyd nes 2026; tra bod y CCA ANN yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion CSYM ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd, ac yn rhoi cyngor ar faterion lleol pwysig uniongyrchol neu anuniongyrchol i helpu i gyfrannu at gynigion a phenderfyniadau hyrwyddwr y prosiect.


- Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler **Atodiad A** am grynodeb o saith o nodau llesiant y Ddeddf; pum ffordd o weithio a phedwar ar ddeg o amcanion llesiant) a chydnabod yr angen yn benodol i
    - Roi sylw i effeithiau tymor hir datblygiadau posib.
    - Gweithio mewn partneriaeth â'i gymunedau a budd-ddeiliaid.

- Mynd ati i ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cydlynol i greu cymuned fwy lewyrchus, iach a bywiog.

**2) Graddfa'r Cyfleoedd**

Dros y ddegawd nesaf disgwylir i Ynys Môn ddenu mwy o fuddsoddiad i mewn i'r ardal nag y mae erioed wedi'i wneud o'r blaen trwy'r prosiectau mawr arfaethedig a ganlyn (a'u datblygiadau cysylltiedig):

- Adeilad niwclear newydd gan Pŵer Niwclear Horizon yn Wylfa a allai gynhyrchu 2,700MW o drydan o ddau Uwch Adweithydd Dŵr Berw yn ystod hanner cyntaf y 2020au, gan greu 850 o swyddi parhaol unwaith y mae'n weithredol (http://www.horizonnuclearpower.com).
- Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios ym Mhenrhos, Caergybi – rhagwelir y bydd yn darparu trydan i 300,000 o gartrefi erbyn 2020 a gaiff ei gynhyrchu o orsaf bŵer biomas 299 MW. Bydd y gwres a'r carbon deuocsid sydd dros ben yn cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio yn y Parc Eco Park i fagu pysgod a thyfu llysiau (http://www.orthios.com/projects/).
- Pentref hamdden Land & Lakes ym Mharc Arfordirol Penrhos, Caergybi a fydd yn cynnwys llety ymwelwyr o ansawdd uchel a chyfleusterau cefnogol (http://www.landandlakes.co.uk/)
- Y cynnig gan Minesto i osod cyfres 10MW o ynni morol (gyda chynlluniau nawr i gynyddu i 80MW) oddi ar arfordir Caergybi gyda'r potensial i gyflenwi trydan i 8000 o gartrefi (http://minesto.com/).
- Parth Arddangos Ynni Morol Morlais (Gorllewin Môn) sydd wedi cael ei nodi gan Stad y Goron fel lleoliad addas (yn bennaf oherwydd amodau'r llanw yno ond hefyd oherwydd mynediad at isadeiledd) ar gyfer gosod dyfeisiau ynni morol i annog a chyflymu datblygiad technoleg (http://morlaisenergy.com/).
- Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) yn y Gaerwen a fydd yn darparu 5000 metr sgwâr o gyfleusterau a gwasanaethau cefnogaeth fusnes, gan gynnwys gofod swyddfa a gweithdai a labordai lle bydd cydweithio'n cael ei annog. Dyma Barc Gwyddoniaeth dynodedig cyntaf Cymru (http://www.m-sparc.com/).
- Ehangu campws Coleg Menai yn Llangefni i gynnwys gwell cyfleusterau peirianneg, technoleg ac ynni yn wyneb y cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r sector ynni ar Ynys Môn.



**3) Etifeddiaeth – Diffiniad a Dyheadau**

At bwrpas y fframwaith hwn, mae ‘etifeddiaeth’ yn golygu sicrhau effaith bositif i Ynys Môn a’i chymunedau, ar draws ystod eang o faterion thematig, o ganlyniad i ddatblygu, cyflawni a rhedeg yr holl brosiectau mawr sy’n cael eu cynnig. Mae CSYM yn gryf o’r farn fod cyflawni ‘etifeddiaeth’ gadarnhaol i bawb yn greiddiol er mwyn sicrhau’r buddion tymor hir gorau posib ar gyfer yr ynys a’i thrigolion, a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posib.

O ystyried graddfa, natur ac arwyddocâd y prosiectau mawr, maent yn cynnig cyfle ‘unwaith mewn oes’ i drawsnewid gwead cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Ynys Môn mewn modd cynaliadwy, ac mae’r Cyngor Sir yn credu’n gryf fod cyflawni ‘etifeddiaeth’ gadarnhaol i bawb yn hanfodol/greiddiol i’w llwyddiant a’u derbynioldeb.

Mae CSYM yn eiddgar i ddatblygu a chynnal perthynas bositif a hirdymor gyda holl ddatblygwyr y prosiectau mawr ar Ynys Môn, ac rydym yn ymroddedig i ddefnyddio ymagwedd a meddylfryd strategol i’r gwaith o ddatblygu, adeiladu a rhedeg y prosiectau er mwyn sicrhau’r buddion tymor hir mwyaf posib i’r ynys a’i thrigolion, yn ogystal â lliniaru rhag effeithiau andwyol.

Gall etifeddiaeth fod yn gysylltiedig ag effeithiau gofodol y prosiectau mawr arfaethedig a sut bydd Ynys Môn yn edrych ar ôl eu hadeiladu – yn cynnwys lleoliad a phwrpas yr holl ddatblygiadau cysylltiedig; a pha gyfleusterau ac adnoddau ychwanegol fydd eu hangen i wasanaethu’r safleoedd hyn.

Ni ddylai buddion etifeddiaeth fod yn gyfyngedig i werth ariannol a dylent ystyried y canlynol:

- Effeithiau gofodol y prosiectau mawr arfaethedig a’r angen i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau’n cael eu hadeiladu yn y lleoliadau cywir ar gyfer yr ynys a’i chymunedau, yn y tymor byr a’r tymor hir.
- Darparu cyflogaeth i drigolion yr ynys yn y dyfodol; sicrhau y gall busnesau lleol fanteisio ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi; gwella neu ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd a gwella isadeiledd Ynys Môn.
- Gwella iechyd, llesiant, ansawdd bywyd ac amgylchedd naturiol yr ynys, a hefyd cefnogi a chryfhau’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig.

Mae CSYM yn ystyried bod yr ynys gyfan yn gymuned i lwyfannu’r prosiectau mawr arfaethedig, a chred y Cyngor Sir mai ar y raddfa ofodol hon y gwelir ac y gwireddir y buddion trawsnewid mwyaf.

Mae’r deilliannau posib a ddisgwylir i’r prosiectau mawr yn cynnwys y canlynol.

- Gwell llesiant cymdeithasol o ganlyniad i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd gwell; mwy o ffyniant a thwf economaidd.
- Denu mewn-fuddsoddiad ac ehangu busnesau lleol a rhanbarthol newydd a rhai sy’n bodoli eisoes (yn cynnwys y rheini sy’n gysylltiedig â chyfleoedd posib yn y gadwyn gyflenwi).
- Newidiadau defnydd tir.
- Gwell cysylltedd o ganlyniad i ddatblygu isadeiledd dibynadwy ac effeithiol.
- Cymysgedd o dai newydd, gyda chyfran ohonynt ar gael i bobl ar incwm isel.
- Cynnydd mewn balchder a hyder yn y gymuned, ynghyd â datblygiad diwylliannol a gwell cydlyniad cymunedol.

## 4) Crynodeb o Anghenion Economaidd-gymdeithasol Ynys Môn

Mae tystiolaeth o anghenion economaidd-gymdeithasol Ynys Môn wedi cael ei dwyn ynghyd i ddangos pa mor hanfodol bwysig yw'r holl brosiectau mawr o ran trawsnewid a chael effaith gadarnhaol hirdymor ar Ynys Môn a'i chymunedau.

Ers amser maith mae Ynys Môn wedi dioddef o economi fregus, ymylol sy'n dirywio, lle mae pocedi sylweddol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae hynny wedi arwain at:

- Lefelau GVA yn dirywio (52.9% o gyfartaledd cenedlaethol y DU).
- Lefelau isel o GVA y pen (£13,411 o gymharu â £25,341 ar gyfer y DU).
- Lefelau uchel o ddiweithdra ymysg pobl ifanc (17.7% o bobl 16-24 oed).
- Lefelau uchel o anweithgarwch economaidd (20.7% o'r boblogaeth oed gweithio).
- Lefelau uchel o bobl ifanc yn allfudo, a phoblogaeth leol yn heneiddio.
- Canran uchel o'r boblogaeth sy'n gweithio yn derbyn budd-daliadau analluogrwydd (6.8% o gymharu â 6.3% yn y DU).
- Lefel y busnesau newydd sy'n ffurfio yn parhau'n isel (6.5% o gymharu â'r gyfradd o 7.8% i Gymru).
- Gorddibyniaeth ar gyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.
- Nifer sylweddol o blant yn byw mewn tlodi (19.5%).
- Anghydraddoldebau iechyd yn gyffredin iawn.
- Lefelau uchel o aelwydydd preifat yn byw mewn tlodi tanwydd (34.9%).
- Amrywiadau yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y cymunedau ar Ynys Môn (gyda dros 70% wedi'u lleoli yn y cymunedau canolog ar yr ynys tra mai dim ond 40% o siaradwyr Cymraeg sydd gan y cymunedau arfordirol).

Er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, mae yna hefyd gyfres o ffactorau, nodweddion ac asedau allweddol sy'n cyfuno i greu dyhead ac uchelgais glir a phendant i Ynys Môn (sy'n eithaf unigryw o gymharu â'r rheini a fynegwyd mewn ardaloedd eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y nifer a'r amrywiaeth o brosiectau mawr arfaethedig sy'n gobeithio manteisio ar ystod eang o ffynonellau ynni carbon isel (gan gynnwys niwclear, llanw, biomas a solar) gan felly ddarparu cyfleoedd sylweddol i gyflwyno buddion gwirioneddol yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Mae gan Ynys Môn ymwybyddiaeth, treftadaeth a thraddodiad balch a chyfoethog o gynhyrchu ynni'n ddiogel.
- Graddfa'r prosiectau mawr arfaethedig yn gweithredu fel magnet i ragor o fuddsoddiad gan y sector preifat yn Ynys Môn.
- Rhaglen ymroddedig o welliannau i'r isadeiledd economaidd i wella hygyrchedd a chysylltedd yr ynys; cefnogi a hwyluso cyfleoedd am swyddi a thwf; a denu buddsoddiad ychwanegol a rhagor o adfywio.
- Cymunedau a busnesau positif a chefnogol sy'n dymuno ffynnu, tyfu a llwyddo – gyda'r mwyafrif yn arddangos agwedd bositif at y prosiectau mawr arfaethedig.
- Cydnabyddiaeth a dealltwriaeth gan ddatblygwyr o'r angen i sicrhau y caiff eu prosiectau effaith gadarnhaol, hirdymor ar Ynys Môn a'i chymunedau.
- Hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol gref ac unigryw sy'n uniongyrchol gysylltiedig â daearyddiaeth a natur wledig yr ynys.
- Amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol o ansawdd uchel sy'n hollbwysig ac yn cefnogi poblogrwydd ac apêl yr ynys fel cyrchfan i dwristiaid.

Mae'r dyheadau etifeddiaeth uchod yn amlinellu ymroddiad y Cyngor Sir i sicrhau trawsnewid trwy arweinyddiaeth gymunedol sy'n uchelgeisiol, greadigol, ond pragmatig a chyfrifol hefyd. Mae'r fframwaith yn gynrychiolaeth thematig o sut y gallai Ynys Môn edrych yn 2025 os caiff dyheadau tymor hir CSYM a'i bartneriaid eu gwireddu a'u cyflawni. Caiff y fframwaith ei defnyddio i seilio ac i ddylanwadu ar drefniadau ymgysylltu a chydweithio gyda datblygwyr, cymunedau'r ynys a sefydliadau partner; a bydd hefyd yn siapio ymagwedd y Cyngor Sir at flaenoriaethu a rheoli adnoddau.

Bydd y fframwaith yn bwysig i ddangos yn effeithiol i ddatblygwyr yr angen i gydnabod, ymgorffori ac integreiddio buddion etifeddiaeth (a'u sgôp posib) o gychwyn eu gweithgareddau datblygu prosiect. Bydd yn greiddiol i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ganddynt yn y dyfodol er mwyn sicrhau y ceir cydbwysedd priodol rhwng gofynion masnachol a disgwyliadau'r gymuned; gan hefyd eu cynorthwyo i gyflawni eu hamrediad o Gyfrifoldebau Cymdeithasol Corfforaethol.

Er mwyn i'r ynys ddod yn fwy bywiog, cydlynol a gwydn, mae'n hanfodol fod y datblygwyr yn llwyr gefnogi'r cymunedau lle byddant yn gweithredu eu prosiectau. Dylai datblygwyr integreiddio a chynnwys eu hunain yn llawn yn y cymunedau hyn er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau fel dinasyddion corfforaethol parchus a chydwybodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r prosiectau mawr arfaethedig hefyd gael effeithiau andwyol ar gymunedau, busnesau ac amgylchedd yr ynys. Lle bynnag y byddo'n bosib, byddwn yn adnabod ac yn osgoi'r rhain, a phan nad yw hyn yn ymarferol, dylai datblygwyr weithredu mesurau lliniaru a/neu fesurau iawndal priodol. Bydd y fframwaith hwn yn rhoi eglurder i ddatblygwyr ar y math o fesurau lliniaru a iawndal y cred y Cyngor sy'n realistig, yn briodol ac y gellir eu cyflawni.

**5) Amcanion Etifeddiaeth Ynys Môn 2025**

Mae dyheadau etifeddiaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar yr amcanion thematig a ganlyn:

a) Creu economi lewyrchus sy'n ffynnu.
b) Galluogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial.
c) Sicrhau bod trigolion yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal.
d) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.
e) Gwarchod yr iaith a diwylliant.

Paratowyd cyfres o gadwyni rhesymeg etifeddiaeth (**Atodiad B**) i ddangos sut y bydd y Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, datblygwyr y prosiectau mawr a chymunedau'r ynys, yn hwyluso gweithrediad y fframwaith etifeddiaeth. Mae'r gweithgareddau a restrir isod wedi cael eu cymryd o'r cadwyni rhesymeg.

Bydd y gweithgareddau hyn yn ychwanegol at, ac yn ategu'n llwyr, amrywiol gyfrifoldebau a dyletswyddau statudol y Cyngor a fydd dal yn cael eu cyflawni'n flynyddol.

| a) Creu economi lewyrchus sy'n ffynnu |
|---|
| • Ynys hyderus sy'n ymfalchïo yn ei economi gref, sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bawb<br>• Ynys sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang am raddfa ac amrywiaeth ei hymchwil, datblygiad, cynhyrchiant a gwasanaethu yn y maes ynni<br>• Hyb i fusnesau cynaliadwy sy'n cefnogi cymdeithas lewyrchus, carbon isel ac sy'n annog arloesedd ac entrepreneuriaeth<br>• Lle sydd wedi'i gysylltu'n dda gydag isadeiledd trafnidiaeth gadarn<br>• Ynys sy'n parhau i ddenu ystod amrywiol o ymwelwyr |
| **Gweithgareddau**<br>• Denu datblygwyr mawr i fuddsoddi yn Ynys Môn i hwyluso trawsffurfiad yr ynys<br>• Datblygu Strategaeth Addysg a Rhaglen Gyflogaeth, Sgiliau a Hyfforddiant newydd i sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yr ynys yn ennill y sgiliau sydd eu hangen i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol<br>• Gwella safleoedd ac eiddo cyflogaeth yr ynys i ddenu a hwyluso buddsoddiad economaidd<br>• Gwella capasiti a gwydnwch yr isadeiledd ar yr ynys i gwrdd ag anghenion cymunedau, busnesau ac ymwelwyr<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni twf cynaliadwy yn yr economi ac mewn cyflogaeth<br>• Datblygu rhaglen taclo tlodi<br><br>**Deilliannau**<br>• GVA uwch<br>• Gwell cyfleoedd gwaith, yn agosach at adref<br>• Rhagor o amrywiaeth o swyddi a chyfleoedd am swyddi<br>• Mwy o bobl ifanc leol yn cyfrannu at yr economi<br>• Mae gan bobl ifanc a dinasyddion y sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i ffynnu a llwyddo<br>• Safonau addysg yn uwch na'r meincnodau Prydau Ysgol Am Ddim cenedlaethol<br>• Gwelliant mewn ansawdd bywyd a llesiant<br>• Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith<br>• Gwell gofal plant i gael gwared ar rwystrau i sicrhau cyflogaeth |

| **Rhestr Wirio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau:** | | | | | |
| **Llewyrchus** | ✓ | **Cydnerth** | ✓ | **Iachach** | |
| **Mwy Cyfartal** | | **Cydlynus/ Diwylliant** | ✓ | **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | ✓ |

| **Ffyrdd o Weithio:** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Integreiddio** | ✓ | **Atal** | ✓ | **Cydweithio** | ✓ | **Cynnwys** | | **Tymor Hir** | ✓ |

| **Amcanion:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn** | ✓ | **Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth** | ✓ |
| **Gwella ffyniant i bawb – cyflogaeth a swyddi** | ✓ | **Mynediad at gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy** | ✓ |
| **Cefnogi cymdeithas garbon isel a fedr addasu i'r newid yn yr hinsawdd** | ✓ | **Datblygiad economaidd a chyflogaeth gynaliadwy** | ✓ |
| **Isadeiledd cynaliadwy a chadarn** | ✓ | **Cymru – gwlad uchelgeisiol sydd wedi'i chysylltu â'r byd ehangach** | ✓ |

| **b) Galluogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial** |
|---|
| • Lle ble mae cyfleoedd yn bodoli i bobl ifanc aros ar yr ynys i fyw a gweithio<br>• Poblogaeth sydd wedi'i haddysgu'n dda a chanddi sgiliau medrus<br>• Lle ble gall cymunedau ac unigolion gadw a datblygu eu hannibyniaeth<br>• Lle y mae pobl yn dewis byw a ffynnu ynddo<br>• Ynys sy'n rhoi delwedd bositif yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol |
| **Gweithgareddau:**<br>• Parhau gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion<br>• Ail-siapio sut caiff Cymraeg fel pwnc ei ddysgu yn ein hysgolion i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gymdeithas ehangach<br>• Sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol<br>• Cyfleoedd estynedig am brentisiaethau i roi sgiliau a chymwyseddau priodol i bobl ifanc ac oedolion<br>• Buddsoddi mewn isadeiledd technoleg gwybodaeth i wella cysylltedd digidol<br>• Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy sydd o ansawdd da<br>• Cefnogi teuluoedd a rhieni i leihau profiadau andwyol mewn plentyndod sy'n gallu cael effeithiau drwy gydol oes y plentyn<br>• Canolfannau Dysgu Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cefnogaeth riantu, dysgu fel teulu a mynediad ar gyfer y gymuned i gyfleusterau (gan weithio rownd y diwrnod ysgol)<br><br>**Deilliannau:**<br>• GVA uwch<br>• Mwy o bobl mewn cyflogaeth<br>• Mwy o drigolion yn cyrraedd eu llawn botensial<br>• Gwell cyrhaeddiad addysgol<br>• Prentisiaethau o ansawdd uchel i bob oedran<br>• Gwell ansawdd bywyd a llesiant<br>• Plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill.<br>• Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith<br>• Marchnad dai sydd wedi'i chydbwyso'n well<br>• Gwell mynediad at dai cymdeithasol fforddiadwy, ynni-effeithlon o ansawdd uchel<br>• Nifer uwch a gwell amrediad o dai i bawb. |

| **Rhestr Wirio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau:** | | | | | |
| **Llewyrchus** | | **Cydnerth** | ✓ | **Iachach** | |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | **Cydlynus/ Diwylliant** | ✓ | **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | |

| **Ffyrdd o Weithio:** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Integreiddio** | ✓ | **Atal** | | **Cydweithio** | ✓ | **Cynnwys** | ✓ | **Tymor Hir** | ✓ |

| **Amcanion:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn** | ✓ | **Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth** | ✓ |
| **Gwell cyraeddiadau addysgol i blant o bob cefndir** | ✓ | **Mynediad at gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy** | ✓ |
| **Dysgu a defnyddio Cymraeg – teuluoedd, cymunedau a'r gweithle** | ✓ | **Cymru – gwlad uchelgeisiol sydd wedi'i chysylltu â'r byd ehangach** | ✓ |

**c) Sicrhau bod trigolion yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal**

- Ynys saff, diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddi
- Ynys a chanddi wasanaethau a chyfleusterau cymunedol rhagorol, gan gynnwys ysgolion modern o ansawdd uchel, tai fforddiadwy a darpariaeth iechyd effeithiol
- Lle ble mae amddifadedd, anghydraddoldeb ac ansymudoledd cymdeithasol wedi gostwng; a gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion grwpiau bregus
- Ynys lle mae pobl yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau adloniant, hamdden a diwylliannol

**Gweithgareddau:**

- Gwella lles plant ac oedolion bregus i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn iach ac yn cyflawni eu potensial
- Darparu tai newydd a chyfleusterau gofal ychwanegol newydd
- Addasu cyfleusterau gofal preswyl i ganolbwyntio mwy ar ddementia er mwyn cyd-fynd â'r cynllun dementia cenedlaethol
- Cyfoethogi modelau ymyrraeth i gefnogi plant a rhieni'r ynys.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng addysg a hamdden i wella cyrhaeddiad, iechyd, llesiant a bodlonrwydd mewn bywyd
- Darparu cyngor ar fudd-daliadau lles i gefnogi trigolion mwyaf bregus yr ynys.
- Symud mwy o wasanaethau gofal o ysbytai i mewn i gymunedau, wedi'u cefnogi gan Wasanaethau Iechyd a Gofal cynaliadwy ac integredig (yn cynnwys gwell cefnogaeth i ofalwyr)
- Gweithio gydag eraill i ddatblygu cefnogaeth gryfach ar gyfer salwch meddwl
- Hyrwyddo ffyrdd o fyw a dewisiadau iach trwy ymyraethau ar atal gwaeledd ac annog pobl i fod yn fwy actif er mwyn eu lles cyffredinol trwy gydol eu hoes
- Gweithio gyda chymunedau i warchod cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau celfyddydau a chanolfannau hamdden

**Deilliannau:**

- Gwelliannau mewn lles corfforol a meddyliol
- Gwell annibyniaeth a symudoledd cymdeithasol
- Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith
- Gostyngiad yn y lefelau gordewdra ymysg plant ac oedolion
- Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trigolion yn byw bywyd heb bryderon diogelwch
- Lleihad mewn unigrwydd ac unigedd cymdeithasol
- Newidiadau sy'n cael eu harwain gan y defnyddwyr i ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor Sir
- Cydnabyddiaeth o'r cyfraniad hanfodol a wna pobl hŷn i gymdeithas
- Y boblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei chefnogi i aros yn iach pan fyddant yn hŷn
- Atal cau asedau cymunedol yn ddiangen gyda chymunedau yn cymryd perchnogaeth ohonynt pan fo hynny'n briodol
- Cynnydd mewn gwirfoddoli mewn cymunedau lleol

| **Rhestr Wirio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau:** | | | | | |
| **Llewyrchus** | | **Cydnerth** | ✓ | **Iachach** | ✓ |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | **Cydlynus/ Diwylliant** | ✓ | **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | |

| **Ffyrdd o Weithio:** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Integreiddio** | ✓ | **Atal** | ✓ | **Cydweithio** | ✓ | **Cynnwys** | ✓ | **Tymor Hir** | ✓ |

| **Amcanion:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn** | ✓ | **Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth** | ✓ |
| **Byw bywydau iach ac annibynnol** | ✓ | **Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru** | ✓ |
| **Isadeiledd cynaliadwy a chadarn** | ✓ | **Gwasanaethau cyhoeddus ymatebol, o ansawdd uchel, sydd wedi'u plethu'n well** | ✓ |
| | | **Cymru – gwlad uchelgeisiol sydd wedi'i chysylltu â'r byd ehangach** | ✓ |

| d) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig |
|---|
| • Ynys sy'n cydnabod gwerth ac ansawdd ei hamgylchedd<br>• Ynys a chanddi amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol sy'n cefnogi gwytnwch<br>• Lle ble caiff yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig eu defnyddio'n gynaliadwy<br>• Ynys sy'n lle braf o ansawdd uchel i'r cyhoedd |
| **Gweithgareddau:**<br>• Lliniaru effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronnus) prosiectau mawr ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br>• Mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd i ddiogelu lles tymor hir amgylchedd, economi a chymunedau'r ynys<br>• Gwella ailgylchu gwastraff<br>• Cefnogi gweithgareddau i leihau defnydd ynni a thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.<br>• Gweithio gydag eraill i hyrwyddo rheolaeth ac addysg amgylcheddol er mwyn gwella cynaladwyedd a gwydnwch yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br>• Manteisio ar botensial arfordir yr ynys i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol<br>• Mynd hyd yn oed ymhellach ar y blaen dros wledydd eraill o ran ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi<br>• Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn ein hamgylchedd yn well<br><br>**Deilliannau:**<br>• Amgylchedd naturiol ac adeiledig gwydn, o ansawdd uchel<br>• Gwell ansawdd bywyd a llesiant<br>• Ynys Môn yn lanach ac yn fwy gwyrdd<br>• Ailgylchu o leiaf 70% o wastraff<br>• Llai o ynni'n cael ei ddefnyddio yng nghymunedau'r ynys ac yng nghyfleusterau'r Cyngor<br>• Sector twristiaeth cynaliadwy a llewyrchus<br>• Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd<br>• Gwell mynediad at dai o ansawdd uchel sy'n ynni-effeithlon |

| Rhestr Wirio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau:** | | | | | |
| **Llewyrchus** | | **Cydnerth** | ✓ | **Iachach** | ✓ |
| **Mwy Cyfartal** | | **Cydlynus/ Diwylliant** | | **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | ✓ |

| Ffyrdd o Weithio: | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Integreiddio** | ✓ | **Atal** | ✓ | **Cydweithio** | ✓ | **Cynnwys** | ✓ | **Tymor Hir** | ✓ |

| Amcanion: | | | |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi cymdeithas garbon isel a fedr addasu i newid yn yr hinsawdd** | ✓ | **Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru** | ✓ |
| **Isadeiledd cynaliadwy a chadarn** | ✓ | **Rheoli adnoddau naturiol i gefnogi llesiant** | ✓ |
| **Gwasanaethau cyhoeddus ymatebol, o ansawdd uchel, sydd wedi'u plethu'n well** | ✓ | **Cymru – gwlad uchelgeisiol sydd wedi'i chysylltu â'r byd ehangach** | ✓ |

**e) Cynnal a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant**

- Lle sy'n dathlu ei hunaniaeth ddiwylliannol a daearyddol unigryw a'r ffaith ei bod yn wahanol i unrhyw le arall
- Ynys sy'n ymfalchïo yn ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg ac yn eu hyrwyddo

**Gweithgareddau:**

- Gweithredu, monitro ac adolygu Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM a'r Cynllun Addysg Gymraeg
- Darparu cefnogaeth a chyngor priodol i Ddatblygwyr i hyrwyddo dwyieithrwydd.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau iaith Gymraeg a gweithgareddau trochi ar gyfer prosiectau penodol
- Datblygu mesurau priodol i liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol o'r prosiectau mawr
- Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg

**Deilliannau:**

- Cryfhau statws a bwrlwm yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn
- Cryfhau cydlyniad a hunaniaeth gymunedol
- Gwelliant mewn ansawdd bywyd a llesiant

| **Rhestr Wirio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodau:** | | | | | |
| **Llewyrchus** | | **Cydnerth** | ✓ | **Iachach** | |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | **Cydlynus/ Diwylliant** | ✓ | **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | |

| **Ffyrdd o Weithio:** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Integreiddio** | ✓ | **Atal** | ✓ | **Cydweithio** | | **Cynnwys** | ✓ | **Tymor Hir** | ✓ |

| **Amcanion:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn** | ✓ | **Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth** | ✓ |
| **Byw bywydau iach ac annibynnol** | | **Datblygiad economaidd cynaliadwy a chyflogaeth gynaliadwy** | ✓ |
| **Dysgu a defnyddio'r Gymraeg – teuluoedd, cymunedau a'r gweithle** | ✓ | **Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru** | ✓ |
| | | **Cymru – gwlad uchelgeisiol sydd wedi'i chysylltu â'r byd ehangach** | ✓ |

Mae'r fframwaith etifeddiaeth yn cynnwys cyfres o weithgareddau blaenoriaeth sydd wedi'u cydlynu, a bydd angen i'r rhain gael eu datblygu, eu gweithredu a'u cyllido o amryw o ffynonellau. Disgwylir y gallwn wireddu dyheadau CSYM trwy fanteisio ar; defnyddio neu ychwanegu gwerth at:

- gyllid craidd CSYM.
- cyllid Llywodraeth Cymru neu gyllid arall o'r sector cyhoeddus (er enghraifft, Parth Menter Môn).
- Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (yn amodol ar ganlyniad y trafodaethau Brexit).
- Mentrau ar y Cyd â datblygwyr prosiectau mawr.
- Rhwymedigaethau Cynllunio statudol Adran 106.
- Cyfraniadau Buddion Cymunedol Gwirfoddol gan ddatblygwyr prosiectau mawr.


Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni dyheadau etifeddiaeth y Cyngor Sir, mae'n hanfodol fod y fframwaith hwn:

- Yn gysylltiedig â sgôp, lleoliad a buddion disgwyliedig y prosiectau mawr arfaethedig.
- Yn realistig, yn fforddiadwy ac yn un y gellir ei chyflawni.
- Yn seiliedig ar dystiolaeth fanwl o angen.
- Yn cyd-fynd â pholisïau corfforaethol a pholisïau eraill lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn gallu denu cyllid 'allanol' i gynyddu maint y deilliannau a/neu allu eu cyflawni'n gynt.
- Yn gallu cael ei fesur, ei fonitro a'i adolygu.

## Atodiad A – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae nodau, ffyrdd o weithio ac amcanion sylfaenol y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn tanategu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cymru fel gwlad lewyrchus, wydn, iachach, mwy cydradd ac yn wlad gyfrifol yn fyd-eang a chanddi gymunedau cydlynol, diwylliant byrlymus a iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Os caiff ei gweithredu'n llwyddiannus bydd hynny'n arwain at Wasanaethau Cyhoeddus cynaliadwy, o ansawdd uchel, a gwell ansawdd bywyd drwy gydol ein hoes i bawb ohonom.

Yn *Symud Cymru Ymlaen,* mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y pedwar maes lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r pedwar maes hyn – **Ffyniannus a Diogel**; **Iach ac Egnïol; Uchelgais a Dysgu ac Unedig a Chysylltiedig –** yn ymgorffori'r 7 o nodau llesiant a'r 5 ffordd o weithio. Mae'r 14 o amcanion llesiant cysylltiedig, sy'n adlewyrchu dyheadau Llywodraeth Cymru am newid dros y tymor hir, wedi cael eu dylunio i adlewyrchu'r prif flaenoriaethau am welliant yn ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant.

| | |
|---|---|
| **7 Nodau llesiant** |  |
| **5 Ffyrdd o weithio** | **Integreiddio**: Ystyried sut gall amcanion llesiant y Cyngor effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>**Atal**: Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth i helpu'r Cyngor i gwrdd â'i amcanion.<br>**Cydweithio**: Gweithio gydag unrhyw berson neu sefydliad arall a allai helpu'r Cyngor i gwrdd â'i amcanion llesiant.<br>**Cynnwys**: Y pwysigrwydd o ymgysylltu gyda phobl sydd â diddordeb yn y nodau llesiant a sicrhau bod eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.<br>**Tymor hir**: Y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir hefyd. |
| **14 Amcanion Llesiant** | 1. Creu'r amodau a all roi'r dechrau gorau posibl i fywyd pob plentyn.<br>2. Gwella deilliannau addysg i bawb a lleihau'r bwlch rhwng deilliannau gwahanol grwpiau.<br>3. Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol a hybu gweithlu iach.<br>4. Gwella ffyniant i bawb ledled Cymru, gan helpu pobl i gael gwaith a chadw swyddi.<br>5. Creu'r amodau i bobl allu dysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith.<br>6. Cefnogi'r broses o newid i fod yn gymdeithas garbon isel a all ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.<br>7. Cysylltu cymunedau trwy isadeiledd cynaliadwy a chadarn.<br>8. Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth.<br>9. Gwella mynediad at gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.<br>10. Meithrin amodau ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy a chyflogaeth gynaliadwy, gan ysgogi arloesedd a thwf er mwyn sicrhau economi fodern, garbon isel.<br>11. Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru.<br>12. Rheoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru i gefnogi llesiant hirdymor.<br>13. Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus o safon, sy'n ymatebol ac yn fwy integredig, i'r rheini sydd eu hangen fwyaf, gan drin y dinesydd fel partner cydradd.<br>14. Sefydlu Cymru fel gwlad uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan ac sy'n ymwneud â'r byd ehangach. |

**Atodiad B – Cadwyni Rhesymeg Etifeddiaeth**

**a) Creu economi lewyrchus sy'n ffynnu**

Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn lefel GVA is na'r cyfartaledd ac mae anweithgarwch economaidd yn uchel yma. Yn ystod y ddegawd nesaf bydd economi'r ynys yn mynd trwy newid unwaith mewn oes. Bydd y newid hwn yn arwain at economi fwy amrywiol gan greu cyfleoedd am ragor o swyddi ansawdd uchel, gan felly roi'r cyfle i drigolion ifanc Ynys Môn aros ar yr ynys; denu rhai sydd eisoes wedi gadael i ddod yn ôl i'r ynys, a chefnogi ansawdd bywyd gwell.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ↓ | **Amodau cyd-destunol:**<br>• Lefel uchel o bobl ifanc / gweithlu ifanc yn mudo o'r ynys<br>• GVA is na'r cyfartaledd<br>• Cyflog wythnosol / incwm aelwyd yn is na'r cyfartaledd<br>• Tlodi uwch a nifer o uchel o aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio<br>• Lefelau uchel a anweithgarwch economaidd<br>• Gor-ddibyniaeth ar gyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus | **Deilliannau / Effeithiau:**<br>• GVA uwch<br>• Gwell cyfleoedd gwaith yn agosach at adref<br>• Rhagor o amrywiaeth o swyddi a chyfleoedd am swyddi<br>• Mwy o bobl ifanc leol yn cyfrannu at yr economi<br>• Mae gan bobl ifanc a dinasyddion y sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i ffynnu a llwyddo<br>• Safonau addysg yn uwch na'r meincnodau Prydau Ysgol am Ddim cenedlaethol<br>• Gwelliant mewn ansawdd bywyd a llesiant<br>• Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith<br>• Gwell gofal plant i gael gwared ar rwystrau i sicrhau cyflogaeth | ↑ |
| ↓ | **Cyd-destun Polisi:**<br>• Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>• Asesiad ac amcanion llesiant<br>• Rhaglen Ynys Ynni<br>• Strategaeth Cyfrannu at Fuddion Cymunedol<br>• Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi | **Allbynnau:**<br>• Buddsoddiadau sector preifat<br>• Twf mewn GVA<br>• Lleihad yn y nifer sy'n mudo allan<br>• Cynnydd mewn gweithgarwch economaidd<br>• Gwell set sgiliau a chymwysterau (sy'n cyd-fynd yn agos â'r anghenion economaidd lleol) | ↑ |
| → | **Mewnbynnau :**<br>• Adnoddau ariannol (sectorau cyhoeddus a phreifat)<br>• Adnoddau dynol (datblygwyr a phartneriaid eraill)<br>• Cydlynu – mewnbynnau'r sector cyhoeddus a phreifat<br>• Partneriaeth ac ymgysylltu | → | **Gweithgareddau:**<br>• Denu datblygwyr mawr i fuddsoddi yn Ynys Môn er mwyn hwyluso trawsnewidiad yr ynys.<br>• Datblygu Strategaeth Addysg newydd a Rhaglen Gyflogaeth, Sgiliau a Hyfforddiant newydd i sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yr ynys yn ennill y sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol<br>• Gwella safleoedd ac eiddo cyflogaeth yr ynys i ddenu a hwyluso buddsoddiad economaidd<br>• Gwella capasiti a gwydnwch yr isadeiledd i gwrdd ag anghenion cymunedau, busnesau ac ymwelwyr<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni twf cynaliadwy yn yr economi ac mewn cyflogaeth<br>• Datblygu rhaglen trechu tlodi ar gyfer Ynys Môn |

**b) Galluogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial**

Bydd economi fwy lewyrchus yn gweithredu fel catalydd, i alluogi trigolion i wella eu huchelgeisiau economaidd a'u huchelgeisiau mewn bywyd. Er mwyn i drigolion allu cyflawni eu llawn botensial mae angen cyfuniad o sawl ffactor megis cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; sicrhau bod tai fforddiadwy a thai o ansawdd ar gael, a sicrhau bod ganddynt fynediad at amgylchedd naturiol ac adeiledig o ansawdd uchel. Mae'n rhaid i'r amodau cywir fod ar gael i bobl wella eu hansawdd bywyd a llesiant er mwyn iddynt allu cyflawni eu llawn botensial a ffynnu.

**Amodau cyd-destunol:**

- GVA is na'r cyfartaledd
- Lefelau uchel o anweithgarwch economaidd
- Cysylltiadau trafnidiaeth gwael
- Rhwydwaith / cysylltedd digidol annigonol
- Prinder o dai addas a fforddiadwy
- Mynediad cyfyngedig at gyfleoedd dysgu anstatudol
- Digartrefedd yn uwch oherwydd dadleoli yn y sector rhent preifat

**Deilliannau / Effeithiau:**

- GVA uwch
- Mwy o bobl mewn gwaith
- Mwy o drigolion yn cyflawni eu llawn botensial
- Gwell cyrhaeddiad addysgol
- Prentisiaethau o ansawdd uchel i bob oedran
- Gwell ansawdd bywyd a llesiant
- Plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill.
- Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith
- Marchnad dai mwy cytbwys
- Gwell mynediad at dai cymdeithasol fforddiadwy, o ansawdd uchel sy'n ynni-effeithlon
- Nifer uwch a gwell amrediad o dai i bawb.

**Cyd-destun Polisi:**

- Cynllun Corfforaethol
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- Asesiad ac amcanion llesiant
- Strategaeth Dysgu Gydol Oes
- Rhaglen Ynys Ynni
- Strategaeth Tai Leol a'r Asesiad Marchnad Dai Leol
- Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl
- Strategaeth Tai Gwag
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai

**Allbynnau:**

- Gweithgarwch economaidd uwch
- Ysgolion newydd, modern, addas i bwrpas
- Cyfleusterau cymunedol newydd a gwell
- Cartrefi newydd o ansawdd ar draws pob math o ddaliadaeth
- Cyflenwad ychwanegol o dai Cyngor newydd
- Lleihad yn y nifer sy'n symud i ffwrddn
- Isadeiledd trafnidiaeth newydd a gwell
- Canran uwch o drigolion gyda chymwysterau

**Mewnbynnau:**

- Adnoddau ariannol (sectorau cyhoeddus a phreifat)
- Adnoddau dynol (datblygwyr a phartneriaid eraill)
- Cydlynu – mewnbynnau'r sector cyhoeddus a phreifat
- Partneriaeth ac ymgysylltu
- Grantiau a chyllid ar gyfer adeiladu tai newydd, gwella ansawdd y tai sy'n bodoli a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd

**Gweithgareddau:**

- Parhau â'r rhaglen moderneiddio ysgolion
- Ail-siapio sut caiff Cymraeg fel pwnc ei ddysgu yn ein hysgolion i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gymdeithas ehangach
- Sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol
- Cyfleoedd estynedig am brentisiaethau i roi sgiliau a chymwyseddau priodol i bobl ifanc ac oedolion.
- Buddsoddi mewn isadeiledd technoleg gwybodaeth i wella cysylltedd digidol
- Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy sydd o ansawdd da
- Cefnogi teuluoedd a rhieni i leihau profiadau andwyol mewn plentyndod sy'n gallu cael effeithiau drwy gydol oes y plentyn
- Canolfannau Dysgu Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cefnogaeth riantu, dysgu fel teulu a mynediad ar gyfer y gymuned i gyfleusterau (gan weithio rownd y diwrnod ysgol)

**c) Sicrhau bod trigolion yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal**

Er mwyn lleihau'r effeithiau o fod yn ynys wledig ar yr ymylon, amddifadedd ac anghydraddoldeb cymdeithasol, mae angen gwella cydlyniad cymunedol a symudedd cymdeithasol trwy ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd sydd wedi'u plethu â'i gilydd i gefnogi plant, oedolion a grwpiau eraill bregus.

**Amodau cyd-destunol:**
- Disgwyliadau oes uwch
- Pobl yn byw'n hirach gyda gwaeledd tymor hir sy'n cyfyngu ar eu bywyd
- Pobl hŷn yn byw ar eu pen eu hunain ac wedi eu cau allan o gymdeithas
- Ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach
- Lefelau uchel o ordewdra ymysg plant
- Anghydraddoldeb cymdeithasol a thlodi gwledig ar gynnydd
- Dementia yn dod yn fwy a mwy cyffredin
- Prinder meddygfeydd/cyfleusterau tu allan i oriau
- Cyfradd drosedd isel
- Diwygio lles

**Deilliannau / Effeithiau:**
- Gwelliannau mewn lles corfforol a meddyliol
- Gwell annibyniaeth a symudedd cymdeithasol
- Gostyngiad yn y nifer o aelwydydd di-waith
- Gostyngiad mewn lefelau gordewdra ymysg plant ac oedolion
- Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trigolion yn byw bywyd heb bryderon am ddiogelwch
- Lleihad mewn unigrwydd ac unigedd cymdeithasol
- Newidiadau sy'n cael eu harwain gan y defnyddwyr i ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor Sir
- Cydnabyddiaeth o'r cyfraniad hanfodol a wna pobl hŷn i gymdeithas
- Y boblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei chefnogi i aros yn iach pan fyddant yn hŷn
- Atal cau asedau cymunedol yn ddiangen gyda chymunedau yn cymryd perchnogaeth ohonynt pan fo hynny'n briodol
- Cynnydd mewn gwirfoddoli mewn cymunedau lleol

**Cyd-destun Polisi:**
- Cynllun Corfforaethol
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- Asesiad ac amcanion llesiant
- Asesiad Anghenion Poblogaeth
- Strategaeth Ysgolion Iach a Chyn Ysgolion Iach
- Strategaeth Digonolrwydd Chwarae
- Rheoliadau Gwarchod y Cyhoedd a Safonau Masnach
- Strategaeth Cyfrannu at Fuddion Cymunedol
- Strategaeth Dai Leol

**Allbynnau:**
- 'Hybs' a chyfleusterau newydd a gwell mewn cymunedau
- Gwasanaethau o ansawdd uchel i addysgu pobl sydd ar fin dod yn rheini a rhieni newydd, a darparu cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar a chyngor i blant, oedolion hŷn ac eraill y mae risg iddynt
- Gwell mynediad at wasanaethau meddygol lleol
- Mwy o ffocws ar wasanaethau ataliol a datblygu cymunedau cryf a chydnerth
- Cyfleusterau hamdden a chwaraeon aml-bwrpas newydd
- Rhagor o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol
- Ymgysylltu mwy â chymunedau lleol

**Mewnbynnau:**
- Adnoddau ariannol (sectorau cyhoeddus a phreifat)
- Adnoddau dynol (datblygwyr a phartneriaid eraill)
- Cydlynu – mewnbynnau'r sector cyhoeddus a phreifat
- Partneriaeth ac ymgysylltu

**Gweithgareddau:**
- Gwella lles plant ac oedolion bregus i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn iach ac yn cyflawni eu potensial
- Darparu tai newydd a chyfleusterau gofal ychwanegol newydd
- Addasu cyfleusterau gofal preswyl i ganolbwyntio mwy ar ddementia er mwyn cyd-fynd â'r cynllun dementia cenedlaethol
- Cyfoethogi modelau ymyrraeth i gefnogi plant a rhieni'r ynys.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng addysg a hamdden i wella cyrhaeddiad, iechyd, llesiant a bodlonrwydd mewn bywyd
- Darparu cyngor ar fudd-daliadau lles i gefnogi trigolion mwyaf bregus yr ynys.
- Symud mwy o wasanaethau gofal o ysbytai i mewn i gymunedau, wedi'u cefnogi gan Wasanaethau Iechyd a Gofal cynaliadwy ac integredig (yn cynnwys gwell cefnogaeth i ofalwyr)
- Gweithio gydag eraill i ddatblygu cefnogaeth gryfach ar gyfer salwch meddwl
- Hyrwyddo ffyrdd o fyw a dewisiadau iach trwy ymyraethau ar atal gwaeledd ac annog pobl i fod yn fwy actif er mwyn eu lles cyffredinol trwy gydol eu hoes

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gweithio gyda chymunedau i warchod cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau celfyddydau a chanolfannau hamdden |

**d) Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig**

Mae gan Ynys Môn enw da yn rhyngwladol diolch i'w amgylchedd naturiol ac adeiledig unigryw, o ansawdd uchel. Mae'n hanfodol fod y nodweddion unigryw hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella pan fo hynny'n bosib, a dylid hefyd manteisio ar eu gwerth fel adnoddau economaidd-gymdeithasol. Mae amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr ynys yn eithriadol o bwysig i'r sector twristiaeth, gan gefnogi a chynnal yr economi leol a rhanbarthol. Bydd yr angen i gydbwyso effeithiau posib y prosiectau mawr arfaethedig ar ansawdd yr amgylchedd lleol yn her i ddatblygwyr, i'r Cyngor Sir ac i gydran-ddeiliaid eraill.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amodau cyd-destunol:**<br>• Amgylchedd naturiol o ansawdd uchel<br>• Digonedd o ddynodiadau yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig<br>• Pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i'r sector twristiaeth lleol a rhanbarthol<br>• Apêl ryngwladol ac enw da fel cyrchfan i ymwelwyr | **Deilliannau / Effeithiau:**<br>• Amgylchedd naturiol ac adeiledig gwydn, o ansawdd uchel<br>• Gwell ansawdd bywyd a llesiant<br>• Ynys Môn yn lanach ac yn fwy gwyrdd<br>• Ailgylchu o leiaf 70% o wastraff<br>• Llai o ynni'n cael ei ddefnyddio yng nghymunedau'r ynys ac yng nghyfleusterau'r Cyngor<br>• Cynnydd yn ngwerth economaidd-gymdeithasol yr amgylchedd<br>• Sector twristiaeth cynaliadwy a llewyrchus<br>• Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd<br>• Gwell mynediad at dai o ansawdd uchel sy'n ynni-effeithlon | |
| | **Cyd-destun Polisi:**<br>• Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>• Asesiad ac amcanion llesiant<br>• Cynllun Rheoli Cyrchfan<br>• Cynllun Rheoli'r AHNE<br>• Strategaeth Cyfrannu at Fuddion Cymunedol<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai | **Allbynnau:**<br>• Datblygiadau'n cael eu hadeiladu gan roi ystyriaeth i'r amgylchedd naturiol<br>• Parhau i amddiffyn amgylchedd naturiol ac adeiledig yr ynys<br>• Lleihad mewn llygredd aer, sŵn a dŵr<br>• Gwell hygyrchedd i'r amgylchedd naturiol | |
| | **Mewnbynnau:**<br>• Adnoddau ariannol (sectorau cyhoeddus a phreifat)<br>• Adnoddau dynol (datblygwyr a phartneriaid eraill)<br>• Cydlynu – mewnbynnau'r sector cyhoeddus a phreifat<br>• Partneriaeth ac ymgysylltu | | **Gweithgareddau:**<br>• Lliniaru effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronnus) prosiectau mawr ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br>• Mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd i ddiogelu lles tymor hir amgylchedd, economi a chymunedau'r ynys<br>• Gwella ailgylchu gwastraff<br>• Cefnogi gweithgareddau i leihau defnydd ynni a thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.<br>• Gweithio gydag eraill i hyrwyddo rheolaeth ac addysg amgylcheddol er mwyn gwella cynaladwyedd a gwydnwch yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br>• Manteisio ar botensial arfordir yr ynys i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol<br>• Mynd hyd yn oed ymhellach ar y blaen dros wledydd eraill o ran ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi<br>• Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn ein hamgylchedd yn well |

**e) Cynnal a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant**

Mae dros ddau draean o boblogaeth yr Ynys yn gallu darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg (yr ail ffigwr uchaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru). Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr ynys, a'r uchelgais clir yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amodau cyd-destunol:**<br>• Mae oddeutu 57% o boblogaeth yr ynys yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu'n Gymraeg<br>• Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth ddiwylliannol ac unigryw yr ynys | **Deilliannau / Effeithiau:**<br>• Cryfhau statws a bwrlwm yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn<br>• Cryfhau cydlyniad a hunaniaeth gymunedol<br>• Gwelliant mewn ansawdd bywyd a llesiant | |
| | **Cyd-destun Polisi:**<br>• Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>• Asesiad ac amcanion llesiant<br>• Strategaeth a Chynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg<br>• Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg | **Allbynnau:**<br>• Cynnydd yn y nifer o bobl sy'n darllen, ysgrifennu neu'n siarad Cymraeg i tua 60%<br>• Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion a phobl ifanc sy'n cael eu hasesu yn y pwnc Cymraeg fel iaith gyntaf, ac sy'n astudio dewisiadau yng Nghyfnod Allweddol 4 a lefel AS/A trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Gwell cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ddwyieithog (yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol)<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ac o dreftadaeth a diwylliant Cymreig | |
| | **Mewnbynnau:**<br>• Adnoddau ariannol (sectorau cyhoeddus a phreifat)<br>• Adnoddau dynol (datblygwyr a phartneriaid eraill)<br>• Cydlynu – mewnbynnau'r sector cyhoeddus a phreifat<br>• Partneriaeth ac ymgysylltu | | **Gweithgareddau:**<br>• Gweithredu, monitro ac adolygu Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM a'r Cynllun Addysg Gymraeg<br>• Darparu cefnogaeth a chyngor priodol i Ddatblygwyr i hyrwyddo dwyieithrwydd.<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau iaith Gymraeg a gweithgareddau trochi ar gyfer prosiectau penodol<br>• Datblygu mesurau priodol i liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol o'r prosiectau mawr<br>• Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Medi 2017** |
| **Pwnc:** | **Bid Twf Economaidd Gogledd Cymru - Diweddariad Cynnydd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cllr. Richard Dew (Portffolio) & Cllr. Llinos Medi Huws (Arweinydd)** |
| **Prif Weithredwr** | **Dr Gwynne Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dr Gwynne Jones**<br><br>**GwynneJones@ynysmon.gov.uk**<br>**(01248) 752102** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

a) I nodi a chefnogi cynnydd datblygiad Cais Cytundeb Twf cystadleuol ar gyfer y rhanbarth.
b) I gefnogi "mewn egwyddor", y model llywodraethu dewisol o gydbwyllgor statudol ar gyfer datblygiad pellach gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad argymelledig a chylch gorchwyl, wedi ei gefnogi gan Gytundeb Rhyng Awdurdod, i ddilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
c) Fod yr Arweinydd wedi ei awdurdodi i fod yn aelod o'r Cydbwyllgor Cysgodol yn y cyfamser.
d) Fod yr Arweinydd fel un o Arweinwyr y chwe chyngor a gynrychiolir ar y Cydbwyllgor Cysgodol yn cael ei awdurdodi i ddechrau trafodaethau cynnar gyda Llywodraethau ynglŷn â maint ac amlinelliad cynnwys Cais Cytundeb Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymiadau economaidd nac o fath arall yn cael eu cytuno yng nghamau cyntaf y trafodaethau.
e) Fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo fel bod y Prif Weithredwr yn gallu awdurdodi cyfraniad ariannol cychwynol o hyd at £50,000 allan o wariant 2017/18 ar gyfer datblygiad manwl o'r cais Cytundeb Twf.

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mabwysiadwyd Gweledigaeth Twf ar Gyfer Economi Gogledd Cymru *(eitem 23 ar yr agenda)* gan y cabinet ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn gosod uchelgais strategol i Ogledd Cymru ar gyfer datblygu trafnidiaeth ac isadeiledd, sgiliau a swyddi, a thwf ac arloesi busnes. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y pum cyngor arall yn y

rhanbarth ynghyd a chyrff eraill (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach) ar yr un pryd.

1.2 Mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth i fod yn 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a throsglwyddo pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r gwaith rhanbarthol yn cydredeg a datblygiad a chytundeb ceisiadau twf mewn rhanbarthau penodol yn Lloegr ac yn Ne Cymru. Y targed gweithredol yw dechrau trafodaethau gyda Llywodraethau ym mis Tachwedd 2017 er mwyn cytuno ar 'benawdau'r telerau' yn y flwyddyn ariannol bresennol, sy'n gorffen ym mis Mawrth 2018.

1.3 Mae cynnwys y strategaeth bron a'i orffen ar gyfer cael ei roi mewn cais ffurfiol o dan bedwar pennawd cysylltiedig sef, gwaith a safleoedd tai strategol; arloesi a thwf busnes: isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau; a sgiliau, diweithdra a diwygiad cymdeithasol. Mae Gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ddatblygu thema unedig er mwyn cynorthwyo pwrpas a buddion y Cais Cytundeb Twf a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg partneriaid, rhanddeiliaid, chynghorwyr y Llywodraeth, busnesau a thrigolion.

1.4 Mae model dewisol llywodraeth ranbarthol sef cydbwyllgor statudol wedi ei osod yn yr adroddiad. Mae angen trefniadau dros dro ar gyfer rheolaeth wleidyddol cam cyntaf y trafodaethau hyd at ffurfio cydblwyllgor. Felly rydym yn argymell cydbwyllgor cysgodol, heb unrhyw bwerau penderfynu ffurfiol. Nid oes trafodaeth wedi ei chael eto o ran pa Awdurdod Lleol fydd yn cynnal / arwain ar y mater.

## 2. Datblygiad Cais Cytundeb Twf

2.1 Mabwysiadwyd Gweledigaeth Twf ar Gyfer Economi Gogledd Cymru gan gyrff ar draws y rhanbarth yn 2016. Roedd y weledigaeth yn disgrifio Gogledd Cymru fel "rhanbarth hyderus, unedig gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy'n manteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel ynghyd a'i gysylltiadau gydag economïau'r Pwerdy Gogleddol ac Iwerddon". Mae'r ddogfen yn gosod strategaeth ac uchelgais i Ogledd Cymru allu cyflawni'r weledigaeth trwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth ac isadeiledd, gwella sgiliau a swyddi, a chefnogi arloesi a thwf busnes. Uchelgais y strategaeth yw gwella ysbryd cystadleuol y rhanbarth, cynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yr economi ranbarthol i gau'r bwlch sydd rhwng GYC y rhanbarth a chyfartaledd y DU, a hybu busnes i greu swyddi newydd ac amddiffyn rhai sydd eisoes yn bodoli.

2.2 Gwahoddwyd rhanbarthau penodol yn Lloegr, Rhanbarth Prif Ddinesig Caerdydd a Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe yng Nghymru i ddatblygu "Cais Twf" i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU. Gwahoddwyd Gogledd Cymru i ddatblygu cais gan Lywodraeth y DU yng nghanol 2016. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi cais Gogledd Cymru wedi cael ei bwysleisio yn ddiweddar gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae yna ddisgwyliad fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud er mwyn gorffen y cais yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei fod yn dymuno gweld 'penawdau telerau' Cytundeb Gogledd Cymru wedi eu cytuno erbyn Mawrth 2018 ynghyd a datblygiad fframwaith bolisi newydd ar gyfer cefnogi twf yn y rhanbarth, yn ddibynnol ar ddatblygu Cronfa Ffyniant Gyfrannol addawedig i gymryd lle cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd hi'n anghenrheidiol i drefniadau sicrhau bod anghenion ardaloedd gwledig (megis Ynys Môn) yn cael sylw effeithiol, yn parhau i roi pwysau a blaenoriaeth ar gefnogi a chynorthwyo ardaloedd ble mae perfformiad economaidd a safon byw yn is na'r cyfartaledd derbyniol, na ardaloedd fwy ffynnianus. Mae CSYM angen cydweithio, cymryd rhan, hysbysu'n llawn a dylanwadau prosesau parhaus (ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol) er mwyn sicrhau bod anghenion yr ynys, ag ardaloedd gwledig yn benodol, yn cael eu bodloni'n ddigonol drwy bolisiau datblygu rhanbarthol newydd.

2.3 Mae Cais Twf, yn deillio o du fewn i ranbarth, yn gais ffurfiol am fuddsoddiad gan y Llywodraeth ac am drosglwyddiad pwerau datganoledig. Mae'n rhaid i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, hydwyth ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Mae disgwyl i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau ochr yn ochr â'r Llywodraeth(au) o ran dosraniad cyfalaf, rhannu benthyciadau cyfalaf, defnydd o dir ac asedau, a hel cymwysterau proffesiynol i'r prosiect. Mae disgwyl iddynt geisio cael cymorth gan y sector breifat i'w ceisiadau, gan alluogi a dylanwadu buddsoddiad sector breifat fel rhan o'u pecyn Cais. Bydd gan bob cais amcanion a thargedau wedi eu trafod. I Ogledd Cymru, Rhanbarth Prif Ddinesig Caerdydd a Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe mae'r broses geisiadau wedi ymwneud a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae hyn yn wahanol i Loegr. Mae Cais Rhanbarth Prif Ddinesig Caerdydd wedi ei gytuno. Mae Cais Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe wedi gorffen y cam cyntaf o gael ei gymeradwyo ac mae bellach yn ar y cam olaf o gael ei gymeradwyo.

2.4 Mae trafodaethau Ceisiadau Twf yn Lloegr yn arwain at gytundebau ardal benodol, yn aml yn dwyn teitl sy'n cynnwys y gair 'datganoli'. Mae'r model Cytundeb Datganoli wedi bod yn ddadleuol ar brydiau, yn anad dim oherwydd bod cytuno i gael maer etholedig i'r rhanbarth yn rhan o'r cytundeb. Nid yw'r model cyfansoddiadol hwn yn ofynnol yng

Nghymru. Felly mae'r model Llywodraethu Dewisol (cydbwyllgor) i ddilyn yn fwy confensiynol a chyfarwydd. Mae cytundebau yn cael eu gwneud gydag Awdurdodau Lleol yn cydweithio mewn ardaloedd penodol. Yn Lloegr maent wedi eu seilio ar ardaloedd Partneriaeth Fenter Leol. Yng Nghymru maent wedi eu seilio ar y pedwar ardal bartneriaeth economaidd a ddatblygwyd gan yr awdurdodau lleol ac sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cynllun i ddiwygio LLywodraeth Leol. Bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn anelu at gael cydweithrediad agos gyda'r sector breifat a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach yn natblygiad y ceisiadau. Mae ceisiadau a all brofi cefnogaeth y sector breifat a dylanwadu ar fuddsoddiad y sector breifat yn cael eu hannog gan y ddwy Lywodraeth. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru yn rhan annatod o ddatblygiad y Cais Cytundeb Twf.

2.5 Mae Ceisiadau Cytundeb Twf yn cael eu datblygu mewn pedwar rhan: - yn gyntaf, gwahoddiad i wneud cais; yn ail, trafodaethau anffurfiol rhwng y Llywodraeth a'r ardal benodol ynglŷn â chyfeiriad a hanfodion y cais; yn drydydd, rhan gyntaf y cytundeb a elwir yn benawdau telerau, yn bedwerydd, y cytundeb gorffenedig a chymeradwyo'r cais, ar y cyd rhwng yr awdurdodau a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae cais Gogledd Cymru yng nghamau olaf yr ail ran gyda'r bwriad o gyrraedd cytundeb penawdau telerau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (2017/18).

2.6 Mae cynnwys cychwynnol y Cais Cytundeb Twf yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth a'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y partneriaid rhanbarthol yn 2016. Pedwar prif thema y Cais yw: -

- Safleoedd strategol ar gyfer gwaith, cysylltiad digidol a thai;
- Isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau;
- Arloesi a thwf busnes; a
- Sgiliau, diweithdra a diwygio cymdeithasol.
- Mae'r Tîm Cais yn gweithio ar thema ac adroddiad unol er mwyn cyflwyno'r Cais i'r Gweinidogion.

2.7 Bydd y Cais Cytundeb Twf yn rhedeg ochr yn ochr ag ac yn cefnogi: -

- Polisi economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r DU;
- Polisi Llywodraeth y DU i ddatblygu ysbryd cystadleuol economi'r Undeb yn dilyn trafodaethau BREXIT;
- Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth ranbarthol a datganoli;
- Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU;
- Cynlluniau Sector Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym meysydd niwclear, ynni, gweithgynhyrchu (modurol ac awyrofodol) a digidol;
- Cynllun Isadeiledd Cymru; a

- Cynllunio a chysylltedd traws-ffiniol e.e Growth Track 360 ac elfennau o Gytundeb Datganoli Partneriaeth Fenter Leol Sir Gaer a Warrington

2.8 Mae'r nodweddion penodol sy'n rhoi cryfder i'n Cais Rhanbarthol yn cynnwys: -

- Datblygu sectorau allweddol fel rhan o economi y DU a byd eang
    - Ynni Carbon Isel ac Ynni Niwclear
    - Gweithgynhyrchu Blaengar
    - Digidol a Chreadigol

- Cysylltedd – yn gorfforol a digidol – ac economi ehangach y DU
- Cefnogi twf cyson busnes brodorol
- Twf cynaliadwy ardal sydd â nodweddion unigryw
    - Twf cynhwysol sy'n dod a buddion i bob rhan o gymdeithas
    - Twf sy'n annog diwygiad cymdeithasol mewn meysydd gan gynnwys diweithdra

- 'Twf Gwyrdd' sy'n annog ac yn galluogi
    - Cynllunio cynaliadwy gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus amlfoddol
    - Diwydiannau ynni carbon isel
    - Twf cyfochrog economïau craidd gan gynnwys twristiaeth ac amaeth.

2.9 Mae swyddogion y Llywodraeth (Prydain a Chymru) wedi pwysleisio y pwysigrwydd o Wylfa Newydd yn y Bid Twf. Mae datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd, a'r diwydiant niwclear ehangach yn cael ei adnabod fel sector twf pwysig o fewn Gogledd Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Prydain a Chymru wedi pwysleisio mantieisio i'r eithaf ar graddfa a natur unigryw y cyfleoedd yn ganolog i lwyddiant y bid twf. Mae'r themâu blaenoriaeth nawr wedi eu datblygu i ychwanegu gwerth at buddiannau cyflogaeth a economaidd posib o Wylfa Newydd (ar lefel lleol a rhanbarthol), bydd hyn yn hanfodol yn ystod y broses ddatblygu. Yn ogystal, mae'r berthynas a aliniad rhwng y Bid Twf a'r Cynlluniau sector Niwclear angen cael eu ahdnabod a'u datblygu. Mae'r Bid Twf a'r Cynlluniau sector Niwclear yn brif ffordd o sicrhau cyllid sector gyhoeddus er mwyn hwyluso, paratoi a sicrhau fod busnesau a pobl yn y rhanbarth yn gallu cymryd mantais llawn.

2.10 Defnyddir y Cais Cytundeb Twf i gael mynediad at arian ar gyfer prosiectau allweddol na fyddent fel arall yn cael eu hariannu gan Lywodraethau e.e. gwaith paratoadol i ddatblygu a datgloi safleoedd gwaith a thai strategol ar gyfer datblygiad ble mae methiant y farchnad yn amlwg, a rhoi pwysau ar Lywodraethau fel eu bod yn ymrwymo i fuddsoddiadau mawr sy'n cael eu trafod ond sydd heb eu sicrhau cyllid eto megis buddsoddiad mewn isadeiledd a gwasanaeth rhyddfraint rheilffyrdd, a

chynlluniau priffyrdd, tu hwnt i'r adnoddau sydd i gael eu datganoli o fewn Cais Cytundeb Twf ei hun.

Datblygwyd Gweledigaeth a Strategaeth Twf y rhanbarth a fabwysiadwyd gan bob Cyngor yn 2016 gan y Bwrdd Uchelgais mewn partneriaeth a'r sector breifat a phartneriaid allweddol eraill. Mae'r Weledigaeth yn llawer ehangach na'r Cais Cytundeb Twf. Mae'r Cais Twf yn gam cyntaf i sicrhau cyllid a phwerau i weithredu Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn ehangach.

Bydd gan y rhanbarth yr hawl a'r cyfle i weithio tu hwnt i'r Cais i sicrhau ei huchelgeision a hynny dros amser. Bydd y Cydbwyllgor a'r grwpiau swyddogion cefnogol a sefydlwyd i ddatblygu'r Cytundeb Twf hefyd yn gallu manteisio ar gyfleoedd eraill i gefnogi a gwireddu'r weledigaeth a'r strategaeth.

2.11 Bydd manylion y Cais Cytundeb Twf yn cael ei rannu'n llawn gyda phob awdurdod, a phartneriaid eraill, i'w gymeradwyo cyn i unrhyw gytundeb gael ei wneud gyda'r Llywodraeth yn y cam Penawdau Telerau.

2.12 Gall canlyniadau strategol y Cais Cytundeb Twf gynnwys: -

- Gwerth uwch i safleoedd gwaith a thai strategol (goresgyn methiant y farchnad mewn ardaloedd gwledig fel Ynys Môn);
- Statws parodrwydd/datblygiad i safleoedd strategol;
- Mynediad trafnidiaeth e.e. lleihau amseroedd teithio i safleoedd gwaith strategol; ffigyrau defnydd trafnidiaeth i ddangos symudiad moddol i drafnidiaeth gyhoeddus;
- Buddsoddiad busnes; Twf busnes; Perfformiad busnes;
- Ffigyrau cyflogaeth yn ôl math/sector/gwerth – newydd ac wedi eu cadw;
- Ffigyrau sgiliau – yn ôl math/sector/lefel – o'u cymharu â thargedau'r strategaeth sgiliau ranbarthol;
- Lleihad mewn diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau;
- Cyfartaledd cyfraddau incwm gan gynnwys incwm aelwydydd;
- Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol (GYC);
- Ffigyrau twf tai cynaliadwy; a
- Darpariaeth ynni amgen ac adnewyddadwy ynghyd a lleihad carbon.

2.13 Mae'r gwaith yn parhau gyda chymorth arbenigol Ysgol Fusnes, Prifysgol Bangor i ddatblygu cyfres o fesuriadau perfformiad a thargedau canlyniad wedi eu seilio at ddata a thystiolaeth economaidd. Mae'n debygol y bydd mesuriadau a thargedau yn cael eu gosod fydd yn (1) fyr dymor (2) cronnol a thymor canolig (3) hydredol.

2.14 Gallai gwerth ariannol y cronfeydd newydd, sydd i gael eu sefydlu gan Lywodraethau i gefnogi y Cais Cytundeb Twf a hynny'n unol â phoblogaeth y Rhanbarth o'i gymharu â Rhanbarthau Dinas Caerdydd a Bae Abertawe fod yn oddeutu £240M. Mae mynediad at gronfeydd cenedlaethol eraill megis Cronfeydd Menter a Sector Llywodraeth y Du yn bosib trwy'r Cais Cytundeb Twf.Mae angen i'r Bid Twf ganmol, alinio ag ychwanegu gwerth i'r Cynlluniau Sector Niwclear sy'n cael ei ddatblygu (i gefnogi Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth Prydain). Drwy Ynys Ynni yn y Cyngor ag y rôl Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru, ymgysylltu a thrafod yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth a Pŵer Niwclear Horizon er mwyn sicrhau bod ymyriadau arfaethedig yn cefnogi a galluogi busnesau ar yr ynys ag ar draws Gogledd Cymru i fanteisio ar y cyfleon cadwyn gyflenwi.

Bydd cyfraniad Llywodraeth y DU yn cael ei wneud yn bennaf trwy ganiatâd benthyciadau ychwanegol. Mae ystyriaeth fanwl yn cael ei roi i'r ffyrdd gorau o leihau'r perygl o gyflwyno'r partneriaid i gyfrifoldeb ariannol, tra'n uchelgeisiol ynglŷn â sicrhau cyllid newydd, fel rhan o'r cynllun llywodraethu.Nid yw lefel cyfraniad cyllidol gan yr Awdurdodau Lleol (cyfalafm refeniw a benthyg) wedi cael ei drafod nag ei gytuno. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y Bid Twf. Bydd unrhyw gyfraniad cyllidol gan Ynys Môn yn amodol ar thylwyedd prosesau a'r weithdren mewnol (cyn i Sgrwtini a Pwyllgor Gwaith gysidro).

Bydd Llywodraeth y DU yn disgwyl i Lywodraeth Cymru buddsoddi arian cyfatebol a nhw yng Ngogledd Cymru. Bydd y ddwy Lywodraeth yn trafod maint eu buddsoddiad yng Nghytundeb Twf Gogledd Cymru. Fel rhan o'r pecyn bydd y Sector Breifat hefyd yn ychwanegu at y Bid Twf.

2.15 Fel rhan o'r Cais bydd y rhanbarth yn gofyn am gyfrifoldebau a phwerau datganoledig gan y ddwy Lywodraeth. Mae hwn yn waith sy'n mynd yn ei flaen ac mae'n rhan ddadleuol o'r trafodaethau gyda'r Ddwy Lywodraeth. Fel enghraifft: -

- Comisiynu trafnidiaeth a chyfrifoldebau a phwerau gweithredu;
- Rheoli cefnogaeth ranbarthol i sectorau busnes ar gyfer strategaeth marchnata, twf ac allforio;
- Cadw cyfran o dwf y gyfradd dramor genedlaethol (cyfraddau busnes) ar gyfer buddsoddi yn y strategaeth fel rhan o gyfraniad ariannol ar y cyd llywodraeth leol; a
- Swydd oddi mewn i'r adran Gwaith a Phensiynau i reoli rhaglenni nôl i waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn barod i drafod cadw cyfran o'r twf cyfradd busnes ar bob cytundeb twf yng Nghymru.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddo gyda Llywodraethau Prydain a Chymru ar y talidau ychwanegol am gynnal datblygiad niwclear newydd. Yn Lloegr, mae cadw ardrethi busnes yn cael ei adnabod fel mecanwaith posib i gyflawni'r taliad ychwanegol. Bydd taliad tebyg ei angen ar gyfer Wylfa Newydd, er gall modd cyflwyno'r mecanwaith fod yn wahanol.

Bydd y gofynion datganoli argymhelledig terfynol yn cael eu rhann'n llawn gyda'r cynghorau, a phartneriaid eraill i gael cymeradwyaeth ffurfiol cyn y cam penawdau telerau.

2.16 I Ogledd Cymru mae yna ddisgwyliad Llywodraethol ar ran y ddwy lywodraeth y bydd yno gynllunio strategol agos ar y cyd gyda Gogledd Orllewin Lloegr a gyda rhwydwaith ehangach y Pwerdy Gogleddol. Mae ein gweledigaeth a'n strategaeth yn adeiladu ar y cysylltiadau cryf a chynllunio ar y cyd oddi mewn i'r rhanbarth, trwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaethau traws-ffiniol megis Cynghrair Merswy Dyfrdwy. Mae'r ail wedi galluogi cydweithio gyda Phartneriaeth Menter Leol Sir Gaer a Warrington, Merseytravel, a rhwydwaith ehangach y Pwerdy Gogleddol. Mae Ceisiadau Twf Gogledd Cymru a Phartneriaeth Menter Leol Sir Gaer a Warrington yn cael eu datblygu ar y cyd ac mae eu llwyddiant yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae Gogledd Cymru hefyd yn gwneud cyfraniad i strategaeth ehangach rhwydwaith y Pwerdy Gogleddol, er enghraifft trwy enwebu safleoedd strategol da ar gyfer twf busnes a buddsoddiad mewnol. Mae isadeiledd a chysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd, a chynllunio trafnidiaeth ehangach gan gynnwys llwybrau bysiau, yn ganolog i Strategaeth Twf Gogledd Cymru. Mae cynllun Growth Track 360 yn gwneud y ddadl dros fuddsoddiad rheilffordd draws ffiniol ac mae'n gweithio ei ffordd trwy gamau achos a phenderfynu'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru gyda Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Ein Gweledigaeth i Ogledd Cymru a Metro Gogledd Ddwyrain Cymru yn cefnogi amcanion trafnidiaeth y rhanbarth a thrafnidiaeth weithiol draws ffiniol.

2.17 Yn ychwanegol i Gogledd Orllewin Lloegr bydd angen sefydlu partneriaeth trawffiniol effeithiol gyda Iwerddon a Chanolbarth Cymru. Bydd angen cymryd mantais llawn ar Borthladd Rhyngwladol Caergybi, arallgyfeirio i gymryd mantais a ymateb i gyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd, gan ymateb i heriau (risgiau a chyfleoedd) a fydd yn cael eu creu gan Prydau yn gadael yr UE. Hefyd dylai'r rhanbarth edrych tua'r De, cydnabod ei fod yn rhan o ardal gweldig mawr, gyda'r busnesau, diwylliant a ffordd o fyw yn cael eu gwarchod ag eu cynnal er mwyn ffynnu yn wyneb ansicrwydd sylweddol sy'n cael eu creu gan Brydain yn gadael yr UE.

2.18 Nid oes gan y rhanbarth y gallu i reoli cam nesaf datblygiadau a thrafodaethau'r cais. Hyd yn hyn mae'r gwaith o ddatblygu'r cais wedi cael ei wneud ar y cyd gan

rwydwaith broffesiynol yn cefnogi Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Grŵp Rheoli Rhaglen gyda swyddogion unigol yn cymryd rhan flaengar ar ran y Grŵp. Mae hyn wedi creu pwysau ar y swyddogaeth Datblygu Economaidd tra hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau dydd i ddydd. Mae'r ymgais hwn ar y cyd wedi cael ei gefnogi gan nifer fechan o swyddogion rhanbarthol cyflogedig wedi eu cefnogi gan gyllid o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Bydd gofyn i'r partneriaid rhanbarthol wneud buddsoddiad mewn adran weithredol ranbarthol er mwyn cwblhau'r Cais ac i reoli ei weithrediad yn y tymor hirach. Yn dilyn cytundeb penawdau telerau gyda Llywodraethau bydd y prosiectau oddi mewn i'r Cais yn gorfod cyrraedd safonau Cynllun Busnes pum-achos y llywodraeth i sicrhau diwydrwydd priodol. Bydd hwn yn gam dwys yng nghynllunio'r prosiect, bydd rhaid iddo ddechrau cyn diwedd blwyddyn galendr 2017 ac ni fydd gan y rhanbarth y gallu angenrheidiol heb adnoddau ychwanegol dros dro. Felly mae yno argymhelliad fod cyfraniad ariannol blynyddol yn cael ei wneud gan bob partner rhanbarthol allweddol.

## 3. Y Model Llywodraethu Dewisiol

3.1 Mae nifer o fodelau llywodraethu ar gael i'r chwe cyngor. Fe allai'r model awdurdod cyfunol sy'n tyfu mewn poblogrwydd yn Lloegr fod yn bosibl yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd nid oes gallu i ddeddfu ar y model hwn yng Nghymru. Y model llywodraethu dewisol sy'n cael ei argymell gan arweinwyr a phrif swyddogion y cynghorau, ac sy'n cael ei gefnogi'n anffurfiol gan weision sifil Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru, ac adrannau Llywodraeth y DU yw Cydbwyllgor statudol.

3.2 Mae'r cydbwyllgor statudol yn fodel adnabyddus a dibynadwy. Er hyn mae'n fodel cyfyngedig. Er mwyn cefnogi'r cydbwyllgor bydd angen enwebu llety-awdurdod i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol a bydd angen enwbebu un awdurdod neu fwy i groesawu'r swyddogion proffesiynol fydd yn rheoli'r rhaglenni a phrosiectau i weithredu'r Cais Twf. Efallai y bydd hefyd angen i'r cydbwyllgor a'i adnoddau cefnogol weithredu prosiectau cydweithredol eraill a gytunwyd gan y cynghorau. Nid yw'r llety-gyngor wedi ei ddewis etop.

Mae Cydbwyllgorau yn fodel cyfarwydd yn y rhanbarth gyda Chonsortiwm Gwella Ysgolion Gwe a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn esiamplau diweddar. Esiampl berthnasol o'r gorffennol yw Taith, yr hen gonsortiwm cynllunio trafnidiaeth.

3.3 Mae amlinelliad o'r cylch gorchwyl arfaethedig, sy'n cael eu datblygu mewn manylder gan rwydwaith Penaethiaid y Gwasanaethau Cyfreithiol gyda chyngor arbenigol ac annibynnol Cyfreithwyr Pinsent, i'w weld isod.

Bydd y cydbwyllgor angen cyfansoddiad, a fydd yn cynnwys cylch gorchwyl o'i weithgareddau, a bydd wedi ei gynnal gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod.

Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn gytundeb ar y cyd sy'n gosod: -

- Sut fydd y cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu;
- Cyfyngiadau ar allu'r cydbwyllgor i wneud penderfyniadau ynghyd a materion sydd wedi eu cadw i gynghorau unigol eu cymeradwyo;
- Rôl llety-awdurdod;
- Sut fydd cyfraniadau ariannol i'r cydbwyllgor ac i'r llety-awdurdod yn cael eu penderfynu;
- Sut fydd peryglon a buddion yn cael eu rhannu.

3.4 Aelodaeth argymelliedig, ffurfiol a chraidd y cydbwyllgor fydd arweinydd pob un o'r chwe cyngor. Byddai gan bob arweinydd ddirprwy enwebedig, a byddai'r pwyllgor yn cael ei gynghori gan brif weithredwyr ac aelodau proffesiynol blaen eraill.

Mae'r opsiwn yn bodoli i'r cydbwyllgor benodi cynghorwyr wedi eu cyfethol o gyrff allweddol, yn bennaf:-

- Cyngor Busnes Gogledd Cymru;
- Addysg Uwch (Prifysgolion Bangor a Wrecsam-Glyndwr); ac
- Addysg Bellach (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai).

Byddai cynrychiolwyr y cyrff yn ymuno a'r Pwyllgor mewn modd cynghorol a heb bleidlais.

Bydd angen i'r model llywodraethu fod yn gyfreithiol, weithredol a chredadwy. O ystyried y byddai sectorau busnes, addysg bellach ac addysg uwch yn randdeiliaid allweddol mae'n bwysig ac yn argymelliedig eu bod yn cael eu gwneud yn rhan o'r aelodaeth ar gyfer ymarferoldeb a hygrededd gydag arianwyr.

Mae'r model argymelliedig a'i swyddogaethau yn cyd-fynd a'r model a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth ranbarthol yn ei phapur gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol. Felly mae'r model wedi ei ddiogelu rhag deddfwriaeth ddisgwyliedig sydd i ddod o Lywodraeth Cymru.

Rhagwelir, yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Prydain, bydd gweithio'n rhanbarthol yn orfodol mewn meysydd allweddol megis datblygu economiadd, defnydd tir strategol drwy Cynllunio a trafnidiaeth strategol. Yn ei

gyhoeddiad diweddar amlinellodd y Ysgrifennydd Cabinet y gall y meysydd yma eu ymgymryd ar lefel Gogledd Cymru yn y dyfodol, gyda lle ar gweithio’n is-ranbarthol drwy pwyllgorau gweithredu ar y cyd.

Bydd perthynas weithio agos gyda Phartneriaeth Menter Leol Sir Gaer a Warrington yn bwysig a bydd cydweithio ar draws y ffin yn cael ei gynnal trwy Gynghrair Merswy Dyfrdwy a chyfryngau eraill sy’n bodoli megis Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, sy’n arwain strategaeth Growth Track 360.

Yn ychwanegol, mae’r effaith o adael yr UE ar y bartneriaeth trawsffiniol gyda Iwerddon, Porthladd Caergybi, cyfleoedd masnachu, ag yr economi ymwelwyr angen cael ei fonitro. Mae Porthladd Caergybi yn debygol o barhau i chwarae rôl allweddol yn economi Ynys Môn ag angen y statws a proffil priodol yn y Bid Twf. Mae camau anghenrhwidiol i ddiogelu buddiannau presennol, a chymryd mantais o rai newydd, angen eu cysidro a’u symud ymlaen unwaith bod fwy o eglurder ar y sefyllfa.

**<u>Amlinelliad o Gylch Gorchwyl y Cydbwyllgor</u>**

1) Gweithgarwch
2) Strategaeth
3) Blaenoriaethu
4) Cynrychiolaeth
5) Perfformiad
6) Cyfrifoldeb

**Cylch Gorchwyl 1: Gweithgarwch**

- Strategaeth a chynllunio twf economaidd
- Blaenoriaethu a chynllunio isadeiledd
- Pennu a chynllunio defnydd tir strategol
- Cynllunio a chomisiynu trafnidiaeth
- Strategaeth cynllunio a chomisiynu sgiliau
- Eraill i gael eu hychwanegu wrth i bwerau gael eu datganoli

**Cylch gorchwyl 2: Strategaeth**

- Gosod cyfeiriad strategaeth ranbarthol
- Asesiad cyson o anghenion tystiolaethol y rhanbarth a chyfle i gynnal y strategaeth
- Gosod blaenoriaethau a chynlluniau buddsoddi i ddarparu’r strategaeth

**Cylch Gorchwyl 3:Blaenoriaethu**

- Blaenoriaethu cynlluniau cyfrannol
- Datblygu achos busnes a gwneud achos dros gynlluniau wedi eu blaenoriaethu.
- Blaenoriaethu ac amlinellu buddsoddiad
- Sicrhau cytundebau buddsoddiad

**Cylch Gorchwyl 4: Cynrychiolaeth**

- Ymrwymiad a rheoli perthynas gyda phartneriaid rhanbarthol
- Ymrwymiad a rheoli perthynas gyda phartneriaid traws ffiniol
- Dadlau a lobio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Gweinidogion a grwpiau gwleidyddol
- Perthynas gyhoeddus a chyfryngol ynghyd a phroffil

**Cylch Gorchwyl 5: Perfformiad**

- Rheoli rhaglen a gweithredu'r strategaeth
- Goruwchwilio perfformiad yn unol â thargedau cynnydd allweddol a mesuriadau canlyniad
- Sicrhau rheoli rhaglen strategol, datblygiad prosiect a rheoli adnoddau i weithredu cynlluniau cyfrannu.

**Cylch Gorchwyl 6: Cyfrifoldeb**

- Adrodd yn ôl i'r chwe awdurdod lleol
- Adrodd yn ôl i'r partneriaid rhanbarthol ar berfformiad, perfformiad buddsoddiad a rheoli peryglon
- Adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad
- Adrodd yn ôl i Lywodraeth y DU ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad

## 4. <u>Cyfyngiadau Gwneud Penderfyniadau a Materion wedi eu cadw</u>

4.1 Enghreifftiau o benderfyniadau fydd wedi eu cadw i gynghorau unigol eu cymeradwyo yw: -

- Cytundeb o weithgarwch i gael ei roi i'r cydbwyllgor;
- Cytundeb o gyfraniadau cyllideb flynyddol i'r cydbwyllgor ac i'r llety-awdurdod;
- Cytundebau buddsoddiad a benthyciad a lefelau agored i beryglon; a
- Dosbarthiad tir ac asedau eraill i gael eu rhannu.

4.2 Mae cyfansoddiad manwl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd wedi ei orffen ac yn barod i gael ei adolygu yn fuan. Mae’r cytundeb rhyng awdurdod manwl yn cael ei ddatblygu ar y cyd. Mae cyfreithwyr Pinsents wedi cael eu cyflogi i weithredu fel cynghorwyr arbenigol ac annibynnol wrth lunio cyfansoddiad y cydbwyllgor a’r cytundeb rhyng awdurdod. Mae’r Gwaith hwn yn cael ei arwain gan benaethiaid gwasanaethau cyfreithiol y chwe cyngor gyda mewnbwn gan y rheolwyr cyllid/swyddogion adran 151. Bydd Prif Weithredwyr neu eu dirprwyon yn gweithredu fel cynghorwyr i’r cydbwyllgor. Bydd y Grŵp Rheoli Rhaglen (GRhRh) yn cael ei gyflogi fel grŵp gweithredol proffesiynol a fydd yn rhoi cymorth a chyngor i’r cydbwyllgor, ac a fydd yn gyfrifol am reoli rhaglen broffesiynol y cais unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo. Mae’r GRhRh, fel y disgrifiwyd eisoes, yn grŵp o arbenigwyr proffesiynol o arweinwyr datblygiad economaidd a swyddogion eraill o’r chwe cyngor a phartneriaid allweddol, sydd wedi cefnogi’r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac wedi arwain y gwaith ar y Cais Cytundeb Twf.

4.3 O ystyried pwysigrwydd isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth i’r strategaeth mae disgwyl i’r cydbwyllgor ffurfio is-bwyllgor Trafnidiaeth arbenigol o’r cychwyn. Aelodau’r is-bwyllgor hwn fyddai aelodau cabinet gweinyddiaeth drafnidiaeth y chwe cyngor gyda phartneriaid eraill yn cael eu gwahodd i roi cyngor fel bod angen. Gallai fod a llety-awdurdod gwahanol i’r un fydd yn croesawu’r cydbwyllgor.

4.4 Bydd angen rhoi ystyriaeth i’r model mwyaf effeithiol a gwerthfawr ar gyfer adolygiad ac archwiliad. Yn y cam hwn, bydd angen dibynnu ar archwiliad lleol i adolygu’r trefniadau ar gyfer y Cais Cytundeb Twf wrth iddynt ddatblygu. Bydd opsiwn ar gael yn ddiweddarach i ystyried model rhanbarthol ar gyfer adolygiad ac archwiliad, efallai gan ddefnyddio chwe cadeirydd priod bwyllgorau’r awdurdodau lleol.

4.5 Bydd angen newid rôl ranbarthol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn addasu trefniadau llywodraethu newidiol ar gyfer y cytundeb Twf a phrosiectau rhanbarthol eraill posib. Mae’r Bwrdd Uchelgais yn gefnogol o’r newidiadau ac mae yn hollol gefnogol o’r Cais Cytundeb Twf Economaidd. Mae yno hefyd awydd cryf i gadw brand Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd wedi arwyddo y rhan fwyaf o’r gwaith datblygu economaidd rhanbarthol a hefyd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwaith ar gyfansoddiad diwygiedig a cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei wneud fel rhan o’r gwaith a ddisgrifiwyd yn 2.07 uchod.

Gallai'r Bwrdd Uchelgais Diwygiedig arwain at: -

- Asesiadau rhanbarthol o anghenion a chyfleoedd er mwyn llywio strategaeth;
- Datblygiad syniadau prosiect i gael eu hystyried; ac
- Adolygiad trawstoriadol ac asesiad o gynnydd ac effaith ar bwyntiau allweddol o ddarparu'r strategaeth.

Mae'n cael ei gynnig y byddai'r Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol bresennol hefyd yn dod o dan arweiniad strategol y cydbwyllgor yn y model llywodraethu arfaethedig.

## 5. Goblygiadau Adnoddau

5.1 Dim yn uniongyrchol yn y cam cynnar hwn heblaw am wneud cyfraniad ariannol blynyddol o £50 mil o gyllidebau 2017/18. Bydd hyn yn ychwanegol i'r cyfraniad £40,000 y flwyddyn tuag at Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd yna gostau cyllidol ychwanegol yn gwasanaethu cydbwyllgor, a chostau mwy sylweddol ar gyfer rheoli'r rhaglen a'r prosiect ac i ddatblygu a darparu'r strategaeth o fis Ebrill 2018. Rydym wedi dymuno mwy o eglurder ar sut bydd y cyfraniad yma yn cefnogi gweithgareddau'r bid.

5.2 Bydd hefyd angen cysidro trefniadau staffio'r dyfodol gyda'r "Hwb Twf" Rhanbarthol (lleoliad heb ei benderfynnu eto), a fydd angen i swyddogion a fydd o bosib yn cael secondiad i ymgymryd a materion a gweithgareddau pendodol ar y Bid.

5.3 Mae costau cyllidol posib yn cael eu hasesu gydag ystyriaethau manwl yn cael eu rhoi i sut all y partneriaid leihau eu hymrwymiadau a'u cysylltiad â risg ariannol fel rhan o drafodaethau'r Cais Cytundeb Twf. Bydd cynlluniau cyllido yn cael eu datblygu ar asesiad achos busnes trylwyr a fydd yn ceisio sicrhau buddion i'r economi sydd yn llawer mwy na chostau buddsoddiad.

5.4 Fel rhan o Gytundeb Twf bydd gofyn i Lywodraeth y DU ad-dalu cyfran gychwynnol y cyllid a fenthycwyd ar gyfer cynigon a gymeradwywyd. Hyd yn hyn mae'r mwyafrif o gytundebau wedi ymwneud a Chymeradwyaeth Benthyg y Trysorlys a pheth datganoli o gyllid buddsoddi Llywodraeth y DU sy'n bodoli i gael ei integreiddio gyda chyllid lleol sy'n bodoli ar gyfer cael gwerth gwell i raglenni integredig. Yng Nghymru mae gwariant lleol yn cynnwys buddsoddiad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni penodol.

5.5 Byddai dirprwyo cyfran o dwf cyfraddau busnes i awdurdodau lleol yn darparu

| |
|---|
| ffynhonnell ar gyfer buddsoddiad<br><br>5.6 Mae Ceisiadau Cytundeb Twf mewn mannau eraill gan gynnwys Partneriaeth Bae Abertawe, sydd yn gymhariaeth ddefnyddiol, yn gosod cynsail ar gyfer cyllido. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gwneud dim – mae'r opsiwn hwn wedi ei wrthod oherwydd bod yn rhaid i'r cytundeb Bid Twf gael cefnogaeth y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru er mwyn symud ymlaen. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n hollbwysig bod pob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn cael eu hysbysu a chefnogi'r Bid Twf Economaidd Gogledd Cymru. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| YDI |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| YDI |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Mae'r Adran Datblygu Economaidd wedi bod yn cynorthwyo'r Arweinydd a Prif Weithredwr i ddatblygu Weledigaeth Twf a'r Bid am nifer o fisoedd. Rydym yn gefnogol i egwyddor y Cais Twf a gwelwn hyn fel y cam naturiol, nesaf tuag at ffordd ranbarthol fwy blaengar ac rydym yn cydnabod adnoddau sy'n lleihau. Drwy chwarae rôl ganolog wrth ddilyn y bid, bydd yn sicrhau bod Ynys Môn yn elwa o unrhyw fuddsoddiad. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Priffyrdd: Mae'n rhaid i Borthladd Caergybi a'r Morglawdd gael blaenoriaeth o fewn y Cais Twf. Mae angen ystyriaeth ddyledus ar y 3ydd Groesfan hefyd. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| A - Gweledigaeth ar gyfer Economi Gogledd Cymru |


| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Gorffennaf 2016



“Rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i gysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.”

# GWELEDIGAETH AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Gweledigaeth sengl, gyd-gysylltiedig yw hon ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i Ogledd Cymru. Fe'i cyflawnir drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gyda'r sector preifat yn chwarae rhan bwysig ac ymagwedd "***Tîm Gogledd Cymru***", yn adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.


Bydd yn creu' amodau priodol i gefnogi darparu blaenoriaethau Isadeiledd Cenedlaethol Llywodraeth y DU yng ngogledd Cymru hefyd, yn benodol Wylfa Newydd - sy'n un o'r buddsoddiadau sector preifat mwyaf yn y DU - a'r prosiect moderneiddio'r rheilffyrdd o Crewe i Gaergybi, a fydd yn cynnwys trydaneiddio.

Cyflwynir ein huchelgais ar gyfer gogledd Cymru yn 2035 yn adran 2 y papur hwn, tra bod adrannau 3 a 4 yn nodi ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Prosiectau i ddarparu twf a galluogi i'r sector preifat fuddsoddi a rhoi hwb i gynhyrchiant.

Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y papur hwn yw adnabod ein gweledigaeth ar gyfer twf i ogledd Cymru, a threfnu ein Strategaeth a'n pecyn o brosiectau i wireddu'r weledigaeth honno.

Ymchwilir i amrywiol raglenni ariannu er mwyn cefnogi gweithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Prosiectau, yn benodol cynnig Cynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.




Y Ganolfan Ymchwil i Ynni Solar, Prifysgol Glyndŵr

Mae nifer o resymau dros fynd ar ôl gweledigaeth o'r fath:

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gogledd Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â diweithdra a segurdod ledled y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth gogledd Cymru.

# GOGLEDD CYMRU YN 2035.....

Gwireddir y weledigaeth drwy glystyrau economaidd gwerth uchel ledled gogledd Cymru.

Bydd gan y **clwstwr ynni** arbenigedd mewn cynhyrchu ynni, technolegau a phrosesau carbon isel, gyda busnesau wedi'u paratoi'n dda i elwa ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlar Bychain Trawsfynydd a phrosiectau ynni llanw ac ynni gwynt oddi ar y tir. Bydd gan fusnesau o fewn y clwstwr gysylltiadau cryf gyda chanolfannau ymchwil ynni blaenllaw, yn enwedig yn ardal Pwerdy'r Gogledd, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol, arloesedd, Ymchwil a Datblygu o ansawdd uchel, a masnacheiddio technoleg.



Wylfa Newydd

Yn bwysig, gwneir pob ymdrech i elwa ar synergedd gyda gweithgarwch datblygiadau clwstwr y sector ynni mewn rhanbarthau eraill cyfagos, yn enwedig cyfleoedd cadwyni cyflenwi. Bydd gogledd Cymru, ynghyd â'r ardal draws-ffiniol a gogledd-orllewin Lloegr, yn cael eu gosod fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a chadwyni cyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn busnes ac academia i achub ar gyfleoedd am y galw byd-eang ar gyfer ynni carbon isel neu dim carbon.

Bydd y **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** yn y rhanbarth yn hynod gystadleuol ar y llwyfan byd-eang. Bydd y rhanbarth yn ferw o weithgareddau yn y clwstwr hwn, gan adeiladu ar rwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol o fewn awyrofod, deunyddiau a phrosesau, peirianneg forol ac amgylcheddol, cerbydau modur, electroneg a bwyd.



Airbus

Cyflenwir y cwmnïau angori yn y clwstwr hwn gan y mentrau bach a chanolig o fewn y rhanbarth sydd ag enw da am ansawdd uchel. Bydd y clwstwr yn elwa o bortffolio o safleoedd datblygu â gwasanaethau da ynghyd ag argaeledd asedau a chyfleusterau gwybodaeth gymhwysol, yn enwedig o fewn addysg uwch. Gyrrir twf yn y clwstwr hwn yn benodol gan y Parthau Menter (megis Parth Menter Glannau Dyfrdwy), ynghyd â buddsoddiad newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Diwydiannol Wrecsam; Parc Busnes Llanelwy; Parc Bryn Cegin, Bangor a Pharc Cybi, Caergybi.

Bydd y **clwstwr digidol** yn rhan annatod o'r rhanbarth a bydd twf cyflym nifer o fusnesau digidol yn cadarnhau safle gogledd Cymru fel hwb o ragoriaeth technoleg yn y DU.

Bydd y sector digidol amrywiol, yn cynnwys cyfrifiannu perfformiad uchel, dadansoddi data, y cyfryngau, cyfrifiant gwybyddol ac ati, yn allweddol i'r rhanbarth, gan greu sectorau arloesol newydd a chreu ffyrdd newydd o ymgymryd â busnes. Y clwstwr digidol fydd peirianwaith twf yng

ngogledd Cymru, gan adeiladu ar y manteision cystadleuol yn nhermau academia, ansawdd bywyd a phrydferthwch naturiol eithriadol, ac isadeiledd o ansawdd.

Bydd y diwydiannau creadigol, datblygu meddalwedd, technoleg iechyd a gwyddor ariannol oll yn rhan o glwstwr o'r fath, gan fagu eu momentwm eu hunain ar gyfer twf. Bydd ein cryfder mewn technoleg ddigidol yn cael ei yrru gan ymchwil gymwys gref o Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach y rhanbarth gyda pheirianwyr trydanol a meddalwedd yn gyrru'r arbenigedd mewn caledwedd a chyfathrebu diwifr. Bydd rhai safleoedd strategol yn rhoi ffocws ar gyfer gweithgareddau yn y sector digidol, yn benodol Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Technoleg Wrecsam a Pharc Busnes Llanelwy.

Bydd gan y rhanbarth grynodiad uchel o gwmnïau digidol - clwstwr technoleg sylweddol, gan greu 'cyffro' gwirioneddol a fydd yn llwyddo i ysbrydoli pobl ifanc a chreu delwedd o ranbarth modern, eangfrydig ac sydd â chysylltiadau da.

Mae Gogledd Cymru yn economaidd gysylltiedig â **Phwerdy'r Gogledd**. Ni fydd ffiniau gweinyddol yn rhwystr, gydag economi gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod a'i alinio'n agos â gogledd-orllewin Cymru.

Bydd cydweithio ar draws ffiniau yn digwydd hefyd wrth gyflwyno prosiectau strategol, megis cludiant, a datblygu clystyrau gwerth uchel allweddol a fydd yn rhoi hwb i berfformiad a chynhyrchiant economaidd.

Mae rhai o'r prosiectau trawsffurfiol allweddol yn y rhanbarth, megis Wylfa Newydd ac Adweithyddion Modiwlar Bychain Trawsfynydd, yn cynnig synergedd posib anferthol gyda'r clwstwr ynni ym Mhwerdy'r Gogledd, a bydd yn elwa'n uniongyrchol o'r arbenigedd gweithgynhyrchu uwch sy’n bodoli o fewn sefydliadau megis Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Niwclear sydd yn Sheffield a Dalton Institute Prifysgol Manceinion.

Yn ogystal, bydd y rhanbarth yn elwa o ddatblygu cysylltiadau masnachu, masnachol a busnes gydag Iwerddon. Gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd o fod wedi'n gosod rhwng prif ganolfannau economaidd megis Manceinion a Dulyn - gan gynyddu'n hapêl ymhellach fel prif gyrchfan busnes.


Buddsoddiad yn rheilffyrdd

Bydd gwella'r isadeiledd cludiant ac economaidd rhanbarthol yn cefnogi twf tai cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhanbarth i hyrwyddo'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr. Bydd Gwireddu'r Weledigaeth wedi'i integreiddio mewn cynlluniau ar gyfer cynllunio a datblygu cymunedau cynaliadwy sy'n parchu nodweddion diwylliannol ac ieithyddol unigryw'r rhanbarth.

Bydd gwireddu'r uchelgais hon yn sicrhau y bydd gan ogledd Cymru gynnig rhanbarthol cryf i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig hwn yn grynodiad o fusnesau arloesol mewn clystyrau economaidd gwerth uchel wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, gan elwa i'r eithaf ar y sail sgiliau lefel uchel, isadeiledd o ansawdd a chysylltiadau ardderchog gyda Phwerdy'r Gogledd. Bydd crynodiad o'r fath yn sefydlu gogledd Cymru fel "Canolfan Ragoriaeth" er mwyn lleoli busnesau mewn clystyrau gwerth uchel ac o ganlyniad, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd y DU a chydbwyso'r economi.

# STRATEGAETH I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH


Wrth galon y weledigaeth mae'r ysfa i wella **cynhyrchedd, yr awydd i gystadlu a thwf** ledled gogledd Cymru.

Mae wedi'i ddatblygu a'i gytuno arno gan bartneriaeth eang o bobl, sefydliadau a busnesau sy'n rhannu balchder mewn ardal sydd ag asedau, heriau a chyfleoedd unigryw, ynghyd ag uchelgais ar gyfer yr ardal honno.

Bydd y ffocws ar greu'r amodau priodol er mwyn i glystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch a'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi hwb i'r cyfraniad i berfformiad yr economi.

Cyflawnir hyn drwy adeiladu ar gryfderau sylfaenol busnesau presennol a dod dros unrhyw rwystrau a heriau drwy ddarparu pecyn o brosiectau strategol sydd eu hangen er mwyn cael newid cadarnhaol i drawsffurfio'r economi.

Mae cynyddu cynhyrchedd yn nod allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, a darparu economi mwy llwyddiannus a chytbwys, bydd angen buddsoddiad hirdymor er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, yn benodol ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, cefnogi busnes ac anghenion tai.





Bydd y Strategaeth y cyflawni'r weledigaeth o gynyddu cynhyrchedd, twf a swyddi drwy ganolbwyntio ar yr isod:

**Gwella'r isadeiledd ledled y rhanbarth**, yn enwedig trafnidiaeth a digidol, er mwyn hwyluso a galluogi buddsoddiad economaidd a gwireddu potensial economaidd gogledd Cymru. Rhaid diweddaru technoleg ddigidol yn sylweddol er mwyn bod yn alluogwr allweddol ar gyfer cynhyrchedd ac yn rhywbeth sy'n gyrru arloesedd a masnachu rhyngwladol. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar wella mynediad i safleoedd cyflogaeth, a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd traffig ar rai llwybrau ffyrdd penodol, yn enwedig yn ardal y ffin. Rhaid buddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru hefyd - mae trydaneiddio'r rheilffordd yn flaenoriaeth ynghyd â gwella amlder, cyflymder ac ansawdd y gwasanaethau rheilffordd. Hefyd, rhaid i'r rhanbarth sicrhau bod portffolio o safleoedd datblygu yn bodoli sy'n ymateb i'r farchnad, wedi'u gwasanaethu'n dda, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n bodloni anghenion sectorau a chlystyrau economaidd heddiw ac yfory, yn enwedig ar hyd coridor yr A55. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fod yn lleoliad y mae busnesau yn

ei ffafrio a denu buddsoddiad. Bydd gofyn i'r cynnig tai ledled gogledd Cymru - sy'n gydran allweddol o alluogi twf - ymateb i newidiadau demograffig a bodloni anghenion tai ledled y rhanbarth. Bydd angen annog cynlluniau i ddarparu tai o safon ar draws amrediad o ddaliadaethau, sy'n addas ar gyfer amrediad o lefelau incwm a dyheadau yn agos at ganolfannau cyflogaeth mawr.

**Gwella ac uwchraddio sgiliau'r rhanbarth a hyrwyddo twf cyflogaeth**, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r cyflenwad o sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Rhaid cefnogi cyflogwyr yn y rhanbarth i yrru darpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion, gan gadw hyblygrwydd i ymateb i ofynion sy'n newid. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn y rhanbarth yn meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen a sicrhau bod yr ardal yn darparu cynnig cyflogaeth deniadol i ddenu a chadw gweithwyr, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau lefel uchel. Mae'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy, y Ganolfan Technoleg Awyrofod ym Mrychdyn a'r Ganolfan Sgiliau newydd ar gyfer Ynni a'r Amgylchedd yn Llangefni yn enghreifftiau o brosiectau allweddol y mae angen eu darparu er mwyn cefnogi'r agenda sgiliau. Bydd rhaid i'r system addysg yn y rhanbarth fod yn fwy seiliedig ar y galw, gan adlewyrchu blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn y cwricwlwm addysg. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y rheini sy'n chwilio am waith yn meddu ar y sgiliau er mwyn cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, ac mae angen cefnogi'r rheini sydd mewn gwaith i ddatblygu eu potensial. Ymdrinnir â diweithdra drwy ddarparu rhaglenni integredig a chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn - gan roi'r hyder a'r gefnogaeth iddynt allu mynd i mewn i'r farchnad lafur.



Minesto ynni'r llanw

**Hyrwyddo a chefnogi twf busnesau ac arloesedd**, yn enwedig mewn sectorau allweddol, a chryfhau cadwyni cyflenwi o fewn y rhanbarth. Mae angen i ni greu amgylchedd cefnogol a chystadleuol iawn i'n busnesau, fel eu bod yn parhau'n wydn ac wedi'u sefydlu'n lleol. Mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol, yn enwedig drwy ymagwedd Tîm Gogledd Cymru. Yn ogystal, bydd cyfle i fusnesau yn y rhanbarth i elwa i'r eithaf ar gynlluniau buddsoddiad sector preifat sylweddol, megis Wylfa Newydd, Parth Menter Glannau Dyfrdwy, Orthios Caergybi, ac mae'n hanfodol y rhoddir y gefnogaeth a'r adnoddau cywir iddynt allu cael mynediad i'r cadwyni cyflenwi perthnasol a chadw gwariant yn y rhanbarth. Rhaid i ni hefyd roi hwb i dwf mewn mentrau ar draws allforio, arloesedd a busnesau newydd, yn enwedig drwy ymyraethau sydd â chyswllt ac ymrwymiad llawn y sector preifat. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau priodol ar gael yn y rhanbarth i gefnogi'r sector busnes i gael mynediad i adnoddau Ymchwil a Datblygu, yn benodol o addysg uwch ac addysg bellach. Mae angen mentrau marchnata rhagweithiol hefyd er mwyn denu buddsoddiad newydd, gan adeiladu ar gryfderau lleoliadau amrywiol ledled y rhanbarth, a sefydlu Gogledd Cymru fel cyrchfan allweddol. Yn syml, rhaid i ni gael enw gwell fel lleoliad ardderchog o safon uchel ar gyfer buddsoddiad newydd, yn benodol yn y clystyrau economaidd gwerth uchel.

Rhennir y buddion er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol isranbarthau yng ngogledd Cymru.

Rhoddir ystyriaeth yn awr i ffurf o fodel llywodraethu a fydd yn gynhwysol a gyda'r modd o weithredu'n brydlon a chadarn, ynghyd ac ymgymryd â gwaith cyd-gynllunio gyda Phartneriaethau Rhanbarthol fel Sir Gaer a Warrington.

# PROSIECTAU STRATEGOL I GYFLAWNI'R STRATEGAETH

Mae portffolio o brosiectau strategol wedi'u hadnabod er mwyn cefnogi'r gwaith i wireddu'r strategaeth. Mae'r prosiectau hyn - sydd oll wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau gan bartneriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a Cholegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach - wedi'u cynnwys isod dan y penawdau perthnasol.

Dylid nodi bod blaenoriaethau allweddol y chwe Awdurdod Lleol ar gyfer Isadeiledd, Sgiliau a Thwf Busnes wedi'u hymgorffori o fewn y portffolio hwn.

## *Cynllun Isadeiledd i alluogi twf:*

<table>
<tr>
<td>Ffyrdd</td>
<td>
<ul>
<li>Prosiect Gwella Llwybr yr A55 / A494 (£210m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Bwerdy'r Gogledd*:
<ul>
<li>Gwelliant Aston Hill</li>
<li>Ffordd amgen Pont Sir y Fflint</li>
</ul></li>
<li>Gwelliannau Capasiti a Gwytnwch yr A55 (£35m):
<ul>
<li>Materion tagfeydd traffig mewn mannau cyfyng allweddol e.e. Helygain ac Abergele</li>
<li>Gwelliannau gwytnwch</li>
</ul></li>
<li>Prosiect Gwella Llwybr yr A483 / A5 (£300m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Ganolbarth a De Lloegr*:
<ul>
<li>Cyffordd yr A483 / A55 ym Mharc Busnes Caer</li>
<li>Cyffyrdd Canol Tref Wrecsam</li>
<li>Cyffyrdd yr A483 / A5 yn Halton drwy Groesoswallt</li>
</ul></li>
<li>Yr A55 ar draws y Fenai (£135m)</li>
<li>Yr A487 Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd (£85m)</li>
<li>Mynediad Porthladd Caergybi (£10-15m)</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Mynediad lleol i gyfleoedd cyflogaeth |
| Rheilffordd | • Darparu prosbectws manwl (Growth Track 36) sy'n amlinellu ein huchelgais ar gyfer gwelliannau gwasanaethau rheilffordd a chysylltedd gyda'r HS2 yn hwb Crewe - gan gynnwys cynigion i wella:<br>• Gwelliannau amlder a chyflymder y gwasanaeth (£20m - £25m)*<br>• Gwelliannau capasiti y rhwydwaith (£35m)*<br>• Gwelliannau i'r cerbydau<br>• Trydaneiddio'r rhwydwaith (£750m)*<br>• Gwell gorsafoedd yng Nglannau Dyfrdwy |
| Trafnidiaeth Integredig | • Darparu rhwydwaith trafnidiaeth teithwyr rhanbarthol sy'n integreiddio'n llawn yr holl foddau trafnidiaeth. |
| Safleoedd ac Eiddo Strategol | • Gwireddu rhaglen wedi'i rheoli sy'n darparu safleoedd cyflogaeth strategol gydag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys mynediad:<br>• Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy (£10m)*<br>• Warren Hall, Brychdyn (£20m)*<br>• Ehangu Parc Technoleg Wrecsam (£10m)*<br>• Ymestyn Stad Ddiwydiannol Wrecsam (£15m)*<br>• Ailddatblygu Ardal Fusnes Wrecsam (£8m)*<br>• Ehangu Parc Busnes Llanelwy (£10m)<br>• De ddwyrain Abergele (£7m)<br>• Parc Bryn Cegin, Bangor (£3m)<br>• Ehangu Parc Cefni, Llangefni (£5m)<br>• Parc Cybi, Caergybi (£2m)<br>• Ailddatblygu Porthladd Caergybi (£5m)<br>• Safle Ferodo, Caernarfon (£5m)<br>• Canolfan Cynhyrchu Ynni Trawsfynydd (£5m)<br>• Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr (£6m)<br>• Parc Gwyddoniaeth Menai (£21m) |

| | |
|---|---|
| | • Sefydlu Bwrdd Cyflwyno rhanbarthol er mwyn datblygu safleoedd ac eiddo ac adnabod cyfleoedd ariannu arloesol. |
| Digidol | • Hyrwyddo a chyflwyno prosiectau sy'n cynyddu band eang cyflym a rhwydwaith ffonau symudol sy’n galluogi ein busnesau i gael mynediad i farchnadoedd newydd.<br>• Cyflymu datblygiad rhaglen isadeiledd cysylltedd y rhanbarth.<br>• Cefnogi buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith a'r isadeiledd digidol, yn enwedig cysylltedd symudol, a hyrwyddo gweithgareddau i wneud y mwyaf o'r ffaith fod band eang cyflym ar gael.  Monitro defnydd a hyrwyddo'r capasiti a ddarperir. |
| Tai | • Mynd i'r afael â rhwystrau allweddol i ddarparu tai, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint, a sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer datblygiad preswyl i fodloni'r galw a'r angen a amcangyfrifir, yn enwedig ailddefnyddio safleoedd tir llwyd.<br>• Bydd cefnogaeth ar gael i gynorthwyo gyda chostau sy'n gysylltiedig ag adfer safle, darparu isadeiledd galluogi a'r diffyg arian a achoswyd gan fynediad cyfyngedig i arian gan fanciau a sefydliadau. |

(** hefyd wedi eu cynnwys yng nghais twf Sir Gaer a Warrington)*

# *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth i alluogi twf:*

| | |
|---|---|
| | • Cyflwyno strategaeth sy'n cynyddu'r defnydd o bynciau STEM i gefnogi'r sectorau ynni, gweithgynhyrchu uwch a digidol yng ngogledd Cymru.<br>• Adnabod galw am sgiliau a gweithio gyda darparwyr o fewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r trydydd sector i gefnogi datblygu ac uwch-sgilio'r gweithlu rhanbarthol.<br>• Datblygu mentrau a phrosiectau i hyrwyddo darpariaeth sgiliau ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn cefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol. |

- Cyflwyno prosiectau a rhaglenni penodol er mwyn cefnogi'r sectorau allweddol:
  - Canolfan Ragoriaeth ABWR Grŵp Llandrillo Menai / Horizon a Champws Niwclear yn Llangefni
  - Canolfan Ragoriaeth mewn Ynni Adnewyddadwy ym Mhrifysgol Bangor ac ym Mharc Gwyddoniaeth Menai
  - Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy a Labordy Peirianneg a Chynhyrchedd Busnes ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam
  - Canolfan technoleg awyrofod ym Mrychdyn
  - Adnodd gwyddonol a thechnoleg newydd ym Mhrifysgol Bangor
- Ariannu gwasanaeth cyngor gyrfaol ar draws ffiniau i gefnogi'r ddarpariaeth sgiliau.



# *Cefnogi Cynllun Twf Busnes:*

- Datblygu prosiectau sy'n benodol i'r sector sy'n cefnogi twf parhaus y sector Gweithgynhyrchu Uwch, yn enwedig yn y sectorau Awyrofod, Cerbydau Modur, Pecynnu, Niwclear, Deunyddiau Uwch, Bwyd a Diod a Gwyddorau Meddygol.
- Cyflwyno'r prosiectau cynhyrchu ynni ac ynni adnewyddadwy carbon is a gynlluniwyd, ynghyd â hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau yn y rhanbarth ymhellach e.e. Parth Arddangos Morol Morlais, Canolfan Ynni Adnewyddadwy Catapult.
- Hyrwyddo datblygiad parhaus y sectorau Cyllid, Busnes, gwasanaeth Creadigol a Digidol dwys a gwerth / gwybodaeth uchel sy'n tyfu yng ngogledd Cymru e.e. Gwasanaethau Ariannol Wrecsam.
- Rhoi hwb i dwf yn ein ffrwd Menter ar draws ffiniau ym maes Allforio / Arloesedd / Cynhyrchedd a Sefydlu Busnesau, drwy becyn o arian ac adnoddau ar gyfer Ymchwil a Datblygu Busnes ac Ymchwil Addysg Uwch ac Addysg Bellach / Recriwtio Graddedigion / Rheoli Allforion / Fflyd Deori 'Pop-up' rhanbarthol.
- Trosoli a phwlio adnoddau presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd drwy sefydlu Hwb Buddsoddi a Chyflymu Twf Gogledd Cymru (Hwb Twf Gogledd Cymru), gan gyd-leoli adnoddau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn un lleoliad. Yr holl drosolion a chefnogaeth allweddol

mewn un lle - 'tîm Gogledd Cymru'.

- Cefnogi busnesau yn y rhanbarth i gael mynediad i gyfleoedd sy'n deillio o gynlluniau buddsoddi sector preifat a chyhoeddus mawr, yn enwedig drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae rhai o'r prosiectau mawr hyn yn cynnwys Wylfa Newydd, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parthau Menter, Orthios Caergybi a gwelliannau mawr i'r rhwydwaith ffyrdd.
- Datblygu mentrau newydd i gefnogi cynaladwyedd a gwytnwch y sector adeiladu yng ngogledd Cymru.
- Darparu cefnogaeth ac ysgogiad i gwmnïau angori mawr sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru i dyfu a datblygu ymhellach, megis Airbus / JCB / Siemens / Redrow / Moneypenny / Moneysupermarket / Toyota / Kingspan.
- Sefydlu Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - cysylltu anghenion byw busnesau gyda chyfleusterau ymchwil ac arbenigedd ledled gogledd Cymru, Merswy Dyfrdwy a rhanbarth ehangach Pwerdy'r Gogledd.
- Datblygu prosiectau i gyflymu masnacheiddio technolegau newydd a chynnyrch sy'n arwain y farchnad, gan roi hwb i dwf arloesedd a chynhyrchedd.
- Buddsoddiad yn y 'Coridor Arloesedd' ledled gogledd Cymru i ehangu a gwella cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu, gan helpu i sefydlu Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai yn benodol fel canolfannau ar gyfer arloesedd, ymchwil a datblygu.
- Elwa i'r eithaf ar enw da'r rhanbarth fel lle ag ansawdd bywyd gwych, fel cyrchfan twristiaeth antur sy'n adnabyddus ledled y byd ac fel y lleoliad canolog sy'n cysylltu'r Farchnad Wyddelig a'n rhanbarth ehangach o Bwerdy'r Gogledd, drwy sefydlu Cronfa Farchnata Ranbarthol i gefnogi Mewnfuddsoddi a hyrwyddo Twristiaeth (rheolaeth Sector Cyhoeddus/Preifat).

# EFFAITH AR BERFFORMIAD ECONOMAIDD Y RHANBARTH

Y gyfradd twf sydd wedi'i ragweld ar gyfer yr economi ranbarthol - yn seiliedig ar dueddiadau presennol - yw 1.9% rhwng 2016 a 2035. Er hynny, fe allwn gyflawni cyfradd twf uwch o weithredu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth Dwf, a chodi gwerth economi Gogledd Cymru o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 - yn cynrychioli cyfradd twf o 2.8%

Byddai gwerth yr economi yn tyfu 56% mewn llai nag 20 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd lefelau twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ychwanegol. Mae hyn yn seiliedig ar ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a oedd yn modelu gwahanol senarios o symudiadau mewn GVA yn y dyfodol yng ngogledd Cymru.

Bydd gwelliannau o'r fath mewn twf GVA a chyflogaeth yn lleihau'r bwlch allbwn gyda gweddill y DU yn sylweddol

Mae'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer dyraniadau tai ar hyn o bryd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar y gweill ledled y rhanbarth (sy'n gorffen ar wahanol adegau) yn amrywio o 37,500 o gartrefi i 44,100, sy'n 2,500-3,000 o gartrefi newydd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae 13,100 o gartrefi wedi'u cwblhau rhwng mis Ebrill 2007 a mis Ebrill 2015 - y mwyafrif yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn yn dangos fod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn fwy uchelgeisiol yng nghynllunio twf tai cynaliadwy.

O ystyried y twf a ragwelir yn y rhanbarth, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau bod cyfyngiadau a rhwystrau'n cael eu gwaredu er mwyn rhyddhau safleoedd dynodedig ar gyfer datblygiadau tai - yn enwedig mewn ardaloedd o dwf cyflogaeth uchel. (Mae'r weithred hon wedi'i chynnwys yn y Cynllun Isadeiledd yn y Strategaeth). Yn ogystal, bydd angen dyraniadau pellach o dir ar gyfer tai wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadnewyddu o 2021 ymlaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y broses cynllunio defnydd tir yn cael ei hintegreiddio a'i halinio'n agos gyda'n strategaeth twf economaidd.

.

**£7.2bn** gwerth ychwanegol i'r economi ranbarthol erbyn 2035

# CYFRIFOLDEBAU NEWYDD I'R RHANBARTH ER MWYN CYFLAWNI

Mae'r rhanbarth wedi'i baratoi ac yn barod i dderbyn cyfrifoldebau a phwerau newydd ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arno. Bydd hyn yn cefnogi cyflawniad y Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, ynghyd â hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a gwella cydlynu gwasanaethau i fusnesau a phobl drwy ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru".

Er enghraifft, mae potensial i edrych i mewn i'r isod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- Integreiddio rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ar y lefel ranbarthol - yn benodol rhaglenni DWP a mentrau sgiliau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u targedu at y grwpiau "anodd eu cyrraedd" a'r rheini sy'n economaidd anweithredol. Drwy ymagwedd o'r fath, daw cyfle i fynd i'r afael â diweithdra mewn ffordd lawer mwy ystyrlon ac effeithiol, gan deilwra'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd newydd i fodloni anghenion gogledd Cymru.
- Cronfa Fuddsoddi wedi'i Gwarantu gan Asedau - Gellid cyflawni hyn pe byddai asedau Awdurdodau Lleol / Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus yn cael eu pwlio. Yr hyn sy'n bwysig, er mwyn i'r ymagwedd hon fod yn gwbl effeithiol, yw y byddai rhai o'r pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ers dyddiau'r WDA / Awdurdod Tir yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau allweddol i'r endid newydd.
- Cynllunio defnydd tir strategol - yn benodol er mwyn cyflawni gwell aliniad rhwng polisïau cynllunio a blaenoriaethau datblygu'r economi. Gellid ymgymryd â'r broses o adnabod cyflenwad tir sydd ei angen ar gyfer twf tai a thwf economaidd yn fwy rhanbarthol a strategol, ynghyd ag adnabod safleoedd strategol. Mae cyfle yma i gyflawni gwell integreiddiad strategol rhwng cynllunio trafnidiaeth, cynllunio economaidd a chynllunio defnydd tir drwy ymagwedd newydd a beiddgar.
- Awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol gyda'r cyfle i flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer ariannu ledled y rhanbarth - gyda'r nod o "alluogi" twf economaidd.
- Tîm cefnogi busnes a masnach - yn gweithio ledled y rhanbarth gydag ymagwedd "tîm gogledd Cymru". Byddai'r tîm hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ein sectorau twf a gorchfygu rhwystrau i dwf ac arloesedd. Gallai gynnwys twristiaeth a marchnata hefyd.
- Pwerau cyllidol newydd ar y lefel ranbarthol, yn benodol rhaglen o brosiectau Cyllid Cynyddu Treth a ariannir drwy enillion refeniw treth Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) ychwanegol o weithgareddau datblygu'r economi, ynghyd â Chronfa Buddsoddi Ranbarthol i ddarparu arian a chyllid ar gyfer gweithgareddau adfywio ledled y rhanbarth.



Partneriaid allweddol yn uno i gefnogi'r prosbectws rheilffyrdd Growth Track 360

Mae gogledd Cymru mewn lle da i dderbyn ystod o gyfrifoldebau newydd, ac mae'n hyderus y bydd y pwerau a ddatganolir i'r rhanbarth - yn dilyn trafodaethau a chytundeb gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni'r Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd a gwella rhagolygon cyflogaeth ein trigolion.

# Cefnogir y Weledigaeth ar gyfer Twf gan:

Cyng. Dilwyn Roberts, Arweinydd

Cyng. Hugh Evans OBE, Arweinydd

Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd

Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd

hefyd
*Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*
north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyng. Mark Pritchard, Arweinydd

Cyng. Ieuan Williams, Arweinydd

Ashley Rogers, Cadeirydd

David Jones OBE, Prif Weithredwr

Yr Athro Maria Hinfelaar,
Is-ganghellor

Yr Athro John Hughes,
Is-ganghellor

Glyn Jones OBE, Prif Weithredwr

www.northwaleseab.co.uk

Cyswllt: Iwan Trefor Jones ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
t. 01286 679162 e. IwanJ@gwynedd.llyw.cymru

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Costau cyllid Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr / Funding Costs for Gypsy and Traveller sites

| | |
|---|---|
| **Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:<br><br>**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information) | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>**Mae gan y Cyhoedd ddisgwyliadau rhesymol y bydd y Cyngor yn dryloyw mewn materion gwariant a bod hefyd diddordeb cyhoeddus mewn datgelu gwybodaeth am drefniadau'r Cyngor ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>The Public have reasonable expectations that the Council is transparent in matters relating to expenditure and that there is a public interest in disclosing information with regards to arrangements by the Council for Gypsy and Travellers. | Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw/ The public interest in not disclosing is:-<br><br>**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion costau cyllid ar ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Wedi pwyso a mesur, penderfynwyd gweithredu Prawf Budd y Cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn oherwydd sensitifrwydd masnachol y wybodaeth ac er mwyn gwarchod yr angen i gael gwerth gorau i'r Cyngor pan yn tendro am y gwaith hwn.**<br><br>This report contains details of budget costs for developing the Gypsy and Traveller sites. On consideration of balance, it is considered that a Public Interest Test is implemented on this report due to the commercial sensitivity of the information in relation to obtaining best value for the Council when tendering for this work. |
| **Argymhelliad – Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad yn gwrthbwyso'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth /** Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/ the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Tendr Yswiriant /Insurance Tender )***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14 & 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank